



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

Pris 2s. 6c.; trwy y Post, 2s. 8c.

884 6/6
Gweithiau Barddonol

IEUAN GWYNEDD:

DAN OLYGIAETH

Y PARCH. T. ROBERTS,

LLANRWST.

I IEGAN BRDES YR AWEN RYDD—EI LLAWYF,
LLEWYF WISGAI CARLEISYDD;
EI FAWC DDAWN, FORE EI UDYDD,
BE EI BLED, SYNAI 'R GWLEDYDD.

EI WLAD, EI GENEDL, A'I IAITH,—A GARAI
Y GWROG YN BERFFAITH;
GWELL CO' AM DANG A'I DAITH—FYDD GWETHIAU
EI AWEN, A'I EIRIAU, NA MYNORWAITH.

CALEDERYN.


DOLGELLAU:

CYHOEDDEDIG, DROS EI WEDDW, GAN R. O. REES.

ABGRAFFEDIG GAN W. HUGHES.

DT. from the widow of Fale Owen,

28915 e. 249



Gweithian Barddonol

IEUAN GWYNEDD,

DAN OLYGIAETH
Y PARCH. T. ROBERTS,
LLANRWST.

I IEUAN RHOES YR AWEN RYDD—EI LLAWRYF,
LLWYR WISGAI 'I ARLEISYDD;
EI FAWR DDAWN, FORE EI DDYDD,
ER EI GLOD, SYNAI 'R GWLEDYDD.

EI WLAD, EI GENEDL, A'I IAITH,—A GARAI
Y GWRON YN BERFFAITH;
GWELL CO' AM DANO A'I DAITH—FYDD GWEITHIAU
EI AWEN, A'I EIRIAU, NA MYNORWAITH.

CALEDFRYN.

DOLGELLAU:
CYHOEDDEDIG, DROS EI WEDDW, GAN R. O. REES.
ARGRAFFEDIG GAN W. HUGHES.



60

Gweithiau Barddonol

IEUAN GWYNEDD.

PRYDDEST DDIODL

ER COF AM WILLIAM OWAIN PUGHE, (*Idrison*), LL. D., F. A. S.,
YR HWN A FU FARW MEHEFIN 4, 1835, YN 76 MLWYDD OED.
TESTUN EISTEDDFOD Y BALA, AWST, 1836. *

O WALIA hoff! rhyw ddydd o wylaw ddaeth,
Dy gyfaill cu a ddodwyd yn y bedd.
Ond eto mae i ti yn gysur cryf,
Mai yn dy ddaear fâd y gorwedd ef,
Ar ol ei lafur maith, a'i ludded blin.
Y Cymro aiddgar oedd, mor llawn o serch,
Ein bythgofiadwy GWILYM OWAIN PUW!
Yr Athraw cu, o rymus ddawn a bryd,
Ei enw berchir, gyda hyfryd gof,
Tra bo gan Gymro dafod yn ei ben,
Mewn cofiant pur o'i lafur gwerthfawr iawn.
Pa faint o lyfrau yr anrhegodd ni
A hwy, na chlywsem byth am danynt son,
Pe na buasai am ei lafur ef,
O'i ddirfawr gariad at y Cymry hoff?
Ei annherfynol wresog, wladgar aidd
I'w goffadwriaeth yn gofgolofn fydd,
Na dderfydd tra bo canaid haul yn troi
Yn yr entrychion eang uwch ein pen,
Mwy anrhydeddus na phe cawsai ef
Y tlysau aur yn gofiaint am ei waith.
Coleddu iaith y Cymry mād, â gwir
Ddyfalwch hir, bu'r Athraw Owain Puw.
Ei ddau Eiriadur fydd yn orwych gof,
Mai mawr ei lafur ydoedd ef o hyd:
Y "Mabinogion" hefyd gyda hwy;
"Coll Gwynfa," prif orchestwaith beirdd y byd,
Sydd genym ni trwy ei ymdrechion ef;
A "Palestina," gwaith ein Heber fawr,
A wisgwyd ganddo ef â'r hen Gymraeg.
Ac yn ei fanion mae hyfrydwch mawr
I'w gael—Idrison oedd eu hawdwr oll.
Fel diliau mêl ei gyfansoddion sydd;

* Y Bryddest uchod oedd ymgais cystadleuol cyntaf Ieuan Gwynedd ar faes Barddoniaeth, yn fachgen 15 mlwydd oed. Gwalchmai oedd y buddugwr.

Am unrhyw wagedd, dim na haeddai glod,
 Ei bin ar bapyr byth ni roddai ef.
 Mor foneddigaidd hefyd ydoedd, fel
 Na roddai byth un sen i'w wawdwyr cās;
 Addfwynder ydoedd ei brif deithi ef.
 Yr ydoedd yn wir anrhydeddus wr,
 Yn HYNAFIAETHYDD mawr ei ddawn a'i fri;
 Hyn a astudiwyd ganddo ef yn wych,
 Fel y dangosir gan ei urddas* mawr;
 Ac yn y GYFRAITH oedd yn ATHRAW† pert.
 A'i ddawn hen WALIA anrhydeddodd ef,
 A doethawr oedd yn nheithi pob rhyw wlad.
 Ond nid yw mwy! O alar trwm yn wir!
 Ei ran lygradwy sydd yn isder bedd,
 A'i enaid, ni hyderwn, fry yn llon,
 Mewn gwlad lle nad oes galar, poen, na chlwyf,
 I flino neb o deulu'r addfwyn Oen,
 O rif y rhai, gobeithiwn, yr oedd PUW.
 O golled fawr! O ofid dwys! pa fodd
 Y gallwn draethu hyn, gan faint ein cŵyn?
 Yr HYNAFIAETHYDD gwych sydd yn y llwch,
 Ei WAITH, er hyny, a'i clodfora ef.
 Ei urddas* ddengys yr ymchwiliwr mawr
 I bob rhyw hynafiaethol bethau fu.
 Ond, er y golled athrist hon, mae un
 Sydd eto'n hoffi gwaith ei enwog dad,
 Ei fab ANEURIN bwylllog, craff, a doeth.
 Y Parlys mud!—O elyn mawr ei dra!—
 O Ddolycae‡ ti ddygaist ymaith PUW:
 Terfynu wnest ei wladgar yrfa ef.
 Ond, er ein colled, tewi raid i ni,
 A murmur, gyda gwedd o hiraeth dwys,
 "Ffarwel, ein HATHRAW WILLIAM OWAIN PUW."

Bro Wylofain, Tach. 20, 1835.

GALARUS YN WIR.

COF AM Y DOETHAWR PUGHE.

YN y llwch y mae'n llechu,
 A'i eiriau cain, arwr cu,
 GWILYM OWAIN gain ei gerdd,
 Dewra' boncyff y bencerdd,

* F. A. S. † LL. D.

‡ Dolycae, ffarm a berthynai i'r Doctor, gerllaw Talyllyn, yn Sir Feirion-
 ydd, lle y bu farw o'r "Palsy" yn dra disymwth, tra ar un o'i ymweliadau
 blynyddol â'r ardal ramantus hono, yn 1835.

IDRISON gain ei drysawr,
 O deithi byw, doeth bob awr;
 Argyllaeth mawr ei golli,
 A gwyw nôd, a gwae i ni.
 Ond ei barch nid â i'r bedd,
 Ni arswyd ar ei orsedd;
 Syw fwyn y sâ' i fyny,
 Tra gwên dêg, tra gwÿn a du,
 Tra chwelir trwy'r uchelion
 Heulog dês, er lles mawr llon;
 Tra llu o Gymry mewn lle,
 Tra'r gogledd ar y gwagle,
 Tra Duw Iôr yn Bôr y byd,
 O'i safle byth ni syflyd.

1835.

ENGLYNION AR YR UN TESTUN.

Ow! ai marw arwr Meirion,—paen glwys,
 Pen ein gwlad, a'i choron?
 A fu y fath frath i fron,
 Ag archyllig archollion?

Galar trwch mai llwch y llawr—yw gwely
 GWILYM OWAIN ddoethawr;
 I dyrfa mae aeth dirfawr,
 O roi yn medd wron mawr.

Och! Gymru, ei wych gamrau—æth drosodd!
 Dyryswch ac aethau!
 Aeth d'wron, aeth dy orau,
 I wely'r bedd, wyl oer bau.

Braw! mae brig beirdd mwya'n bro,—un mwynaidd,
 Mewn mynwent yn huno;
 Ow gaddug oedd ei guddio—
 Dyna graith!—dan y gro!

1835.

A N E R C H

I ANEURIN OWAIN PUGHE, YSWAIN, TANYGYRT, NANTGLYN, AR EI
 OFWY BLYNYDDOL I TALYLLYN, MEIRIONYDD, YN 1836.

HAWDDAMOR boed i'r hynafiaethol fardd,
 Ar ei ddyfodiad i Feirionydd werdd,
 I weled llethrau ban ein CADAIR * wemp,
 Lle gynt y trigai beirddion mawr eu bri,

* Gorwedda pentref a llyn rhamantus Talyllyn yn ngwaelod llethr deheuol Cadair Idris.

Yn oesoedd gormes a rhyfeloedd trwch!
 Ar hyd-ddi hefyd y dylifai gwaed,
 A gollid gan ryfelwyr Gwalia wyllt,
 Mewn ymdrech boeth o blaid eu gwlad a'u hiaith,
 Yn erbyn lladrad y Sacsoniaid cās.
 Ein dewr arfogion gwelid yn y gād,
 Yn tynu'r bwa gyda nerth a llwydd,
 Ond eto trech y gelyn oedd na hwy.
 Yn gelaneddau oer ar hyd-ddi hi
 Y gwelid ein hynafiaid dewr a gwych;
 Ar eu talcenau sythed oedd eu gwallt!
 Mor wridgoch hefyd y buasent hwy!
 Y llygaid, gynt felltenent yn y gād,
 Oedd yn gauedig gan farwoldeb prudd;
 Ar hyd eu mynwes y boreuol wlith,
 A chur y galon frwd nid ydoedd mwy.
 Ond heibio aeth y dyddiau blinion hyn,
 Ac weithian mae tawelwch mād a hedd
 Yn taenu eu hachlesol aden glyd,
 I noddi bardd o hil y Cymry hen,
 Wrth ddringo hyd ei llethrau seirthion hi,
 I syllu ar ogoniant Natur fawr:
 Ac yma caiff ANEURIN graff a llon
 Destynau gwiw i'w fyfyrdodau doeth,
 Pan try ei feddwl at yr amser gynt;
 A chlyw y fronfraith lwyd, â'i melus gainc,
 Yn eilio 'i hemyn ar yr ael gerth fry,
 A pheraidd dant.—

Ebrill 10, 1836.

AR FARWOLAETH WILLIAM IV.

O BRYDAIN! O BRYDAIN! dy haul a fachludodd,
 Tywyllwch ymdaenodd, a duodd dy nen;
 Nid croch-waedd y gelyn na'r cledd a'th ddychrynodd,
 Ond einioes dy frenin ddirwynodd i ben.
 O WILLIAM! O WILLIAM! ein brenin anwylaidd,
 Yn nghanol dy fawredd ti gwympaist i'r bedd!
 Ar enwog deyrnorsedd ein teyrnas garuaidd
 Byth mwyach, byth mwyach, ni welir dy wedd!

LLOEGR hen sydd yn gwisgo ei gorbrudd alarnod,
 A CHYMRU fynyddig a gwynfan yn brudd;
 Trwy barthau'r IWERDDON ymdaenodd mawr syndod,
 Ac i feibion ALBAN mawr alar y sydd:
 Y saeth a ymwylltia i OGLEDD AMERIG,
 Yn ngoror CANADA y teimlir y clwy';

A'r galar adseinir hyd aur-dywod AFFRIG,—
 "O WILLIAM, ein brenin, ni'th welir byth mwy!"

O WILLIAM, ein brenin! dy gofiant a erys,
 Tra pery PRYDEINIA â môr wrth ei glan;
 Ti oeddit ddyn mwynaid, a chyfaill caredig,
 A noddwr haelfrydig i'r truan a'r gwan:
 O dan dy lywodraeth bu fawr y diwygiad,
 VICTORIA ddilyno dy lwybrau yn hyn,
 Nes elo gorthrymder ar fyr i ddarfodiad,
 A rhosyn ein rhyddid yn wridog a gwyn.

O BRYDAIN wylofus! edrycha i'r Nefoedd,
 Taf! ymaith d'alarwisg, ymorphwys ar Dduw;
 Byw eto i'th lywio yw BRENIN brenhinoedd,
 O rho dy VICTORIA i'w ofal yn wiw!
 Arhoed ei llywodraeth ar gadarn sylfaeni,
 Na sigler hi bythoedd gan falais na brâd;
 I lywio ein teyrnas hir oes bydded iddi,
 A bydded VICTORIA yn famaeth ein gwlad.

O "GRONICL YR OES," 1837.

AR GADEIRIAD R. RICHARDS, YSW., CAERYNWCH,

YN A.S. DROS SIR FEIRIONYDD, AWST 1AF, 1837.

HEDD yma, a hawddamawr!
 Dewr fyd idd y dyrfa fawr!

Etholwyd, cadeiriwyd cu, dirion—lyw
 Hoew lwys yn Meirion;
 A gwelir pawb o galon,
 I'w llyw yn rhoi anerch llon.

Dyna yr ysnodenau—yn chwifio
 'N wych, hyfwyn, yn ddiâu;
 A *derw* geir yn dyrau,
 Ar bob hoenus, boddus bau.

Banllefa, geiriau gwrawl,
 Blethir, emynir â mawl;
 "Hwse!" a hoew seinir,
 A hoew ddawn, heddyw'n wir.
 Hwre byth! hir y bytho
 Yn farchog breiniog ein bro!
Magnelau yma gnuliant,
 Er hoen wiw, a rhuo wnant;
 Y *clychau*, *tanau* tynion,
 Gydodlant, lleisiant yn llon;

Caniadau o benau beirdd,
 Ireiddfawl ry arwyddfeirdd;
Ofyddion heddyw foddir,
 Tery eu tòn trwy y tir;
 Maith finteioedd, lluoedd llon,
 Bêr odlant gân yn brydlon;
Morwynion gleinion ein gwlad,
 Llon, cu, rwydd, yn llawn cariad;
Hen wragedd,—rhyfedd eu rhif!—
 Ymarllwys maent, fel mawrllif!
 O'u lle, i gyrau y llan,
 Ymhyllant mewn grym allan;
 Yn y dref y rhoddant dro
 Hynodawl, bron dan neidio!
 Yn gu-deg bloeddiant gwed'yn,
 A phwy nad ofnai eu ffyn?
 Llawen-ddydd is llwynydd llon,
 Mawredd i enw Meirion!
 Tra sêr trwy fro Asur dêg,
 Ar iawn daith, ri' eondeg,
 A brynïau ewybr Wnion,
 A llwyd graig, a lleuad gron,
 Ei iawn barch a'i enw bydd
 Yn mrynïau ban Meirionydd!
 Hir oes, wiw bur-oes bêr,
 I RISIART a wiw reser!
 Ac enyd ei fywyd fo
 Yn y llysoedd i'n llesio.
 Coroner llyw CAERYNWCH
 Yn farchawg hoff, loewawg, fflwch!
 Tra y rhwygir yr eigion,
 Hollta dŵr, tra hyllt y dôn,
 Tra'n llengoedd try ein llongau
 I'r gynddeiriawg, berwawg bau,
 Ei hil fo yn rheoli,
 Drwy ras Nef, drosom ni!
 Mewn mawrhydi a rhediad
 Tra thirion, ar Feirion fâd,
 Yn gu-deg ac yn gadarn
 Ei had a fo hyd y Farn!

GWEDDI YR AELOD IEUANC.

O ARGLWYDD! dyro im' dy ras,
 I deithio tua'r Wlad;
 Rho imi gymhorth dan bob tòn,
 I gofio Tŷ fy Nhad.

I eglwys Crist derbyniwyd fi,
Duw, nertha'm henaïd gwan,
I lynu wrth y Groes o hyd,
Nes d'od o'r byd i'r làn.

Rho im' dy lon gymdeithas di,
A chadw fi o hyd,
I rodio yn dy lwybrau glân,
Tra byddwyf yn y byd.

O! dal fy ysbryd dan bob tòn,
I gofio Iesu Grist;
A'r "balm o Gilead" dyro di,
I loni'm henaïd trist.

Rho nerth i ddilyn llwybrau'r praidd,
Wrth deithio'r anial dir,
Nes delo'r awr im' ddyfod fry,
I breswyl Salem bur.

Medi 24, 1837, y noswaith y derbyniwyd ef i gymundeb eglwysig yn y
Brithdir.

G A L A R G E R D D

AR FARWOLAETH Y PARCH. JOHN ROBERTS, LLANBRYNMAIR, YR
HWN A FU FARW GORPH. 21, 1834, YN 68 MLWYDD OED.

"Ar edyn angylaidd, heb lesgedd na methiant,
Esgynodd i dawel ororau gogoniant,
I dderbyn y palmwydd, y delyn, a'r goron,
A chlywed peroriaeth nefolaidd gantorion;
Ac yna ca'dd brofi'r gymdeithas a'r gwleddoedd
Sy'n bythol goroni dedwyddwch y Nefoedd."

O "*Cwyn a chysur henaint.*"

'HED, fy enaid, 'hed yn gyflym, trwy yr eangderau fry,
Tremia draw ar fyrdd o seintiau o fewn caerâu Salem sy;
Wele saint ac engyl gwynion, wele weinidogion Nef,
Oll yn seinio'r felus anthem, "Iddo Ef," ac "Iddo Ef!"

O blith rhai fu yn pregethu ac ymdrechu dros y Gair,
Seiniwr melus ar yr anthem ydyw ROBERTS, Llanbrynmair;
Dacw ef â'i "balmwydd" gwyrddion, dacw'r "goron" ar ei ben,
Wedi cael eu rhoddi iddo gan DYWYSOG Nefoedd wen.

Dacw'r "delyn aur" ddysgleiriol, addurniadol dlws y Nef,
Rhwng ei ddwyllaw yn adseinio, melus byncio "Iddo Ef,"
Wedi gadael poenau bywyd am y gwynfyd melus, pur,
I bêr-blethu mawl i'r IESU, fu o dan yr hoelion dur.

ROBERTS hygar yn ddiffino fu'n llafurio dros ei Dduw,
A llafurio wnaeth yn ffyddlon tra bu yn y byd yn byw;
Son am ABERTH PEN CALFARIA, son am glwyfau IESU GRIST,
Ac ymdrechu i ddyddanu pob pechadur euog trist.

Yn moreuddydd tég ei fywyd "cofiodd ei Greawdwr" mawr,
"Chwantau i'encyd ffodd oddiwrthynt" at Lywiawdwr Nef a llawr;
Ymgysgrodd i'w was'naethu, ac i'w barchu ef hyd byth,
A chyflawnodd ei adduned mewn cywirdeb pur, dilyth.

Wele ef yn cael ei urddo i fugeilio'n Llanbrynmair,
I gyfranu i'r babanod yno "ddidwyll laeth y gair,"
I'w cynghori a'u hyfforddi yn athrawiaeth Brenin Nef,
Nes cael eu haddasu i seinio byth heb flino, "Iddo Ef."

De a Gogledd, athraw gwiwglod, ddarfu deithio lawer tro,
I bregethu am bleserau nwyfawl fryniau nefol fro;
Son am werthfawr Aberth IESU, son am gânu yn y gwaed,
Son am achub pechaduriaid a'r trueiniaid mwyaf gaed.

Mwy ni chá'r Gymdeithas Feiblaidd ddim o'i ddawn na'i roddion ef,
Ar ei ol y mae'r Genhadol yn gwynfanus iawn ei llef;
Gan y gerwin newydd trymllyd fe drywanwyd Llanbrynmair,
"Colli'n bugail hoff a ffyddlon," ydyw'r trymion eiriau gâir.

Ei hoffusol waith oedd "porthi'r wŷyn," heb fethu yn ei fyw,
Ofni'r oedd i ddynion bechu, a dianrhydeddu Duw;
O! mor fanol byddai'n "gwylio a gweddio" ar bob pryd,
Rhag i unrhyw swyn eu denu byth i garu marwol fyd!

Wyth a thriugain o flynyddoedd dreuliodd yma yn y byd,
Pump a deugain o'r rhai hyny bu'n pregethu'r ABERTH drud;
Deugain mlynedd megys bugail bu'n llafurio yn y Gair,
Ac yn ffyddlon, hoff weinyddu i ddyddanu Llanbrynmair.

Ond oer, ingol ddyrnod Angau ato yntau'n ddiau ddaeth,
Dan ei loesion ca'dd ergydion, o'i holl rwymau'n rhydd yr aeth;
Aeth ei enaid mewn mynydyn trwy yr eangderau draw,
Ger gwydd gorsedd y JEHOFAH safai'i enaid maes o law.

Euraidd dânau myrdd o engyl a'i croesawent gyda thôn,
"Croesaw yma, yr hen Gristion! croesaw yma, was yr ION!
Wele'th delyn, hwylia'i thànau, rho dy dânau 'Iddo Ef,'
Adsain, adsain dy ganiadau trwy ororau Nef y nef!"

Cafodd "goron aur" ddysgleiriol, y "wisg wen," a'r "palmwydd"
gwyrrd,

Cafodd "delyn," cafodd "orsedd," cafodd bobpeth er ei urdd;
Ac mae'n adsain ei ganiadau, nid yn llesg na bloesg ei lef,
Gyda llu o'i hen gyfeillion a'i blaenasant fry i'r Nef;—

LEWIS REES, a RICHARD TIBBOT, JENKIN LEWIS gyda hwy,
DAVID DAVIES, ABERTAWA, sydd o gyrhaedd pob rhyw glwy';

PUGHE o'r BRITHDIR, HUGHES o'r DINAS, DR. LEWIS yr un wedd,
JONES, TREFFYNON, JONES o'r MOELFRO, sydd yn awr tu draw i'r bedd.

JONES, PWLLHELI, a'i gyfeillion, a merthyron IESU GRIST,
Welir yn yr hardd Gymanfa, heb yr un o'r teulu'n drist;
Oll yn seinio eu hanthemau, gyda'u tânau, yn gytun,
Pawb â'i delyn yn molianu a dyrchafu Mab y dyn.

Gyda myrdd o'i saint y disgyn IESU ar ei gwmwl gwyn,
Cwyd marwolion oll o'u beddau ar yr hynod foreu hyn;
Dyfinder moroedd mawr ymrwygant, o'u crombilau meirw ddaw,
Berwa'r dyfroedd—hynod gynhwrf!—ar y boreu, gan y braw.

Creigiau hyllt, y mellt a fflamiant, udgyrn ganant fry uwch ben,
Haul yr wybren a dywyllir, syrth dysgleiriawl sêr y nen;
Try y lloer yn waed,—O ddychryn sydd i ganlyn y Dydd Mawr!—
Yn y Dydd y bydd JEHOFAH yn rhoi barn ar deulu'r llawr!

ROBERTS gwyd o'i garchar priddlyd, rhydd ffarwel i gaerau'r bedd,
'Hed i wydd ei ddysglaer Farnwr, edrych yno ar ei wedd;
Try i'w ganlyn Ef a'r teulu sydd i etifeddu'r wlad,
Ac i ganu yn dragwyddol yn nysgleiriol lŷs y Tad.

ARGLWYDD IESU, yn dy gariad, arddel SAMUEL a JOHN,
Cadw hwy i dy folianu tra b'ont ar y ddaear hon;
Arddel di eu gweinidogaeth, helaeth, helaeth fyddo'u llwydd,
A phob cymhorth dyro iddynt i gyflawni'r nefol swydd.

ARGLWYDD IOR, dyddana'r eglwys sy'n galaru'n awr yn brudd,
Cadw'u gobaith yn ddiysgog, dyro iddynt lygad ffydd,
Hyd nes cyrhaedd i'r "trigfanau" drefnwyd iddynt gan y Tad,
Ardal lonwych aur delynau, lle ni cheir briwiau, cur, na brâd.

1837. Allan o "GOFIANT" Y PARCH. JOHN ROBERTS.

"GORPHENWYD."

Y RHAN GYNTAF.

GORPHENWYD y teithiau, gorphenwyd pregethu,
Gorphenwyd y gwyrthiau, y Pasg sydd yn nesu;
A chwerwder yr enaid ar fyr a orphenir,
Yn ngardd Gethsemane y rhuddwaed a chwysir.

Y Pasg a fwytawyd yn ngwydd y bradychwr,
A'r Swper ordeiniwyd yn ngwyddfod y gwadwr.
Dechreua'r ddyfalach, ddyfalach fawr wasgfa,
"Trist iawn" ydoedd enaid Gwardwr hil Adda.
Llwyd-rew Gethsemane gan ruddwaed daenellwyd,
Yr anwyl Fessia gan fradwr gusanwyd;
Y cusan a deimlwyd yn llymach na'r hoelion,
A'r gwadu dig'wilydd drywanodd ei galon.

Heolydd Caersalem â'i waedlif a liwiwyd,
 A'i hoff ben anwylaf â drain a goronwyd.
 Y porphor a wisgwyd, yn Bozra gorchfygodd,
 A'i saethau yn ngwaed yr Edomiaid a liwiodd.
 Ar groesbren Golgotha yr Iesu a hoeliwyd,
 Bu uchel y grochfloedd, "Gorphenwyd"—Gorphenwyd!
 "Yr haul a dywyllwyd, y ddaear a grynodd,"
 A "siol" yr hen Ddraig Efe a'i "hysigodd."
 Y prophwydoliaethau yn awr a gyflawnwyd,
 Y bicell a'i "gwanodd"—"Gorphenwyd"!—Gorphenwyd!
 Y gwaed a ddylifodd ar glogwyn Golgotha,
 Ylch hen bechaduriaid yn wynach na'r eira.
 Ceir "balm" o'i archollion, a "gwin" yn ei ddagrau,
 Nyni a "iachawyd" trwy rinwedd ei "gleisiau;"
 Ein holl "anwireddau" yn ddiâu a "ddygodd,"
 Ein holl "gosbedigaeth" yn llawn ddyoddefodd.
 Ein "gwendid a gymerth," fe "ddyg ein doluriau,"
 Efe a "archollwyd" o achos "camweddau;"
 "Am gamwedd ei bobl y pla" ddyoddefodd,
 "Y Bugail darawyd," "yr Arglwydd a'i drylliodd."
 "O garchar a barn Efe a gymerwyd,"
 "O dir y rhai byw ei einioes a dorwyd."
 Ferch Sion, pahan na chwareui dy dônu?
 Fe aeth dy Waredwr yn "angau i angau!"
 Y "cwpan" a yfodd, er chwerwed y "gwaddod,"
 Yn lle pechaduriaid fe aeth dan y ddyrnod.
 Hosanna! Hosanna! y frwydr a enillwyd!
 "Marwolaeth ac Uffern" a hollol orchfygwyd!
 Boed clodydd i'r Iesu! ei lafur ddybenwyd,
 Y goncwest a gafodd,—"Gorphenwyd!"—Gorphenwyd!
 Hyd. 22, 1837. Sabbath cymundeb y Brithdir.

YR AIL RAN.

Gorphenwyd a rhifo holl ddyled pechadur,
 Gorphenodd yr Iesu ei chwerw-ddwys lafur;
 Gorphenodd yr heulwen a phrudd alarwisgo,
 Telynau'r nefolion ddechreuent adseinio;
 Gorphenwyd yr ymdrech gynhyrfai holl Anian,
 Y LLEW o lwyth Judah gyfododd ei hunan;
 Gorphenwyd ymofyn am waed y durturod,
 Trwy Aberth yr IESU daeth modd i gael cymod;
 Gorphenwyd a hollti'r golomen ddiniwed,
 Trwy glwyfau Calfaria derbynir ymwarded;
 Gorphenwyd ymofyn yr oen gwyn o'r gorlan,
 Yn Iawn dros bechodau daeth OEN DUW ei hunan;
 Gorphenwyd offrymu'r aberthau gwastadol,
 Cyfiawnder foddlonwyd trwy Aberth tragwyddol;
 Gorphenwyd cyflawni cywreinwaith rhyfeddol,

Trwy daro y Cyfiawn i arbed y damniol!
 Gorphenwyd dysgwyliad holl saint y cynoesoedd,
 Pan araf ymdreiglai olwynion y bydoedd,
 Pan welwyd y "Siloh" ar bren melldigedig,
 A hoff "Seren Jacob" wrth hoel yn grogedig:
 Gorphenwyd a sathru holl ddreigiau y gethern,
 A brwydr yr holl frwydrau enillwyd ar Uffern.
 Mae sain buddugoliaeth ar groesbren Golgotha,
 Fel taran, yn tori ar grechwen Gehenna.
 Yspeiliodd yr IESU y "tywysogaethau,"
 A llwyr y gorchfygodd yr holl "awdurdodau."
 "Dirgelwch duwioldeb" yn awr arddangoswyd,
 Pa ryfedd fod IESU yn gwaeddi, "Gorphenwyd?"
 Tarawyd y "Cyfaill" i arbed y "gelyn,"
 Croeshoeliwyd yr "Ufudd" i achub y "cyndyn!"
 Rhod "MAB Y GORUCHAF" i wared yr "estron,"
 Ac "ARGLWYDD Y BYWYD" i geisio'r "afradlon!"
 Er gwaethaf y gwylwyr, daeth "MEICHAU" o'r beddrod,
 Crochlefa, Ferch Sion, dyrchafodd dy BRIOD!
 Mewn cerbyd ysplenydd o ddysglaer angylion
 Y rhwysgfawr esgynai trwy'r holl oruchafion;
 Y "drysau tragwyddol" a gydymagorent,
 A pherlawg byrth Salem eu penau ddyrchafent,
 Ac "ARGLWYDD Y LLUOEDD," y "Cadarn mewn rhyfel,"
 Esgynai i'w orsedd ar edyn yr awel;
 Ac yno eisteddai mewn gallu a mawredd,
 I gael ei goroni â bythol anrhydedd;
 Myrdd myrddiwn o engyl a dysglaer seraphiaid
 Gyd-dynent eu tânau yn un â'r cerubiaid;
 Gororau y Nefoedd gan foliant a lenwid,
 "Hosanna! Hosanna i'r PRYNWR!" a seinid.
 Bu uchel gydganu, trwy fro'r bythol Wynfyd,
 "Gogoniant i'r IESU!—i'r marwol mae bywyd!"
 Bydd myrddiwn o oesau, bydd oes tragwyddoldeb,
 Yn llawer rhy fechan i draethu cywreindeb
 Y ddoeth drefn a luniwyd er achub y damniol,
 Trwy angau "Y Cyfiawn,"—Gogoniant tragwyddol!
 Y gainc a gydblethir am fyrddiwn o oesau,
 Gan saint anllygredig yn ngwlad y telynau;
 Ar fryniau y Gwynfyd cydgenir yr anthem,
 A fythol ryfedda breswylwyr Caersalem.
 Paham na ddechreuwn yn awr ein caniadau?
 Paham ar yr helyg y mae ein telynau?
 Paham yr wyt, Sion, mor athrist yn wylo?
 Byw ydyw dy FRENIN;—gogoniant boed iddo!—
 A byw fyddi dithau; ar "Graig" y'th sylfaenwyd,
 Pan lefodd yr IESU, dy BRYNWR, "Gorphenwyd!"

Penybontfawr, Tach. 8, 1838.

ADGOF O'R BRITHDIR.

WRTH imi deithio 'r hyd y wlad, y dolydd mād ganfyddir,
A'r rhosyn coch, â'i siriol sawr a'i dirion wawr, a welir;
Ond eto, er pob gwrthddrych cain, mwy mirain ydyw'r Brithdir.

Mi welais lawer gwrthddrych llon, a wnaeth fy mron yn ddifyr,
Er trymed fy nghystuddiau prudd, fy nghalon sydd yn gywir;
Er gwella'm meddwl clwyfus, claf, edrychaf tua'r Brithdir.

Yr ŵyn a chwery ar y bryn, a godrau'r llyn arianir,
Y ddaear wisga'i chlogau gwyrdd, ac ochrau'r ffyrdd a herddir;
Ond oer a phruddaidd ydyw'r haf i'm meddwl claf heb Frithdir.

Y brithyll chwery yn y nant, a'r dw'r i'r pant a dreigiir,
Mewn anferth gryd neu wely, 'r môr gan nerth y lloer a siglir;
Ac felly minau sydd o hyd mewn gwresog fryd i'r Brithdir.

Yn mhell yn Sir Feirionydd fād fy mam a'm tad a welir,
A minnau yma'n Mhenbontfawr, yn llwyd fy ngwawr, dywedir;
Nid oes i'm bleser yn y byd, ond troi fy mryd i'r Brithdir.

Mi welais flodau'r lili lân, a chān yr eos glywir,
O fewn y tŷ o gylch y tân aml deulu glān ganfyddir;
Ni welais unpeth is y sêr i *mi* mor dêr a'r Brithdir.

Rhyw rai a soniant yn y byd am degwch bryd eu brodir,
Yn mhlith y dyrfa yma'n glau trwy rwystrau minau restrir;
Pe byddai yn fy ngallu gwnawn ryw folawd iawn i'r Brithdir.

Mae treigliad Wnion groch ei chri yn rhoddi bri i'm brodir,
A swn y nant a red trwy'r glyn yn f'enaid syn a glywir;
Mae yno, oes, bob gwrthddrych hardd i swyno bardd y Brithdir.

Penybontfawr, 1838.

HEN ARFERION CYMRU.

DAN y dderwen gauad, dewfrig, yn lluddedig ganol dydd,
'Hedeg wnaeth fy myfyrdodau gwibiog draw o'u rhwymau'n rhydd;
Suddais i ryw adgof trymllyd o'r dychrynlyd d'w'llwch du,
Fu'n gorchuddio ein hardaloedd, ac yn dallu Cymru gu.

Twmpath chwareu â ffon ddwybig, y bel droed, a'r bowlio drwg,
Curo post, a chwareu tenis,—pawb yn dewis tynu gŵg
Yr Iôr hyfwyn, wir Jehofah, tori ei Sabbathau gwiw,
Rhedeg, neidio, neclo, coetio, a phob modd yn digio Duw.

Tylwyth teg, a chant o chwedlau, ar nosweithiau'r gauaf du,
Bwgan hyll oedd yn dychrynu pawb yn agos i ryw dŷ;
Swyno, rheibio, y gwraich rhibyn, canwyll corff, a'r 'deryn cās,
A chythreuliaid nos Glangau'n chwareu yn eu dillad glas.

Bwgan ffyrnig yn y goedwig nadai âg erchyllig lef,
 Eraill nadant yn y ceunant, eraill droant drwy y dref;
 Chwedlau'r aelwyd ganwaith gafwyd gyda breuddwyd yn creu braw,
 Nes y dianc hen ac ieuanc bron ar dranc o'r bryniau draw.

1838.

Y CRISTION YN GADAEL Y BYD.

YN iach i'r byd a'i alar chwerw! yn iach i'w ferw, garw gŵyn!
 Hynod elw fydd cael marw—marw'n mynwes Iesu mwyn:
 Yn iach i glefyd, mynych glwyfau, chwerw loesau briwiau brâd!
 Nid oes dagrau na gruddfau yn nghynteddau Tŷ fy Nhad.

“Ardal lon” wych “aur delynau” ydyw bryniau golau'r Gwawl,
 Preswyl lonydd, barhaus lenwir â gorhoenus, felus fawl;
 Yno gwelir Iesu gwiwlan yn ei addas deyrnas dêg,
 'Mhlith molianus gân miliynau ar eu tânau euraidd, tég.

Adeg chwerw ydyw marw, ond nid chwerw i mi chwaith;
 Nid wyf eto am ail rodio ffordd helbulus dyrus daith:
 Wele nwyfiant gwlad y Nefoedd, a'i minteioedd, lluoedd llon;
 Bythol wynfyd newid bywyd am y breswyl hyfryd hon!

Os yw'r thônau ar y glanau, gwelaf fronau Sion fryn;
 Gwelaf Iesu, gwelaf lysoedd, gwelaf wisgoedd perffaith wyn:
 Clywaf adlais eu pereiddlais—eu pereiddlais, harddlais hwy;
 Derbyn finau i dy freichiau, Iesu mawr, i aros mwy!

1839.

EMYN GENHADOL.

EHEDED sain Efengyl yn gyflym i bob man,
 Cyhoedder enw'r Ceidwad dderbynia'r enaid gwan;
 O euraidd dywod Affrig hyd eitha'r India bell,
 Cyhoedded gwawr y boreu rinweddau'r Meddyg gwell.

Eheded y newyddion am Grist a'i farwol groes,
 Hyd ddeiliog ddolydd Asia, fu'n dywyll lawer oes;
 Ar edyn chwim dwyreinwynt aed son am Iesu Grist,
 Hyd eitha'r Gorllewinfyd, i loni'r enaid trist.

Cydseinied yr afonydd a thônau'r môr ynghyd,
 Cyhoedded twrf y daran Iachawdwr mawr y byd;
 Myneged sêr y boreu am waredigaeth lawn,
 Pregethed yr awelon dragwyddol, ddwyfol ddawn.

Hoff enw Iesu'r Ceidwad, a'i anchwiliadwy ras,
 Cyhoedder mewn prysurdeb trwy Palestina fras;
 Ar wyrddion feusydd Bethle'm y seinio'r anthem hon,
 Ail seinier telyn Dafydd o fewn ei llwynydd llon.

Pregether ar Golgotha am y Messia, sydd
Yn troi tywyllwch angau yn berffaith olau-ddydd;
Aed son i Abyssinia am yr "Omega" mawr,
Sy'n llyncu yn ei Enw holl enwau daear lawr.

Holl gyrau'r greadigaeth fo'n llawn o wresog fawl,
Boed baner Iachawdwriaeth yn helaeth iawn ei hawl;
O! doed holl gyrau'r ddaear, pob teyrnas is y nef,
O dan ei euraidd goron,—yn eiddo iddo Ef!

1839.

DIFLANIAD BOREU OES.

MOR fyrion dyddiau boreu f'oes,
Gwag a siomedig fuont hwy;
Fel cwmwl diflanasant oll,
Ac yn fy meddiant nid ýnt mwy.

Ychydig iawn o flwyddau'n ol
Nid oedd fymhabell bridd mewn
bod;
Nid oedd i'w wel'd na'm lliwna'm
llun,
Mewn unrhyw gongl is y rhod.

Un mlwydd ar hugain heibio aeth
Er pan wyf yn y marwol fyd;
Ac nid yw'r oll yr enyd hon
Ond megys eiliad yn fy mryd.

"Fel doe" imiyw dyddiau'm hoes
O fewn yr anial llawn o gur;
Doe y dechreuais brofi blas
Y byd a'i gwpaneidiau sur.

Doe 'r oeddwn i yn sugno'r fron,
Yn faban bach, heb deimlo nam;
Doe y chwareuwn, gyda nwyf,
O amgylch gliniau 'nhad a'mam.

Doe y cydgerddwn gyda'm brawd,
Ar hyd y dawel werddlas ddôl;
Doe rhodiwn drwy'r coedwigoedd
glwys,
A'u deiliog lwyni'n mlaen ac ol.

Doe rhodiwn gyda llawer un
Sydd heddyw yn y dystaw fedd;
Doe teimlwn bwysau gofid cudd
O'm mynwes yn cilgwthio hedd.

Medi 5, 1841, ei enedigol ddydd, yn 21 mlwydd oed.

Doe mi a bechais lawer iawn
Yn erbyn deddfau Iesu Grist;
Doe mi ofidiais Ysbryd Duw,
Gan wneud "Colomen" Nef yn
drist.

"Fel *doe*" diflanodd boreu f'oes,
Byth dreulio hwnw ni chaf mwy;
Adgofio fy ynfydrwydd gynt
Sydd imi *heddyw*'n erchyllglwy'.

Ah! *heddyw* eto genyf sydd
Heb lithro i'r bytholfyd mawr;
Ac euraidd byrth Paradwys fry
Ni chauwyd rhagof hyd yn awr.

Ond haul fy *heddyw* cyn bo hir
A guddir gan gysgodau'r hwyr;
Cymylau pruddaidd angau du
A'u caddug cuddiant ef yn llwyr.

Ah! beth er hyn? y *for*y sydd
Ddiderfyn eang faes o'm blaen;
Dirif fyrddiynau ynddo fydd
O oesau meithion fel ar daen.

Os treulio *heddyw* gyda *doe*
A wnaif yn ffol a dilesâd,
Fy nghosbedigaeth fydd yn drom
*Yfor*y, mewn uffernol wlad.

Ond os caf bwyso ar yr Hwn
Sy'n cynnal Nef a daear lawr,
Caf dreulio *boreu oes* am byth
Yn nghwmni y Jehofah mawr.

Am hyn, O Dduw, fy nysgu gwna
I dreulio *heddyw*'n ddifrif iawn,
Fel caffwyf dreulio gyda Thi
*Yfor*y mewn gorfoledd llawn.

YR ENETH AMDDIFAD.

Yr awel a sua yn ddwys yn nghoedwig ywenawg y llan;
Yr heulwen â'i belydr glwys sy'n euro y llwyd fynydd ban;
Cysgodau tywyllwch y nos sydd weithian o'r golwg yn troi;
Ond galar un hoff feinwen dlos nis gallwyd ei yru i ffoi.

Hi dreuliodd y noswaith ei hun, yn wylo wrth *feddrod ei mam*,
Ac nid oedd wybyddus i ddyn p'le'r ydoedd yr eneth ddinam:
Tywalltai ei dagrau i'r llawr mor loew a manwlith y nen,
Tra darfu'r cysgodau diwawr orchuddio yr ardal fel llen.

Dan oerwlith defnynawg y nos arosodd ei hun ar y bedd;
Nid *garland*, neu aur-goron dlos, i'w henaidd allasai roi hedd:
Ei hunig ddedwyddwch yn awr yw edrych ar *gudyn o'i gwallt*,
Cusanu llwyd briddell y llawr yn gymysg â'i hoer ddeigryn hallt.

Hi rifai fynyddau yr hwyr, wrth dywallt ei dagrau i'r llawr;
Nid oes ond y Nefoedd a wŷr wasgfeun ei henaidd yn awr:
Holl gysur ei bywyd a aeth is dorau haiarnaidd y bedd;
Rhoes angeu 'i hanwyl-fam yn gaeth, yn wyw a llygredig ei gwedd.

Fel hyn hi a dreuliodd ei hoes, nes gwywodd ei thegwch i gyd;
Ac mwyach un gwrthddrych nid oes i ddenu ei serch at y byd:
O dan ei gwasgfeun mor fawr, diflanodd prydferthwch ei gwedd;
Nid oes a'i cysura yn awr, ond gorwedd ar dywyrch y bedd.

Y gruddiau, fu'n wridog a llon, yn awr sydd mor welw a'r iâ;
Alltudiwyd hyfrydwch ei bron, ei chalon gan hiraeth sydd gla':
Mae dwysder ei gofid a'i chri yn gwanu ei henaidd fel cledd;
Ymgiliodd ei mwynder a'i bri i gelloedd marwolaeth a'r bedd.

'Doedd dim allai dynu ei serch o lanerch wylofus y llan;
Anghofiai mai egwan yw merch, arosodd ei hun yn y fan:
Nid oedd yn cydodli â'i chwyn, ond nadau'r ddylluan o'r yw;
A sibrwd mân ddeiliaid y llwyn a brofent fod Natur yn fyw.

Pan welwyd yr unig hoff fân, yr ydoedd yn oerllyd a gwyw;
Hi syrthiodd i'r hirfaith, drom hân, diangodd o dir y rhai byw:
Ei dagrau oedd iâ ar ei grudd, â'i braich y coffleidiai y bedd;
Holl Natur o'i hamgylch oedd brudd, wrth ganfod mor athristeigwedd.

Diangodd o gyrhaedd pob clwy', ehedodd i drigfan yr hedd;
Ei chalon a dorodd yn ddwy wrth iddi gofleidio y bedd:
Ymrwygai 'i theimladau yn nghyd, gan alar, a gruddfan, a gwaë;
Diangodd o dristwch y byd, i weled yr Oen "fel y mae."

1841.

MARWNAD Y PARCH. W. WILLIAMS, WERN,

YR HWN A FU FARW MAWRTH 17EG, 1840.

YMDAENODD tywyllwch, fel llen, dros wyneb prydweddol ein gwlad,
Och'neidiau a rwygant y nen, y genedl a gollodd ei thad:
Mae WILLIAMS, prif arwr ein hoes, yn gorwedd yn oergell y bedd;
A Chymru sy'n teimlo y loes, o'i mynwes diangodd pob hedd.

Yn nghanol ei fawredd a'i rym, ymgiliodd o gynhwrf y byd;
 Ei gleddyf oedd finiog a llym, a'i saethau yn loewon o hyd;
 Ei goron lewyrchai fel haul, pan ydoedd ar syrthio i lawr:
 P'le mwyach y gwelir ei ail? mae colled ein cenedl yn fawr!

Y tafod gynhyrfai y wlad, sydd weithian yn llonydd a mud;
 Y llygaid dywynent mor fad, a gauwyd am byth ar y byd;
 Y medrus ryfelwr nid yw, mae Sion a'i dagrau yn llif;
 Ond IESU, ei Brenin, sydd fyw, a'i filwyr sydd eto 'n ddirif.

Pa ryfedd fod Gwalia yn awr yn wylo gan alar a phoen?
 Y penaf o'i mewn aeth i lawr, y dewraf yn myddin yr OEN;
 Elias tanbeidiol ein dydd, gwir brophwyd ardderchog ein hoes;
 Ail ABRAHAM ydoedd mewn ffydd, a PHAUL yn ei serch at y Groes.

Y llwythau sydd, megys o'r blaen, yn esgyn i fynydd eu Duw;
 Ein galar drwy'r awyr ymdaen, o herwydd ein WILLIAMS nid yw:
 Archollir mynwesau 'r holl saint, wrth gofio ei fod yn ei fedd;
 Ond ef sydd yn meddu y fraint o weled ei Brynwr mewn hedd.

O's ydyw ein colled ni 'n fawr, mae ennill ein WILLIAMS yn fwy;
 Ehedodd yn bell uwch y llawr, i wlad sydd heb ofid na chlwy':
 Mae 'n gweled yr IESU yn awr, fu gynt mewn gofidiau a chri,
 A'i olwg sydd fwynach na'r wawr, yn llenwi ei enaid â bri.

Ei enaid yn awr sydd mewn hwyl yn syllu ar fawredd ei IOR;
 Ymchwydda gorfoledd yr wyl, fel tonau llifeiriol y môr:
 Hawddgarwch IACHAWDWR y byd sy'n llenwi ei ysbryd â hoen;
 Gorlenwir ei galon a'i fryd gan fawredd gogoniant yr OEN.

Pan neidiodd i'w gerbyd o dân, gan adael gofidiau y llawr,
 Enynwyd ei enaid â chân hoff feibion prydweddol y wawr;
 Difyrwyd ei ysbryd fel hyn, nes dyfod at eurbyrth y llys;
 Ond braidd na theimlasai yn syn, wrth ganfod mor fawr oedd y brys.

Disgynodd o'i gerbyd i lawr, a rhodiodd at orsedd ei Dad;
 Ymsynai ei enaid yn fawr, wrth ganfod gorwychder y wlad:
 Ei goron gyflwynai i'r BRAWD, a brynodd ei fywyd â'i waed,
 Yr hwn oedd wisgedig â chnawd, gan syrthio i lawr wrth ei draed.

Yr IESU a wenai mor llon, nes gyru pob arswyd ar ffo;
 Tangnefedd a lanwai ei fron, wrth ganfod gogoniant y fro:
 Daeth Gabriel ar edyn y wawr, i'w arwain trwy balas ei Dad;
 Rhyfeddai ei enaid yn fawr wrth weled eangder y wlad.

O neuadd i neuadd yr aent, i gyfarch preswylwyr y fro,
 A mawr oedd y pleser a gaent yn galw 'u helyntion i go';
 Wrth weled eu brawd wedi d'od o wlad y wylofain a'r cur,
 Dadseiniai pob neuadd gan glod i'r Hwn fu dan hoelion o ddur.

Cyrhaeddent cyn hir, ar eu taith, at drigfan ei briod a'i ferch;
 Deallai mewn moment eu hiaith, gorlanwyd ei enaid gan serch,
 Wrth weled eugwisgoedd mor wych,—yn llawer dysgleiriach na'r haul,
 A'u llys yn llewyrchu fel drych, gan belydr gogoniant diail.

Bu rhyngddynt gyfrinach dra llon, wrth adrodd helyntion eu taith;
Tân cariad wresogai eu bron, a rhyfedd mor hyfryd eu hiaith:
Hwy gofient Gwmheisian a'r Wern, Llynlleifiad, a Bersham, yn awr,
A llu o gyfeillion tra hoff, adawsent ar ol ar y llawr.

Gofynai cyn hir iddynt hwy, "Pa le y mae ROBERTS yn byw?
Chwenychwn ei glywed yn dweyd dirgelion trefn achub ein Duw:
Mae'n ddiâu yn deall yn dda fwriadau tragwyddol yr Ion;
Mawr bleser i'm henaid a gaf o'i glywed am danynt yn son."

Atebent, "Ei neuadd y sydd yn agos neillduol i ni;
Dy weled mor hoff ganddo fydd, daw Gabriel i'w dangos i ti:
Pregethai'n ddiweddar mewn gwyl, ar ryfedd helaethrwydd yr Iawn,
Nes ydoedd llu'r Nefoedd mewn hwyl, yn diolchi Dduw am ei ddawn."

Cychwynai yr osgordd ar hyn, ar wibdaith trwy fröydd y Nef;
'R ol cyrhaedd rhyw wyrddlas hardd fryn, yn gyflym hwy gwrddent
âg ef;

Eu cwrdd oedd mor ddyddan a llon, mor gyflawn o gysur a hedd!
Hyfrydwch orlanwai bob bron, wrth gofio eu bod uwch y bedd!

Rhoi WILLIAMS adroddiad o bwys am helynt crefyddol ein gwlad,
A ROBERTS ddywedai yn lwys am gariad tragwyddol y Tad:
Un dd'wedai fod IESU mewn grym yn marchog yn ngwersyll ei saint;
A'r llall a atebai, "Cledd llym yw'r Aberth anfeidrol ei faint!"

Dychwelai yn awr at yr OEN, rhoi'r goron i lawr wrth ei draed,
Am iddo ei brynu trwy boen, a'i olchi yn wyn yn ei waed:
"Myfi," ebai'r Iesu, "yw'th ran, dy enau a lenwir â mawl;"
Ai arwain a wnaeth yn y fan, i'w drigfan yn mrodir y Gwawl.

'R ol iddynt gyrhaeddyd y lle, yr IESU ddywedai yn fwyn,
"Fan hon parotowyd dy Nef, heb ofid, wylofain, na chŵyn:
Ar lawer dy osod a wna, cei drigo mewn mawredd a bri,
Llafuriaist yn ffyddlon a da, er rhoddi gogoniant i mi.

"Cei enwi dy deyrnas yn awr, ti fyddi ei rhaglaw byth mwy;
Cyrhaeddaist ardaloedd y wawr, uwch cyrhaedd pob gelyn a chlwy':"
Atebai ein WILLIAMS yn fwyn, a chariad yn llanw ei fron,
"Y clod fydd i'th enw dy hun, a 'NEUADD Y GROES' galwn hon.

"Tydi sydd yn haeddu y clod, a'th enw hoffusaf a'i caiff;
Fy nghofio a wnest cyn fy mod, fy nhafod dy foli a wnaiff:
'Rwy'n gweled fod telyn o aur yn rhagddarparedig i mi,
A'r anthem gan hòno a geir, fydd bythol ogoniant i ti.

"Dilynais dy achos trwy'r byd, trwy lawer o dywydd a brad;
Hiraethu y bum lawer pryd, am ddianc i fynwes fy Nhad:
O'r diwedd yr amser a ddaeth,—mor hyfryd oedd gweled y dydd!
Fe ddrylliwyd cadwynau y caeth, ac weithian am byth'rwyf yn rhydd!

"Mae amwisg fy enaid mewn bedd, yn ymborth i'r pryfyn—fy mrawd;
Ond credaf, wrth ganfod dy wedd, caf eto wel'd Duw yn fy nghnawd:
Ar ddiwedd y ddaear gwnei di, wrth wasgar y bydoedd yn garn,
Ail godi fy mhabell i mi, yn adail ysbrydol bob darn.

“Hyd hyny, dy engyl a wnant ei gwylio yn oergell y llawr;
O'r bydoedd wybrenawl yr ânt yn filoedd cyflymach na'r wawr:
Trwy holl chwyldroadau y byd, fy mhabell gaiff heddwch fel hyn,
Nes casglu plant Sïon yn nghyd, i ganu am Angeu y bryn.

“Ac yna o fewn i dy Nef, fy enaid a'm corff fydd yn un,
A chadwyn eu hundeb fydd gref, ar ddelw'th ogoniant dy hun;
Ni threulia tra byddych di'n Ben ar orsedd dragwyddol dy Dad,
Ond pery yr undeb mewn hoen, uwchlaw i bob gelyn a brad.

“Caf yma ddadseinio dy glod, a chofio dyfnderau dy loes,
A'th enw yn anwyl gaiff fod dros byth o fewn ‘NEUADD Y GROES!’”
Ionawr 28, 1842.

YMCHWIL Y GALARUS.

GALARGAN AM FY HOFF ATHRAW, Y DIWEDDAR BARCH. JOHN
JONES, MARTON, YR HWN A FU FARW TACHWEDD 30AIN, 1840,
YN 42 MLWYDD OED.

TRWM yw'r tywod sy'n ymfurfio'n furiau i ddofi rhwysg y môr;
Trom yw'r galon gollfarnedig oddimewn i'r ddurol ddôr;
Trwm yw meddwl yr alltud-ddyn sydd yn mhell o dir ei wlad,
Pan yn cofio na chaiff weled byth yn rhagor dŷ ei dad.

Trom yw calon un ar fyned draw o'i enedigol fro;
Trwm yw meddwl yr ymdeithydd mewn unigrwydd lawer tro;
Trymach fyrdd yw'r tonaau geirwon sydd yn rhuo trwy fy mron;
Hiraeth creulon sy'n fy mlino,—hiraeth am fy athraw llon.

Y mae Anian dêg o'm deutu yn hardd wenu gyda'r wawr;
Agor mae y blodau siriol, peraroglaidd yw eu sawr:
Ond er mwyned ydyw Anian, a'i deniadau oll yn nghyd,
Mae y cyfan yn rhy egwan i gael meddiant o fy mryd.

Ddydd a nos, o hwyr hyd foreu, hiraeth yn fy mynwes sydd;
Mae ei drymder bron a'm suddo, ac nis gallaf dd'od yn rhydd;
Pwysau hiraeth sydd yn llethu fy nheimladau bron i'r bedd;
Ac nis gall pleserau Natur weini imi unrhyw hedd.

O! fy athraw hawddgar, siriol, 'mha le caf dy drigfa di?
Ofer 'rwyf yn chwilio am danat, methu'th ganfod yr wyf fi:
Wrth y ddesk ni'th welaf mwyach, lle y buost lawer awr;
Llwyr oferedd im' dy geisio mwy yn unlle ar y llawr.

Na, cyn rhoddi'r ymchwil heibio, mi âf eto at y ddôr,
Lle y'th glywais gynt yn fynych yn ymbilio â dy Iôr;
Ust! feallai dy fod yna, mewn cyfrinach gyda'th Dduw;
Ah! dystawrwydd sy'n teyrnasu, yna f'athraw hoff nid yw!

Cerddaf eilwaith i'r Addoldy, man a garai gynt yn fawr;
Yno, f'allai, mae yn dadleu dros Dywysog Nef a llawr;

Cynyg mae, yn enw Iesu, fywyd byth i farwol ddyn,
Neu, yn anog yr afradlon i ddychwelyd "ato'i hun."

O! nid oes o fewn ein Sion neb sy'n debyg iddo ef!
P'le y mae? 'rwyf eto'n gofyn, gyda thrist, wylofus lef:
Raid im' roi fy ymchwil heibio! aflwyddiannus wyf o hyd;
Diau nad yw'm hanwyl athraw mwy o fewn ein marwol fyd.

Trof, â chalon brudd, hiraethlon, tua'r gladdfa draw yn awr;
Wele fedd, a lawrwyf gwyrddion arno'n wylo dagrau'r wawr:
O! ai tybed fod fy athraw yma yn yr oergell brudd?
"Ydyw, yma mae yn huno," ebe meinlais dystaw, cudd.

O! fy athraw hoff a hawddgar, ai dyma yw dy drigfan di?
Ai dyma'r fan yr wyt yn gorwedd, yn amddifad o bob bri?
Nid oes yma fynor prydfferth, i hynodi'th wely oer;
Nid oes yn y nos i'th wyllo ddim ond llewyrch gwan y lloer.

"Dyma'r fan yr wyf yn huno," ebe llais o'r oergell ddu,
"Dyma'r fan, a'm pabell briddlyd yma yn gorphwyso sy;
Yma 'rwyf, fel blin ymdeithydd, wedi rhoddi'm pen i lawr;
Dyma'r fan yr hunaf ynddo hyd yr adgyfodiad mawr."

O! fy athraw, gad im' glywed peth o hanes Byd y Mawl—
Peth o hanes rhyfeddodau dysglaer fryniau Gwlad y Gwawl?
Gynt dywedaist lawer wrthyf am hyfrydwch pur y Ne';
Llawer mwy im' d'wedi heddyw, gan dy fod o fewn i'r lle.

"Ofer yw im' ddechreu d'wedyd wrthyt ti sy'n farwol ddyn;
Pethau ydynt dd'rysai'th feddwl, nes it' lwyr anghofio'th hun;
Pethau pell uwchlaw'th amgyffred yw fy mhethau i yn awr—
Pethau foddent mewn rhyfeddod holl breswylwyr daear lawr."

Na, fy athraw, dywed imi *beth* o hanes Salem lon;
Gwyddost y gwna hyny'm lloni ar yr adeg bruddaidd hon:
Os rhaid iti ddweyd yn gynil, ymdawelu i hyny wnafe;
Credaf na wna'i'm hollol omedd, peth o'th hanes hyfryd cafe.

"Nid cyfreithlawn i farwolion yw ymholi am wlad y Ne',
Ond parhau i ddyfal chwilio am y llwybr cul i'r lle:
Mae peroriaeth ein telynau yn rhy beraidd iddynt hwy;
Rhyfeddodau annhraethadwy welir yma fwy na mwy.

"Moroedd dyfnion, anmhlymiadwy ydyw'r cyfan yma i'r byd;
Pethau hollol annirnadwy yw'r gwrthddrychau yma i gyd;
Gwlad hyfrydwch annherfynol, gwlad ddi-bechod, gwlad ddi-boen,
Ydyw'r wlad wyf heddyw ynddi, gwlad gogoniant Duw a'r Oen:—

"Gwlad sy'n llawn o bur gymdeithas, gwlad heb fradwr ynddi'n bod,
Gwlad y mae ei holl breswylwyr fyth mewn hwyl yn rhoddi'r clod
I'r Gwardedwr bendigedig brynai'n bywyd ar y groes,
Gwlad sy'n llawn o bêr orfoledd, wrth adgofio'i ingawl loes.

"Bydoedd dysglaer, gogoneddus, yn yr eangderau maith,
Ydynt yn ororau iddi, lle i ni gyflawni 'n gwaith,—

Lle i ganfod rhyfeddodau, na dd'ont byth i galon dyn,
Hyd nes dêl i fynny yma, i gael gweled oll ei hun.

“Nid yw'r ser, â'u siriol wenau, sy'n goleuo ar y byd,
Ddim ond megys mân ardaloedd, a adwaenom oll i gyd—
Ddim ond prydferth addurniadau i drigfanau Tŷ ein Tad,
Lampau dysglaer i oleuo pererinion tua 'u gwlad.

“Yn y gwagle maith, aruthrol, saif yr orsedd glaerwen, fawr;
Pellach ydyw fyrdd o weithiau na gororau eitha'r wawr;
Mangre ddysglaer ei breswylfod, cysegr ei ogoniant yw,
Prif freninllys gwych y Duwdod, teml yr Hollalluog Dduw.”

Anwyl athraw, dywed imi am drigolion pur y wlad,
Am gymdeithas hoff y brodyr sydd yn nghyd yn Nhŷ ein Tad;
A oes genych ryw hyfrydwch yn ein cyflawniadau ni?
A yw'n bosibl i chwi gofio gwlad y ddaear yma fry?

“Byth nis gallwn beidio cofio, tra bo telyn yn y Nef,
Na, anmhosibl byth anghofio, tra yn canu ‘Iddo Ef:’
Ar y ddaear mae Calfaria, lle bu 'r Iesu ar y pren;
Byth ni wnawn anghofio'r llanerch lle y trengodd Brenin Nen.

“Mynych pan yn cydymddyddan am anialwch maith y byd,
Synwn at y gras a'n nerthodd i ymdeithio ynddo c'yd;
Mynych ar adenydd gwisgi, myrdd cyflymach nag yw'r wawr,
Byddwn yn cymeryd gwibdaith yna i wlad y cystudd mawr.

“Hoff yw genym wel'd y manau buom mewn peryglon gynt—
Manau cawsom ein hadfywio gan awelon dwyfol wynt:
Hoff yw genym weled llwyddiant ar y Deyrnas gyda chwi;
Enyn hyny fflam nefolaidd trwy ein holl ororau ni.

“Y mae gweled hen gyfeillion, ar ol ymdrech deg yr oes,
Wedi tafu 'r cleddyf heibio, wedi gorphen dwyn y groes:
Mynych tanir ein heneidiau gan lawenydd dwyfol, pur,
Pan yn cofio 'n truan gyflwr yna yn yr anial dir.

“Melus iawn yw gwrando STEPHAN yn rhoi darlith ar ei hynt,
Ar y gawod fawr o geryg a syrthiasai arno gynt:
Melus iawn yw genym glywed hanes gyrfa ryfedd PAUL,
Gwrando 'i brofiad tra yn teithio trwy y byd yn mlaen ac ol.

“Hoff yw genym gymdeithasu gyda'n hen gyfeillion mād,
OWEN THOMAS, ROBERT ROBERTS, o fy ngenedigol wlad;
ROBERTS, LEWIS, JONES, a WILLIAMS, hyfryd iawn eu gweled hwy;
Hynod fedrus y dywedant am yr OEN a'i farwol glwy’.

“Ond hyfrydwch pena'n henaid ydyw gweled IESU gwiw,—
Gwrando arno 'n rhoddi darlith ar sefyllfa dynolryw,—
Clywed am ei ymdrech meddwl, pan yn chwysu'r dafnau gwaed,—
Gweled ôl yr hoelion llymion yn ei ddwyllaw pur a'i draed.

“Dyma sydd yn llenwi'r Nefoedd â gorfoledd maith, didrai;
Dyma ffynon gwir hyfrydwch byth i'r gwardigol rai:

Gyda bod yr IESU 'n gorphen, bydd pob telyn mewn llawn hwyl,
A'r holl Nefoedd mewn gorfoledd, fel yn cadw uchel wyl.

“Bellach, dos, rhaid i mi fyned at yr orsedd fry yn awr;
Dacw un o'm hen gyfeillion wedi d'od o'r cystudd mawr;
Rhaid im' fyned ato 'n union, i gael clywed am ei daith;
Dos yn ol o blith y beddau, bydd yn ddiwyd gyda'th waith.”

Hyn, dros enyd, a'm dyrysodd, tybiais fy mod gydag ef;
A meddyliais, am ychydig, fy mod bron yn ngwlad y Nef;
Tybiais fod cydrhwng fy mreichiau delyn un o deulu'r Hedd;
Erbyn edrych,—nid oedd genyf ond tywarchen oer ei fedd!

PRYDDEST FUDDUGOL

AR FARWOLAETH MR. J. W. THOMAS, (ARFONWYSON), YR HWN A
FU FARW MAWRTH 12FED, 1840, YN 35 MLWYDD OED.

(Y Bryddest ganlynol oedd ail ymgais Ieuan Gwynedd am y lawryf ar faes Barddoniaeth. Collodd yn y cyntaf yn yn Eisteddfod y Bala; ennillodd yn yr ail hwn.)

Yn ei feirniadaeth dywed Tegai, un o'r beirniaid, ar y Bryddest hon,—“Y nesaf yw GWYNEDDON, i'r hwn, yn ddibetrus, y dyfarnwyd y wobr:—1. Mae y Bryddest hon yn gwisgo gwir ddelw marwnad:—2. Marwnad Arfonwyson ydyw. Mae yn amlwg fod yr awdwr yn deall a theimlo ei destun. Mae yn rhy anhawdd i wir Gymro ddarllen y Gân hon heb i'w deimladau briwedig gael eu hail waedu wrth feddwl am y diwrnod yr anadlwyd allan dalentau mor loywon o ddvnsawd Arfonwyson. Amlyged 'Gwynedd' ei hun, fel y derbynio y wobr.” Gwel y DYSGEDYDD am Gorphenaf, 1842.)

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! mor aml dy golledion!
Mor fawr yw dy ofid! mor erchyll dy gur!
Gwaed lifa dy fynwes o ddirif archollion,
A wnaed gan bicellau mwy blaenllym na dur!
Aberoedd o ddagrau o'th lygaid sy'n ffrydio,
Pob deigryn sydd halltach na moroedd y byd;
Yn weddw ac unig yr ydwyt yn wylo,
Heb ronyn o gysur i loni dy fryd.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! un ergyd yn rhagor
A holltodd dy galon anwylaidd yn ddwy;
Dylifa dy drallod mal tònau y cefnfor,
A phob tòn yn gwneuthur dy drallod yn fwy.
Dy fab Arfonwyson, yn mlodau ei ddyddiau,
Yn ngwanwyn ei fawredd, ddisgynodd i'r bedd;
Ei haul a fachludodd is duon gymylau,
Tywyllwch marwolaeth orchuddiodd ei wedd.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! aml buost mewn galar,
(Dy hanes sydd gofres ry orlawn o wae);
Am syrthiad dy feibion bu'n fynych dy drydar,
A thestun dy ofid sydd eto'n parhau.

Blinderus yw genyf archolli dy deimlad,
 Wrth grybwyll am enw mor anwyl i ti;
 Ond eto rhaid ini gydlunio galarnad,
 Am un a deilyngodd anrhydedd a bri.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! dy fab Arfonwyson,
 Hoff blentyn hawddgarol dy fynwes, nid yw!
 Yr adgof am dano a ddryllia dy ddwyfron;
 Blin ydoedd ei golli o dalaeth y byw.
 Trist ydoedd y diwrnod pan ymaith ehedodd
 Ei enaid mawreddig o'r babell o glai;
 O'i garchar daearol ei feddwl ymwithiodd,
 A thithau adawodd i wylo'n ddidrai.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! er cymaint a wylaist
 Am ddewrion ryfelwyr—prif arwyr eu hoes;
 Er maint am dy feirddion gwladgarol ruddfenaist,
 (A cholli meis awen nid elli'n ddiloes),
 Ffynonell dy ddagrau sydd eto'n ddihsbydd,
 O tywallt hwy'n helaeth gan hyny yn awr,
 I wlychu llwyd anedd yr enwog Athronydd,
 Sy'n huno yn llonydd yn oergell y llawr!

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! pan ydwyt â'th ddagrau
 Yn hoff berarogli ei wely o bridd,
 Mae *Natur* yn dyfod yn wlybion ei gruddiau,
 I gwrdd a thi yno ar doriad y dydd:
 Cyffyrdda ei bysedd â thelyn ei galar,
 Yr odlau a gana yw gofid a chwyn;
 Acenion ei halaeth drwy'r awyr sy'n trydar,
 Nes deffro i gydgan gerddorion y llwyn.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! clyw *Natur* yn gruddfan,
 Wrth rifo y tlysau addurnent ei ben;
 Wrth adrodd y perlau a roddodd i Ioan,
 Dwys alar ymdaena o'i deutu mal llen.
 Y deall godidog a harddai ei feddwl,
 Oedd seren danbeidiol luniesid gan hon;
 A chofio i'r seren ddiflanu dan gwmwl,
 Droen ddiluw o ofid, nes suddo ei bron.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! mae *Natur* yn cilio,
 Wrth fedd Arfonwyson nid erys yn hwy;
 Try ymaith yn athrist, gan drwm ocheneidio,
 A rhwyg pob ochenaid ei chalon yn fwy.
 Ond aros di ronyn, *Athrylith* ddynesa,
 Mewn trymder pruddglwyfus, i edrych ei fedd;
 Ac, fel ei mam *Natur*, hyhithau lesmeiria,
 Wrth ganfod ei babell mor salw ei gwedd.

Athrylith ac yntau a ddifyr ymdeithient
 Rhwng bân fryniau Arfon, yn moreu ei ddydd;

'Rhyd llethrau'r chwareli y mynych gydrodient,
 Ac am eu hysgariad mawr gyni y sydd.
 I demlau Llênnyddiaeth bu hi yn ei arwain,
 Trwy fyd o gyfyngder ei dilyn a wnaeth;
 A hithau at feddrod ei hen gyfaill mirain,
 I dywallt ei deigryn serchiadol a ddaeth.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! gwel eto *Athroniaeth*
 Yn d'od yn fyfyriol i edrych y fan;
 Mae hithau mal eraill yn gwelwi gan hiraeth,
 Wrth weled mai yno bu diwedd a rhan
 Y dewr Arfonwyson, fu gynt yn ei hoffi,
 Gan ddilyn ei llwybrau yn ddyfal ei fryd,
 Ond weithian sy'n huno, heb elyn i'w boeni,
 O gyrhaedd holl ddadwrdd blinderus y byd.

*Gwyddbwyllion a'r Celfau** a brysur gyflymant,
 I offrwm eu teyrnged o barch ar ei fedd;
 Ac hawdd ydyw canfod y chwerw alarant,
 Os unwaith edrychir ar ddwysder eu gwedd.
 Y rhai'n gyda'u gilydd, mewn trymllyd ruddfanau,
 Gydbblethant alargerdd ddolefus a maith;
 I roddi darluniad o'u dwfn ocheneidiau,
 Rhy egwan yw *meddwl*, diallu yw *iaith*.

Tybiasant fod Jubil dy feibion yn nesu,
 I dd'od o gadwynau tywyllwch yn rhydd;
 Galwasant eu trefnus fyddinoedd i Gymru,
 Gan feddwl y buan ennillent y dydd—
 Y gyrid aſſerwch i ddianc o'n brodir,
 Mal ellyll digroesaw, i'w geudwll ei hun;
 Bwriadent enwogi dewr feib dy fynydd-dir,
 Ond pallodd eu gobaith pan gollodd ei ffun.

Meddylent am drefnu eu lluoedd i'r ymgyrch,
 A rhoi Arfonwyson yn flaenor y gâd;
 Gobeithient y cyflym dreiddiasai eu llewyrch
 I'th gonglau tywyllion, O Gymru, fy Ngwlad!
 Amcanent i Ioan gael arwain dy feibion,
 I ddeall dirgeloedd cyfundraeth y sêr,
 A rhodio yr awyr i weled teleidion
 Y bydoedd a grewyd â bysedd ein NER.

Bwriadent i feibion Caradog gael gwybod
 Am ansawdd y deddfau reolant y môr;
 Trwy hyny meddylent eu dwyn i gydnabod
 Anfeidrol ddoethineb a gallu yr Ior.
 Prydferthwch holl Natur amcanent ddadlenu,
 Er dangos y CREYDD drwy'r cyfan i gyd;

* Arts and Sciences.

Ond gwywodd eu gobaith;—trom ergyd i Gymru
Oedd tranc Arfonwyson, a cholled i'r byd!

Llenyddiaeth ymsymud mewn dirif gyfrolau,
I dywallt ei deigryn er harddu ei fedd;
Mae gwaith Arfonwyson ei hun yn ei breichiau,
A'r adgof o hono yn newid ei gwedd:

Ei "Athraw i'r Cymro" i lawr dyry'n ddestlus,
"Elfenau Rhifyddiaeth" yn golofn o'i glod;
Y cywrain "Eiriadur" a luniodd mor fedrus,
Fynega am dano tra Arfon mewn bod.

"Trysorfa'r Athrawon" a'i gwerthfawr gynwysiad,
Fythola eangder ei ddeall a'i ddawn;
Ond siomwyd pob gobaith—i dranc aeth dysgwyliad,
O drallod a galar *Llenyddiaeth* sydd lawn.

Try ymaith yn athrist, gan adael y Cymro
Mewn daear estronol yn farw a mud,
Er maint ei enwogrwydd, â chlai yn ei guddio
Mewn culgell dywodlyd o olwg y byd.

Fy Ngwlad! O fy Ngwlad! ti welaist y dyrfa
Fu yno'n dolefain ar feddrod dy gardd,*
Ti glywaist eu cwynion am *Herschell* hen Walia,
Y breiniol Seryddydd, Athronydd, a Bardd:
Ti welaist eu dagrau uwch oerlwch yr Ieithydd,
Gwrandewaist brudd-dônau eu galar a'u cri;
Wyf bellach am wrandaw galargerdd y Celfydd,
Mal afon a redodd o'th friw fynwes di.

Caiff rhuad y tònau a olchant dy lènydd,
A chwiban yr awel ar gopa y bryn,
A dwndwr soniarus dy lithrawl gornentydd,
A si dy afonydd ar waelod y glyn,
Gydlunio pedwarllais i ddadgan yr odlau—
Yr odlau a luniaist heb linell o hedd—
Yr odlau ysgrifaist â ffrydlif o ddagrau—
Gad ini eu gwrandaw cyn gadael ei fedd.

"Fy mab! O fy mab! ai yma mae'th drigfa—
Yn mhell o dy artref,—yn alltud o'th fro?
Och fi nad rhyw lanerch yn naear Arfonia
A gawsit-i huno mewn gwely o rô!
Fy mab! O fy mab! fy Ioan anwylaf!
Yn *nghanol* dy fawredd, terfynodd dy oes!
Pan harddid dy lwybrau â'r blodau prydferthaf,
I'r byd anweledig yr Angeu a'th droes!

"Fy mab! O fy mab! archollwyd fy nghalon,
Pan glywais dy farw yn mhell o dy wlad;

* Carld, alltud.

Llewygais pan drengodd yr hoffaf o'm meibion,
 Ac uchel yr wylais yn herwydd y brâd.
 Fy mab! O fy mab! mae cofio'th serchogrwydd
 Yn gwaedu fy enaid, a rhwygo fy mron;
 Rhy anhawdd im' deimlo am fynyd yn ddedwydd,
 Rhy anhawdd im' edrych am eiliad yn llon.

"Fy mab! O fy mab! dy eang ddysgeidiaeth
 A'th rymus athrylith, a'm llonent cyn hyn;
 Hoff genyf fu'th weled yn dilyn Athroniaeth,
 Pan araf y rhodiet is godre y bryn;
 I demlau Llenyddiaeth y'th welais yn dringo,
 Drwy'r llwyni gwyrddleision ar aelgerth y nant;
 A dwys y gofidiwn, pan byddit yn cwyno,
 O herwydd na roddid it" nawdd gan fy mhlant.

"Fy mab! O fy mab! wylofus y diwrnod
 Y gwelais di ymaith o'm brodir yn troi;
 Chwyrn gurai fy nghalon, a sefais mewn syndod,
 Pan oeddit, mal alltud, o Gymru yn ffoi.
 Dywedais, Ai tybed y gwna fy anghofio,
 Yn nghanol estroniaid, a gwadu ei iaith?
 Na, na, mi atebais, rhy anhawdd i Gymro
 O fath Arfonwyson wneud hyny ychwaith.

"Fy mab! O fy mab! mawr oedd fy llawenydd,
 Pan oeddit, mal eryr, yn esgyn i'r nen—
 Pan uchel ymgodit, drwy nerth dy adenydd,—
 Pan oeddit yn *Greenwich* yn myned yn ben;*
 Ond gwisgais dywyllwch teimladwy i'm cuddio,
 Pan welais dy syrthiad yn nghanol dy nwyf;
 Dy godwm a barodd i'm henaid lesmeirio,
 A gwaedodd fy nghalon, gan ddyfnder y clwyf.

"Fy mab! O fy mab! yn iach i dy weled
 Yn rhodio fy mrynau!—gorphenaist dy waith;
 Llaw ruddgoch yr Angau a gauodd dy lygaid
 Yn ardal marwoldeb—dybenaist dy daith!
 Cwsg ynte yn dawel is si yr awelon,
 Nes gwawrio y boreu gorgyflawn o hedd,
 Y cenir yr udgorn i ddeffro y meirwon,
 I gwrdd yn yr awyr ORCHFYGWR Y BEDD!"

CYFEILLGARWCH.

O DEIMLAD hoff! addurnawl em y Nef!
 Mor hyfryd yw dy lais a'th ddystaw lef!

* Arolygwr yn Arsyllfa Freiniol Greenwich.

Boddlonrwydd eistedd ar dy wridog rudd,
 A gwenau engyl yn dy lygaid sydd.
 Cwrelaidd wrid cerubiaid feddi di,
 Gweinyddydd hedd gwell na daearol fri.
 O fewn dy eirian deml haeddianawl glod,
 Fel aberth mawl, yn wastad it' sy'n d'od:
 Undeb a serch ger bron dy allor sydd
 Yn hoff fwynhau pur wenau bythol ddydd.
 Dy amcan ydyw meithrin teinlad pur,
 Ac ymlid ymaith wae, a phoen, a chur.
 Dedwyddwch yw dy rodd—rhodd fawr i ddyn;
 Calonau wnei, nid *dwy*, ond *myrdd*, yn *un*.
 Dy bleser ydyw difa adgas chwÿn,
 Ac eistedd ar feillionog laswyrdd fryn,
 Er gweled dynion, heb ofidus fraw,
 Yn hyfryd chwareu ar y maes islaw.
 Dy hoffus waith yw gwych arlwyo gwledd,
 A'th bleser penaf yw gwasgaru hedd;
 Addysgu dyn i werthfawrogi 'i frawd,
 A llwyr ffeiddio creulon wenwyn gwawd,
 Gan uno 'r byd o fewn dy rwymau cu,
 A'i wneud yn debyg i'r Baradwys fry.
 Golomen nefol, triga ynwy'n llon,
 Ac na fydd alltud byth o'm marwol fron!
 O Gyfeillgarwch mad! dy rymus swyn
 Sy'n gwneud ein heuog fyd yn lle mor fwyn!
 'Rwyt yn cymysgu mwynder boreu oes
 Yn falm i'r galon friw, dan erwin loes.
 Drych ydwyt ti er dangos cyfaill cu,
 Sy'n alltud pell er's llawer gauaf du:
 Mewn nosawl freuddwyd sigli di ei law,
 Er iddo fod fil o filldiroedd draw;
 A mynych adlewyrchu 'i wyneb wnai,
 Pan fyddo 'n nghudd yn nghelloedd carchar clai;
 Ei adgyfodi wnai o'i oerllyd fedd,
 Nes lloni 'r galon pan ganfydda 'i wedd,
 Er deffro 'n brudd o'r swyn, gan dderbyn clwy',
 A thywallt deigr, wrth gofio nad yw mwy.
 Myrdd o delmladau gerfi di ar lèn,
 Trysori 'n ddestlus fyfyrdodau'r pen,
 Ar edyn mwg anfon hwy yn mhell,
 Nes cyrhaedd cyfaill yn ei unig gell:
 Tywellti gysur i'w adfydus fron,
 A gwnei ei galon brudd yn hynod lon:
 Alltudi di ei ofid dwys a'i gur,
 Ei feddwl lenwi â hyfrydwch pur.
 Paradwys hardd wnei di ar adfail brâd,
 Môr o drueni droi 'n felusder mâd.

Hawddamor i dy ymdaith yn ein byd!
 Pob congl o hono llywodraetha i gyd!
 Gorlenwa'r ddaear â dedwyddwch syw!
 Teyrnasa arni byth dan wenau Duw!
 1842.

Y GOFID CUDD.

MÆ yn fy mynwes boen o hyd,
 Nad wyr y byd am dano,
 Difaol bryf o dan fy mron,
 A'i wenwyn bron a'm gwywo.

O'm hamgylch fy nghyfeillion sydd
 Yn teimlo 'n rhydd a llawen;
 'R wyf finau 'n gwisgo gwên bob dydd,
 A'm meddwl prudd mewn cadwen.

Mae pobpeth o fy neutu 'n llon,
 A phawb o'r bron yn siriol;
 Ond blino wneir fy mynwes wan
 A phoenau anorphenol.

Yr hen wr penllwyd, wrth ei ffon,
 A deimla 'i fron yn hoew;
 Ond fi, yn nyddiau ie'netyd, wyf
 O dan fy nghlwyf yn marw.

Wyf ail i dderwen yn y coed,
 A'i brig erioed heb grino;
 Ond wrth ei gwraidd y maldod cryf
 Sydd yn ei hyf ddystrywio.

Gynt gyda'm cyfaill ar y ddôl,
 Mor siriol gallwn siarad;
 Ond llon edrychiad heddyw sydd
 Yn llofrudd i fy nheimlad.

Pe gallwn, cilio wnawn yn mhell,
 I ddaear-gell unigol,
 Lle na thywynai'r heulwen glyd
 Ar alltud truenusol.

Fel gwenol unig ydwyf fi,
 Ar ben y tŷ yn cwynfan;
 Nid hir gwnaf ddal y llethol bwys,
 Af dan y gŵys yn fuan.

O! cleddwch fi yn min y nant,
 I lawr i'r pant sy'n treiglo;
 Caf yno dawl, esmwyth hûn,
 A'r nef ei hun i'm gwyllo.

Helygen plenwch uwch fy medd,
 Rhydd hon â'i gwedd ddifrifol,
 Ddarluniad o fy mynwes wan,
 A'm hangeu anamserol.
 1842.

TRANC Y FLWYDDYN 1842.

DAETH awr ei thranc, ei gyrfa sydd ar ben,
 Ei chnul gydgenir gan blanedau'r nen—
 Ust!—f' enaid, clyw!—y gloch â'i hergyd brudd,
 Ei hangladd weithian yn cyhoeddi sydd!
 Ei bedd yw adfail blwyddau maith dirif
 O amser, gludwyd gan dragwyddol lif;
 Adfeilion erch, malurion mawredd byd,
 Yn nghladdfa'r oesoedd gorwedd maent yn nghyd.
 Haneswyr gwynant am eu colli hwy,
 Ond yno maent, bentyrau fwy na mwy;
 Gorchestion gwych gwroniaid pena'r dydd,
 Yn nghladdfa blwyddau, oll yn nghadw sydd;
 Ac at eu rhif y flwyddyn olaf aeth,
 Mewn caddug bythol suddo neithiwr wnaeth.

A drengodd hi?—Do; blwyddyn arall sydd
 O groth bytholdeb wedi d'od yn rhydd;
 Ac heddyw hon ddechreua ar ei thaith,
 I gludo milfil i'r bytholfyd maith:
 Yn oer a gwelw try y wridog rudd,
 A marwol ergyd i'r cadarnaf rydd;
 Y wryf lon, y gwridog, heinif lanc,
 Heb ball offryma hi ar allor tranc;
 Y fynwes hoffaf wâna hon â'i chledd,
 A chuddia flodau'r byd yn ngheudod bedd!

A drengodd hi?—Do; dros y dibyn mawr,—
 Terfyngylch amser—suddo wnaeth i lawr;
 Do, trengu wnaeth; ond yn y cwmwl du
 Goruwch fy mhen ei herch ddrychiolaeth sy,
 Yn d'wedyd wrthyf, "Ystyr, farwol ddyn,
 Mai buan buan daw dy dranc dy hun.
 Fy hanes cofia, edrych yma, gwel,
 Fy mynwes ddengys it' yr hyn sydd gel;
 Gweithredoedd dyn sydd yma 'n gronfa fawr,
 Gwel yma gofres dirif feiau'r llawr—
 Hell gofres ddu!—dychrynlyd yw ei gwedd,
 Trais a chreulondeb lywiant ar ei sedd:
 Gwel yma'r byd yn gruddfan dan ei bwn,
 A syndod yw na lethai camwedd hwn;

O'r Dwyrain bell hyd y Gorllewin draw,
 Drwy Ogledd, De, dychryndod, alaeth, braw!
 Bras feusydd gwych, mwydedig ýnt gan waed,
 A'u cewri beilch yn sathrfa sydd dan draed:
 Ah, ddaear Ion! nid wyt baradwys dêg,
 Ond trigle dreigiau, cabled, melldith, rhêg!
 Ein daear hên sy'n ocheneidio 'n brudd,
 Eulunod fyrdd yn gruglwyth arni sydd;
 Pob dieifl, ysgrubliaid, dárnau mud o bren,
 A'r dorchog sarph, yn lle Creawdwr Nen!
 Babanod têt—Ôch! clyw eu marwol lef!—
 Yn suddo maent yn nhônau'r *Ganges* gref!
 Gan ddwylaw *maman* teflir hwynt i'w llif!
 A'r uchel Iôr yn unig wyr eu rhif!
 I'r wybr fflam o allor Moloch dardd,
 O fewn ei deml addolwyr ynfyd chwârdd,
 Wrth wel'd ynfyd-ddyn yn aberthu 'i hun,
 Yn trengu ger rhyw freulyd, orwag lun.

Gwel gaethion fyrdd—meib Ham—yn goch gan waed,
 Cadwynau gormes tinciant am eu traed;
 Eu gwaed sy'n lliwio gwlad y rhyddid mawr,
 A melldith Iôr sydd uwch ei phen yn awr!
 Dy wlad dy hun, gwel yma 'i darlun hi,
 Mae hon yn llawn o derfysg, trais, a chri;
 Gruddfana'r gwan, a churio mae y tlawd,
 Eu mathru mae eu boneddigaidd frawd.
 Gloddesta un, a gwaria fil y dydd,
 I arall haint a glendid danedd sydd.
 Ymbydra hwn mewn llawnder, gwin, a gwledd,
 Newyna'r llall, a chryma tua'r bedd.
 Anwiredd red, fel grymus afon gref,
 A gwaedd camweddau gyrhaedd hyd y Nef.

A drengodd hi?—Do; dros y dibyn mawr—
 Terfyngylch amser—suddo wnaeth i lawr;
 Ni chyfyd mwy hyd wawr boreuddydd Barn,
 Pan oesau'r byd wnant sêr y nef yn sarn
 I sefyll, er datguddio pob rhyw waith,
 Gan ddynion wnaed, trwy eu terfynau maith.
 Ofnadwy Ddydd!—datguddiad heb ei ail!
 Planedau'r nen a grynant megys dail!
 Y seren wib, â'i fflamlyd losgwrn tân,
 O'u lle ysguba sêr y nef yn lân!
 Y lloer, mewn llewyg, sathrant hwy dan draed,
 Ac yn ei phangau wyla ddeigr o waed!
 Breniniaeth Natur siglir hyd ei sail!
 Gan ddychryn dwys ar unwaith trenga'r haul!
 Mewn nerth i'w Arglwydd twng yr angel cryf,
 "Mwy ni bydd amser!" Teifl ei faen yn hyf

I eigion môr; cwyd tònau hwnw i gyd
 Yn drochion gwyllt, nes diffodd coelcerth byd.
 Llewyga Anian—trenga dan ei chlwy',
 A syrth i'w bedd—byth i gyfodi mwy!
 Ionawr 1, 1843.

M A R W N A D

Y PARCH. RICHARD JONES, RHUTHYN, YR HWN A FU FARW
 HYDREF 26AIN, 1841.

Is godre y mynydd yn nghornel y dyffryn,
 Lle dibaid ymdreiglai y ffrydlif i'r pant,
 Ar gareg fwsoglyd eisteddai rhyw henddyn,
 Gan gyfrif gwanegau crychwynion y nant.
 Wrth araf ddynesu tu ol i'w eisteddfan,
 Deallwyd mai athrist bererin oedd ef;
 Ond cyn y caed hamdden i ddechreu ymddyddan,
 Mewn ochain a dagrau dyrchafodd ei lef;—

“Darfydded y gân! Cydlunier cwynfaniad,
 Sachliain a lludw cymerer yn awr;
 Na swined un delyn ond nodau galarnad,
 O fyddin y Nefoedd y collwyd un mawr!
 Un mawr yn ei ddeall, a mawr yn ei ddoniau,
 Un mawr ei dduwioldeb a gollwyd o'n plith;
 Mud ydyw y tafod a wlawiodd gawodau
 O nefol hyawdledd, tynerach na'r gw lith!

“Rhy ofer i dafod ymsymud i ofyn,
 Pwy ydoedd y gwron a gollwyd fel hyn;
 Dolefwaedd wylofus ymddyrrchodd o Ruthyn,
 A Chymru ar unwaith darawyd yn syn:
 Taranfollt orlwythog o alar ddisgynodd—
 Y cwmwl ymdorodd—a ffrydlif o wae
 O'i grombil orbruddaidd a ffrochwyllt ymruthrodd;
 Llais cân a llawenydd, p'le mwyach y mae?

“Os wylai *Anchises*, yn meusydd *Elysium*,
 Heillt ddagrau wylofus, wrth ganfod mor brudd
 Y teimlai'r Rhufeiniaid, pan gollent y ffraethlym
Marcellus frenhinol, yn moreu ei ddydd:
 Os awchus ymholai am lili i'w taenu,
 Er dangos ei gariad at ysbryd y llanc,
 Pa ryfedd fod galar yn gaddug dros Gymru,
 Pan syrthiodd ei rhosyn hawddgaraf i dranc!

“Gwir ydyw fod cedrwydd talgryfion yn sefyll,
 Er gwaethaf y dymhestl, yn addurn i'n gwlad;
 Mae lluoedd o gedyrn yn nghanol y gwersyll,
 A medrus wroniaid yn ymladd y gâd;

Ond brigog gedrwydden mewn tyfiant a dorwyd,
 A chadarn godynwyd yn morau ei oes;
 Llanc gwridog, mal Dafydd, gan Angeu a laddwyd;
 Jonathan a gollwyd o fyddin y Groes!

“O Jones! ti orchfygaist yn llawer rhy forau!
 Rhy gyflym dy lwyddiant! rhy rymus dy ddawn!
 Ymgodaist, fel eryr, uwchlaw y cymylau,
 Nes oeddyn yn methu dy ganfod yn iawn:
 Grymusder d’adenydd yn chwimwth a’th godai,
 Holl Gymru edrychai ar uwchder dy le,
 Nes pelydr yr heulwen ein golwg orthrechai,
 A thithau ddiangaist, fel Enoch, i’r Ne’!

“Pan gyntaf dechreuodd dy fawredd ymddangos,
 Fel seren cyfodaist cyn toriad y wawr;
 Ymsaethodd dy oleu, arswydodd y cyfnos,
 Diangai’r tywyllwch o’i orsedd yn awr:
 Tywelltaist dy lewyrch, nes ydoedd ellyllon,
 Mewn dychryn dirgrynawl, yn cilio i’w ffau;
 Ti synaist y doethwr, dihunaist y Cristion,
 I lafur y gelwaist feddyliau y ddau.

“Yn Bethlehem fechan dadblygodd dy feddwl,
 Dy rymus gyneddfau deimlasant eu nerth;
 I fyny i’r awyr cyfodaist, fel cwmwl,
 A gwlawiaist gawodydd anfeidrol eu gwerth:
 Fel cadarn yn Israel dy lef a ddyrchefaist,
 Deffrowyd yr eglwys, cynhyrfwyd y byd;
 Dros enw dy Arglwydd yn wrol ymdrechaist,
 A chariad dy Brynwr orlenwodd dy fryd.

“O flaen dy gyfoedion yn fuan y rhedaist,
 Ymwisgodd dy enaid yn harddwch y Nef;
 A chedyrn elynion heb arswyd wynebaist,
 Llym ydoedd dy gleddyf, dy fraich ydoedd gref:
 Eglwysi y Gogledd edrychent mewn syndod,
 Pan allan y neidiaist, fel cadarn di-darf;
 Y ddraig a arswydai rhag derbyn dy ddyrnod,
 Henafgwyr a gilient rhag llencyn di-farf.

“Prydferthwch dy berson a ddenai ein sylw,
 Y gwrid a chwareuai mor dlws ar dy rudd;
 Yr hoff *ddiniweidrwydd* addurnai dy ddelw,
 A *chraffder* dy lygaid, awgryment fod dydd
 I ddyfod yn fuan, pryd byddai’th alluoedd,
 Mal corwynt diatal, yn ysgwyd y wlad;
 Ond, Och! ein holl hyder fel gwelltyn a wywodd,
 Hen elyn dynoliaeth a luniodd dy frad!

“Mewn dybryd arafweh esgynit i fyny
 I safle ofnadwy cenhadon yr Iôr;

A hawdd fyddai canfod fod sêl dros yr Iesu
 Drwy'th enaid yn llifo, fel tònau y môr:
 Wrth ddechreu llefaru, y dòn a ymgodai,
 Cyn hir hi ymchwyddai yn firwd dros y làn;
 Fel afon fawreddog, dibaid yr ymdreiglai,
 A dyfroedd nofiadwy a lanwent y fan!

“Mawr hoffit gyd-deithio ag Arglwydd y bywyd,
 Pan ydoedd yn rhodio'n ddirmygus drwy'r byd;
 Yr anthem ddadseiniodd fro Bethle'm mor hyfryd,
 A phleser annhraethol a lanwai dy fryd:
 Y llwybrau a liwiodd â rhuddwaed ei galon,
 Y ddaear a bwysodd ei liniau i lawr,
 Yr ardd gysegredig tudraw i nant Cedron,
 A gerit dramwyo ar hyd-ddynt yn fawr.

“Pan byddit yn traethu am Aberth Calfaria,
 Nes byddai angylion Gogoniant yn llon,
 Y fflam ddwyfoledig ar allor Jehofah
 Enynai dy dafod, wresogai dy fron:
 Pen bryn dy enwogrwydd yn awr a gyrhaeddit,
 Dy hedfa uchelaf oedd Angeu y Groes;
 A chofio gwaed Iesu wrth drengu a fynit,
 Ar lechwedd Golgotha terfynaist dy oes!

“Gan olew santeiddrwydd dy ben a eneiniwyd,
 Perarogl yr enaint a lanwai bob lle;
 Ar luoedd yr argraff dymunol adawyd,
 Mai teilwng ymddygaist o *genad y Ne'*:
 Eglwysi clwyfedig yn gwaedu ni welwyd,
 O herwydd i'th rodiad eu llanw â siom;
 Un ergyd gan Sion o'th herwydd ni theimlwyd,
 Ond ergyd dy angeu—a hòno fu drom.

“Yn erbyn y mygllys, a gwlybwr y meddwon,
 Eist allan yn wrol—ymleddaist yn llym;
 I wneud ymosodiad ar warthus arferion,
 A bywyd annuwiol, cydgesglaist dy rym:
 Dy galon ni lygrodd y *mamon* deniadol,
 Ond dros yr amddifaid dyrchefaist dy lef;
 Dibwys ydoedd genyt bob mawredd daearol,
 Un ddinas ni cheisiaist ond dinas y Nef.

“Ni chwiliaist am goron ond ‘coron y bywyd,’
 Un deyrnas ni hoffaist ond ‘teyrnas dy Dduw;’
 Dy enaid oedd orlawn o dduwiol awyddfryd
 Dros Iesu i weithio—dros Iesu i fyw:
 Un bywyd ni fynit ond bywyd defnyddiol,
 Ac fel y dymunaist, efelly y bu;
 Trywanwyd dy galon â'r cleddyf angeuol,
 Yn nghanol dy lwyddiant, wrth arwain y llu.

“Dy haul a gyfododd mewn urddas ysblenydd,
 Buddugol farchogodd yn entrych y nen;
 Ond t'wyllwch a thymestl, yn mhell cyn canolddydd,
 Ffynonell dy lewyrch guddiasant â llèn.
 Yr haul a fachludodd—y goleu dywyliwyd,
 Nid diffyg ddygwyddodd, ond diffodd a wnaeth;
 Ac nid gan ryw gaenen o niwl ei gorchuddiwyd,
 Ond is y terfyngylech o'r nenbwnc yr aeth.

“Wylofus ruddfanau orlanwent eglwysi,
 Cawodydd o dagrau gollasant yn awr;
 Yr henwr, a'r cadarn, yr ieuanc, a'r heini',
 Ar unwaith syrthiasant fel deilen i'r llawr:
 Un gair ni cheid ganddynt ond geiriau o alaeth,
 Un teimlad a redai drwy fynwes y praidd;
 A dibaid arteithiau dirdynawl o hiraeth,
 Fel gwenwyn difaol, drwy'u calon a draidd.

“Plant bychain amddifaid o'th ol ni adewaist,
 Na phriod anwylaidd, i gurio mewn aeth;
 Yn nhŷ dy anwylfam yn angeu yr hunast,
 Er hoffed o honot, dy golli a wnaeth:
 Y galon siriolwyd â'th wenau babanaidd—
 Dy flwyddau boreuol—dy lwyddiant—dy fri;
 A'r llygaid a'th wylent yn ieuanc a gwanaidd,
 Orlanwyd gan ddylif o alar a chri.

“Mewn arch bendefigaidd dy gorff ni orphwysa,
 Mewn mawrwydch byramid dy wely nid yw;
 Yn naear y Wyddgrug dy babell a huna,
 A cheidwaid dy lety yw engyl dy Dduw:
 O! engyl Gogoniant, ataliwch yr haulwen
 I leibio y dagrau addurnant ei fedd!
 Tynghedwch bob cerub dramwya'r ffurfafen,
 Rhag chwenych y perlau heillt, gloewon, di-hedd!

“Er syrthio yn ieuanc, er trengu yn forau,
 Ni chollir dy enw, ni ddiffydd dy glod;
 Rhy anhawdd anghofio dy daerion weddiau,
 Dy rymus bregethau i'n meddwl sy'n d'od:
 I'r oes sydd yn codi dy enw grybwyllir,
 Dy hanes felysir â deigrin y sant,
 A'th glod, drwy yr oesau, gan dadau drosglwyddir,
 Dy goffa adawant yn drysor i'w plant.

“Ond ofer yw cwyno, er trymed y ddyrnod,
 Gwell sychu y dagrau, a hwylio y gân;
 Daw dydd y buddugol ddyrchefi o'r beddrod,
 I'r awyr esgyni mewn cerbyd o dân:
 Daw Iesu, dy Brynwr, i hōni'th weddillion,
 A'th ddwyn yn fuddugol i'w deyrnas ddifrad;

Dy Geidwad a'th arwain i dderbyn y goron
Ddidranc, ogoneddus, o ddwylaw dy DAD."

MOLAWD TYWYSOG CYMRU.

(Testun Cymreigyddion Llundain yn 1843. Y beirniad oedd Tegid, a'r buddugwr oedd y Parch. William Ambrose, Porthmadog. Ceir ei gân ef yn y DYSGEDYDD am Ebrill, 1844.)

ALAW—"Y Tywysog Llewelyn."

DY greigiau uchelfrig, O Gymru fynyddig!
Hen wlad gysegredig arbenig y bardd!
Ymwisgant mewn blodau, a swynol rosynau,
Ar lethrau dy fryniau, yn dwynau a dardd:
Llon gana dy ellydd, adwena d'afonydd,
Ail ddeilia dy ddolydd o fynydd i fôr;
Dy lenydd ymlonant, dy foelydd hyf eiliant,
A gwladgerdd o foliant gydganant yn gôr;—
"Mab tirion VICTORIA sydd d'wysog i Walia,
Ei rhwymau a ddryllia, fe'i rhodda yn rhydd;
Am ddatod cadwynau dewr feib ei mynyddau,
Ei th'wysog yn ddiau yn forau iawn fydd.

"Y t'wyllwch fantellodd, dros Gymru ymdaenodd,
O'r golwg llwyr giliodd, hi ddeuodd yn ddydd;
Caed iesin dywysog, ddaw'n llywydd galluog,
I feibion CARADOG yn benog y bydd:
Mae ALBERT yn ddiau yn uchel mewn achau,
Yn d'od o'n cyndadau, heirdd flodau y wlad;
O foncyff y dewrion y tarddodd y tirion
Blanhigyn gobeithlon, hyfrydlon, difrâd;
Ei haniad sydd union o wreiddiau Derwyddon,
Hen deulu TUDORION a mawrion gwlad Môn;
Er canu'i fawl-emyn boed dilesg y delyn,
Holl deulu LLEWELYN fo'n dilyn y dôn.

"Os syrthiodd LLEWELYN, caed eto flaguryn,
A'i darddiad o wreiddyn hen frenin y fro;
Daw ALBERT i Gymru, iaith Gomer wna ddysgu,
O'r llwch ei dyrchafu i fyny wna fo;
Sefydla ysgolion er addysg i'w meibion,
A rhodda wobrwyon i ddynion o ddysg;
Gweinyddiad y Gyfraith o fewn ein hen dalaeth
Adfera ar unwaith'n ein mamiaith i'n mysg;
Fe dÿr yr holl ieuau roed ar ein hysgwyddau,
Datoda ein tidau a'n rhwymau yn rhad;
Alltudia orthrymder, sefydla gyfiawnder,
Fel byddo bob amser deg iawnder i'n gwlad.

“Ymweled gwna beunydd â brodir Penmynydd,*
 Ymdeithia ein llywydd trwy feusydd gwlad Fôn,
 I edrych adfeilion hen lysoedd ein dewrion,
 Ein hoff dywysogion, ein beirddion, a'n bôn;
 Bydd mynych ei gyrchfa ar hyd a lled Cambria,
 Breninllys yn Ngwalia adeilia yn dêg,
 Lle llonir ei galon gan awen ei meibion,
 A'u diliau melusion, iach, hylon, a chwêg:
 Ail dànir y delyn rymusai LLEWELYN,
 Pan fyddai y gelyn yn dilyn i'w dir;
 Fe welir sefydlu, a chyfiawn ddyrchafu,
 Defodau hen Gymru, a'i harddu cyn hir.

“I gadair Eisteddfod bydd ALBERT yn dyfod,
 I wrando ar hyglood fyfyrdod rhyw fardd,
 Yn cyfarch ei benaeth, o gadair y dalaeth,
 Ag awdl o ganmoliaeth dra helaeth a hardd;
 Ein hanwyl geninen addurna ei dalcen,
 Derbynia ysnoden yr awen a'r urdd;
 Yn nghanol gorloniant, ei ddeiliaid addurnant
 Ei arlais â *garlant* a weuant o wyrdd
 Uchelwydd y Derwydd, er parchu ein llywydd,
 O! Gymru, o'r herwydd bydd dedwydd dy dir!
 Dy iaith a flagura, dy awen adfywia,
 Dy d'wysog ddyrchafa hen Walia yn wir!

“Bydd heddwch a chariad, ar hyd ei deyrnasiad,
 Yn rheol ei rodiad a'i drefniad didrais;
 Rhydd groesaw i'r estron, a pharch i gyfeillion,
 A thegwch yn dirion i'r gwirion a gais:
 O randir yr India i oror Canàda,
 Ac eithaf Australia, yn bena' y bydd;
 Yr haul, pan gyfoda, ei faner oreura,
 Ac arni machluda, pan dodda y dydd:
 Yn nhymor mabandod gwyn engyl a'i gwarchod,
 Ei lwyddiant fydd hynod drwy ddiwrnod ei oes;
 A gwynfyd tragwydd aroso ein llywydd,
 O fewn y Nef ddedwydd, trwy grefydd y Groes!

SYNIA DAU

WRTH EDRYCH AR FEDD MR. G. L. DAVIES, MAB HYNAF Y
 PARCH. EDWARD DAVIES, COLEG ABERHONDDU, YR HWN A FU
 FARW MEHEFIN 13EG, 1841, YN 20 MLWYDD OED.

WRTH ymdaith ar ryw anial hynt, ar forau Gwanwyn llon,
 A gwrando cyngân brudd y gwynt, yn nghcedwig ael y fron,

* Plas Penmynydd, yn agos i Langefni, cartref Owain Tudur, taid Harri y
 7fed, cyff llinach freiniol y Tudoriaid, o'r hon yr kanodd ein Grasuaf
 Frenhines Victoria.

I blith y beddau dyfod wnes, tiriogaeth brenin braw,
Ac yn y llanerch prudd didês y crwydrwn yma a thraw.

Un beddfan newydd tynu wnaeth fy sylw dwfn a dwys;
Edrychais, pwy oedd yno'n gaeth ond llencyn ieuanc glwys,—
Anrhydedd ei hawddgaraf dad, anwylyd gwiw ei fam;
I chwaer a brodyr brawd mor fâd, a chyfaill mor ddinam.

“Mor gynar,” ebe'm meddwl trist, “machludodd seren lon!
Gwel'd colli arwr ieuanc Crist bruddhaodd lawer bron:
Yn nghanol haf, y dymestl ddu ymgodai yn ei grym,
A phlygodd y blaguryn eu o flaen y corwynt llym.”

Y goedwig wisgai fantell werdd, a'r ddôl blodeuog oedd,
Cydblethai adar nef eu cerdd, dyrchefid llawen floedd
Gan lawer llencyn gwridog-wedd; ond yntau gyda gwên,
Gogwyddo wnaeth ei ben, mewn hedd, i fynwes daear hen.

Mae coeden werdd wrth glawdd y llan yn deilio uwch ei fedd,
Ac wylo mae goruwch y fan y gorwedd ef mewn hedd:
Nid unig yn ei dagrau yw, mae eraill gyda hi
Yn gwlychu cell y rhosyn gwyw â gloewon ddagrau'n lli'.

Wrth fur y fynwent edwi mae blodeuyn pêr ei sawr,
Gan wenwyn bore awel gwae anurddo gwnaed ei wawr:
Pan arno y pelydrai'r haul, ei wres rhy danbaid bu;
Pan ruthrai'r gwynt, rhy wan ei sail, rhy dyner—marw fu!

Mynweswyd aml ddymuniad glwys, wrth feddwl am ei ddawn;
Ond Och! goris y farwol gŵys ei haul, cyn cyrhaedd nawn,
Machludo wnaeth, heb gwmwl du, na brychau, ar ei wedd;
Ei oleu tanbaid, dysglaer bu hyd ymyl pyrth y bedd.

Bro dywell ydyw gwlad y bedd, aneddle galar yw;
Ond ef, yn dawel iawn ei wedd, nid ofnai hi wrth fyw;
Ac felly, pan i farw daeth, tawelwch pur y Nef,
O'r ddwyfol orsedd ffrydio wnaeth, i loni 'i ysbryd ef.

Ymdeithiodd tua godreu'r glyn yn ddystaw a digŵyn;
Tra pawb o'i gylch mewn galar syn, edrychai ef yn fwyn;
Tra golchai dagrau lawer grudd, wrth wel'd ei daith ar ben,
Hiraethai yntau am y dydd cai gyrhaedd gwlad y Nen.

Mae swyn o gylch ei farwol gell, rhyw ddirgeledig lais—
Nid llais o'r byd—llais gwlad sydd bell, uwch pob daearol drais—
Llais dystaw, main, deniadol yw, ar edyn têt y chwâ;
Dywedyd mae, “Eich rhosyn gwiw sydd iach, heb nam na phlâ;

“Byth-wyrddion yw ei dyner ddail, yn y Baradwys fry;
Ei hafaidd dŷ ar gadarn sail y Ddinas risial sy:
Cwrelaidd, pur, anfarwol wrid addurna'i hawddgar rudd,
Ac ar ei ben mae coron brid, yn mro tragwyddol ddydd.

“Mae'r glaswellt yn gudynau hir, dan berlawg wlith y wawr,
A blodau'r dydd is cawod ir, oddeutu 'i fedd yn awr;
Ond O! yn yr anfarwol fyd, mae tlysaf flodau'r Nef
Yn goron bleth, o nefol bryd, o gylch ei ruddiau ef!

“Mae'r dydd yn d'od pan glywir bloedd yn siglo seiliau'r byd;
Cnul amser canu wneir ar g'oedd, trwy anian faith i gyd:
Pryd hwnw, gyda nefol wedd, i Dir y Bywyd â;
Heb boen datoda cloiau'r bedd, o'r llwch cyfodi wna.

“Dan nawdd angylion, enyd fach a dreulia ef mewn hûn;
Ond deffry eto'n hardd ac iach ar ddelw Mab y dyn;
Mewn hedd teyrnasa wedi hyn, yn santaidd enaid byw,
Dros byth ar dêg, wyrdd-ddeiliog fryn, gerllaw i orsedd Duw.”

Coleg Aberhonddu, 1843.

M A R W N A D

Y PARCH. SAMUEL JONES, MAENTWROG, YR HWN A FU FARW
TACHWEDD 1AF, 1843.

YSBLENYDD belydrau yr haul ymgiliasant,
Dan gwrlid y cyfnos yr hun a byd;
O'r nenfwd oleulas y sér a belydrant,
A gwyneb ein daear arianant i gyd:
Noswyliodd y lleuiad, a chiliodd i huno,
Ar fynwes yr eigion gogwyddodd ei phen;
A'i dônau arianlliw sy'n araf ymchwyddo,
Er siglo i gysgu frenines y nen.

Yr awel aeth adref—nid oes ond lionyddwch
Yn eistedd yn effro drwy anian yn awr;
Ymsüodd y ddaear ei hun i dawelwch,
I aros yn ddystaw am doriad y wawr:
Ust! trom waedd wylofus sydd yna'n dyrchafu!
Pwy weithion sy'n ochain a wylo mor syn?
Ah! Sion sydd yma, â'i mynwes yn gwaedu,
A'i chalon yn toddi gan brudd-der fal hyn:—

“Mewn byd pechadurus yr ydwyf yn teithio,
Yn nôd i elynion aneirif, a'u gwawd;
Trwy ddyffryn wylofain myfi wyf yn rhodio,
Mal anial bererin blinedig a thlawd:
Dwfn yw fy archollion, trwm iawn yw fy ngalar,
Nid mynych mewn oesau bydd gwên ar fy ngrudd;
Trwy chwerwon gystuddiau gwermodaidd y ddaear,
Fy ngruddiau sydd leithion, a'm calon yn brudd.

“Wyf weithion yn wylo am golli fy meibion,
Y rhai yn eu blodau syrthiasant i'r bedd;

Pan welais eu codwm, llesmeiriodd fy nghalon,
 A chwmwl o drymder amdöai fy ngwedd:
 Pan oeddynt yn agor fal borau rosynau,
 A'u dail yn ireiddiol dan fân wlith y nef,
 Llem awel marwolaeth lwyr wywodd eu blodau,
 Y blodau oedd egwan, a'r awel oedd gref.

“Yr olaf a syrthiodd o'm meibion serchiadol
 Yw JONES o Faentwrog—disymwth ei dranc!
 Gan Angeu dyrswyd ei beiriant bywydol,
 Ei galon a ballodd tra nad oedd ond llanc!
 Pryd nad oedd ond iechyd, a hyfryd sirioldeb,
 Nerth, cysur, a bywyd, yn llanw ei wedd,
 Hen frenin y dychryn newidiodd ei wyneb,
 Diflanodd ei fwynder yn nghaddug y bedd!

“Rhwng creigiau Llanberis yr wyf yn ei gofio,
 Pan ydoedd yn fachgen deniadol a llon;
 I'm pebyll gwastadol y byddai yn rhodio,
 Mawr ydoedd ei awydd am sugno fy mron:
 Fal baban chwenychai y nefol ddidwylledd,
 Llaeth Gair y gwirionedd oedd iddo yn faeth;
 Cynyddai ei ddeall, blodeuai ei rinwedd,
 I fyddin fy Arglwydd yn addurn y daeth.

“Ei ben amgylchynid â helm iachawdwriaeth,
 Gan gochwridd cwrelaidd tlws ydoedd ei rudd;
 Ei gorff oedd wisgedig â'r ddwyfol arfogaeth,
 Ac yn ei ddeheulaw 'roedd tarian y ffydd:
 Ei lygaid belydrent gan serch ac anwyldeb,
 A thlyision oedd eurliw gudynau ei ben;
 Ond harddach na'r tlysaf o geinion marwoldeb,
 Addurnent ei wyneb, oedd grasau y Nen.

“Ymresodd yn forau dan faner fy Mhriod,
 Ei freichiau fu rymus, a'i fwa yn gryf;
 Bu loewon ei arfau, parhaodd ei gyfnod,
 Fal milwr ysbrydol, yn wrol a hyf:
 O'r maes ni enciliai, ond ffyddlon ymdrechodd,
 Nes cuddio'i amrantau gan ddunos y bedd;
 Ac yna'n ei glod yn orchfygwr yr hunodd,
 A hoen buddugoliaeth yn harddu ei wedd.

“Ar feusydd dysgeidiaeth am amser y rhodiodd,
 Ei blodau teleidion a'i llonent yn fawr;
 Ond dynol wybodaeth erioed ni addolodd,
 Uwch ydoedd ei olwg na phethau y llawr:
 Holl swynion llenyddiaeth nid allent ei ddenu
 I adael milwriaeth ardderchog y Groes;
 Yn myddin ei Arglwydd gwnaeth drwyadl ymlynu,
 A'i faner ddilynodd holl ddyddiau ei oes.

“Ond arswyd teimladwy ymdaenodd trwy Wynedd,
 Pan wywodd blodeuyn mor hawddgar a mād;
 Anobaith dirdynol, mal corwynt dialedd,
 Ysgubai lawenydd o fynwes y wlad:
 Mawr ydoedd y galar ar unwaith glybuwyd
 O bebyll holl Israel, pan gludwyd i'r bedd
 Un ydoedd drwy'i einioes yn addurn i fywyd—
 Un weithion sydd addurn i freinllys yr Hedd.

“Er llymed bro Bethel, dwg hòno ei blodau
 Yn arlant wylofus i harddu ei fedd;
 Aml lygad sydd barod i dywallt ei ddagrau—
 Y deigrwyn grisialaidd—tlws—olaf—a fedd.
 Yn ardal Sirhowy aml wyneb a olchwyd
 Gan ffrydlif o ddagrau, pan glywyd ei fod
 Yn gaethwas gan Angeu mewn cuddgell ddifywyd,
 A'i haul wedi machlud yn ngwanwyn ei glod.

“O dllyfro Maentwrog! uwch harddwch dy wigoedd,
 Uwch ceindeb swynyddol dy ddyffryn a'th ddôl,
 Yw'r adgof mai ynot bu cenad y Nefoedd
 Yn trigo, nes dianc o'i enaid i gôl
 Ei Arglwydd bendigaidd, ar orsedd Gogoniant,
 Lle'r eistedd mewn mawredd uwch gallu un enawd,
 A dynol linellau, i ddangos urdduniant
 Yr orsaf a leinw yn ymyl ei *Frawd*.

“O Eglwys Maentwrog! boed heilltion dy ddagrau!
 Boed drom dy ochenaid! boed uchel dy lef!
 Mae byddin Duw Israel yn awr dan ei chlwyfau,
 A llais ei hwylofain yn treiddio i'r nef:
 Cerddorion y goedwig beidiasant â'u trydar,
 Ciliasant i wylu dan gysgod pob llwyn;
 Dystawodd y dymestl i glywed ei galar,
 Arafodd y corwynt er gwrando ei chwyn.

“O Eglwys Maentwrog! nid afraid dy ddagrau,
 Am JONES ni chaed achos wylofain o'r blaen;
 O'i herwydd un amser ni wlychwyd fy ngruddiau,
 I ystlys plant Sion ni buodd yn ddraen:
 Trom, athrist, gan hyny, raid fod yr alarnad,
 Am un na bu wylu na gofid tra'n fyw!
 Ond weithian gan alar y llethir dy deimlad,
 Tydi sydd amddifad, a'th fugail nid yw!

“O Eglwys Maentwrog! dy fugail darawyd,
 Trom ydoedd yr ergyd—i'w galon yr aeth;
 Yn moreu ei lwyddiant ei lewyrch dywyllwyd,
 Ac yn yr anialwch dy adael a wnaeth:
 O ben mynydd Nebo esgynodd i'w gerbyd,
 A chwmwl a'i cludodd uwch trallod y llawr;

A thra y dysgwyliet am iddo ddychwelyd,
Efe a arweinid gan feibion y wawr!

“O Eglwys Maentwrog! tydi a fendithiwyd
A seren belydrai nes diffodd mewn mawl!
Ei goleu ysblenydd gan ddim ni thywyllwyd,
Nes machlud i godi yn nengylch y Gwawl!
Pob pelydr o'i heiddo i ti a gyfranwyd,
A thithau fu'n llawen wrth ganfod ei gwedd;
Dilynaist ei llewyrch, hyd nes y'th frawychwyd
Wrth weled ei suddiad yn nyfnder y bedd!

“O Eglwys Maentwrog! tydi gan Ragluniaeth
A freintwyd â bugail oedd addurn ei oes;
Yn ystod ei dymor ei lafur fu helaeth,
Er dwyn i dy feddiant drysorau y Groes:
Ei hun nid arbedai, ond llesiant llaweroedd
Oedd agos i'w feddwl—oedd fawr yn ei fryd;
Cur dwysaf ei galon, wrth drengu, hyn ydoedd,
A'i olaf ochenaid wrth adael y byd.

“O Eglwys Maentwrog! dy fugail a hunodd,
A llygredd marwolaeth yw amdo ei wedd;
Ond er iddo farw, yr Angeu ni lwyddodd
I gladdu ei gofiant yn oergell y bedd:
O na! bydd ei enw mewn parch ac anwyldeb,
Tra oesoedd ymdreiglant fal ffrydiau i'r môr;
Ni dderfydd ei goffa—bydd fyw mewn marwoldeb,
Nes adsain y bydoedd lais udgorn yr Ior.

“Aml ddeigrin o'i achos dros ruddiau ymlithra,
Aml galon waedlifa—dwn ydyw eu clwy';
Marwolion ni welant bob deigrin a syrthia,
Ond angel a'u cenfydd, a 'hed atynt hwy:
Eu gosod wna'n berlau yn nhlysau ei goron,
Pa berlau sydd harddach na dagrau o serch,
Y rhai ddylifasant dros ruddiau mor dlyision,
Pan luniodd yr Angeu gyflafan mor erch?

“Och! drymed fy ngalar ar ol fy ffyddloniaid!
Mor heilltion fy nagrau am geinion yr oes!
Gan chwerwder chwerw dirboenwyd fy enaid,
Wrth golli gwroniaid o fyddin y Groes.
Ai ICHABOD gerfiwyd yn awr ar fy muriau?
A beidia'r Gogoniant a'm dilyn yn hwy?
A ballodd fy llewyrch mewn marwol gymylau,
A'm haul wedi machlud i godi byth mwy?”

Gan ddwysion ruddfanau, y bruddgerdd derfynwyd,
A'r geiriau a foddwyd mewn dagrau yn awr;
Ond sydyn, fel mellten, yr awyr oleuwyd
Gan gwmwl goleuwyn prydfarthach na'r wawr;

Uwch Sion dynesai—ac angel o hono,
 Yn ddysglaer dryloew gan belydr y Nen,
 At Sion a welid yn cyflym brysuro,
 I sychu ei dagrau, a chynal ei phen.

“Ust, Sion!” dywedai, “rhy drwm yw dy alar;
 Os collaist dy *blentyn*, mae’th Briod yn fyw!
 Os Angeu orchfygodd dy Samuel hawddgar,
 Ni lwyddodd i siglo gorseddfaine dy Dduw!
 Os collodd y ddaear ei ymdrech a’i lafur,
 Tlws gwerthfawr enillwyd at berlau y Nef;
 Ymostwng, gan hyny, ger bron dy Benadur,
 Llawened dy galon—dystawed dy lef.

“Na wyla, er colli yr hoffaf o’th feibion,
 Tra byddo addewid dy Dduw o dy blaid;
 Ni syfl ei gyfamod, pe’r bryniau i’r eigion
 Ar unwaith ddisgynent, a’i gariad ni phaid:
 Pe syrthiai y ddaear gan drymder ei chamwedd,
 Pe cleddid y bydoedd yn ngheudod y môr,
 Dy Dduw a sylfaenai dy byrth mewn gorfoledd,
 Creawdwr y bydoedd Efe yw dy Ior.

“Draw edrych, y cwmwl yn fuan a gilia,
 Bydd sain Haleluia yn llenwi y byd;
 Uchelfloedd Hosanah drwy’r bydoedd adseinia,
 I feddiant dy Briod daw’r ddaear i gyd.
 Hardd wisgir yr anial â nefol rosynau,
 Blodeua’r diffaethwch yn dllysach na gardd;
 Rhydd blodau Paradwys eu hoff beraroglau;
 Y ddaear waredir, a’r Nefoedd a chwardd.

“O, Sion! na wyla, os ydyw dy Iesu
 Yn harddu ei goron â pherlau o’r byd;
 Nid ydynt ond perlau a gawsant eu prynu
 A phur-waed ei galon—y taliad oedd ddrud:
 Nid gweddus i’r ddaear yw wylo’n adfydus,
 Na grwgnach am destun gorfoledd i’r Nef;
 Bydd dawel, O Sion, a chofia mai melus
 Ymostwng i’th Arglwydd,—O cred ynddo ef!”

Llawenu wnae Sion, ac yna yr angel
 Esgynai i’r cwmwl yn ol tua’r Nen;
 Chwyrn gludid ei gerbyd ar aden yr awel
 Goruwch i’r ysblenydd ardaloedd uwchben:
 Ar ol cyrhaedd Gwynfa, adroddai fod Sion
 Yn sychu ei dagrau, a diolch i’w Phor,
 Fod JONES, ei hanwylyd, yn mhlith anfarwolion,
 O amgylch gorseddfaine dragwyddol yr Ior.

JONES yntau a wenai wrth glywed fod dagrau
 Yn cael eu dyhidlo o amgylch ei fodd;

“Ychydig,” dywedai, “ŵyr daear am dônau,
 Na melus anthemau, telynau yr Hedd:
 Ni wylai cyfeillion, pe medrent amgyffred
 Gogoniant fy ysbryd mewn bywyd a hoen;
 A Sion ni chwynai, pe gallai ond gweled
 Mor hardd ydyw coron gogoniant yr Oen.”

Y dydd sydd yn tori, a Sion ddystawodd;
 Ond lliwiau yr enfys, er tlysed eu gwawr,
 Ni allant arddangos yr olwg a welodd
 Ar JONES, yn ei urddas uwch blinfyd y llawr:
 Er weithion yr hun a mewn trymlyd oer garchar,
 Mae swynion anfarwol yn harddu ei wedd;
 Na rodder ochenaid, darfydded pob galar,
 Na wyled ond *llawryf* eu deigr ar ei fedd.

ENGLYNION I DWARKANAUTH TAGORE,

TYWYSOG INDIAIDD DYSGEDIG, AR EI YMWELIAD AG EISTEDDFOD
 Y FENNI YN HYDREF, 1845.

(Cynygiodd yr Arglwyddes Hall yn yr Eisteddfod wobr am yr Englynion
 goreu ar y testun uchod. Dranoeth derbyniwyd wyth o gyfansoddiadau.
 Rhanwyd y wobr rhwng Ieuan Gwynedd a William Morgan, Gellideg.)

Is haul awyr Siluria—yn eistedd,
 Mewn astud gynullfa,
 Mae arwr a dewrwr da
 Ymylon Himalaya.

Lliw y croen, llaw y Creawdwr—a'i dododd,
 Nid ydyw gamliwiwr;
 Un fron, un galon â'r gwr
 Ni ydym, un ein Hawdwr.

Rhanai Duw yr hen diroedd—i Gymry,
 Ac amryw genhedloedd;
 Doe yr hyfryd enyd oedd
 I asio rhwyg yr oesoedd.

O randir y fawr India—y doethwr
 A deithiodd hyd yma;
 Daeth i ganfod diwrnod da,
 A Gwyl farddonol Gwalia.

“Cymru hen,” cymerai hi—y ceinwyl
 DWARKANAUTH TAGORE;
 Ar ei ben, yn y Fenni,
 Ger ein bron rhoes goron bri.

Diameu i'w wlad a'i dymor—ei fod
 Yn wynfydawl IFOR;
 Ei ogwydd ydyw agor
 Ei law fwyn, yn ail i fôr.

Bu urddas gynt i'w beirddion—a mawredd
 I'w mir delynorion;
 Aur a bri roid ger eu bron,
 A seigiau tywysogion.

Os daeth, ysywaeth, nos hir—o dristwch
 Drostynt hwy a'u brodir,
 A gwawr gain o'r Dwyrain dir
 Hil Awen adoleuir.

Ymlid y nos, ymledu wna—a'i mawredd
 Gomeriaith adfywia;
 Dydd hir, ar ein hen dir da,
 O'r Dwyrain fawr a dora.

Llaw Nef o lÿs Llanofer—hwn eilwaith
 I'w hen wlad a adfer;
 Hir einioes iddo raner,
 A rhad nawdd Mawrhydi Nêr.

AR FARWOLAETH

MR. LEWIS LEWIS, TREDEGAR, CYDFYFYRIWR YN NGHOLEG ABER-
 HONDDU, YR HWN A FU FARW IONAWR 10FED, 1846. GWEL EI
 GOFIANT YN Y DYSGEDYDD AM EBRILL, 1846.

Cwsg, fy mrawd, a thawel huna,
 O dan rwymau oer y bedd;
 Dryllia Iesu ei gadwynau,
 Geilw di i'r làn mewn hedd:
 Hyd nes del yr olaf ddiwrnod,
 Gwylia engyl uwch dy ben;
 Dros dy lwch y bydd eu hedyn
 Yn daenedig megys llen.

Saif yr haul yn llyw yr wybren,
 Cwyd y lleuad, megys cynt,
 Dros dy fedd, gan ffyrnig ruthro
 A'r ystormydd ar eu hynt:
 Ond ni thÿr y blin dymhestloedd
 Ar dy hirfaith dawel hûn,
 Nes y'th wÿsir i ymddangos,
 Er croesawu Mab y dyn.

Geill dy enaid chwareu'r delyn
 I anthemau pêr y Nef,

Tra mae'n calon ni'n ymrwygo,
 Gyda throm adfydus lef;
 Ond cawn eto gydgyfarfod,
 Uwch y beddrod oer a'i boen,
 I gydgadw gŵyl ddiddarfod,
 Yn mhreswylfod Duw a'r Oen.

AT EI FAM, AR EI DYDD GENEDIGOL,

MAWRTH 18FED, 1846.

FY MAM!—Pa fodd y teimlwch chwi,
 Os canig fèr anfonaf fi,
 I'ch anerch, yn lle llythyr rhydd,
 Ar hwn, eich genedigol ddydd?
 Eich plentyn ie'ngaf ydwyf fi,
 A mab eich henaint, gerwch chwi:
 Eich cofio, pan yn mhell fel hyn,
 Wna 'm llygad glas yn ddyfrllyd lyn.
 Na thybiwch, er fy mod yn mhell,
 Nad wyf yn fynych, yn fy nghell,
 Yn meddwl am fy anwyl fam,
 A'm cadwai gynt rhag cur a cham.
 Na! agos i fy meddwl i,
 A'm calon dyner, ydych chwi:
 Nis gall ond angeu beri nam
 I fy serchiadau at fy mam.

Anghofio 'Mam!—nis gallaf hyn,
 Tra b'wyf yn teithio yn y glyn;
 Ond ati hi, o ddydd i ddydd,
 Fy meddwl yn ehedeg sydd.
 Er rhaid oedd gadael mam a thad,
 Er mwyn yr hon adawai 'i gwlad,
 Mewn llwyr ymddiried ynof fi,
 Ni pheidiaf byth a'ch cofio chwi.
 Fel tég angyles, buoch chwi,
 Trwy nos a dydd, i'm gwylio i;
 Ac, yn eich cofio, gwnaf fy rhan,
 Pan ydych hen a llesg a gwan.
 Yr ydych, Mam, yn myn'd yn hen,
 Mwy trymaidd yw eich siriol wên,
 Nag yn y dyddiau dedwydd fu,
 Pan oeddych ieuanc, cref, a chu.
 Saith deg a thair o flwyddau 'ch oes
 Ddarfuant; ac yn ol nid oes
 Ond gyrfa fèr hyd lan y bedd,
 Ac oddiyno fry i Hedd.

FY MAM, da genyf wel'd eich bod,
 Er dyddiau blin, yn gallu d'od,
 Rai prydiau, i rodfeydd eich Duw,
 At ffrydiau pur y "dyfroedd byw."
 Cwyd hyn eich meddwl ar eich taith,
 Sydd wedi bod yn flin a maith;
 Cewch olwg ar y "Wlad sydd well,"
 Cyn esgyn i'r ardaloedd pell.
 Ffarwel, FY MAM!—i chwi a'm tad
 Cyflwynwn ein hanerchion mād:
 Os na chawn byth eich gwel'd yn nhref,
 Cawn gygyfarfod yn y Nef.

CATHLAU BLINDER.

I. Y CLAF.

Y CLAF a ganfyddais, a nodau y bedd
 Yn dewion a frithent ei ruddiau;
 Drwy argraff ei glefyd edrychai ei wedd
 Yn welw yn mlagur ei ddyddiau.

Y Claf oedd bellenig o freichiau ei fam,
 A rhyngddynt y cribog fynyddoedd,
 Yr anial wellt goedwig, a llawer hir lam,
 Ysgarent, a'r bryniau a'r cymoedd.

Y Claf ydoedd estron o fwthyn ei dad,
 A bryniau hen Feirion iachusol,
 Yn unig a thruan o'r anwyl hoff wlad,
 Lle triga ei geraint serchiadol.

O'i amgylch estroniaid ofynent ei hynt,
 Fel cwmwl yn cuddio yr heulwen;
 Nid tebyg eu lleisiau i effaith y gwynt
 Yn ymlid y nifwl o'r wybren.

Eu gwên ydoedd oerllyd, eu llais oedd yn wan,
 Arwyddion o fewnol ddibrisdod;
 Ac yntau, wrth ganfod mai hyn oedd ei ran,
 Ymsuddai yn ddyfnach i drallod.

Ei gell ydoedd lymlyd, a blodau y ddôl
 Nid oeddynt yn nghyrhaedd ei lygad;
 Ni welai drwy'r ffenestr ond dernyn o gôl
 Yr wybren, fel bwa o gariad.

Mor drymllyd i'r llygad oedd canfod ei boen!
 Blinderus oedd gwrando ei ruddfan!
 A meddwl mor gyflym y ciliodd yr hoen
 Fu gynt yn ei wneuthur yn ddyddan!

Nid hir bydd yr ymdrech, ond buan ei fedd
 A wlychir gan ddagrau rhieni;
 A'i frawd dywallt ddeigryn yn athrist ei wedd,
 Ac arall sydd dlysach na'r lili.

Ebrill, 1845, ar ol amryw wythnosau o gystudd trwm.

II. YMGOMIAD AM ANGEU.

ADDAS yw ar derfyn amser daflu ymaith bryder bron,
 Gweddus yw i'r meddwl godi uwch caledi 'r ddaear hon;
 Er nad oes i'r corff ond gwendid, hir afiechyd dybryd, dwys,
 Gall yr enaid wenu arno, er yn suddo dan ei bwys.

Buan, Amser, yw dy rediad, cynt na'r glwys oleuni glân,—
 Cynt na'r fellten gochwen, ddeifiog, yn ei fforchog, dorchog dân;
 Rhedaist â fy einioes ymaith, mae fy ymdaith fêr ar ben;
 Mae fy enaid bron ar gyrhaedd byd na choda'r byw ei len!

Rhaid im' edrych arnat, Angeu, er mor erchyll yw dy wedd;
 Rhaid im' edrych yn ddigyffro ar dy lym, angeuol gledd;
 Dyna'r cleddyf fydd yn fuan yn frathedig yn fy mron,
 Wele 'r min, cyn nemawr ddyddiau, dyr linyrau 'r galon hon!

Lled anhyfryd ydyw tremio ar dy greulon, atgas bryd;
 Ond, ai addas llygad-gauad ymadawiad byth â'r byd?
 Na, mi dremiaf ar dy bicell, ac ni chrynaf ger dy fron,
 Er mai ti yw llofrudd creulon holl drigolion daear gron.

Gwelaf di yn araf rodio, er rhoi diben ar fy môd;
 Edrych arnat 'rwyf er deufis, pan gwnai ddewis, gelli dd'od;
 Eto ni chaiff dy arafwch dd'rysu heddwch pur fy mron;
 Tyred yn dy flaen, a tharo, nes y syrthio 'r babell hon.

Angeu, er nad wyf ond ieuanc, rhagot ni arbedir fi;
 Ac nid ydwyf yn arswydo syrthio i dy faglau di;
 Er y rhaid i'm corff falurio, hirfaith huno, yn y bedd,
 Tawel iawn ar hyn edrychaf, gwenu allaf ar dy gledd!

Profais o bleserau bywyd, gwn beth ydyw adfyd du;
 Rhodiais drwy iselder tlodi, codais i esmwythder eu;
 Gwelais lawer cilwg aeldrom, gwelais fil o wenau llon;
 Rhedodd holl bleserau daear felly 'n gynar drwy fy mron.

Profais nerth y grymus deimlad, Cariad, a'i lywodraeth gref,
 Unodd fi â'r un ystyriaf yr hawddgaraf is y nef;
 Dyna hi, a dyna 'n baban, dyma finau 'r truan dad,
 Ar eu gadael yn amddifaidd rhwng dyeithriaid estron wlad!

Maent yn rhwymau cadarn, nerthol, eto dynol ydynt hwy;
 Eraill feddent rwymau tynach, cryfach, hirach, meithach, mwy;
 Hwy deimlasant awr eu drylliad, ac nid oedd eu teimlad hwy
 Ond yr un a'm teimlad inau, minau ni chaf ddyfnach clwy'.

Trwm yw gadael gweddw hawddgar,—trymder na ddarlunia dyn,
Cyn y caffo fenthyg Duwdod i'w adnabod ef ei hun;
Dryllia fil-fil o linyrau, sydd yn fyw gan deimlad pur,
Yfed diluw yw o drallod, bustl a wermod erchyll, sur.

Gadael baban, brathiad llymdost, sydd yn gloesi 'r galon, yw;
Ond y baban llesg a'r weddw gânt eu cadw gan fy Nuw;
Enaid! gwyddost pwy a'th dderbyn, onid Brenin mawr y Nef?
Cyflawn ymddiriedaist ynddo, byth dy ado ni wna Ef.

Clod a Gobaith, Parch a Mawredd, ymaith â'ch ynfydrwydd ffol;
Ewch o'm golwg, ciliwch, brysiwch, na ddychwelwch byth yn ol:
Draw ar unig gopa 'r mynydd, boed fy llonydd wely llaith;
Man priodol, mwyn, i'r prydydd, pan y derfydd poen ei daith.

Ddaear! beth yw 'th wael deganau? dyma Angau o fy mlaen!
Gwelaf fod ei saeth yn barod, edyn f'enaid sydd ar daen;
Dos, fy meddwl, i'w gyfarfod, gyda 'th elyn ysgwyd law;
Noetha 'th fynwes at ei ergyd, colli 'th fywyd yn ddi fraw.

Paid a chrynu wrth ei weled yn dynesu bob yn gam,
Mantais yw i dremio arno, well na phan y daw ar lam;
Paid a rhoddi un ochenaid, pan yr ysa 'i boen dy gnawd;
Cadw 'th ddagrau—wyla 'th briod, dy rieni, a dy frawd.

Wylai eraill, o ran hyny, pe y byddai iti 'n lles;
Ond ni wna y chwerwaf ddagrau attal Angeu i dd'od yn nes;
Weithiau daw mewn oer wasgfeun, weithiau mewn llewygon poeth;
Weithiau cuddia flaen ei bicell, weithiau dengys hi yn noeth.

Paid a grwgnach, pan y byddo cur y gwaed yn araf iawn,—
Pan fo 'r oerllyd chwys yn tarddu dros dy ruddiau y prydawn,—
Pan fo llanerch ar dy wyneb megys rhosyn coch y bedd,—
Pan fo 'th galon wan yn sefyll, na foed newid ar dy wedd.

Dal, pan wlycho tyner ddagrau eraill dy guriedig rudd,—
Pan ffarweliant âg ochenaid, safu di ar dalgraig ffydd:
Gwena ar dy brudd gyfeillion, chwardd ar Angau—gâd dy chwyth—
Cau dy lygaid, er eu hagog yn yr oror olau byth!

Hydref, 1846.

III. MARWOLAETH BABAN.

Fy maban hoff! mor fuan daeth
Dy oes i ben gan farwol aeth!
Fel deilen rydd y dygwyd di
Ar ddonau y cynddeiriog li'.
Ti wywaist, fel blodeuyn haf
Cyn gauaf oer. Dy lygaid claf
Gauasant dan gysgodau'r nos,
Fel blodau tyner ael y rhos.
Pan oeddwn i a'th anwyl fam
Yn gwênu ar dy wedd ddinam,

Ein gwên a droed yn alar dû,
 A threiddiodd drwy ein calon lu
 O brudd deimladau heb ymdroi,
 Pan ddarfu ti o'n breichiau ffoi!
 Gan ddwylaw oerllyd Angau erch
 Fe dorwyd holl linyrau serch!
 Y mêl a droed yn waddod sur,
 A'r galon siriol lanwodd cur!
 Er na bu ar dy wyneb wên,
 Ond golwg boenus, athrist, hên;
 Er hyny, gwan y galon yw,
 Wrth edrych ar blanigyn gwyw,
 A dorwyd gan y gwyntoedd croes,
 Wrth ddechreu ar ei egwan oes!
 Fy maban, cwsg! esmwythach fydd
 Dy hûn o fewn y gwely pridd,
 Nag a gefaist ar y fron
 A'th garai gyda serch mor lon!
 Myfi a'th fam cyn llawer lloer,
 Ddown atat ti i'r gwely oer!*

Pan ddygwyd di gan Angau dû,
 Gwnaeth erom gymwynasau cu;
 Cynhesodd i ni'r oerllyd fedd,
 Anwylodd wlad anfarwol hedd,—
 Dy gartref di, a'r lle, cyn hir,
 Gyrhaeddwn ni o'r anial dir,
 I gwrdd â'n JOHN yn ysbryd byw
 Gerbron i orsedd danbaid Duw!
 O hyfryd ddydd! ail fyw heb loes
 Marwolaeth drwy anfarwol oes!

Hydref, 1846. Ganwyd y baban Medi 15fed, a bu farw Hydref 22ain.

IV. BETH YW SIOMIANT?

BETH yw Siomiant? Tywyll ddû-nos
 Yn ymdaenu ganol dydd,
 Nes i flodau gobaith wywo,
 Syrthio megys deilach rhydd.

* Dy fam a ddaeth! a chyda thi
 Yn ddystaw, ddystaw, hun a hi!
 Wyth loer ni welwyd yn y nen,
 Cyn ar dy ol y plygai'i phen
 I fynwes bedd;—a chodwyd di
 I orphwys ar ei mynwes hi,
 Mewn newydd fedd;—ac yno'n gudd
 Eich hûn yn felus, felus sydd;
 A minau unig, unig wyf,
 Yn gwaedu dan fy nyblyg glwyf,
 A chrwydro fel drychiolaeth wyw,
 Yn methu marw—methu byw!

Ebrill, 1848.

Beth yw Siomiant? Pryf gwenwynig
Yn anrheithio gwraidd y pren,
Nes ymdaena cryndod drwyddo,
Er dan fraidd wlith y nen.

Beth yw Siomiant? Llong ysblenydd,
Nofia 'n hardd i lawer man,
Wrth ddychwelyd tua 'i phorthladd,
Yn ymddryllio ar y làn.

Beth yw Siomiant? Cwpan hawddfyd
Yn godedig at y mân,
Ac yn profi 'n fustlaidd wermod,
Yn lle bywiol felus win.

Beth yw Siomiant? Calon dyner,
Drom, yn gwaedu dan ei chlwyf,
Mewn dystawrwydd, pan o'i deutu
Y mae pawb yn llawn o nwyf.

Beth yw Siomiant? Cynllun bywyd
Mewn amrantiad wedi troi,
Ninaw ar ei ol yn wylo,
Yntau wedi bythol ffoi!

Beth yw Siomiant? Tad yn edrych
Ar ei faban tlws, dinam,—
Arno 'n gwênu,—yna'n trengu,
Pan ar fron ei dyner fam!

Beth yw Siomiant? Sylwi 'n mhellach
Ar y fam yn wyw ei gwedd,
Ac yn plygu, megys lili,
I oer wely llwm y bedd!

Beth yw Siomiant? Dim ond teimlad
Meddwl claf yn llawn o wae,
Pan yn canfod pob meddygon
Yn ei adael fel y mae.

Beth yw Siomiant? Chwenych bywyd,
Eto methu 'n deg a byw;
Yna plygu 'r pen i farw
Dan och'neidio—DYNA YW!

Mawrth, 1847, pan oedd Mrs. Jones yn glaf iawn, a'i hadferiad yn anobeithiol.

V. IN MEMORIAM *

C. J.,

OBITU APRIL XXV., A. D. MDCCCLXVII.
ÆTAT XXVIII.

BLIN yw llym arteithiau gofid, pan yn eigion mynwes brudd,
Y cartrefant hwyr a borau, heb ymadael nos na dydd;

* Er cof am C. J. (Catherine Jones). Bu farw Ebrill 25ain, 1847, yn 28 mlwydd oed.

Pwy all draethu 'r blinder yma, cyn ei deimlo yn ei rym?
Pwy a'i teimla, heb ymsuddo dan ei ddirdyniadau llym?

O fy mynwes! llwythog ydwyt o ofidiau chwerw-ddwys!
Trwm yw baich fy ngalarnadau, wyf heb nerth i ddal eu pwys;
Collais iechyd, collais faban—cyntaf—unig—tlws ei wedd;
A fy mhriod hoff a hawddgar ddygodd Angau cas i'r bedd!

Trom yw 'm calon, gwlyb fy llygad, cartref hiraeth yw fy mron;
Mangre galar yw 'm gwynebpryd, dyeithr wyf i deimlad llon;
Estron ydwyf yn fy nghartref, cerfiodd Angau yn fy ngwedd,
Mewn llyth'renau hawdd eu darllen, erchyll ddychryniadau 'r bedd.

O! pa iaith a lawn esbonia gyflwr fy nheimladau prudd?
Beth ddynoetha 'r pryf gwenwynig ysa 'm hedd o ddydd i ddydd?
Pa ryw eiriau gaf ddefnyddio, pan yn siarad am fy ngwae?
Nid oes iaith i'w osod allan oll yn gyflawn fel y mae.

Peidied haul y nef a chodi mwyach ar yr anial fyd!
Na thywyned seren olau mwy o'r wybren las ei phryd!
Nac ymdreigled ffrwd risialaidd byth o ochr y bryn i lawr!
A dystawed mwyn gerddoriaeth creadigaeth oll yn awr!

Peidied blodau teg y dolydd gwasgar pêraroglau mwy!
Na sisialed yr awelon eu hyfrydlon dônau'n hŵy!
Na foed arwydd o orfoledd yn un man o ddaear Duw!—
Prin dangosai 'r byd fel yna fy mlinderau aml eu rhyw!

Mi allaswn fod yn dawel mewn afiechyd nychlyd, gwyw;
Ni suddaswn er im' golli IOAN bach o dir y byw;
Ond pan rwygwyd o fy mynwes fy hawddgaraf briod lon,
Cefais glwyf nad oes a'i gwella tra b'wyf ar y ddaear hon.

Blwyddyn lawn sydd wedi treiglo er yr hwyr gwnaem ganu'n iach;
Ond at ddifa prudd-der calon, nid yw hyn ond enyd fach;
Ger fy mron y mae dy ddelw lesg, guriedig, megys pan
Yn arteithiau olaf Angau darfu dy anadliad wan!

Nid fel yna gynt y'th welais, ail y rhosyn oedd dy rudd;
Hawddgar oedd dy lednais amrant, megys amrant deg y dydd!
Bywyd oedd dy wên gariadus, melus oedd dy dyner iaith,
Tlysach na holl flodau daear oedd dy rudd dan ddeigrin llaith,—

Dan y deigrin fynych dreiglai pan o fewn i gysegr Duw,—
Pan wresogai 'th enaid hawddgar wrth y son am Brynwr byw;
Gwawr y rhosyn coch a'r lili oedd unedig yn dy bryd;
Ond y tegwch newidiasai Angau cyn dy ddwyn o'r byd!

Wrth dy gofio 'rwyf yn synu, d'rysu mae fy meddwl blin;
Gwelais ynot iechyd nwyfus, ond fe ddaeth tymestlog hîn;
Ciliai 'r gwrid, a'r cnawd a guriodd, darfu 'r wên mor llednais fu,
Ger fy mron nid oedd ond cysgod o dy berson prydfferth, cu!

Blin i'r meddwl yw adgofio, eto methu peidio mae,
Am y dyddiau hyfryd, dyddan, cyn y profem ddafn o wae;
Oriau llawn o bob hyfrydwch ellir brofi ar y llawr;
Ond y tymhor hwnw ddarfu, darfu megys mynyd awr!

O dynered oedd ein hundeb! cryfion oedd llinynau serch;
Ond eu dryllio wnaed yn fuan gan gynddaredd Angau erch;
Trwm oedd eistedd wrth y gwely, edrych arno 'n agosâu,
Gwel'd am bump o fisoedd meithion fod ei allu yn cryfhau.

Hwyr a borau, nawn a dû-nos, ddygent eu harwyddion prudd,
Fod ein bythol, drwm ysgariad yn nesâu o ddydd i ddydd.
Siarad weithiau am adferiad, yna siarad am y Nef,
Yna wylo dagrau heilltion, a dyrchafu athrist lef!

Gwenu weithiau ar ein gilydd, nes i'r llygad droi yn llaith;
Canfod pobpeth yn mynegu dy fod bron ar ben y daith;
Yna sychu'r cyflym ddagrau, edrych gyda siriol wedd,
Nes yr ail frawychai'r galon pan feddyliem am y bedd.

Ac o'r diwedd, daeth yr adeg iddi gefnu ar y byd,
Dirdyniadau poenfawr Angau ymddangosent yn ei phryd;
Rhaid oedd rhoddi'r cusan olaf ar y wefus oedd fel iâ;
Bloesgai'r tafod, gwibiai'r llygaid, llinyn bywyd tori wna!

Dyna yr ochenaid olaf, dyna'r llaw yn cwympto i lawr!
Sŵn y dymestl a ddystawodd, dystaw iawn yw'r cwbl yn awr;
Llwyd yw'r llygad, oedd fel seren, marwol-welw yw ei phryd;
Nid oes yma ddim ond Angau, bywyd sy mewn angen byd!

Rhaid oedd cilio o'r ystafell, Angau oedd ei harglwydd hi!
Cilio wnawn yn weddw unig, anial oedd y byd i mi;
Câr nid ydoedd ar fy aelwyd, yn y dymestl fawr ei grym;
Hiraeth wânai drwy fy enaid fil-fil o bicellau llym.

Weithiau syllwn ar ei darlun, siarad wnawn â'r papyr mud,
Tremiwn ar y lle'r eisteddai pan yn iach, nes oedd ei phryd
Yn adgodi megys bywyd, am ryw enyd, ger fy mron,
Yna deffro,—deffro i deimlo nad oedd ar y ddaear hon!

Trwm oedd edrych ar ei llyfrau, trymach ar ei hysgrif-law,
Cofio fod yr hon a'i lluniodd yn y beddrod oerllyd draw;
Methwn ddarllen ei llythyrau, gan y cof nad ydoedd mwy;
Llewyg-iasau lanwai'm calon, na wŷr dyn eu llymder hwy.

Pan yn rhodio yn fy nhrymder, Natur oedd yn clwyfo'm bron,
Chwith i mi oedd gweled unpeth yn meddianu golwg lon;
Gwnaethwn bron gusanu'r gwlythyn, am fod deigr yn ar ei rudd,
Dagrau oeddynt fy anwyliaid, hoff i mi bob golwg brudd.

Dyna rai o'r blin deimladau drigent yn fy mynwes wan,
Pan ddylaswn lawenychu mai nid daear yw ei rhan;

Yn lle meddwl am ei Nefoedd, meddwl am ei bedd a wnawn;
Duw fy Mhrynwr! maddeu imi, nid yw hyn yn ddoeth nac iawn!

Huna dithau, dlws fy enaid, er fy nagrau ar dy fedd;
Maddeu im', nid wyf yn wylo am dy fod mewn Dwyfol hedd;
Anhawdd yw i deimlad beidio hidlo deigryn, pan y mae
Calon glwyfus yn gorlifo, gan lifogydd mewnol wae.

Cwsg yn dawel—mae ein baban yna'n gorwedd gyda thi;
Cwsg yn dawel—fel y d'wedaist, buan deuaif atat ti;
Cwsg yn dawel—ail gyfarfod gawn uwch holl wendidau'r enawd,
Pan y gwisgwn anfarwoldeb pur ar ddelw'n hynaf Frawd.

Huna di—dy dymor gweithio ddarfu—cefaist fyn'd i'r wledd;
Dydd fy mhrofiad i sy'n para, er mor egwan yw fy ngwedd;
Purir fi drwy ddyoddefiadau, yna daw i ben fy nydd;
Gwylia droswyf o'r Uchelder, nes i'm henaidd dd'od yn rhydd!

Ebrill 25, 1848.

BEDDROD Y MEDDWYN.

Mi welais *wr ieuanc* yn neuadd ei dadau,
Ei lygaid wreichionent serchiadol belydrau;
Ei galon yn noddfa i chwantau nid ydoedd,
Ond ysgafn, fel ewyn ar wyneb y dyfroedd;
Bu'n hael a charedig, yn wrol ac addfwyn,
Ond heddyw mae'n gorwedd yn meddrod y meddwyn.

Wrth ganwyll y ddŷ-nos y buais yn tremio
Ar ddiffin *fyfyrwr*, yn astud ymchwilio
Dalenau difyrus croniclau yr oesau,
Neu ynte yn dilyn barddonol 'hediadau;
Helygen wylofus yn awr sydd yn achwyn,
Fod hwnw yn gorwedd yn meddrod y meddwyn.

Mi welais y *feinir* yn mlodau ei dyddiau,
Mwy swynol na'r rhosyn oedd cochwrid ei gruddiau;
Pelydrai ei llygaid fel sêr y goleuni,
Nes ydoedd ei hwyneb yn dlysach na'r lili:
Ond syrthiodd yn aberth i ddichell y gelyn,
Ac heddyw mae'n gorwedd yn meddrod y meddwyn.

Mi welais yr *henwr*, â'i laswallt arianaidd,
Ei gefn yn grymedig, a'i gamrau'n arafaidd;
Ei blant a yndrechent gyfnewid ei lwybrau,
Gan wlitho'u hymbiliau â llawer o dagrau:
Er amled y dagrau o'u llygaid fu'n disgyn,
Eu tad a ddisgynodd i feddrod y meddwyn.

Mi welais y *priod*, oedd unwaith yn gwenu,
Yn dyner ei galon, yn nghanol ei deulu,

Yn dechreu cyfeillach, ar aelwyd y dafarn,
A'r ddiod wenwynig sy'n gwatwar y cadarn,
Nes myned i'w deulu anwylaf yn elyn,
A syrthio 'n druenus i feddrod y meddwyn.

Mi welais *wraig* serchog yn gysur i'w theulu,
Babanod prydweddol chwareuent o'i deutu;
Ei hanedd yn wastad yn deml dedwyddwch,
A'i thrigfan yn gartref tangnefedd a heddwch:
Ond Och!—y newidiad!—y swynol ddyferyn
A'i dygodd yn isel i feddrod y meddwyn!

Do, gwelais y doniol *weinidog* yn sefyll
Yn nghanol yr eglwys, yn llywio y gwersyll;
Y wlad a enynid yn fflam o orfoledd,
Gan wreichion hedegog ei danllyd hyawdledd:
Ond syrthiodd, fel ynyd, a gwarth yn ei ddilyn,
Ac heddyw mae *yntau* yn meddrod y meddwyn!!

Yr *ieuanc*, yr *henwr*, a'r *gwrol* sydd yno,
Y *balch* a'r *iselfryd*, yn gydradd yn hõno;
Y *tad* a godymwyd gan fedd'-dod a'i faglau,
A'r *mab* fu o'r herwydd yn tywallt ei ddagrau;
Pob gradd fel eu gilydd, wrth yfed, sy'n disgyn
Yn dyrfa alaethus i feddrod y meddwyn.

HANES YR YSBIWYR,

GAN

YSBRYD TWM O'R NANT.

(Ymddangosodd y Gân hon yn "Almanac y Cymry" am 1849, cyhoeddedig gan Mr. John Cassell, Llundain, dan olygiaeth Ieuan Gwynedd).

HILIOGAETH yr hen Gymry
Erioed sy'n hoff o ganu;
Gwrandewch yn awr, mae genyf
I fawr a mân o'm deutu. [gân,

Mae'r wlad yn llawn o ddwndwr,
A chodwyd fi drwy'r cynwr';
Ac achwyniadau sydd heb ri'
Ar lyfrau tri Ysbiwr.

Mae pawb, o ben Caergybi
I dref Caerdydd, yn sylwi;
Cyrhaeddodd castiau'r gweilch
Lan Andras a Thyddewi. [di-ras

Wrth ddechreu, rhaid hysbysu,
Beth ddaeth a hwy i Gymru;
A deall pwy anfonodd gais
Am gael tri Sais i'n cablu.

Y gwŷr mewn dillad duon,
A elwir offeiriadon,
A'u dysgent i'n diraddio am
(Fel Balaam) lwgr wobrwyon.

Mae Cymru, er ys dyddiau,
Yn orlawn o gapelau;
Yr hyn sy'n gyru, fel wrth raid,
Barsoniaid o'u synwyrâu.

Mae'r gloch o hyd yn swnio,
 Heb nemawr un yn gwrando;
 A'r clochydd bron a myn'd o'i
 Ar Sul agŵyl, wrth dincio. [hwyl,

Mae hyn yn peri gofid
 I ambell Esgob hefyd,
 Nes ydyw bron a rhwygo'n flin
 Y llewis *muslin* hyfryd.

Mae'r sanctaidd Dad o Fangor,
 Mewn chwerw gyfyng gynghor;
 Pob capel yn ei olwg sy
 Yn debyg i ysgubor.

Llandâf sy'n uchel hërio,
 Na chafodd neb ei urddo,
 Os na r'odd Esgob ar ei ben
 Ei bawen wen i'w buro.

Mae Esgob call Tÿddewi
 Yn dweyd mai callach tewi,
 Ac ail ymdrechu prynu'r plant,
 Drwy geisio *grant* gan *Sioni*.

Ac Esgob gwyh Llanelwy
 Sy'n bygwth erchyll ofwy,
 Gan ddweyd gÿr Ysgol Sul ein
 I uffern, gâd ofnadwy! [gwlad

Mae teulu'r llan mewn cyffro,
 Am nad oes neb i'w gwrando;
 A holl gyfeillion llogell drwm
 Y Degwm, wedi digio.

Ni welodd neb fath helbul
 Sydd arnynt ambell Dduwsul,
 I gael cynnulliad dau neu dri,
 Heb gyfri'r ei a'r ceffyl.

Mae Eglwys yn Llanafan,
 Lle nad oes glochydd purlan,
 Heb geisio benthyc yno'n siwr,
 Ryw Ymneillduwr truan.

Mae llawer Llan fel hòno,
 Heb odid ddyn yn gwrando;
 Y glaswellt ar ei llwybrau gwyd,
 A'r wen-wisg sydd yn llwydo.

Wrth weled cymaint aflwydd,
 Bu nadau cás annedwydd,
 I ddeffro sylw'r Senedd bell,
 Er ceisio gwell trefnusrwydd.

Y Senedd ga'dd ei swyno,
 Wrth glywed chwedlau'r bendro;
 A hirion raffau ddarfu'n rhwydd
 O erchyll gelwydd goelio.

Anfonodd dri Ysbiwr,
 Pob un yn llwm gyfreithiwr;
 A'r tri yn Saeson uchel ben,
 I Gymru wen mewn ffwndwr.

Y tri wÿr awdurdodol
 A aent mewn brys rhyfeddol,
 I gasglu pob budreddi cás
 Yn llyfrau glâs anferthol.

Ca'dd *Lingen*, er ei helpio,
 Dri-wÿr; a dau â'r bendro
 Yn eu blino'n chwerw dost,
 Nes oedd yn gost eu gwrando.

I ran y swynwr Symon,
 Disgynodd pump lled wirion;
 Ygwaelaf yn y swydd ddi-barch
 Oedd was i ryw Arch-ddeon.

I ddilyn Henry Johnson,
 Y dodwyd Ioan Meirion,
 Ac Abram, Coleg Dewi sant,
 Fu'n d'rysu'r plant yn greulon.

Fel hyn y bu'r Ysbiwyr
 Drwy'r wlad yn ceisio bradwyr,
 I rod di erchyll anair du
 I deulu'r Ymneillduwyr.

Hwy ruthrent i'r ysgolion,
 Fel llöau o flaen cilion,
 Nes gwneud i lawer athraw bâs
 Droï'n wyneb-lâs yn union.

Hwy redent i bob bwthyn
 Yroedd o'i amgylch fochyn, [drws
 Nes gyru'r wraig oedd wrth y
 Yn ol mewn ffrwst a dychryn.

Os byddai'r fan yn dywell,
 Hwy chwiliant bob ystafell:
 O dan y gwely, a phob man,
 Na flinid gan ysgubell.

Os gwelent dÿ trwsiadus,
 Ymgroesent rhagddo'n hwylus;
 A gweled neb yn gwneuthur
 moes,
 Oedd hollol groes i'w h'w'llys.

Pan welent benbwl meddw
Yn cadw swm a berw,
A benyw feichiog mewn rhyw
lan,
Caent yn y fan eu helw.

Mae son fod rhai o honynt
Eu hunain mewn rhyw helynt;
A d'wedir, mai rhyw adgof blin
Yw tref Llanfyllin iddynt.

Hwy fuont mewn helbulon
Ysgeler drwy'r Ysgolion,
Ac mewn cyfyngder ar y daith,
Wrth wneuthur gwaith carthydd-
ion.

Bu un yn Llan Ffestiniog
Yn min cael pwyo'i benglog;
A helynt chwithig fu, ryw dro,
Ar gono yn Llangynog.

Llyncasai hwnw *froga*,
Oedd boenus iawn i'w gylla;
A mÿnai daeru wrth y plant,
Nad llyffant wnaethai loffa.

'Roedd bechgyn Coleg Dewi
Yn aml a'u penau 'n d'rysu,
Nesgofynlle'r oedd Eden ardd,
A'i ffrydiau hardd yn tarddu!

Mae son i Henry Penry
Fod agos iawn a rhynu;
A William Morris, meddant
hwy,
Fu 'n glaf o glwyf y geudÿ.

Bu Symons mewn gofidiau,
Pan aeth i drin y gwyrthiau;
A cheisio dywedyd am y modd,
A synodd ei asenau.

Ceiniogau oedd yn gynyg,
Am ateb ynfyd, chwithig;
A hyn oedd ffolaf gais pob lle,
'I fod e' yn wr boneddig!

Gwnae llawer o offeiriaid
Eu dilyn, fel bytheuaid;
A'u gyru wnaent yn mlaen, fel
chwain,
Neu bigau drain ysbyddaid.

Ac ambell Ymneillduwr
A drodd yn glamp o fradwr,
Gan dd'wedyd llu o bethau cás,
A duo'i dras i'r 'Sbiwr.

Bu Trevor, yr offeiriad,
Yn cadw swm anynad;
Ac am ferched tég Sir Fôn
Gwnaeth ddirfawr son a siarad.

Ac yntau Ficar Nefyn
A wnaeth ystori ddr-dÿn,
Nes tynu'r dref i'w gyfrif o
Yn ail i lo anhydyn.

Yn Nhroed yr Aur bu Lewis,
Yn dweyd yr hyn wnae ddewis,
Nes d'rysu yn ei rwyden gul,
Yn ail i ful anfedrus.

Bu dweyd yn Aberhonddu,
Nes aeth yr "*Haul*" yn bygddu,
Am fod gwell cablwr yn un man
Na Balaam Llanymddyfri!

Yn Buallt bu 'ffeiriedyn,
'Run fath a daear fochyn,
Yn ysglyfio pawb o'i flaen,
Heb brisio draen am undyn!

Ond "*Aberdâr*" yw'r gwron,
A wnaeth y prif orchestion;
Gwnaeth hwn baganiaid fwyn
Cynadwaen ei blwyfolion! [mwy,
Fe dd'wedir iddo, weithiau,
Lechwrian o gylch teiau, [gwedd
Er gweled merched tég eu
Yn gwisgo glanwedd grysau!

O bob rhyw adgas adyn
A draethai ddrwg ysgymun,
Fe haeddai "*Aberdâr*" y clod,
Yn bendod bu ar undyn.

Fel hyn bu'r hir ferwigau,
A'u brodyr *hwy eu clustiau*,
Yn chwilio'r wlad am chwe' mis
Ercasglu pwn o chwedlau. [crwn,
Ar ol eu cael yn gryno,
Hwy aethant oll i lunio
Rhyw dri o lyfrau gleision hyll,
Wnant yn mhob dull ein beio.

Gwnant feddwon o'n holl dadau,
Puteiniaid budr o'n mamau;

Cyhoeddant nad ym oll ond
Farbariaid hwyr a borau. [llwyr

Llon floeddio mae'r offeiriaid,
Mewn gobaith ychwanegiad,

A chael cyflog llawer mwy,
Am gadw'r plwy' yn wastad.

Fe synwyd yr holl Senedd,
Wrth ddarllen am ein llygredd;

Ac ni wŷr undyn beth a wnel
Sion Rusel yn ei rysedd.

Mae genyf un dymuniad,
Yn niwedd hyn o ganiad,
Sef, gweled Saeson balch eu cân
Mor lân a'r Cymry difrad.

Mae'r awrlais wedi llithro
Hyd haner nos—mae'n taro;
Ac ymaith âf, ar hyn o bryd,
I aros enyd etto.

CAN NEWYDD,

GAN

YSBRYD TWM O'R NANT.

Y MAE gan Satan waith bob dydd
I'r dwylaw sydd yn segur;
A'u gyru wna ar ambell bryd,
I fod yn enbyd brysur.

Nid allant hoffi bara rhâd,
Er maint eu nâd dros dlodion;
Ac er yn Ymneillduwyr hy',
Rhaid gwenu ar Esgobion.

Beth yw yr ysfa sydd yn bod
Am enill clod Eglwyswyr?
A'r dwr dio geir o ddydd i ddydd
Ar benrydd Ymneillduwyr?

Os credwch yn nwyfoldeb Baal,
Cymerwch dâl ei allor;
Ac os gwnewch drosto godi'ch llef,
Cymerwch ef yn flaenor.

Os ydyw Ymneillduwyr gwlad
I gyd yn llygad groesion,
1851.

Odd'wrthynt brysiwch ymbellâu,
A chwithau'n gwel'd mor union.

Beth bynag wnewch er enill clod,
Ymdrechwch fod yn gyson;
Ac onide, cewch am eich swydd,
Waradwydd gan ynyfion.

Nid addas trethu torth y tlawd,
Er mwyn ei frawd cyfoethog;
Fel gallo fyw mewn palas cain,
A chadw'r butain halog.

Rhoi chwys y gweithiwr sydd yn
I dalu am bleserau; [gam
Nid iawn yw mathru cig a gwaed
Arlawr dan draed ein chwantau.

Blin gweled neb yn treulio'i oes
I fyw yn groes i'w broffes;
Trwm clywed Sant yn codi ei lais
I ganmol trais a gormes.

ENGLYNION I'R MILWRIAD K. TYNTE, A. S.,

LLYWYDD EISTEDDFOD Y FENNI YN HYDREF, 1848.

(Yr oedd 21 o ymgeiswyr. Rhanwyd y wobr o £10 rhwng Ieuan Gwynedd
a William Edwards, Ysgeifiog).

MAWL erys y Milwrydd,—un o hil
Hen haelwyr ein bröydd;
Kemeys lew, cymhwys lywydd,
Yn iawn bôr i'n hawen bydd.

Ar y maes, llyw grymusol,—cymhwys, teg,
 Yw Kemeys Tynte wrol;
 Asio wna hen oesau 'n ol
 A swyn yr oes bresenol.

F Y M A M .

BU FARW IONAWR 29AIN, 1849, YN 76 MLWYDD OED.

WEDI hir fwynhad o'i hoes,—a gweled
 Mai gwaeledd yw einioes,
 Hi, drwy ffydd, o'n daear ffoes,
 Ar alwad Rhoddwr eiloes.

Huna yn dy ddystaw wely,
 Blinaist ar helbulon oed;
 Uwch dy ben y cân yr adar
 Gerdd dy gwsg o frigau 'r coed:
 Llithra ffrydiau Iddon heibio,
 Er dy suo yn dy hûn;
 Pery hòno 'n dawel, ddedwydd,
 Hyd foreuddydd Mab y dyn.

Mwy ni swyna llais dy glustiau,
 Nes cyhoedda udgorn Nen
 Alwad hyfryd i ail fywyd,
 Gwynfyd na ddaw byth i ben:
 Trwy fy nagrau gwelaf forau,
 Pan gyfodi heb un clwy';
 Henffych forau 'r cyfarfyddiad
 Na bydd ymadawiad mwy!

EI BEDDARGRAFF.

Dyma dŷ gwely gwaeledd,—hyn yw rhan
 Yr hen gorff mewn llygredd;
 Ond ae 'r enaid i'r anedd
 Well, uwch byd na llwch y bedd.

“EWCH, A CHLODDIWCH FEDD I MI.”

EWCH, a chloddwch fedd i mi,
 Nid yw hwn ond byd o wae;
 Holl hyfrydwch bywyd cu,
 Fel y cwmwl, cilio mae:
 Nid oes i'r blinderus hedd,
 Ond tawelwch pur y bedd.

Ewch, a chloddiwch fedd i mi,
 Ydwyf yn bererin blin;
 Teithiais, â wylofus gri,
 Trwy dymestlog, enbyd hin:
 Nid oes genyf ond fy ffon
 Allaf wasgu at fy mron.

Ewch, a chloddiwch fedd i mi,
 Dan gysgodau gwyrddlas bren;
 Yno sua'r awel gu
 Anthem prudd-der uwch fy mhen:
 O mor hyfryd fydd y fan
 I'r ymdeithydd unig, gwan!

Ewch, a chloddiwch fedd i mi,
 Bron ar ddarfod mae fy nhaith;
 Yfais holl felusion byd,
 Ni bum heb ei wermod chwaith;
 Canu'n iach i'r ddaear wnaf,
 Mae fy enaid llesg yn glaf.

Ewch, a chloddiwch fedd i mi,
 Darfu holl fwynderau'r byd;
 Cofio am ddedwyddwch *fu*,
 Chwerw flinder yw i gyd;
 Ciliaf, trwy briddellau'r bedd,
 Draw i fyd o fythol hedd.

Ewch, a chloddiwch fedd i mi,
 Er tywyllled anedd yw;
 Ni raid i'r "daearol dŷ"
 Wrth anrhydedd uchel ryw:
 Yno bydd, nes sigla'r sêr
 Gan udganiad udgorn Nêr.

Ewch, a chloddiwch fedd i mi,
 Rhwygwyd holl linyrau'm hoes;
 Brysiwch, cloddiwch fedd i mi,
 Teimlaf ddechreu marwol loes:
 Isel, isel, rho'wch fy mhen,
 Nes y rhwyga cylch y nen.

Ewch, a chloddiwch fedd i mi,
 Ni arosaf yma'n hŵy;
 Byddwch wych—fy nghalon lesg
 Balla gan angeuol glwy':
 Bellach parod wyf i'r bedd,
 Iesu, derbyn fi i'th hedd!

AR FARWOLAETH MRS. EVANS,

FRIOD Y PARCH. D. EVANS, TREDEGAR, YR HON A FU FARW
YN 1849.

CYN henaint nac anhunedd,
Fe ddygwyd, bwriwyd i'r bedd,
Wraig dduwiol, oedd siriol sant,
Eginyn i Ogoniant!
Yn sydyn hon osodwyd,
Yn oer lawr y ddaear lwyd;
Ow siomiant! nid oes amod
Ar einioes fêr oes i fod!
Deua fel têt flodeuyn,
I urddo glwys ardd y glyn;
A chilia i'r llwch eilwaith,—
Mor ryfedd diwedd y daith!
Un dydd, o'i herwydd, mae haf,
A noswyl brudd y nesaf!
Y'moreu 'i dydd, am air da,
Ymwrthod ddarfu Martha,
A gwêniau, nwydau, a nod,
A buchedd ffol o bechod;
Dewisodd hi dywysiad
Llaw nefol ei Dwyfol Dad!
A dilyn wnaeth hyd elor,
Gywir daith, drwy gariad Iôr;
A bu ei llwybr gwiwbwyll hi,
Yn olynol oleuni,
Nes euro, megys seren,
Amgylchoedd bydoedd uwchben!
Fel Cristion, yn dirion dêg,
Hi redodd ei bêt adeg;
A digwyn y dygai iau
Yr Iesu dan ei chroesau;

Boddus ac addfwyn byddai,
Mor dyner a mwynder Mai.

O'i rhoi mewn bedd, dyfnfedd du,
Fath alar fu i'w theulu;
Am y Fam, mae'n rhwym o fod,
E boena ei babanod;
Hyll adwyth, a choll ydoedd,
A braw dwys i Briod oedd;
Oer hanes i'w rhieni,
Ydoedd gŵyl ei harwyl hi;
Archoll fawr ei cholli fydd,
A chur i'w holl chwiorydd;
A llwyr brudd fydd llawer bron,
Yn siriol Eglwys Saron.

Ond hyhi, y lili lân,
Esgynodd i'r lwys Ganaan;
Er huno'r corff, yr enaid
Sydd fry uwch y llety llaid;
Yn ail i'w gwir Anwylyd,
Uwch dagrau a beiau byd,
Yn doddi mawl i'r Duwdod,
Oll yn bur, heb wall yn bod;
A'i phabell, o'i hoergell hi,
Un diwrnod, heb laid arni,
Adferir; a harddir hon,
Yn ngolwg yr angelion
A'i galwant hi o'r gwely
Oer, i fro dysgleirder fry.

Medi 21, 1849.

ENGLYNION I WENYNEN GWENT,

AR EI DYCHWELIAD O LUNDAIN I GYMRU YN 1849.

CYMRU oll ddigoll ddyga—lawenydd,
O ail uno Gwalia;
A'i Harglwyddes, ddynes dda,
"GWENYNEN GWENT," hi gana.

Hi nodda awenyddion,—ei doniau
A daniant lenorion;
Mawr les ddaw i Gymru lon
Drwy ei huchel ymdrechion.

Llaw Nef yn llŷs Llanofer—a weinio
 I'r "WENYNEN" dyner;
 Rhâd a nawdd ar fyr rhoed NER,
 Wiw oedfa, er ei hadfer.

Tra bryn, a dyffryn, a dôl,—a thelyn,
 A thalent farddonol,
 Y bydd mād siarad siriol
 Y wlad hon am LADY HALL.

Y R A G E R D D .

YR ENGLYNION BUDDUGOL AR Y TESTYN YN EISTEDDFOD CYMRORION MERTHYR TYDFIL, NADOLIG, 1849. BEIRNIAD, EBEN FARDD.

ANYNAD gawr yn anian—yw'r ager,
 Wrth rwygo a chwiban;
 O wres dw'r uwch eirias dân
 Y deillia yn ffrwd allan.

Hwn, â nerth bron yn wyrthiol,—a lusga
 Ryw losgwrn anferthol;
 A dig wawch y dwg o'i ol
 Ei gawr-lwythau gorlethol.

I geufol ffordd-ogofau—y gwibia,
 Neu geu-bynt uwch tônau;
 Llawer cynt na'r gwynt y gwau
 Ar hyd crog bryd y creigiau.

Draw e rwyga drwy'r eigion,—a chwardda
 Uwch hyrddiad y wendôn;
 I farchog y daeog dôn
 Ef a ddonia hyf ddynion.

Nesu a wna ynysoedd,—ryw enyd,
 A ranai y dyfroedd;
 A chlûd, â'i flwng, wichlyd floedd,
 Doraeth y cyfandiroedd.

Arwyddion o wareiddiad—a heddwch
 Gyhoedda'i ddylanwad;
 Dwg feibion glewion pob gwlad
 I demlau cydymdeimlad.

Y R A R G R A F F W A S G .

YR ENGLYN BUDDUGOL AR Y TESTYN YN YR UN EISTEDDFOD.

PEIRIANT yw'r WASG sy'n peri—gwir addysg,
 Gwareiddiad, goleuni;
 Drwy ei nawdd, ein daear ni
 I ryddid sy'n ymroddi.

"DIAWL YR ARGRAFFWASG."

ELIS WYN o Lâs Ynys—o deulu
Y diawliaid oedd hysbys;
O'r anferth, c'uwch a'r enfys,
I ddiawl bach a ddaliai bÿs.

Ond diawl gresynawl y sydd—na welodd
Un Elis ei eilfydd;
Sura' diawl is awyr dydd,
Hagr awff, yw diawl argraffydd.

Ni thrin yn iawn lyth'renau,—a darnia
Gadernid brawddegau;
Try y *gwir* yn drawsder *gau*
Tra hyllig, trwy ei wallau.

Gallu a drydd yn *golled*—a *chwilio*
I *chwalu* gaiff fyned;
Yn lle *rhaw* o'i bwyll y *rhed*,
I *ddolen* trôa *ddyled*.

Du, salw, a di-sylwedd,—yw'r ellyll,
Er ei wallau rhyfedd;
Dawn neu fedr un dyn ni fedd,
I fesur drwg ei fysedd.

Ni feddir unrhyw foddion—i'w yru
I oror ellyllon;
Hèria weddiau hirion,
Ac ni ffy rhag egni ffon.

1850.

Y GWEFREBYDD.

YR ENGLYNION BUDDUGOL AR Y TESTYN YN RHYDYMEIRCH,
GWYL DEWI, 1850.

FE reibia y GWEFREBYDD—i'w wyfrau
Bob cyfran o newydd;
Yna rhed y gwefrdan rhydd
I'w daenu ar adenydd.

Trwy dyniad y Trydaniaeth—â llaw dyn,
Lledaenir hysbysiaeth;
Tân-hylif yn ddylif ddaeth,
I siarad negeswriaeth.

Ei nydwydd ffurfia *nodau*—olynol,
I lunio *lyth'renau*;
Ac o'u *silliad*, c'lymiad clau,
Daw agoriad y *geiriau*.

Y geiriau hwythau gariant—i ddigoll
Frawddegau eu syniant;
 Heb ball ar un, pell yr ânt,
 Arwyddion meddwl roddant.

Wele foddion celfyddyd—i dori
 Pellderoedd y crwn-fyd,
 Er uno mewn bwr enyd,
 Syniadau holl barthau'r byd.

Trwy dônau â'r Trydaniaeth—i gludo
 I'r gwledydd ohebiaeth;
 A diswn, ail hediad saeth,
 Y dwg eiriau, deg araeth.

Hyd oror cyfandiroedd—ei linell
 Flaenora y gwyntoedd;
 Drwyddo ef, heb lef na bloedd,
 Y cynadla'r cenedloedd.

A'i rymus feinion rwymau,—ynnysoedd
 Ddynesir fel plwyfau;
 E geir y boeth a'r oer bau
 Yn perthyn i'r un parthau.

Ni waeth i ladron weithian—neu leiddiaid,
 Heb lwyddiant eu hamcan;
 Digynwrf y dwg anian,
 Arch i'w dâl ar feirch o dân!

Fe roddir drwy *Wefryddiaeth*—yr addysg
 Wareiddia ddynoliaeth;
 I'r duon o'u cyffion caeth
 Y dyga waredigaeth.

I fasnach bellach y bydd—y fellten
 Ddifoltau'n genadydd;
 Ac ail i deg olau dydd,
 Ysgrifa neges crefydd.

Yna ceir byd mewn cariad,—a dynion
 Adunir mewn teimlad;
 Heb ddelwau, byw addoliad
 A rôant hwy i'r UN TAD.

ENGLYNION

I SYR BENJAMIN HALL, BARWNIG, A. S., A'I ARGLWYDDES,
 "GWENYNEN GWENT," AM EU CEFNOGAETH I GYMREIGYDDION
 Y FENNI. CYDFUDDUGOL A'R PARCH. E. JONES, CASBACH, YN
 YR UN EISTEDDFOD.

O'r Fenni, gan dorf unol—daw moliant
 Am haeledd gwastadol,
 A bri rhwydd, i'r BREYR HALL,
 A'i ARGLWYDDES ryglyddol.

Gweddus i Gymreigyddion—y Fenni,
 I fonedd mor dirion,
 Roddi o'u parch arwyddion,
 A geiriau brwd, ger eu bron.

Hwy noddant awenyddion—a'u doniau
 A daniant lenorion;
 Mawr lwydd ddaw i Gymru lon
 Drwy eu huchel ymdrechion.

Hwn a'i seren fwyn, siriol,—a fynant,
 O'r Fenni henafol,
 Oes hygar, dywysogol,
 I'r hen iaith ei rhoi yn ol.

Un enwog yw'r "WENYNEN,"—ei diliau
 Adeiliwyd âg awen;
 Hon a bâr wneyd Cymru'n ben
 Awdurol ein daearen.

Tra bryn, a dyffryn, a dôl,—a thelyn,
 A thalent farddonol,
 Pery mâd siarad sirioi
 Y wlad hon am LADY HALL.

 AWDL MARWNAD Y PARCH J. PHILLIP DAVIES,

DIWEDDAR WEINIDOG Y BEDYDDWYR YN NHREDEGAR.

CYNNWYSIAD—Galar Sion am ei Meibion—ei Thrallod—Symudiad Mr.
 Davies yn foreuol, annysgwyliadwy, a galarus. Ei ddyddiau boreuol—ei
 awydd ddidor i chwilio a barnu drosto ei hun—ei ymwrthodiad a golyg-
 iadau ei dad ar fedydd—ei ymroddiad i'r weinidogaeth. Ei nodweddiad
 fel efrydydd—ei hoffder o egwyddorion—ei syniadau ar athrawiaethau.
 Ei nodwedd fel gweinidog—ei lwyddiant meusydd ei lafur. Ei gystudd-
 iau a'i drallodion—ei ymorphwysiad ar y Gwaredwr—ei brofiad buddugol-
 iaethus—ei angeu tawel. Ei adail-fedd. Ei alwad i ail-fywyd— a'i wobrwyr
 nefol.

DRYLLIEDIG gan drallodion—a hiraeth
 O herwydd ei meibion;
 Gwlyb ei grudd, mor brudd ei bron,
 Is awyr ydyw Sion.

Hon wela ei hanwyliaid—a mwyniant
 Dymunol ei llygaid,
 Yn y bedd; a chlywn, heb baid,
 Ei chynhwrf a'i hochenaidd.

Ar eu hol y curia hi,
 Hir wyla'r dagrau heli,
 Blin yru ei blaenoriaid,
 Er eu llwydd, dan gaerau llaid;
 Colli y dynion callaf
 Yn eu hoes, a wna ei haf
 Yn auafaidd flin ofid.
 Yn ei llaw rhydd gwpan llid;
 Trywenir, brethir ei bron,
 A chilia nerth ei chalon.

Draw dygwyd o Dredegar—Henadur
 Hynodol o hawddgar;
 Gwas duwiol i gwys daear—symudwyd,
 Foreuol gyrchwyd i'w farwol garchar.

Dû ofid! PHILLIP DAVIES,
 O'i radd dda, orwedda is
 Clawr y bedd; clo ar ei ben,
 Dew orchudd, yw'r dywarchen.

O'i farw, Cymru firain
 Wyla mwy ar'i wely main;
 Edwinodd, dihoenodd hi,
 Lliw tristwch sydd oll trosti,
 A gloes ddaeth ar eglwys Dduw,
 Dû alaeth, megis diluw.

I'w wlad un anwyl ydoedd—ei ddoniau
 A ddenent ei miloedd;
 Athraw da heb eithriad oedd,
 Yn nifai ddysg y Nefoedd.

Ow! ei fwrw o'i fawredd
 Mor forau i barthau'r bedd!
 Ah! dygwyd ef o'i degwch,
 I waeledd llygredd y llwch.
 Cyn iddo beidio a bod
 Yn obaith ei gydnabod,
 Ffoi wnaeth i dalaeth y Dydd,
 Bro anwyl uwch wybrenydd.

Aeth yr enwog, graff athronydd,
 Da ei anian, a'r duweinydd,
 Y pur ethol, gamp areithydd,
 O lid a brwyn,* i wlad ei Brynydd.

* "Brwyn,"—"a smarting pain, anxiety," poen llym, pryder.

Rhagorol i farwol fyd,
 Y buodd ar daith bywyd,
 Ac er bod is caer y bedd,
 Llwyd, unig, oerllyd annedd,
 Uwch hōno, drych o'i hanes,
 Wna i lu o ddynion les;
 A dangos wna ei dynged,
 Werth ei Grist, a nerth ei gred.

O'i febyd, er yn faban—ni welwyd
 Anwylach nag IOAN;
 Dieiddig, hynaws, dyddan,
 O bryd glwys oedd y brawd glân.*

Yn ei dŵf, IOAN DAFYDD—oedd helaeth
 A hylaw ddarllenydd;
 A chlodawl, graff chwiliedydd
 I ddeddfau a ffeithiau ffydd.

Gwas i Dduw, e' geisiai dd'od,
 Dan obaith ei adnabod;
 Ymroddodd am wir addysg
 O Air Duw, yn oreu dysg.

Wrth chwilio, teimlo pob tyb,
 Un ffel oedd IOAN PHILYP;
 Yn blentyn dilyn ei dad
 Ni allai am daenelliad.†

Aeth heibio i wrthebiad—ei deulu
 Er dilyn ei syniad;
 I wir Duw, (uwch gair ei dad),
 Mor addas ei ymroddiad !‡

Mynodd cyn hir ei ddymuniad—o fod
 Ei fedydd yn suddiad;
 Ac yna daeth yn genad
 A gwas myg, i Iesu mād.

* "O bryd glwys," &c. Perthynai iddo lawer o hynawsedd, tegwch pryd, ac awydd anorfod i ddarllen o'i ddyddiau boreuaf.

† "Ni allai am daenelliad."—"Trwy ddarllen wrtho ei hun, heb na chymhorth na chyfarwyddyd, ond yn y llyfrau o eiddo ei barchedig dad, a ddeuai idd ei ddwylaw, ffurfiodd olygiadau am grefydd yn anghytunol âg egwyddorion yr eglwys yn yr hon y dygasid ef i fyny. Ffynai yr anghydsyniad hwn yn enwedig am yr ordinhad o fedydd; a chyn gwybod o hono fod dynion yn y byd yn awr yn bedyddio, fel yr ystyriai ef y dylasid, yr oedd wedi coleddu yn gydwybodol a chalonog feddyliau y Bedyddwyr am yr ordinhad santiaid hōno."—"Traethodau Mr. Davies," argraffiad Americanaid, tudal. 3.

‡ Ymddygiad tra chanmoladwy a mawrfrydig oedd dilyn yr hyn a dybiai yn wirionedd, er yn groes i farn ei dad a'i berthynasau. Ni olygir mwy, gan fod barn yr awdwr yn groes i'r eiddo Mr. Davies, ond y mae dyn yn ateb cydwybod dda yn deilwng o barch.

Ffurfiar, e fynai farn
 Ddysgedig, addas, gadarn;
 Ni wyrai i farn arall,
 Nid oedd ddyn o duedd ddall.

Barnai IOAN drosto'i hunan,*
 Yn y cyfan; yna cafodd
 Ddeall dyfnion egwyddorion,
 Hanfodolion ef a'u daliodd.

Hen ddefodau, traddodiadau,
 Arferiadau mawrfri hudol,
 Ef ni pharchai, ond myfyriai,
 Iawn astudiaai yn oestadol.

Am awdurdod cred a defod
 Mynai wybod; man ei obaith
 Ydoedd deddfau Llyfr y llyfrau,
 Bur adeiliau YSBRYDOLIAETH.

Y GWIR a fyddlon garai—ac wrtho,
 Er gwarth, yr ymlynai;†
 Ef yn llwyr, heb fwy na llai,
 Yn awchus a chwenychai.

Trwy ei addysg y treiddiodd—i'r dyfnaf,
 Y gwir uchelaf gywir chwiliodd,
 Ei fwyniant diball fynodd—a'i reol,
 Er aidd elynol, bur ddilynodd.

Yn ei boen, IOAN ni bu
 Yn ei wrthod, na'i werthu;
 Ond prynodd, mynodd y mael,
 Er ei dywydd, wr diwael;
 A daliodd hyd ei elor—i gredu
 Ei fod i'w resu yn brif drysor.

Yn gry' ei duedd at iawn gredöau,
 Nid swn gorwag, neu adsain geiriau,
 Efe a ddaliodd ar rydd feddyliau;
 A'r aidd a ledodd eglur ddaliadau,
 A barodd hwyr a borau,—nes yr aeth
 O fyd y galaeth i wynfyd golau.

Yn wastad ei fwriad fu
 Dwyn gwir a dyn i garu

* Gwel ei Draethawd ar "Ymofyniad Rhydd."—Traethodau, tudal. 9.

† Cafodd lawer o wrthwynebiad ac oerfelgarwch yn mysg ei frodyr, am ei fod yn pleidio barnau duwinyddol y diweddar Barch. Andrew Fuller. Efe oedd y pregethwr y clywsai rhyw hen bererin ei fod yn FFWLBERT, ac na allasai anturio yn nes na drws yr addoldy i'w wrando. Ond wedi clywed ei bregeth, dywedai mewn llawenydd, "Os FFWLBERT wyt ti, FFWLBERT wyf finau."

Eu gilydd, er pob gelyn,
 I'w ffydd ef mor hoff oedd hyn!
 A hoffai gyd-amddiffyn
 Ewyllys Duw a lles dyn;*
 Dangos i'r byd ei angen,
 A IOR byw yn gywir Ben;
 Cysonai, a honai hawl,
 Llawn fedr yr OLL anfeidrawl

 A'i law y byd i lywio—angylion
 A dynion o danø;
 A dwyn eu bryd i uno
 Yn ei fawl amcanai fo.

 O'i gryfaf serch at grefydd,—y chwiliai
 Ei huchelion beunydd;
 Daliai â pharch adail ffydd,
 I'w ffiniau bu'n ddiffynydd.

 Yn addurn i Dduwinyddiaeth—y ceir
 Ei “Bynciau Athrawiaeth;”†
 O'i law dêg yn olau daeth
 Elfenau gwir Galfiniaeth.‡

 Chwilio'n hyf, a chwalu wnaeth
 Annhymer *Antinomiaeth*;
 Gollyngai, soddai ei saeth
 I wendidau *Undodiaeth*.

 A Gair Duw, y gŵr doeth,
 Maluriai dwyll *Mileriaeth*;§
 Tybiau eneidiau annoeth,
 Deolai hwnt o'r dalaeth;
 Llawn awydd beunydd y bu,
 I daenu iawn grediniaeth.

 Awr angau y Cyfryngwr—a rhinwedd
 Yr lawn at y cyflwr;
 Gwir radau y Gwardedwr,
 Ddaliai ef ger eiddil ŵr.

 Ei reidiol Offeiriadaeth—a gofiai,
 A'i gyfiawn Eiriolaeth;
 A rhin ei wych Freniniaeth,
 O glir nwyd, egluro wnaeth.

* “Gallu ac Anallu Dyn.”—Traethodau, tudal. 62, &c.

† “Traethodau ar amrywiol o Bynciau Athrawiaethol y Grefydd Gristionogol.” Dyma briwfaith Llenorol a Duwinyddol Mr. Davies.

‡ “Gwir Galfiniaeth.” Hônai Mr. Davies mai hyn a esboniai.

§ Gwelir yn ei Draethodau luaws o ymosodiadau grymus ar “Antinomiaeth, Undodiaeth, a Milineriaeth.”

A nododd Ddylanwadau—Duw Ysbryd*

Ar asbri meddyliau;
A diben ar gamdybiau,
Rhoi ei bwyll, yn ein gwâr bau.

Rhybuddiodd, dysgodd yn dêg,
Ni oeddod ar un adeg,
Gymhell y mawr ei gamwedd,
Drwy y Mab, i droi am hedd.

A galwodd ar y gelyn i weled
Y llid diarbed, tanllyd i'w erbyn;
Dododd yr anghredadyn, â'i eiriau,
I weled dechrau gwlad y dychryn.

Clîr ddangosodd, iawn y nododd
I eneidiau,
Lwybrau hyfryd i dir bywyd,
Er eu beiau.

A chodi wnai'r Iachawdwr—i olwg
Hen elyn ei Grëwr;
Euog, aflan ei gyflwr—rybuddiodd,
Hwn dueddodd i dderbyn Dyddiwr.

Ei goethion, ddwfn bregethau—â'u swynion,
A synent galonau;
Ail y gw lith, neu awel glau,
Ymledent dros deimladau.

A geiriau Nef agorent—fynwesau,
Is y gruddiau eu llais gyrhaeddent;
A digrif redai dagrau—boddineb
Hyd ael a gwyneb, er dal gwenau.

Da fugail, defaid fagodd,—yr ŵyn bach
I'r iawn borfa dygodd;
Y gweiniaid arnynt gwenodd—a dichlyn,
Heb ludd o'i derfyn, y bleiddiau darfodd.

Hoff yw enwi *Treffynnon*,—a *Lleifiad*,
Maes llafur ein gwron;
Hi *Caerludd*, da carai lon,
Hyf fawredd ei fyfyrion.

Ar ei daith, daeth y gŵr da
Yn ei ol i hen Walia;
Cydwylodd braidd *Cydweli*—(a chariad
Yn llanw 'i fwriad) a *Llanyferi*.

Ond dilys ffrwd ei dalent,
Yn rhywfodd a gafodd Gwent.

* Ar y testun hwn ac eraill, a enwir yn flaenorol, gweler y Traethodau.

Y fro hên a ddwfrhaodd—ei bronydd
 A'i brynïau amaethodd;
 Ei lafur drosti lifodd,
 A chnwd tew ei llanerchion todd.

Ffrwythau Iôn, o ddiffwyth âr
 Dygodd bro lom Tredegar;
 Ar ei meini oer menodd,
 Y lle drwg yn well a drodd;
 Llawer darn o'i haiarn hi,
 Dueddodd ef i doddi.

Llais Iôr, drwy holl *Sirhowy*—a seiniodd,
 A synwyd Cwm *Rhymwy*;
 E ganai mil, gwn, a mwy,
 Am obaith yn Nghwm *Ebwy*.*

Llewyrch ei gryf alluoedd—diledryw
 Belydrai'r ardaloedd;
 A gwawl Duw, goleuad oedd
 Yn nofio yn y Nefoedd.

Fe ledodd sawr ei flodau—ar awel
 Drwy awyr y "Gweithiau;"
 Pereiddiwyd, purwyd eu pau
 Anniddig â'i rinweddau.

O mor drwm, trwm y tro,
 I'w braidd fu awr ei briddo!

Rhedlif ei bur hyawdledd—o ffrydiau
 Amgyffredion rhyfedd,
 Attaliai, beiddiai y bedd,
 Yn rhediad ei anrhydedd!

Er nychu, o ran iechyd,—ei feddwl
 Orfyddai bob adfyd;
 Uwch law i boen wachul byd,
 Ei elfen oedd mewn eilfyd.

Yn ei ofid, tangnefedd,
 I rudd hwn, a roddai hedd;
 Llawn mwyniant, llon amynedd—ei heddwch
 A'i arafwch o hyd oedd ryfedd.

Er a ga'dd o chwerw gur,
 Ing oes o drwm anghysur,†
 Dal ei boen, fel duwiol, bu,
 A da was y Duw Iesu.

* *Sirhowy*, *Rhymney*, *Ebwy*.—Tri chwm y rhai a elwir ar enwau y tair afon a redant trwyddynt. Saif *Tredegar* yn Nghwm *Sirhowy*.

† "Ing oes o drwm anghysur." Annichonadwy desgrifio y gofidiau chwerwon a'i cyfarfyddasant. A'r un mor anhawdd mynegu ei dawelwch a'i amynedd yntau o danynt.

Yn dawel, dan ei dywydd,
 Rhagwelai y deuai dydd
 Diorfod, roddai derfyn,
 Heb un gloes, ar boen y glyn;
 A drych ei ffydd edrychai
 I wlad bur, heb lid a bai;
 Bro i gael gwir hael fwynhad—tragywydd,
 A byd digerydd, **BOD O GARIAD.**

Enw Duw i'w enaid o,
 A welid yn anwylo,
 Nes iddo, fel haul, soddi
 O'r wybren is llen y lli'.

Ar Iesu ei grêd arosodd—ei oll
 I'w allu gyflwynodd;
 I'w radau ymddiriedodd,
 A'i werth a fu wrth ei fodd.

A digryn ar "waed y Groes"—y pwysai
 Am hapusaf eiloes;
 Y drud lawn i'w enaid roes,
 A'i rinwedd, gysur einioes.

Toddodd ei flin gystuddiau—ei galon
 O'i gwaelaf elfenau;
 Yn aur gwych, drwy dynu'r gau,
 Ei purwyd yn y peiriau.

Dan ei loesion, hoen ei galon,
 Fuan giliodd;
 Nerth ei ddyddiau, yn ei iasau
 Angau ysodd.

Cnawd a chalon, â'i ergydion,
 Wnae'n rhwygedig;
 Ei alluoedd, o'i flaen ydoedd
 Ddiflanedig.

Gan ei boen, o gwyn y byd
 Y gŵyrai ef i'r gweryd;
 Ond yr enaid, er hyny,
 Welai Frawd yn y gwawl fry,
 A fu gynt mewn dwysaf gur,
 I'w ddal o dan ei ddolur.

A phan o'i afael y ffodd—y ddaear,
 Ar Dduw y gorphwysodd;
 Y dyfnaf wae nid ofnodd—a'i Briod
 Ni wnai ei wrthod, ei wên a'i nerthodd.

A gwas Iôn wrth agoshau—annyddan
 A diyngan frô cysgod angau,

A diffael lygad ei ffydd,
A'i gwelodd yn ddydd golau.

Llonai hwn yn llawn o hedd,
Agoryd drws trugaredd
O'i flaen, i ddwyfol annedd,
Uwch y byd a llwch y bedd.
Ebai efe, "Byw a fydd
Fy enaid, er afonydd
O dristwch lifant drosto,
Yn wych ei fryd, mewn iach fro.

"Iesu mawr a roes i mi
O'i oludoedd didlodi,
O'i draserch Nef yn drysor,
A hawl i gael nefol gôr.
Ar bren y'm cywir brynodd,—a gofyn
Y du elyn i'm herbyn dalodd.

"Diau fy lleiddiaid efe a'u lladdodd,
Angau a'i fyddin, er ing, a faeddodd,
I ddiail encil; y bedd a lyncodd;
A drwy ei allu ei farau drylliodd,
A'i uchelaf byrth chwalodd—er llefain,
Drwy ei ochain, holl uffern drechodd.

"A'i dirion iachawdwriaeth—y'm nertha,
Fe ddiogela y fuddugoliaeth."
Ni welwyd ei wên eilwaith,—ochenaid
Ro'dd yr enaid yn rhydd ar unwaith!

A chyda ei Iachawdwr—diyngan
Diangodd drwy'r llifddwr;
Ni soddodd, daliodd y dwr,
Gu enaid, er ei gynhwr'.

Ei farwol gorph a fwriwyd
I oer lan y ddaear lwyd.

Am ei fod yn y llwm fedd,
Ar ei ael y ceir heledd;
Ac oerlif dagrau ei wlad,
Am dano ar hyd-ddo rhêd;
Ac yno, tra byddo byd,
Adail fedd yn dâl i fod.

O! cerfier, rhodder ar hon
Argraffiad, darlleniad llawn
Eiriau brwd o ddyfnder bron,
Ar ei annedd, ŵr uniawn:—

“Yma'r aeth y mawr ieithydd—gem yr oes,
 Digymhar dduwinydd;
 Hiraethu am areithydd,
 Hyd awr barn, ei frodir bydd.”

Ond eilwaith ei gnawd elwir,
 O'i le du, i olau dir.

Esgora ymysgaroedd—y ddaear
 Ar ddirif had oesoedd;
 Duw o'i flaen gyfyd â'i floedd
 Holl feirwon tywyll foroedd.

Cwyd yntau o bau y bedd,
 I gynnal pwys gogonedd;
 A pha ryw gorph, hoff wr, ga
 Yr enyd synfawr yna?
 Ai egwan gorph o agwedd,
 Yr un fu yn yr hen fedd?

Daw, o lygredd dyfnfedd dig,
 Gre' adail anllygredig;
 DAVIES i fywyd dwyfol,
 Mewn hawddfyd, gyfyd o'i gôl;
 Pur adfer ei gorph prydferth,
 Eill ein Iôr, o'i ddiball nerth.

Puredig gorph ysbrydol—a'i hurdda
 A harddwch anfarwol;
 A'i ran ddarllenir o rol
 Henafaidd y wlad nefol.

Ar ddeg dinas teyrnasa,—ei Brynwr
 A'i breiniol gorona;
 A gesyd ef i'r “gwas da”
 Y bri a'i llawn wobrwya.

Mawrth 28, 1850.

BEDDARGRAFF Y PARCH. JOHN ELIAS.

TESTUN EISTEDDFOD LLANGFNI, MAI, 1850. ANFONODD IEUAN
 GWYNEDD Y DDAU DODDAID CANLYNOL I MEWN. ENILLODD Y
 BLAENAF YR ARIANLWS BUDDUGOL, A BARNWYD YR OLAF YN
 AIL OREU.

Ow! dyma arwr yn ngwlad y meirwon!
 Athraw i Gwalia fu, a'i thrigolion;
 A'i lais e daniodd ELIAS ei dynion,
 A'i Dduw, o'i gariad, ro'dd iddo goron;
 Ac wedi hir gadw hon—gwnai gilio,
 O fro y wylo, at anfarwolion.

O brif areithiwr! fu'n daniwr dynion;
 Ei wlad a alwodd at lu duwiolion;
 O'i hir oferedd, a'i gwag arferion,
 Efe a'i dygodd at Nef a'i digon:
 Ac ELIAS, was Duw Iôn,—fawrygir,
 Ei enw gofir yn hŵy nag Arfon.

MARWNAD ALUN.

BUDDUGOL YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHUDDLAN YN 1850.

LLE treigla yr Alyn* ei ffrydiau grisialaidd,
 Rhwng uchel glogwyni agenawg o galch,
 Gan lithro drwy'r graian â dwndwr murmuraidd,
 Yn mhell o rodleoedd yr ynyd a'r balch;
 Eisteddaf yn bruddaidd ar gareg fwsoglyd,
 Er adrodd ychydig o flinder fy ysbryd;
 Fy nghalon sydd glwyfus gan alaeth a thristyd,
 A'm henaidd a boethwyd gan ofid fel alch.

Pa le sydd gymhwysach i lunio 'i alarnad,
 Na'r manau gysegrwyd gan awen y Bardd—
 Y lleoedd lle unwaith, yn nyddiau ei gariad,
 Y gwelai bob careg a thorlan yn hardd!
 O tyred, fy Awen, i'r llwybrau boreuol,
 A rodiai mewn teimlad a thân awenyddol,
 Cyn gwybod o hono am flinder daearol,
 Na'r gofid yn fynych mewn bywyd a dardd.

O Alun! dy enw a egyr ffynonau
 Yn mynwes y Cymro, a mynwes y sant;
 Nid mynych y gellir dy enwi heb ddagrau,
 A dröant y ddwyrudd yn ail i ddwy nant;
 Ymblethodd dy enw o amgylch teimladau
 Dyfasant fel blagur, dan wllith dy ganiadau,
 Mor rymus, nes rhaid ei drosglwyddo gan dadau,
 Fel gair cysegredig, yn eiddo i'w plant.

Er gwywo o honot yn anterth dy fywyd,
 Cyn crymu dy ysgwydd, na britho dy ben,
 Ni threngaist nes gwneuthur dy adgof yn hyfryd,
 Trwy wasgar aroglau Efengyl y Nen;
 Ti weithiaist yn foreu yn ngwinllan y Nefoedd,
 A'th lafur a wnaethpwyd yn fendith i luoedd;
 Ac, er i ti ddianc, dy dduwiol weithredoedd
 Sy'n nghadw yn nghalon y Cymry ar len.

* Enw afon sy'n rhedeg trwy gymydogoeth y Wyddgrug. Tybir mai oddiwrth enw yr afon hon y tarddodd ffug-enw yr awdwr.

I sylw cyfodaist, drwy rym dy alluoedd,
 Ni chefaist dy feithrin o'r dechreu mewn gardd;
 Fel rhosyn yr anial, â sawr dy arogledd,
 Ennillaist laweroedd i sylwi mor hardd
 Oedd ffrwythau dy feddwl, er tyfu yn unig,
 Heb gyfoeth yn gwenu, na nodded pendefig,
 Nes gwneuthur yn noddwr Offeiriad parchedig,*
 A fedrai fawrygu athrylith y Bardd.

Dadblygodd dy dalent yn nyddiau dy lafur,
 Pan nad oedd dy hamdden na'th fantais yn fawr;
 Nid ydyw athrylith yn hoffi y segur,
 Ond mynych i'r diwyd y dengys ei wawr;
 Ac felly y grymus ymwelodd â thithau,
 Pan nad oedd i'th gynnal ond llafur dy freichiau,
 Hi dyner ddiwylliodd dy amryw gynneddfau,
 Nes tyfu o honot, a dyfod yn gawr.

Mewn caniad ac araeth dangosaist y mawredd
 Fel plentyn athrylith gyfranwyd i ti;
 Ar unwaith y gwelid yr hanit o fonedd
 Hen Awen y Tadau, urddasol ei bri;
 Ennillaist fwy gwobrwy na "Brwydr Maesgarmon,"†
 Pan daniodd dy Awen wladgarol adgofion,
 Am hen fuddugoliaeth yr Esgob a'r Brython,
 Pan wnaent "Aleliwia" yn fyrdwn eu cri.

Pan glywyd dy araeth ysblenydd ar "Undeb,"‡
 A hyfryd "Frawdgarwch," y teimlwyd dy nerth,
 Dy gadarn resymeg, a'th fywiog ffraethineb,
 A gawsant eu barnu yn emau o werth;
 Dy seren foreuol fel yna danbeidiodd,
 A'th haul o'r cymylau yn ddysglaer ymdorodd,
 Dy lwybrau ar unwaith â'i belydr oreurodd,
 Nes gweled o honot nad oeddynt yn serth.

Dan ofal caredig y noddwyr ennillaist,
 Gadewaist dy gartref am fro Aber-rhiw,‡
 I gyntedd dysgeidiaeth ar unwaith cyflymaist,
 I ddysgu ymroddaist y Lladin a'r Gryw;
 Odd'yno symudaist i lysoedd Rhydychain,
 Er maethu dy feddwl, oedd wreiddiol a chywrain;
 Llaw dyner Rhagluniaeth o hyd wnai dy arwain,
 Dy gwmwl a'th golofn oedd gofal dy Dduw.

* Y Parch. C. B. Clough, Wyddgrug, ydoedd ei noddwr ffyddlonaf.

† Awdl ac Araeth ar y ddau destun hyn, yn Eisteddfod y Wyddgrug, fuont y prif foddion i ddwyn Mr. Blackwell i sylw.

‡ Berriew, Swydd Drefaldwyn, lle y dechreuodd dderbyn addysg er ei gymhwyso i'r weinidogaeth.

Ar ol dy raddebu fel medrus lenorydd,
 Yn ol y dychwelaist yn addurn i'th wlad;
 Dy ddysg a'th dalentau gyflwynaist yn ufudd,
 Yn aberth i'r grefydd dderbyniaist yn rhad;
 Cymeraist dy orsaf fel gwyliwr yn Sion,
 Dy ddoniau lanwasant hen Eglwys Treffynon,
 A thra y gwneit wylio 'n ofalus dros ddynion,
 Diwellaist angenion dy fam a dy dad.

Mor hardd ydoedd gweled y mab yn gofalu
 Am dyner rieni yn noswyl eu hoes!
 Na chariad mabolaidd, pan fo yn gweithredu,
 Un nodwedd ar ddyn yn brydferthach nid oes;
 Yn hyn y caed ALUN yn dangos y cariad
 A dardda o serch, a dyledswydd, a theimlad,
 Nes ydyw y galon, ar ol ei gyflawniad,
 Yn wir wynfydedig, a rhydd o bob gloes.

Caed eglur ddangosiad, wrth adael Treffynon,*
 Mai gwresog y cerid y Cristion a'r dyn;
 Y praidd a gyflwynent gariadus arwyddion,
 Cyn gadael o'r prophwyd ei ardal ei hun;
 Yn mhlwyf Manordeifi ennillodd galonau,
 Y werin a swynodd â'i rymus bregethau,
 O flaen ei blwyfolion y bu ei esiamplau,
 Fel nefol lusernau, er arwain pob un.

Er llesiant y Cymry bu helaeth ei lafur,
 Gwybodaeth ei "Gylchgrawn"† oedd fuddiol a llawn;
 Ac er na wnaeth llwyddiant goroni ei antur,
 Ei gynyg oedd reidiol, a'i yndrech yn iawn;
 Yn fedrus a swynol y trefnai ei eiriau,
 Er gwneuthur yn amlwg ei goethawl syniadau,
 Nes yn y darlleniad y dygid teimladau
 I nofio yn hyfryd yn ffrydlif ei ddawn.

Eneiniwyd ei Awen âg ysbryd y Nefoedd,
 Ni lygrwyd ei phurdeb gan fwgdarth y byd;
 Er dangos yn helaeth ei rymus alluoedd,
 Ei weithiau aroglent gan rinwedd i gyd;
 Fel dyfroedd adfywiol i'r galon drallodus,
 Y rhedai yr Awen yn ffrwd dros ei wefus;
 Ei gerddi nid oeddynt i'r ofer a'r nwyfus,
 Ond i bererinion nefolaidd eu bryd.

Gan dyner wlith Hermon y cawsai ei maethu,
 Nid Awen estronol, baganaidd oedd hi;

* Ar ei ymadawiad, anrhegwyd ef â llestri arian gwerthfawr.
 † Cyhoeddiad tra buddiol a olygodd Mr. Blackwell.

Ei blodau a'i haeron wnae ALUN gysegru,
 Fel aberth ei enaid, ar allor ei Ri;
 Os chwythodd ei udgorn ar gopa Baalsephon,
 Gwnaeth hyny i ddangos gogoniant Duw Sion,
 Yn dymchwel yr Aiphthiaid yn ymchwydd yr eigion,
 Gan wneuthur eu beddau yn mynwes y lli'.

Ac yn ei alarnad bruddglwyfus am HEBER
 Mae maeth i'r siomedig, a chysur i'r blin;
 Ceir ynddi ymddiried yn Nuw a'i gyfiawnder,
 Sydd lawer melusach na'r neithdar a'r gwin;
 Ei hoffwaith oedd dangos trugaredd i ddynion,
 A'u hanog i bwyso ar sicr addewidion
 Y Tad sydd yn barod i dderbyn afradlon;
 Hyn ydoedd melusaf acenion ei fin.

Rhy fore, O ALUN! gadewaist y ddaear,
 Er nad yn rhy gynar i ddyben y Nef;
 Diflenaist pan ydoedd dy lwybrau yn hawddgar,
 Gan adael dy weddw yn athrist ei llef;
 Bèr iawn fu eich ymdaith yn myd y gofidiau,
 Ac er yr addurnwyd eich rhodfan â blodau,
 Disymwth derfynodd yn nglyn cysgod angau;
 I'r weddw rywioglan bu'r dymhestl yn gref.

Yn hafddydd dy gysur disgynaist i'r beddrod,
 I orphwys yn dawel yn nyfnder ei gell;
 O'th ol y gadewaist helbulon a thrallod,
 Dy Dduw a dy ddygodd i ardal oedd well;
 Ond eto ni gofiwn dy ddysglaer rinweddau,
 A'th enw a erys o fewn ein mynwesau;
 Dy GEINION hawddgaraf drosglwyddant dy dlysau,
 Fel gemau ysblenydd, i oesoedd sydd bell.

Ar gofres athrylith dy enw a gerfir,
 Gwladgarwch a gyfyd gôf-adail fo'n hardd;
 Uwchben dy oer anedd yn fynych y gwelir
 Y deigr yn llithro o lygad y bardd;
 Gan lawer athronydd dadlwythir ochenaid,
 Y gwladwr llafurus fydd orlawn ei lygaid,
 Dy wlad a gyfoda i'th alw'n fendigaid,
 Ac adgof bytholwyrdd o'th feddrod a dardd.

Hen Alyn ei hunan yn unman o'i gyrfa
 Ymsudda yn ddystaw i eigion y llawr;
 Ar wyneb y ddaear y collir ei rhedfa,
 Hi red mewn dyfnderau o olwg y wawr;
 Ond eilwaith y gweithia ei hunan i'r golau,
 A mwy o rymusder yn rhediad ei ffrydiau;
 Ac felly un diwrnod daw ALUN o'i rwymau,
 I fyw yn oes oesoedd, a'i urddas yn fawr.

Boed iraidd y gw lithyn eneinia'th orweddfan,
 Boed dyner yr awel wrth laswellt dy fedd;
 Boed siriol y blodau addurnant dy drigfan,
 Na fydded o amgylch ddim athrist ei wedd;
 Ymwisged y cyfan â mantell llawenydd,
 Edryched y blodau yn hoenus a dedwydd,
 Fel arlun o'th enaid yn ngwyddfod ei Arglwydd,
 Yn gwisgo coronau gogoniant a hedd.

YR ADGYFODIAD.

TESTUN Y GADAIR YN EISTEDDFOD RHUDDLAN YN 1850. CYR-
 HAEDDODD Y BRYDDEST HON Y BEIRNIAID YN RHY DDIWEDDAR
 O UN DIWRNOD I'W DERBYN I MEWN I'R GYSTADLEUAETH.

RHAGNODIAD.

Ni syniodd awdwr y Bryddest-awdl ganlynol yr amcanai y Pwyllgor gaethiwo y Beirdd at yr ADGYFODIAD mewn ystyr gyfyngol, yr hon na olygai fwy na'r weithred o ADFERU BYWYD I GYRPH Y MEIRWON. O ganlyniad, cymerodd olwg eang ar y testun, ac ystyriodd ef fel PRIF NODWEDD CRISTIONOGAETH. Heb Adgyfodiad Crist, ni buasai yr oll a wnaeth yn gymeradwy; ac heb adgyfodiad y meirw, ni buasai yn teyrnasu hyd oni esyd ei holl elynion dan ei draed; ac heb yr athrawiaeth a'r canlyniadau hyn, ni buasai Cristionogaeth yn rhagori, ond yn ei moesoldeb, ar anryw grefyddau eraill.

Gan mai ADFERIAD ydyw yr Adgyfodiad, yr oedd yn naturiol sylwi ar gyflwr cyntefig dyn, fel derbynydd bywyd o law Awdwr bod a bywyd—fel pechadur yn ei golli—fel caethwas i Satan ac Angeu mewn canlyniad—ac ar drueni diobaith y byd pan yn anadnabyddus o'r athrawiaeth. Yr oedd yn rheidiol hefyd fwrw golwg ar foddion adferiad bywyd ac anfarwoldeb trwy Angeu Crist,—ar effeithiau dedwydd ei adgyfodiad ar y byd,—ar ragarwyddion, golygfeydd, a chanlyniadau y Dydd mawr ei hunan,—ac ar gwblhad cynlluniau mawreddus Duw, a'i feddyliau o hedd tuag at ddyn. Ar gynllun mor eang nid hawdd oedd cyfansoddi Pryddest-awdl fêr. Os bernir Caniad II. yn anmherthynol i'r testun, (ymddangosai i'r awdwr fel yn rheidiol i gadw ei unoliaeth), gellir ei adael heibio heb niweidio nemawr ar ystyr y caniadau eraill, y rhai a ddaliant gysylltiad uniongyrchol âg Athrawiaeth yr Adgyfodiad yn ei gwahanol ranau.

Gorph. 12, 1850.

Cenfydd y darllenydd oddiwrth y Rhagnodiad uchod, i'r Bryddest-awdl ganlynol gael ei hanfon i Eisteddfod Rhuddlan. Gan na chyhoeddwyd un math o feirniadaeth ar y cyfansoddiadau aflwyddianus, yn mhellach na dywedyd fod yn y dosbarth cyntaf "saith neu wyth o gyfansoddiadau o brydferthwch anghymharol, a chaniadau a addurnent lenyddiaeth unrhyw oes a gwlad," apeliais at un o'r barnwyr am adysgrif o'r feirniadaeth ar y cyfansoddiad hwn, ond ni chefais ateb. Anfonais at y Pwyllgor, drwy y Parch. T. W. Edwards, A.C. Atebodd y gŵr da hwn yn gyflym a honeddig-aidd, nad oedd y fath beth a beirniadaeth i'w gael, heblaw rhyw nodau cyfrinol o waith W. Jones, Ysw., y rhai yr oedd yn anhawdd iawn eu darllen. Dyma y rheswm fod y Bryddest-awdl hon yn ymddangos heb y farn a roed arni. Deallaf y rhesid hi yn BEDWAREDD. Yr oedd cyfansoddiadau tri o brif feirdd ein gwlad o'i blaen,—tri oeddynt wedi ennill y Gadair Farddonol yn barod. Oni buasai fod beirdd mor enwog wedi eu rhesu ar fy

ol, teimlaswn yn fwy hyderus yn nghywirdeb y feirniadaeth. Yn ol argoelion preserol, barn y cyffredin sydd i benderfynu teilyngdod y prif gyfansoddiadau a anfonwyd i Ruddlan.

Cyhoeddir y Bryddest-awdl hon heb hêrio neb na beio undyn. Cyfansoddiwyd hi mewn cystudd trwm, ac anfonir hi i fysg fy nghydwladwyr, fel offrwm calon ddiolchgar am athrawiaeth mor wynfydedig. Wrth edrych yn mlaen, nid oes i mi lawer o ddyddanwch heblaw ynddi hi, na nemawr o gysur ond wrth gofio, mai diddymwr Angau yw "yr Adgyfodiad a'r Bywyd."

Caerdydd, Rhag. 5, 1850.

IEUAN GWYNEDD.

"Goreu ym om Rheen ragfeddu
Rhwydd araith o brif iaith brydu
Pryddestawd i'r Drindawd draethu,
Traethfoliant teilyngdawd dalu."—ELIDR SAIS.

YR ADGYFODIAD.

"Canys yr Udgor a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a ninau a newidir mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr Udgor diweddaf."—PAUL.

CANIAD I.

RHAGARWEINIAD.

Yr Adgyfodiad yn ddatguddiedig—Mawredd y testun—Ei gysylltiadau—Dymuniad—Bywyd yn briodoledd hanfodol i'r Duwdod—Duw yn cyfranu ei natur i fodau eraill—Cyflwr gwreiddiol dyn—Effeithiau y Cwmp.

YN ngeiriau Naf mynegir am y dydd,
Y dygir caethion beddau byd yn rhydd,
Drwy ADGYFODIAD, ar ysbrydol wedd,
O'r meirw oll, a llwyr orchfygu 'r bedd;
O henffych well i'r wynfydedig awr,
Y chwyth yr udgor dros derfynau 'r llawr,
Nes dwyn o'r ddaear, a dyfnderau 'r môr,
Farwolion byd ynghyd at orsedd IOR!

O wyrthiau Naf, y benaf oll fydd hon,
Pe hebddi hi, ni byddai 'r Nef mor llon;
Ni welodd natur un gyffelyb wyrth,
I adfer cyrff o'r tywyll farwol byrth;
Ni chanfu bydoedd y fath ddwyfol rym,
Ni theimlodd uffern y fath gerydd llym,
Ni chlywodd dyn erioed lawenach iaith,
Ni chanodd engyl am gyfartal waith.

Hyn ddengys Dduwdod fel yn ffynon bôd,
A bywyd pobpeth oddiwrtho 'n d'od;
Hyn ddengys gynllun yn ymestyn o
Ororau Nefoedd i ddaearol fro,

Ac yn ei ol, drwy oesoedd maith y llawr,
 Fel cadwen gref at orsedd Duwdod mawr;
 Hyn daena wawl ar bob amhëus lîn
 Fu 'n destun d'ryswch i farwolion blin.

Er cyrhaedd hyn y treuliwyd oesoedd maith,
 I ddysgu dynion mewn aberthol iaith;
 Er cyrhaedd hyn y crëwyd engyl Nen,
 Ac y gadawodd Crist y Llÿs uwchben:
 Er cyrhaedd hyn bu rhyfel yn y Nef,
 Ac ar y ddaear, rhwng ei allu ef
 A gallu creulon yr uffernol Ddraig,
 Nes gwasgu 'r Iesu i oer fynwes craig:

Er cyrhaedd hyn, y taenwyd geiriau Iôr,
 I'r holl genedloedd ar y tir a'r môr;
 Er cyrhaedd hyn, goddefwyd byd i droi,
 Yn lle yn anwn ei dragwyddol gloi;
 Er cyrhaedd hyn, llewyrcha heuliau gwych,
 A myrdd o ser, fel un tanbeidiol ddrych;
 Nid ydyw 'r bydoedd ond fel eang sarn,
 Yn arwain pobpeth at weithredoedd Barn.

O ryfedd ddydd! y prif o ddyddiau Nef!
 Prif orchest Duwdod welir ynddo ef;
 Yr olaf weithred o fyrddiynau fydd,
 Try oleu haul ar bob dyfnderau cudd,
 Gan ddangos llwyddiant holl gynlluniau Duw,
 Yn adfer byd i anfarwoldeb gwiw;
 Y maith fydysawd, drwy bob eang barth,
 A wel elynion Iôr yn gwisgo gwarth.

Boed i mi nerth i dremio ar y wedd,
 A wisg y byd ar foreu datod bedd;
 Fy ngolwg redo o'r cynoesoedd pell,
 Hyd olaf awr yr "Adgyfodiad gwell,"
 Gan ddangos Duwdod yn ei oll yn oll,
 Heb adael rhan o'r ymdrech fawr ar goll;
 Boed i mi gael o'r cysegredig dân,
 Fel Esay gynt, i ysbrydoli 'm cân.

Cyn gosod cylchoedd anfesurool nen,
 Na theithio haul mewn cerbyd gwych uwchben;
 Cyn seilio ser y maith eangder fry,
 Na gwneud planedau yn ysblenydd lu:
 Cyn llanw Nef â phur seraphaidd serch,
 Na geni 'r byd o groth y Tryblith erch;
 Cyn crëu angylion glwys, na llunio dyn,
 Na byw o ddim, ond bywiol Iôr ei hun,

Teyrnasai ef ar orsedd gwynfyd pur,
 Heb deimlo gofid, nac unigol gur;

Rhaid oedd i'w natur fod yn fythol un,
 Heb goll, terfyniad, nac ataliad hûn;
 Di-ddechreu yw—di-ddiwedd hefyd bydd,
 A'i anfarwoldeb ynddo 'i hunan sydd;
 Ei nodwedd ef yw bywyd llawn, didrai,
 Heb un dibyniad, ac heb wendid bai.

Pan greodd fydoedd yn uchelder nen,
 A llunio maith orielau Gwynfa wen;
 Ei fywyd oedd yn eiddo ef ei hun,
 Difôd oedd engyl—ni chrëasid dyn;
 Nid ydoedd tafod a adroddai fawl,
 Na thraethu clod Creawdwr bydoedd gwawl;
 Ei bur ogoniant ymdywalltai 'n lwys,
 Ar rudd dystawrwydd, oedd yn huno 'n ddwys;
 Ond hwn a sylwedd ni theimlasant werth
 Pelydrau Nef, heb ddeall dwyfol nerth.
 Mynegai Natur fawr gadernid Iôn,
 Ond am ei hanfod, hi ni allai son:
 Am hyn rhoed bywyd i angylion gwiw,
 A chrëwyd dyn yn rymus "enaïd byw;"
 Cyfranai Iôn ei natur bur yn awr,
 Ysbrydion creodd yn y Nef a'r llawr;
 Bwriadu wnai wneud santaidd fôdau byw,
 Yn etifeddion anfarwoldeb Duw.

"Ychydig is" oedd dyn nag angel Nef,
 Daearol wisg amgylchai 'i ysbryd ef;
 Ond er ei fod yn gwisgo llen o gnawd,
 I'r gwychaf angel yr oedd ef yn frawd,
 A mab i Dduw, yn llawn anfarwol fri—
 Hyn ydoedd cyflwr ein cyn-riaint ni:
 Rhoed iddynt dêg baradwys Eden ardd
 Yn drigle hoff, cyn cyrhaedd Gwynfa hardd.
 I'r Wynfa deg heb os dygesid hwy,
 Heb deimlo gofid nac angeuol glwy';
 Heb ysgar corff odd'wrth yr enaid cu,
 Na 'i osod yn y marwol feddrod du;
 Ond cawsent hwy a'u hil newidiad gwiw,
 O drigle daear i baradwys Duw;
 Ond drwy i ddyn i Dduw yn elyn droi,
 A fflamawg gledd ffordd bywyd ga'dd ei chloi.
 Daeth dyn yn farw, ac wrth golli 'i chwyth
 Yn angeu, rhaid oedd iddo farw byth.
 Ei anfarwoldeb a adalwodd Duw,
 A marw wnaeth etifedd bythol fyw;
 A'i gorff yn aberth marwol lygredd aeth,
 Yn mhriddell oer yr athrist feddrod caeth.

CANIAD II.

GWRTHRYFEL A CHWYMP SATAN.

Cynlluniad y cwyp gan Satan—Cyflwr gwreiddiol Satan a'i angylion—
Eiddigedd a hunan-fyfyrdodau Satan—Llygredigaeth yr angylion—Rhyfel
yn y Nef—Syrthiad Satan a'i angylion—Eu cynghor rhyfel—Satan yn
cynllunio cwyp dyn.

Y golled fawr drwy ddig y Diafol ddaeth,
Ei ddyfais ef a ddygodd ddyn yn gaeth;
Y codwm tost gynlluniwyd ganddo ef,
Er atal grasol ddarpariadau 'r Nef.
Unwaith cythreuliaid yn angylion fu,
Yn Ngwynfyd Nen yn ogoneddus lu;
Borëol ser ysblenydd oeddynt oll,
A thêg eu gwedd, heb harddwch un yn ngholl.
Eu tegwch hwy oedd tegwch pur y wawr,
Eu nerth a'u deall oedd ryfeddol fawr;
Ysbrydion Duw, a meibion boreu wawl,
Pob un a'i lais yn llawn anthemau mawl;
Mor gyflym hwy a chwim oleuni nef,
Eu nerth oedd fwy na bollt y daran gref;
Ond trosedd Diafol a'u dylanwodd hwy,
Ac yntau bechodd ar y cyntaf drwy
Eiddigedd at ddedwyddwch teulu dyn,
A digder at y Duwdod pur ei hun.

Un pryd yn mawrion gymanfaoedd Nef,
Cyhoeddai Duw ei rasol fwriad ef,
O wisgo 'i Fab fel dyn mewn dynol gnawd,
A'i wneud drwy hyn i ddyn yn henaf Frawd;
A chodi dyn i wych orseddau Nef,
Drwy uno 'i natur gyda'i natur ef;
A d'wedai, "Pan â'm Mab i farwol fyd,
Angylion Duw, addolwch ef i gyd:
Pan wisgo gnawd, cydblygwch yn ei wÿdd,
A'i wyllo bydded eich gofalus swydd."

Eiddigai Satan weled urddas dyn;—
Beth? uno cnawd â Duwdod pur ei hun!
A oedd y pridd i esgyn gorsedd Nef,
Yn uwch ei fri, yn fwy ei barch nag ef?
Efe, yn flaenor holl angylion Duw,
I roddi lle i ddyn, greadur gwyw!
Ei galon falch ddychlamodd yn ei fron,
A'i balchder dig oedd cyntaf drosedd hon;
O ysbryd pur yn ysbryd aflan aeth,
Ac yn ei fynwes troai drwg yn waeth;—
"Myfi, prif ysbryd bywiog lengoedd Nen,
Myfi, i ddyn i grymu 'm huchel ben!

Myfi i ddyn, abwydyn gwael y llawr,
 I blygu glin yn ngwyddfod Nefoedd fawr!
 Myfi, y nesaf oll at orsedd Duw,
 I fod yn is na llwch!—anhyall yw!
 Os dewis Duw gyfamod gyda dyn,
 Gwell imi fod yn dduw i mi fy hun;
 Aed Duw a dyn a Nef o'm gafael i,
 Ond byth ni chollaf fy mhriodol fri.
 Os hoffa Duw iselder, yno aed,
 Ni thyna fi i'm sathru dan ei draed.
 Paham y rhaid i rymus ysbryd byw
 Ymgrymu 'n wael, a thalu parch i Dduw?
 Ai gwell yw ef na mi i dderbyn mawl?
 Pwy roddodd iddo ar ysbrydion hawl?
 Ai iawn ei fod, o'i danbaid orsedd wen,
 Yn llywio holl amgylchoedd eang Nen?
 I mi ni ddyry ran, nid wyf ond gwas,
 Ond gyda dyn, y mae am ffurfio tras.
 Wel, felly gwnaed,—ymuned gydag ef,
 Os myna ddyn—mi fynaf finau 'r Nef;
 Os myn y llwch, paham y rhaid i mi
 O wynfyd Nef, ei wasaidd ddilyn i
 Y ddaear wael. Mor eang ydyw 'r nen!
 Byd ar ol byd, a bydoedd byth heb ben;
 Myfi, er oll a deithiais filwaith drwy
 Ysblenydd fydoedd, ni amgylchais hwy.
 Er pelled bum ar lawer gwibdaith chwim,
 Y pellder oedd ar ol y cwbl yn ddim!
 Diderfyn faes, i'r aswy, de, uwchlaw,
 Goris, yn agos, pell, ac yma, draw;
 Os methu wna i gael ei orsedd ef,
 Mi fynaf orsedd mewn amgenach Nef.
 Aed at ei ddyn. Ond lluoedd Nef yn awr
 Dilynant fi; gwell ganddynt Nef na llawr.
 Bydd uwch eu bri o fewn fy nef fy hun,
 Na phe y cryment ger y Dwyfol ddyn.
 Angylion Nef i blygu 'n wir i ti!
 Pe plygent oll, byth, ВУТН, ni phlygaf fi!
 Yn natur dyn, y *Duwdod*, *daear* yw,
 Yn urddas Nef, gall *angel* wneuthur Duw!"

I fysg angylion mewn digofaint aeth,
 Darluniai iddynt eu sefyllfa gaeth;
 A ffrom eiddgedd llanw wnai eu bryd,
 Anogai hwy i ymfyddino 'n nghyd;
 O honynt lluoedd unent yn ei gais,
 Cyd-dyngent oll i enill Nef drwy drais;
 Neu seilio Nef mewn rhyw amgenach man,
 Na chaffai dyn na Duw o honi ran.

Ymuno gwnaent yn un filwraidd dorf,
 Heb un o'u mysg a chanddo galon lorf;
 Ymsymud wnaent fel anferth gwmwl du
 Yr gwyntoedd llymion drwy'r eangder fry;
 Pob un oedd ddewr, pob un âg uchel lef,
 Wynebai ar y RHYFEL YN Y NEF.

Cerbydau Duw i'r frwydr ymgasglent oll,
 O luoedd Iôr nid ydoedd un ar goll;—
 Byddinawg dorf, myrddiynau goruwch rhif,
 A glain eu harfau, megys haul ar lif;
 A thebyg oedd eu grymus waew ffyn
 I goedwig oesol ar ystlysau bryn.
 Eu rhawd oedd gyflym, ac o dan eu traed
 Yr awyr deneu megys marmor gaed;
 At luoedd Satan buan nesent hwy,
 A'r FALL o'u gweled gynddeiriogai 'n fwy;
 O'i ol cyflymai arfog luoedd brad,
 Adseiniai bydoedd uchel floedd y gâd;
 Arf yn ngwrth arf, adlamai gyda nerth,
 Fel maen treigliedig ar y clogwyn serth.
 Ymroliai'r gâd yn ail i dônau dig,
 Yn erbyn creigiau cedyrn, balch eu brig;
 Ar darian angel chwalai picell dân,
 Ymdaflai'n ol yn fyrdd o wreichion mân—
 Y cledd a'r helm—yr helm wrthdaflai'r cledd,
 Y cledd ddychwelai yn fwy ffroch ei wedd;
 Ysbrydion Duw gilgwthient lengau'r Fall,
 Ac yntau ail enynai'r gâd heb ball:
 Ond buan gan daranau cryfion Duw,
 A mellten ei ddig, eu tröwyd oll yn wyw;
 Ymlidiwyd hwy o holl ororau Gwawl,
 A bydoedd fyrdd gyd-ddyrchent fonllef mawl.

Drwy eigion awyr hyd i Anwn ddu,
 Fel mellten syrthiai'r gorchfygedig lu,
 Ac megys clogwyn wedi llithro bryn,
 Ymsuddent oll yn eigion tanllyd lyn;
 Chwyrn daflai hwn yn uchel dônau tân,
 Er ffurfio gwrthgerdd i'r nefolaidd gân.
 O'i amgylch codai ban glogwyni 'u brig,
 Ac oesol fwgdarth ar eu penau drig,
 Ac o'u crombilau ffrydio wnai yn gras
 Frwmstanaidd neint, yn ysol ffrydiau glas;
 Ac ar eu glenydd chwythai dreigiau hyf,
 O'u hamgylch trigai pob gwenwynig bryf.
 Byd megys hwn oedd cartref myrdd a fu
 Yn eistedd ar orseddau Nefoedd fry.

Ar ol i'r llu ymgodi yn y man
 O'r erchyll boethlyn, a chyrhaeddyd glan,
 Eu cynghor rhyfel cadwent mewn rhyw bant,
 A ddeifid gan hylifawg boethlyd nant;
 Ymrwygent oll gan lym angerddol ddig,
 Cynddaredd yn mhob mynwes euog drig,
 Collasent Nef, a'u colled oedd yn fawr;
 Ymdreiglai rhai mewn digder hyd y llawr,
 Croch alwai eraill am filwrol hynt,
 Er enill Nef a'i gwynfyd megys gynt;
 Ymsyniai rhai mai gwell oedd anfon llu,
 I chwilio holl gyffiniau 'r carchar du,
 A barnu 'n iawn am holl ansoddau 'r wlad,
 Cyn ail anturio ar ddifaïol gâd.

Ac felly bu; ond pan y crëwyd dyn,
 Rywbryd ymrodiai Satan wrtho 'i hun,
 A synio wnai ynghylch y mawredd glwys
 A roid i ddyn, ac ocheneidiai 'n ddwys.
 Ond buan syrthiai i ddigofus wŷn,
 Er dwyn i bechod a digofaint ddyn;
 Fel hyn cynlluniai am orchfygu Duw,
 A difa pur ddedwyddwch Eden wiw;—

“Wel, gan mai colliant yw fy mythol ran,
 Ac nad oes obaith am un nefol fan,
 Llywodraeth fynaf, er ei ddwyfol wŷg.
 Os da ei allu ef, a fyddai 'n ddrwg
 I mi ei ddilyn, a llywyddu 'r oll
 Sydd yma gyda mi o feibion coll,
 A mynu eraill,—os oes modd i'w cael—
 O'i deyrnas ef, ormeswr dig, anhael?
 Os hoffodd ef ardd Eden iddo 'i hun,
 Os yw am gael i uchder Nef y dyn,
 Beth fyddai dwyn y dyn yn was i mi,
 A'i gael i wadu ei ysbrydol fri?
 Ha! siomai hyn ei holl ddichellion ef,
 Ac, er ei engyl, byddai 'n wag ei Nef;
 Ond fi, os dyn i'm gafael unwaith cawn,
 Efe a'i hil wnaent Uffern imi 'n llawn;
 Am orsedd Duw, ei llanw caiff ei hun,
 Os gallaf gael i'm teyrnas deulu dyn.”

CANIAD III.

DYMCHWELIAD TEYRNAS BYWYD: GORMES-LYWODRAETH SATAN AC ANGAU.

Y cwmp—Ymadawiad Bywyd—Bwriad i adferu dynion—Rhaglywiaeth Angau—Adgof o'r Addewid—Ernes bywyd—Ei had-roddiad—Syniadau y byd am sefyllfa ddyfodol—Syniadau yr Israeliaid.

Cynllwynion Satan yn llwyddianus fu,
 Daeth dyn a'i hil yn ddeiliaid codwm dŷ;
 Collasant fywyd ac anfarwol hedd,
 Gan enill angau a phriddellau'r bedd.
 Yn Adda trengodd holl hiliogaeth dyn,
 Pawb oll syrthiasant, pan y cwmpodd un.
 Ar awr eu cwmp dadseiniai Uffern fawr,
 Ei gwyll a rwygid gan fuddugol gawr.
 Gorlonai Satan a'i angyllion drwg,
 A'u crechwen gref gynhyrfai'r oesol fwg,
 Nes iddynt dybied y caent weled dydd
 I'w rhoi o'u carchar yn ysbrydion rhydd.

Y byd yn awr yn eiddo Satan ddaeth,
 Ei ormes flin arosod ynddo wnaeth;
 Ar ei feddianu byth y rho'dd ei fryd,
 A'i uwchaf gais oedd bod yn DDUW Y BYD;
 Ei ormes-lywiaeth seiliodd yn mhob man,
 O'r isel ddyffryn, i'r mynydd-dir ban,
 O godiad haul i'w bell fachludiad ef,
 I'r llawr y rhwygodd holl fanerau Nef.
 Troi TEYRNAS BYWYD wnaeth yn dalaeth ddŷ,
 Rho'dd ANGAU 'n RHAGLYW i'w thrigolion tru,
 Ca'dd deulu dyn yn blant marwolaeth oll,
 Ac etifeddion annherfynol goll.

Ar drosedd dyn ffodd BYWYD tua'r Nef,
 Ni ddaliai'n hŵy gymdeithas lon âg ef;
 Ar deneu aden i'r wybrenau ffoes,
 I ŵydd yr Hwn i Eden gynt a'i rhoes;
 Gadawai ddyn dan drom angeuol wae,
 Ac yntau'n ddyfnach mewn trueni âe.
 Ond Duw feddyliai am adferu'r byd,
 Er byddai'r gwaith yn hirfaith, pwysig, drud;
 Ei Fab ymwystlodd i ddychwelyd dyn,
 A threchu Uffern yn ei nerth ei hun;
 Addawodd ddryllio holl ragfuriau'r Bedd,
 A brathu Angau âg angeuol gledd;
 Ysbeilio'r cadarn, a holl luoedd brâd,
 O'r deyrnas dêg oedd eiddo Duw ei Dad.

Teyrnasai Angau ar derfynau'r llawr,
 I'r llwch y dygai nerth a thegwch gwawr;
 Cystuddiol oes, a blin ddirboenus dranc,
 Oedd cyfran pawb—diarbed oedd ei wanc!
 Pob gwlad ac oes a blygent ger ei fron,
 Llywodraeth Dychryn oedd dros ddaear gron!
 Ymdaenodd dû-nos dros brydweddau'r byd,
 Diflanu wnaeth ei holl fwynderau pridd,
 Gorseddai tristwch ar ei nychlyd wedd,
 O'i flaen yn wastad ymagorai'r Bedd;
 Clefydau fyrdd oedd filwyr Angau blin,
 Ni tharfid hwy gan un ddiffynol fin;
 Ymruthro wnaent, ysbeilient gysur oes,
 Nid ydoedd bywyd ond diderfyn loes;
 Llem boen wrth fyw, ac ar ol marw, bedd,
 Oedd cyfran pawb, o'r bwthyn hyd y sedd.

Ond cofiai rhai am gyn-addewid Duw,
 Y deuai eilwaith ogoneddus Lyw,
 O Had y Wraig, i faeddu'r fyddin ddû;
 Hyn oedd i'w meddwl fel goleuni cu;
 Ac er na wyddent am orchfygu'r Bedd,
 Cryf oedd eu hyder am anfarwol hedd.

Un gwr oedd enwog fel dilynwr Duw,
 Mewn santaidd wylder yr oedd ef yn byw;
 Yn llwybrau'r Nef y rhodiai ar bob awr,
 A chan Jehofa perchid ef yn fawr;
 Ac un diwrnod colli ENOCH wnaed,
 Diangai ef, heb adael ôl ei draed,
 Er gwaethaf Angau, i oleuni pur,
 Heb brofi loes, na theimlo marwol gûr:
 Yn ernes bywyd yr esgynai ef,
 O farwol fyd i fythol wynfyd Nef.

Ymddigiai Angau, ymgreulonai'r Bedd,
 Mwy awchus hogent eu difäol gledd,
 Er brathu'n gynt bob marwol yn y byd,
 Rhag iddynt ddianc wrth gael aros cy'd;
 Fel hyn yn fuan y byrhawyd oes
 Holl ddynolryw, yn ychwanegol loes.

Aeth heibio oesoedd heb un golled mwy,
 Na neb yn dianc rhag angeuol glwy';
 Ond rywbyrd, pan oedd Angau'n ddifraw iawn,
 A'r Bedd a'i ebyrth yn orlifol lawn,
 I làn Iorddonen deuai cerbyd tân,
 Gan ddwyn ELIAS, gyda llafar gân,
 Yn ysbail bywyd, er cysuro'r saint,
 Y deuai'r dydd y caent debygol fraint.

Mwy milain Angau, a mwy dig y Bedd,
 Ceryddai Satan hwy oddiar ei sedd;
 Gan eu rhybuddio mewn cynddeiriog wŷn,
 Na chollent arall o holl epil dyn.

Byrheid yr oes, cyflawnach oedd o wae,
 I ddyfnach carchar daear suddo wnae;
 Pob doeth o'i mewn yn isel gryma'i ben,
 Ystyrid Angau fel terfynol len
 Rhwng byd a bedd, heb obaith byw drachefn;
 Ni wyddid dim am brynedigol drefn.
 Rhyw ddû *Dartarus* yn ngorllewin oer,
 Heb lewyrch haul, na goleu' gwan y lloer,
 Yn nghrombil daear, fel y tybient hwy,
 Oedd cartref pawb ar ol angeuol glwy';
 Ymsuddai'r oesoedd mewn anobaith dwys,
 Fel craig mewn môr wrth ei naturiol bwys.
 I ddoethion Groeg a Rhufain uchel-glod,
 Nid ydoedd bywyd ond rhyw ddibwys nod—
 Rhyw eiliad fêr, o'r braidd yn werth ei chael,
 Cyn troi ysbrydion yn gysgodau gwael;
 Nid oedd yn *Hades* nac *Elysium* wawr,
 Am ddwyn y corph o laith briddellau'r llawr,
 Llesg iawn eu cred, cymysglyd oedd eu barn,
 Ni feiddient feddwl am wneud Angau'n sarn.

Yn mysg y breiniol etholedig had,
 Ddygasai Duw i drigo'n Nghanaan wlad,
 Y ffynai cred y deuai'r corph i'r làn,
 O lygredd bedd, er myned iddo'n wan.
 Dysgwylient am ryw adeg fawr ei phwys,
 A'u gobaith ydoedd fel pelydrau glwys;
 Troent gysgod Angau megys golau-ddydd,
 I'r rhai a gredent mewn diysgog ffydd.
 Ni wyddent *lawer* am y ddedwydd awr,
 Ond eu *hychydig* oedd yn gysur mawr;
 Yn fynych aent yn ddeiliaid llethol ofn,
 Y Bedd oedd iddynt megys ceuffos ddofn.
 O'i gafell oer, ni fedrent sugno hedd,
 Trist oedd eu calon ar ymylau'r Bedd.
 Fan ynddo dodent eu hanwyliaid llon,
 Galaru wnaent fel rhai heb obaith bron;
 Tir tywyll oedd, heb arno oleu glwys,
 Ond caddug tew yn dô magdduawl dwys.
 Dan ormes Angau y gruddfanai'r byd,
 Tra clöai oesoedd yn ei garchar mud,
 Nes y diffoddid holl obeithion hedd,
 Fel canwyll egwan gan awelon bedd.

CANIAD IV.

RHYFEL BYWYD.

Dysgwyliad am y Messia—Ei enedigaeth—Tawelwch cyn y dymhestl—Ioan Fedyddiwr y rhagredegydd—Y bedydd—Syniadau a gweithredoedd Satan—Meddiant cythreulig—Y temtiad—Dechreuad y rhyfel—Nodweddiad Tywysog y Bywyd—Digofaint y gelynion—Y frwydr gyntaf âg Angau—Yr ail—Brwydr âg Angau a'r Bedd—Darpariadau at y frwydr olaf.

Ar ol i oesoedd dreiglo yn y blaen,
 Mewn llawer gwlad ceid grymus dyb ar daen,
 Fod dydd yn d'od pan enid rhywun mawr,
 I adfer hedd i holl drigolion llawr.
 Dysgwyliid ef fel milwr dewr ei wedd,
 I enill byd, a bod yn dranc i'r Bedd;
 Dysgwyliid iddo adfer auraidd oes,
 A phuro'r ddaear o bob ingol groes.
 Ac wele, daeth! Cyflawnwyd geiriau Duw!
 Yn Methlehem y ganwyd mebyn gwiw.
 Cydganai engyl, llawenychai saint,
 Addolai doethion fel goruchel fraint;
 O gylch ei gryd oedd eithaf tlawd a gwael,
 Prif weision Nef yn wastad oedd i'w cael;
 Addoli wnaent mewn gostyngedig fryd,
 Y cyn-anedig ddygodd Iôr i'r byd.

Aeth blwyddau heibio heb derfysgu'r Bedd,
 Gadewid Angau'n dawel ar ei sedd;
 Efe a Satan ranent ysbail byd,
 Heb un amheuaeth na pharhai o hyd;
 Nid ydoedd argoel a ganfyddent hwy,
 Yn dangos iddynt unrhyw berygl mwy;
 Llithrasai oesoedd, ac ni chollwyd un—
 Dau oedd eu colled oll o deulu dyn;
 Ac ymgysurent, gan mor fêr yr oes,
 Y teimlai pawb yr un angeuol loes.

Daeth y Bedyddiwr mewn meudwyaidd drem,
 Yn chwith ei wisg, a'i finiog iaith yn llêm;
 Yn yr anialwch y bedyddiai lu,
 A thrwy y wlad, rhyw gynhwrf rhyfedd fu.
 Daeth Satan heibio, er cael gwel'd y gwaith,
 A dirnad dyben y fath ddefod laith;
 Ac wrth ymdroi i sylwi yn y fan,
 Un dydd canfyddai y goleuni cân
 Yn disgyn ar y bedyddiedig un,
 Fel mwyn golomen, o hawddgaraf lun;
 A dwyfol lais a holltai'r wybren fry,
 "Hwn yw fy Mab, fe'm llwyr foddlonodd i!"

Arswydodd Satan, pan ganfyddodd ddyn,
 Yn ardeledig fel Mab Duw ei hun;
 A gwibiai tyb, fel mellten, drwyddo ef,
 Mai hwnw oedd cymodydd dyn â'r Nef,—
 Mai dyna'r un oedd am ddyfetha'i rym,
 A gwneud ei allu yn y byd yn ddim.
 Fel cynhwrf tònau yn ymruthriad gwynt,
 Neu ruad corwynt ar ddifrodol hynt,
 Ei feddwl oedd, wrth synied fod yr awr
 Yn nesu at yr oesol ymdrech fawr,
 Pan y ceid gweled a oedd gallu Nef
 Yn drech ar ddyn na'i wialen haiarn ef.
 Mewn pryder dwys y cyrchai lengau fil
 I Ganaan hen, i fysg Iuddewaidd hil;
 Oblegid, os ceid hwy i'w feddiant llawn,
 Holl barthau 'r byd oedd yn ddiogel iawn.

Nid oedd un fro adwaenai enw Duw,
 Ond bryniau Canaan a'i dyffrynoedd syw;
 Trwy 'r ddaear faith ni chofid deddfau Iôr,
 Addefid Satan yn rymusaf Bôr;
 Gan fyrdd addolid ef, mewn eilun mud,
 A llawer myrdd ni feddent "Dduw 'n y byd."

Yn ddiflin iawn llafuriai llu y FALL,
 A gwyliai yntau rhag fod arnynt wall;
 Hwy ymgynghreirient â chlefydau blin,
 Dan reol Angau, er meddianu dyn,
 A hoelio'i glust wrth y Satanaidd byrth,
 Yn gaethwas byth, heb i ryfeddol wyrth
 Ei ddwyn yn rhydd, a'i wneud yn blentyn Duw,
 I'w arddel Ef fel ei gyfreithlawn Lyw.

Ar gamrau'r Hwn oedd i adferu'r byd,
 Y tremiai Satan mewn drwgdybus fryd;
 Ni wyddai'n iawn a oedd y gwladwr mwyn,
 A grwydrai'n unig ger y dreiniog lwyn,
 Yn rhy anhyblyg i'w fedrusrwydd ef;
 Llwyddasai gynt i demtio lluoedd Nef;
 Temtiasai ddyn—pwy wyr nad llwyddo wnai,
 I'w dynu yntau i eigionau bai?

Dynesai ato pan mewn newyn tost,
 Ymdrechai yn ei fynwes ffurfio bost
 O'i nerth a'i rym, yn groes i ddeddf ei Dad;
 Ond methu wnaeth ei ddal â maglau brâd:
 Ac yna dan gynhyrriad siomgar ddig,
 Chwai gipiodd ef hyd i uchelaf big
 Pinaclau'r Deml; a d'wedai wrtho'n awr,
 "Os wyt yn Ddwyfol, bwrw'th hun i lawr;

Os nerth am nerth yw dy ddymuniad ffol,
 Cei deimlo'm grym fel bolltau ar dy ol;
 Cei frwydr am frwydr, a mynaf groen am groen,
 Os wyt am ymladd, ti gei ingol boen."
 Diffanai'r Fall fel mellten yn yr wybr,
 Ond dygai'r Mab ar hyd awyrol lwybr;
 Cymerodd ef i gopa mynydd ban,
 Gan ddangos iddo fawredd byd o'r fan;
 Addawai adfer daear oll i'r Nef,
 Ond iddo syrthio a'i addoli ef.
 Ni phlygai'r Mab; a Satan yntau'n chwim,
 O'r ymdrech giliodd mewn anobaith llym.

O fewn y wlad a olchid gan y dòn,
 Ar dawel lenydd Genesareth lon,
 Lle gwridai Grawnwin yn yr awel fwyn,
 Wrth gyfarch Ffigys ar y nesaf lwyn,
 Y teithiai Prophwyd o ryfeddol ddawn,
 Tyrfaoedd synai â'i wybodaeth lawn;
 Mwyn oedd ei bryd,—mor ddengar oedd ei iaith!
 Mor gyflawn ydoedd mewn trugarog waith!
 Pan welai'r llesg, â chystuddiedig fron,
 Yn fÿr ei gam, yn crwydro wrth ei ffon,
 Edrychai arno, a cheryddai'r boen,
 A llamai'r cloff fel mewn ieuangaidd hoen.
 I'r llaw wywedig yr adferai nerth,
 O'i ol y dringai'r efrydd glogwyn serth:
 Iachai y claf yn artaith clefyd poeth,
 A'r drwg ei hwyl a ddygid ato'n noeth;
 Rho'i glust i'r byddar, na chlywasai lais
 Erioed yn ateb unrhyw wylaidd gais;
 Mudanaidd dafod a ollyngai'n rhydd,
 A dygai'r dall i ganfod goleu dydd;
 Pob haint a chlwyf, pob clefyd llym a chwaen,
 Ymgilio wnaent mewn ofnus frys o'i flaen.
 Ymwylltiai Angau, Satan oedd mewn braw,
 Deallent fod rhyw gadarn Wr gerllaw;
 Ond ef, fel mwyn bererin isel-gais,
 Ni chodai dwrf, ac ni ddyrchafai lais;
 Ae 'n mlaen hyd lwybrau o druenus wedd,
 Gadawai arnynt sawrus flodau hedd.
 Llwyddasai Satan i feddianu llu
 O bobl y wlad, drwy fedr ei weision dû;
 Ond deuai 'r Prophwyd heibio ar ei daith,
 Ceryddai hwy mewn penderfynol iaith;
 Ar frys gadawent eu gwarchaeol swydd,
 Ac, megys gwilliaid, cilio wnaent o'i wÿdd.

Un hwyr dynesai tua dinas Nain,
 Wrth borth yr hon y clywai athrist sain;

Mam weddw oedd yn ocheneidio 'n brudd,
 Am unig fab gollasai ar y dydd.
 Ei ddwyn a wneid ar elor tua'r bedd,
 Gan dyrfa lawn o gydymdeimlwl wedd.
 Hallt wylai 'r fam—mor chwerw oedd ei chri
 O'i golli ef!—y cwbl gollasai hi!
 Y TYNER UN dosturiai wrth y fam,
 Ac at yr elor y cyfeiria i gam,
 Ac wrth y marw d'wedai, "Cyfod, lanc!"
 A neidiai hwnw o afaelion tranc,
 Yn fyw ac iach! yn mraich ei anwyl fam,
 Dychwelai 'n ol i'w anedd, heb un nam!

Dro arall, tad dan lym gymhellion serch,
 Fyngai iddo ddarfod marw 'i ferch:
 Ymaflai 'r Prophwyd yn ei thyner law,
 Cyfodai hon, nes synai rhai mewn braw,
 Tra llonai ereill am ddyfodiad dydd,
 I ddwyn y marw o'i gadwynau'n rhydd.
 Dirgrynai Angau gan bryderus ofn,
 Ymdaenai dig drwy eithaf Uffern ddofn;
 Ymroddai Satan â chynllwynol fryd,
 I'w olaf gynllun am feddianu 'r byd.

Y Prophwyd mawr oedd hoff o deulu llon,
 A drigent yn Methania, is y fron,
 Lle tyfai lluaus o olewydd tég,
 Yn malmaidd arogl yr awelon chwég;
 A mynych yno o'r gynhyrfus dref,
 I'r mwyn dawelwch yr ymgyrchai ef.
 Dwy chwaer a brawd a hoffent swm ei droed,
 Ni wel'sent ddyn i'w hoffi 'n ail erioed;
 Eisteddai cariad ar ei welw rudd,
 Mwy tyner oedd ei lygaid hoff na 'r dydd;
 Pob gair o'i enau oedd fel enaint gwiw,
 A'i rin meddygol yn tyneru briw;
 Ei wefus oedd yn iraidd byth gan ras,
 A'i bryd mor dawel a'r ffurfafen las.

Clafychai 'r brawd—y Prophwyd oedd yn mhell—
 Y chwaer a dybiai nad oedd meddyg gwell;—
 Anfonodd ato;—ond ni ddaeth i'w tref,
 Nes doddi Laz'rus, â wylofus lef,
 I huno 'n brudd yn oerllyd geudod craig,
 A threiglo maen i'w gadw yn ei haig;
 Ond tybiai rhai gallasai Cenad Nef,
 A'i nerthol rym, yn fyw ei gadw ef.

Yr Athraw ddaeth,—mae torf o'i amgylch ef,
 A Mair a Martha sydd yn drist eu llef;

Mynegai iddynt am hyfrydol ddydd,
 O ADGYFODIAD i holl deulu 'r ffydd,
 I fyw mewn bro o anfarwoldeb pur,
 Goruwch i loesau marwol fyd a'i gur;
 Ac mai efe oedd bywyd marwol ddyn,
 A'i adgyfodiad, drwy ei nerth ei hun.
 Ond hyn ni luddiai y wylofain dwys,
 "A'R IESU WYLODD"—dros ei ruddiau glwys
 Y llithrai dagrau o dyneraf serch,
 Mewn cydymdeimlad â'r ddwy unig ferch.
 Aent at y bedd—a threiglo wneid y maen—
 Ni bu 'r fath hyfder ar y Bedd o'r blaen—
 Uwchben y marw bloeddiad Iesu 'n hyf,
 "TYR'D ALLAN, LAZ'RUS!" yntau ddeuai'n gryf
 I fysg y werin, yn ei farwol wedd—
 Yr ysbail cyntaf o garcharau'r Bedd.

Brawychai Angau weled y fath waith,
 Melldithiai Satan mewn digofus iaith;
 Aml gyngor gadwent er cynllunio tranc
 Yr Hwn a feiddiai eu gor-reibus wanc;
 Ellyllon heigient drwy derfynau'r wlad,
 Fel gwaedlyd arwyr yn aroglî câd;
 Nid oedd i'w mynwes obaith am un hedd,
 Tra byddai perygl ar dalaethau'r Bedd;
 Mewn llys a bwthyn yr anogent gâd,
 Meddianu wnaent reolwyr pena'r wlad;
 Meddyliau dynion danient dros y Fall,
 Nes peri i'w calonau, yn ddiball,
 Awyddu gwaed y Prophwyd grasol, cu,
 A'i ddwyn i dranc, drwy bob cyflafan ddû;
 Ae yntau'n mlaen, gan ddangos mwy o'i rym,
 Yn trechu Satan a chlefydau llym:
 Er pob dichellion yn ei erbyn gaid,
 Y rhyfel oedd yn gwastad droi o'i blaid:
 Ei ymddyddanion, a phob newydd wyrth,
 Ledaenent ddychryn i'r uffernol byrth.

CANIAD V.

BRWYDR Y GROES.

Darpariadau—Ing yr ardd—Mab y dyn yn nwylaw pechaduriaid—"Daeth
 yr awr"—Anerchiad Satan i'w luoedd—Brwydr-floedd y cythreuliaid—Awr
 "gallu y tywyllwch"—Efe "a lefodd â llef uchel—Ac a roddes i fyny yr
 ysbryd"—Llawenydd y gelynion.

Tri mis ymlithrent yn y ddarmerth hon,
 Uwch rhuai'r gwynt, ac uwch y chwyddai'r dôn,
 Mwy dû yr awyr, a mwy prudd y llawr,
 Fel y dynesai'r benderfynol awr,

I ymladd Brwydr y Bywyd yn y byd,
A phrynu dyn drwy iawnol aberth drud.

Hen Gedron dreiglai yn ei hisel bant,
Rhwng glenydd teg, rhodiasai llawer sant,
Is cangau tew, ar hyd y graean chwardd,
Gôris i furiau cysegredig ardd,
Oedd ddistaw fan, is balch gangenog goed,
Tal, tirtion, iraidd, er eu dirfawr oed;
Ceid yno le i feddwl dan ei gur,
Anadlu heddwch, o'i neillduaeth bur.

Ar ol ymdaenu pruddaidd leni nos,
A'u trymllyd liw dros ddoldir, bryn, a rhos,
Ae pedwar gwr yn araf tua'r ardd,
Drwy'r coed uwchben, pelydrai'r sêr yn hardd;
Ar ruddiau'r pedwar nid oedd eilun gwên,
Eu hail ni welsai GETHSEMANE hen;
Mor erchyll brudd! mor annaturiol ddwys!
Fel pe y soddent is anfeidrol bwys!

Oddiwrth y tri ymdynai'r prudda'i wedd,
I gornel unig, oedd mor fud a'r bedd;
Ac yno ymbil a gweddïo mae,
Fel yn llethedig o dan ddwyfol wae.
Gan ymdrech enaid, O mor brudd ei drem!
Mor fawr ei chwys mewn awyr rewlyd, lem!
Ar lawr y mae, ac oll o'i ben i'w draed
Bwrlyma allan, "megys dafnau gwaed,"
Crwm ddafnau mawr—o chwys rhyfeddol yw—
Dderbynia daear ar ei thonen wyw!
Dyfalach oedd ei wasgfa erchyll, drom,
Fel yr ymdreiglai ar y ddaear lom!
Ni theimla ef mo fin awelon oer,
Ni thremia i lygad am oleuni'r lloer;
Pob man o'i gylch sydd yn deimladwy ddû,
O'r ddaear isod hyd yr wybren fry;—
Dû oedd y ddaear, ond mwy dû y nen,
Dros wyneb Duwdod y taenesid llen,
Tra'r yfai'r Mab y chwerw waddod sur,
I'r olaf ddafn yn ngwaelod cwpan cur;
Pob ing, pob och, pob gwaedlyd ddefnyn drud,
Oedd lwythog gan euogrwydd damniol fyd;
Pob pryd a threm, pob hir ddirgrynol lef
Ddirwasgid gan ddialedd trymaf Nef.

Ond wedi yfed chwerwon ddafnau gwae,
Drwy nerth angylaidd yn cyfodi mae;
Ni fedd y Nef un dychryn iddo'n awr—
Ni chryna rhag cynllwynion Uffern fawr;

Da gwyr mai awr y Fagddu ydyw hi,
 Ni threigl ochenaid dros ei wefus gu;
 Ond â fel oen i gwrdd gelydol lu,
 Yn nesu'n arfog a'u llusernau sy;
 Ei hunan rhydd yn eithaf rhwydd i'w llaw,
 Mewn mawredd enaid, heb grynedig fraw;
 A dâl a wnaeth, wrth fyn'd o lys i lys,
 Fel un yn gwybod mai goddefol wŷs
 Oedd gan elynion ar ei fywyd pur;
 Eu drain, a'u fflengyll, a'u picellau dur,
 Ni phrisiai mwy;—dan bob dirdynol loes
 Yn barod iawn wynebai FRWYDR Y GROES.

Yr awr a ddaeth,—tu faes i fur y dref,
 Yn dwyn ei groes mewn gwaed y gwelir ef;
 Blin yw a llesg yn egwan natur dyn,
 Er ei fod ef y Cadarn Iôr ei hun.
 Dynesu mae i ben Calfaria fryn—
 Mae Anian drwyddi mewn rhyw gynhwrf sŷn;—
 Ni chân yr adar—ni ysgydwa'r dail,—
 Mwy prudd nag arfer ydyw trem yr haul;—
 Mae'r môr yn ddystaw—dystaw lluoedd Nef,
 Ond Uffern ysgwyd gan ei beiddiol lef;
 O honi hi ymdywallt engyl coll,
 Fel pe o honynt na bae un yn ngholl;
 Yn llengau fyrdd, fel llwch o flaen y gwynt,
 Drwy'r awyr gwibiant i'w rhyfelgar hynt;
 Fel cawod wlaw—fel cenllysg ar y waen,
 O gylch Golgotha y ceid hwy ar daen;
 I Frwydr y Bywyd trefnai Satan hwy,
 Pob lleng oedd feiddgar mewn dialgar nwy;
 Anerchai hwy—hyderus oedd ei fron
 Am fuddugoliaeth yn yr ymdrech hon:—

“De'wch, fy lluoedd, de'wch yn awr,
 Daeth y dydd, a daeth yr awr;
 Dyma adeg, cymhwys yw,
 I dragywydd lethu Duw;
 Mynwn ef o'i orsedd fawr,
 Gan ei fathru hyd y llawr;
 Dial—dial, arno boed!
 Dial heb ei ail erioed!
 Cofiwch uchelderau Nef!
 Cofiwch ei greulonder ef!
 Cofiwch, uchel fu ein cân!
 Cofiwch y clogwyni tân
 Hyrddiai, pan y'm bwriwyd i
 O fy ngorsedd gyda chwi!

Cofiwch ddialeddol wynt,
 A'n chwyrnellai ar ein hynt,
 Nes y suddem oll yn syn
 I ddyfnderoedd tanllyd lyn!
 Cofiwch dawch y brwmstan glas,
 A brathiadau dreigiau cas!
 Cofiwch ein diderfyn gur,
 Mewn cadwynau gwaeth na dur!
 Heddyw, wele ni yn rhydd,
 Heddyw mynwn gael y dydd;
 Hon yn unig yw ein hawr,
 Mynwn fuddugoliaeth fawr;
 Os methasom ambell waith,
 Enill heddyw wna y gwaith.
 Llwyddo wnaethom lawer pryd,
 Enillasom yr holl fyd;
 Ond os ein gorchfygu gawn,
 Colli'r byd yn ol a wnawn,—
 Colli! ddewrion luoedd du,
 Adeg well erioed ni bu!
 Wele'n gelyn ar y groes,
 Wele ef yn awr dan loes;
 Methais yn yr anial draw,
 Methais yn yr ardd islaw:
 Er ei ing, a'i waedlyd chwys,
 Methais yn y breiniol lys;
 Ond yn awr y mae fel oen,
 Gruddfan gan angeuol boen.
 Rhuthrwn, rhuthrwn yn ddilyth!
 Methwn, neu orchfygwn byth!
 Angau, lluoedd Dystryw, dowch!
 Yn yr ymdrech hon, ymrowch!
 De'wch, dilynwch fi, eich Llyw!
 Dyma'r awr i lethu Duw!"

Cyd-lefent hwythau, wrth nesâu i'r gâd,
 A'u geiriau oedd yn llawn o farwol frâd:—

"Awn, a llwyddiant gyda ni,
 Ha! ein gelyn, cawsom di!
 Dy gorwyntoedd, p'le y maent?
 Rhuo gynt yn anferth wnaent;
 Rhuthrwn arnat, daeth yr awr!
 Rhuthrwn, nes y siglo'r llawr!
 Rhuthrwn arno, megys chwyth,
 Nes ei lwyr orchfygu byth!"

O drymlyd awr! mae'r Iesu ar y groes,
 Ei enaid sydd mewn cystudd trwm a loes;
 O'i ben a'i ddwyllaw, ac o'i gefn a'i draed,
 Yn araf ffrydiau yr ymdreigla'r gwaed!

Dan hoelion dur mae'r byw ddirgrynol gnawd,
 A'i enaid lethir gan uffernol wawd,
 A ddisgyn megys cenllysg ar ei ben,
 Ac unwaith eto y duasai'r nen;
 Gadewsid ef i oddef Dwyfol wae,
 I ddyn a Diafol yn ysglyfaeth mae;
 Brwydr galed yw, nid oes gan Fab y Dyn,
 I sathru'r gwinwryf neb ond ef ei hun.
 Efe'n bech-aberth ar y croesbren wnaed,
 A gwisg y GAIR a drochwyd yn ei waed!
 Pob dyn sydd ellyll—llawn cythreulig fryd
 Yw'r dorf ddialgar—gwawdio maent i gyd;
 Cythreulig wawdiaith chwery drwy bob gair,
 Fel bwrlwm dyfroedd mewn berwedig bair;
 Pob meddwl sydd yn fustl o chwerwaf flas,
 Mae dyn a Satan yn cyd-ddangos trâs.
 Yr oedd y bustl gyfodent at ei fin,
 I'w enau megys pêr lysieuog win,
 A'r gwinegr oedd yn felus, wrth eu hiaith;
 Mwydesid hōno yn nghorlynoedd llaith
 Uffernol surion, a mwy erchyll hi
 Na chnawdol boen, nac un eneidol gri.
 Gwallgofid dynion gan gynddaredd noeth,
 Ymlogent gan anwydau Uffern boeth;
 Cyfodwyd Uffern o'i llosgedig lyn,
 A'i mangre heddyw yw Calfaria fryn!
 Mwy aml ei gweision hi na'r gwelltglas mân,
 A mwy eu digder na difaol dân.

O ddolef ddwys! mae hona'n Ddwyfol gri!
 "Fy Nuw! Fy Nuw! Paham gadewaist fi?"
 Ni chlywir mwy—ond clywed ddarfu'r môr,
 Adlamu wnaeth oddiwrth ei oesol ddôr.
 Y ddaear glywodd, ac i'w dyfnaf aig,
 Ysgydwyd hi; a chlywed ddarfu'r graig;
 Ymrwygo wnaeth yn groes i'w deddfol haen,
 Ac aeth clogwyni ar frawychus daen.
 Yr haul a glywodd, cuddiai yntau'i ben
 Dan dduaf orchudd, fel na roddai'r nen
 Ei llewyrch ar gyflafan ddu y groes,
 Ac fel na welai doriad ymaith oes
 Yr Hwn a ddaethai i waredu'r byd,
 A'i waed ei hun, a'i Ddwyfol fywyd drud.
 Yn nghanol nerth cynddaredd Uffern ddu,
 Y gair "GORPHENWYD!" llefai Iesu cu,
 Mewn dyfnaf gur; ar hyn gogwyddai 'i ben,
 A threngu wnaeth, yn eigion duwch nen!
 Llon-floeddiad Uffern ac ellyllon fyrdd,
 Amgylchent Satan mewn milwrol urdd;

Cyd-syllent oll ar heriwr hyf y Bedd,
 Yn drywanedig gan angeuol gledd;
 Mewn sicrwydd mwy o lwyr feddianu'r llawr,
 Cyd-floeddio wnaent eu buddugoliaeth fawr;
 Ac ymadawent i uffernol wyl,
 A Satan lywiai mewn llawenaf hwyl;
 Gorfloeddio wnaent, nes oedd y nenfwd ddu
 Yn mron ymrwygo gan eu gorwyllt ru;
 I'r Rhaglyw Angau y dymument hedd,
 A diball ebyrth ar allorau'r Bedd;
 Un gâd ac ymdrech ni arswydent mwy,
 Y byd oedd fythol yn eu meddiant hwy!
 A chlywid yno ambell feiddiol lef,
 Yn anog antur i adenill Nef.

CANIAD VI.

BYWYD YN ANGAU.

Yr Iesu yn nhalaeth Angau—Diddymu Angau—Dwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni—Yr esgyniad i'r Nef—Cân y Saint—Adgyfodiad Crist yn sicrhau adgyfodiad yr holl hil ddynol—A pha ryw gorph y deuant?—“Yna y bydd y diwedd.”

Yn mrig yr hwyr rhoed Iesu yn y bedd,
 Ac wrth y drws ceid Angau ar ei sedd;
 Anferthol faen a dreigliid at y ddôr,
 A selid ef er diogelu Iôr;
 Gosodid arno sêl Jehofa'i hun,
 Er cloi ei allu, gan ryfygus ddyn!
 Rhoid gwyliadwriaeth ddewr a chref gerllaw,
 Rhag tarfu Angau gan un sydyn fraw.

Y nos ddiangai—tawel oedd y lle,
 Ni chlywid swm, ond dwndwr pell y dre';
 Y borau ddaeth, a dystaw oedd y Bedd,
 Ac Angau wyliai gyda noethlym gledd;
 Diflanai'r dydd, ac nid oedd yno dwrf,
 Yn ddewr y trôai'r galon fwyaf llwrf;
 Ad-ddeuai nos, heb ddim argoelion fod
 Ar Angau berygl am ei oesol glod;
 Awr ar ol awr ymdreiglai yn y blaen,
 Heb un cynhyrriad; llonydd oedd y maen,
 Edrychai Angau fel buddugol gawr,
 Pan mewn amrantiad yr ysgydwai'r llawr
 Gan ddaear-gryn; ac wele angel cryf
 Yn treiglo'r maen yn llawn gwroldeb hyf;
 Tanbeidiol lewyrch a amgylchai'r fan,
 Fel pe yn un o lysoedd Nefoedd gan;
 Melltenu wnae i'r dywell ogof brudd,
 Nes gwneud ei heigion megys haner dydd!

I lewyg dwys y syrthiai'r gwylwyr graid,
 Hwylt-hwy a'u harfau sy'n coffeidio'r llaid;
 Mewn dirfawr fraw yr Angau ymaith droes,
 O wyddfod BYWYD mewn amrantiad ffoes;
 Yr Iesu ddaeth mewn dwyfol nerth o'r Bedd,
 A chorph anfarwol o ysbrydol wedd;
 Ac ar ei ol cyfodai llu o saint,
 Yn gydgyfranog o anfarwol fraint
 Yr ADGYFODIAD, ac yn feibion Duw,
 I gael mewn gwynfyd annherfynol fyw.
 Drwy eithaf Uffern a gororau'r Bedd,
 Eu holl swyddogion wisgent athrist wedd:
 Sigledig oedd eu muriau cryf a'u pyrth;
 A'u hagoriadau, yn yr olaf wyrth,
 Ddygasai Iesu, gan eu crogi hwy
 O gylch ei wregys, BYTH I'W DYCHWEL MWY!

Am ddeugain niwrnod trigai Iesu mawr,
 Pen-Arglwydd Nef, yn mysg marwolion llawr;
 Gan ddangos i'w ddysgyblion, yn ei wedd,
 Ei fuddugoliaeth ar holl allu'r Bedd;
 A'u dysgu hwythau am y rhyfedd ddydd
 Y deuai'r meirw megys yntau'n rhydd.
 Dangosai iddynt eu dyfodol waith,
 O wneud i'r byd ei godiad ef yn FFAITH,
 I bwysu arni hyd yr olaf awr,—
 Ei ail ddyfodiad mewn gogoniant mawr.

Un borau tég ar ben Olewydd fwyn,
 Pan taenai haulwen ei gynarol swyn,
 Y safai ef a'i holl ddysgyblion mād;
 Tra iddynt rhoddai ei fendithion llād,
 Ar aden cwmwl, ymddyrchafai ef,
 O'u mysg esgynodd i uchelder Nef;
 Addolent hwythau â theimladau byw,
 Arddelent ef eu Harglwydd Iôr a'u Duw.
 Esgynai yntau yn soniarus lef
 Mil filoedd o gerddorion Nef y nef;
 Cydganai bydoedd am y Ddwyfol wyrth,
 Fel y dynesai at y nefol byrth,
 Nes iddo gyrhaedd at ddeheulaw'r Tad,
 Ac eistedd ar brif orsedd nefol wlad;
 Pryd hyn y chwyddai saint eu melus gân,
 Am fuddugoliaeth eu Gwardwr glân;—
 "Buddugoliaeth ini gaed,
 Crist a'n prynodd drwy ei waed;
 Daw ein cyrph o'r beddau'n rhydd,
 I fwynhau anfarwol ddydd!
 Haleluia! mawl i Grist!

Buddugoliaeth fawr y groes
 Egyr feddau hirfaith oes;
 Gollwng feirw byd yn rhydd,
 Tröa ddunos Angau'n ddydd!
 Haleluia! mawl i Grist!

Angau creulon gafodd loes,
 Yn ymdrechfa fawr y groes;
 Gwywa mwy dan felldith Nef,
 Nes y llwyr ddinystir ef!
 Haleluia! mawl i Grist!

Teilwng, teilwng ydyw'r Oen!
 Darfu, drwy anfeidrol boen,
 Ddwyn yr euog caeth yn rhydd;
 Iddo byth y moliant bydd!
 Haleluia! mawl i Grist!

Seiniwch eich telynau, saint,
 Buddugoliaeth fwy ei maint,
 Ni enillwyd îs y nef,
 Nag a gaed o'i angau ef:
 Haleluia! mawl i Grist!

Bythol, annherfynöl fawl,
 Gaiff yn holl deyrnasoedd gwawl;
 Drwy holl greadigaeth IOR,
 Bydoedd wnant folianus gôr!
 Haleluia! mawl i Grist!

Teilwng o awdurdod yw,
 Marw fu; y mae yn fyw;
 Byw a wna'n urddasol Ben
 Ar orsedd-fainc ddysglaer Nen!
 Haleluia! mawl i Grist!

Tyred, tyred Iesu'n awr,
 Eistedd ar dy orsedd fawr;
 Ni ymgrymwn wrth dy draed,
 Ti a'n prynaist â dy waed!
 Haleluia! mawl i Grist!

ADFERIAD grasol i ddaearol fyd,
 A gwardigaeth dyn, drwy angau drud,
 Cyhoeddi hyn oedd gwaith dysgyblion Crist,
 Er taenu gobaith i ddynoliaeth drist:
 I wneuthur hyn y treuliwyd llawer oes,
 Er pan fu Iesu ar y farwol groes;
 Derbyniodd miloedd y newyddion cu,
 Gan dawel wenu ar eu gelyn dû;
 A thawel aethant i briddellau'r bedd,
 Mewn cadarn hyder am waredol hedd.

Ar lwybrau dyn mae myrdd o flodau syw
 Yn tyfu, am fod Mab y Dyn yn fyw:
 Diobaith cawsid daear oll heb hyn,
 Daeth hedd y byd o ing Calfaria fryn.
 Athrawiaeth bur yr Adgyfodiad yw
 Sail cymod dyn â'r gogoneddus Dduw;
 Cyfodwyd Crist, drwy ddwyfol nerth y Tad,
 Am iawnol oddef yn lle dynol had;
 Heb godi Crist, byth ni chodasid un
 O farwol ebyrth cyntaf drosedd dyn:
 Ond bywyd Crist yw bywyd ei holl blant,
 A choron bywyd i bob nefol sant.
 Blaenffrwyth yw ef o freision gnydau'r bedd,
 Daw ei ddilynwyr ar ei ol i hedd;
 Yn gyrph ysbrydol deuant oll yn rhydd,
 Ac ni bydd llygredd yn y corph a fydd.

Yn natur oll nid oes ddangosiad gwan
 O Adgyfodiad, yn ei wyrthiol ran;
 Dangosa lawer cyfnewidiad mawr
 Mewn milod bach, a llysiau têt y llawr;
 Er marw'r hedyn sydd yn cael ei hau,
 Gan allu Iôr y caiff ei ail-fywhau;
 O hedyn bach, eiddilaidd, egwan iawn,
 Y tardda gwelltyn a thywysen lawn.
 Un natur yw, ond eto nid yr un,
 Ond ni bydd felly yn adgyfodiad dyn:
 EFE EI HUNAN ddaw o lwch y bedd,
 Yn meddu corph o hardd ysbrydol wedd,
 Heb arno nôd o wendid nac o gur,
 Ond llawn bywiogrwydd anfarwoldeb pur.
 Cwyd y llygradwy o'i gaethiwed hir,
 A mwy godidog fydd ei wedd yn wir
 Nag un ganfyddwyd ar y tecaf rai
 Erioed lychwinwyd gan ddaearol fai.

Y corph ysbrydol, mewn buddugol wedd,
 Adawa lygredd, megys gwisgoedd bedd;
 Er gynt yn wan, cyfodi wna mewn nerth,
 Nes iddo 'i hun y bydd o'r braidd yn gerth;*
 Yn lle bod megys myglyd ganwyll wan,
 Bydd ail i seren yn ei llewyrch cân!

O ryfedd wyrth! Os gofyn neb "Beth yw?"
 Nid oes ond ateb mai "MAWR ALLU DUW!"
 Y ddolen olaf yn y Ddwyfol drefn,
 I uno dyn âg ef ei hun drachefn;
 Swydd ola'r Mab yn ei gyfryngol waith,
 Ar ol llonyddu y gwrthryfel maith,

* Awful.

A dreisiai'r ddaear o dan lywiaeth Duw;
 Difodiad llwyr y gelyn olaf yw.
 Yr ergyd olaf ar alluoedd bràd,
 Cyn rhoddi'r deyrnas yn ei hol i'r Tad,
 Ei olaf waith, ar sail ei werthfawr waed,
 Yw gosod ei elynion oll dan draed.
 Pan gasgla feibion Duw, heb un ar goll,
 Y plyg ei ben i'r Duw sydd "OLL YN OLL;"
 Dychwela iddo deyrnas lawn o hedd,
 Adferwyd o gadwynau haiarn Bedd,
 Nes llanw bydoedd â soniarus fawl,
I bara tra y pery Nef ei gwawl.

CANIAD VII.

Y GOBAITH GWYNFYDEDIG.

Effeithiau athrawiaeth yr Adgyfodiad—Yn gyffredinol—Ar Dduw a dyn—
 Ar syniadau y byd—Ar Baganiaeth y byd—Ar y merthyron—Ar yr eglwys
 yn y canol oesoedd—Ar anturiaethau cenadol—Ar yr Iuddewon—Y mil-
 flwyddiant—Y dirywiad mawr.

DYMA'r gobaith gwynfydedig
 A ddysgwyliodd llawer oes;
 Llifo wnaeth yn afon nerthol,
 O ddirdynol angau'r groes;
 Hon a gludodd ffrydiau Duwdod,
 Er tawelu trallod dyn;
 Ac ni phaid ei ffrydiau lifo,
 Nes y deuo Iesu 'i hun.

Torodd llawer llesg bererin
 Syched enaid ynddi hi;
 A dystawodd sŵn ei ffrydiau
 Lawer anobeithiol gri;
 Llifo wnaeth nes magu blodau
 Ar ymylau llwm y bedd;
 Maethodd yn anialwch angau
 Lysiau llawn aroglau hedd.

Hyn yw cadarn sail y cymod
 Rhwng y Tad a marwol ddyn;
 Hyn yw prif egwyddor fywiol
 Iachawdwriaeth fawr ei hun;
 Ni fuasai'r haul yn gwenu,
 Ni phrofasai'r ddaear hedd,
 Ond drwy rinwedd adgyfodiad
 Iesu o gadwynau'r Bedd.

Cyn yr hawddgar obaith yma,
 Talaeth Angau oedd y byd;

Dygai Crist y cwbl odd'arno,
 Drwy ei iawnol aberth drud;
 Rhwygo wnaeth mewn buddug-
 oiaeth
 Y ddiobaith farwol len;
 Llwyd ymlidiwyd caddug Angau
 Gan belydrau pur y Nen.

Taenodd hyn oleuni nefol
 Ar druenus euog fyd;
 Clywed ddarfu y Cenedloedd
 Am y waredigaeth ddrud;
 Er i ddoethion ei dirmygu,
 Rhedai'r truan ar ei hol,
 Gan ei chipio, megys trysor
 Gwerthfawrocaf, yn ei gôl.

Taenwyd sŵn yr Adgyfodiad
 Dros derfynau äang byd;
 Sôn am dano yn mysg dynion
 Wnae dysgyblion Crist o hyd;
 Hyn oedd uchaf gân eu gobaith,
 Pwy ddymunai amgen un?
 Ni newidiai Nef na daear
 "Adgyfodiad Mab y Dyn."

Melus ydoedd sŵn y geiriau
 I deimladau pagan pell;
 Synid calon llawer arwr
 Gan yr "Adgyfodiad gwell;"

Syrthiodd miloedd o gadwynau
 Oll yn ddarnau candryll mân;
 Seiniodd myrdd a ofnent Angau
 Uchel, ogoneddus gân.

Denodd hyn y gwyllt farbariaid
 O lochesau ciliau cœd;
 Lleoedd anial, na roddasai
 Gwareiddiedig ddyn ei droed,
 T'rawodd syndod i offeiriaid
 Coel-grefyddau balch y byd;
 Gwnaeth eilunod ac oraclau,
 Fel y bedd, yn berffaith fud.

Rhwygodd dewion leni dûnos
 Uwch Atheniaid uchel ffroen;
 Ac arafodd Gorinth nwyfus,
 Synodd Rufain yn ei hoen;
 Safodd yno'n mysg y duwiau,
 Mewn cadwynau ambell waith;
 Eto, beiddiai hyf gyhoeddi
 Ei gwaredol, nefol iaith.

Megys gyrfa haul o'r Dwyrain,
 Teithiodd i'r Gorllewin dir;
 A thywalltwyd ar Dderwydd-
 iaeth
 Oleu Iachawdwriaeth glir;
 I ardaloedd Gogledd rewlyd
 Y gwasgarodd Ddwyfol wres;
 'Hedodd ar awelon balmaidd,
 I Ddeheuol, deifol dês.

Hyn ddechreuodd gyfnod new-
 ydd
 Ar y gorthrymedig fyd;
 Ail adferwyd Teyrnas Bywyd,
 Baeddwyd Angau balcheifryd:
 Dygodd Iesu "Anfarwoldeb,"
 Bywyd, a thragwyddol hedd,
 Gan eu planu, fel banerau,
 Ar ddrylliedig furiau'r Bedd.

Ysgrifenodd "ADGYFODIAD,"
 Goruwch dorau'r marwol byrth,
 Mewn llyth'renau o oleuni,
 Un o honynt byth ni syrth:
 Parant i belydru yno,
 Hyd ei ail ddyfodiad ef;
 Byth ni phyla eu goleuni,
 Ond yn mwy goleuni'r Nef.

Gobaith cryf yr Adgyfodiad
 A dynerodd lawer poen;
 Gwnaeth i henaint lawenychu,
 Megys mewn ieuengaid hoen;
 Gwnaethi'r merthyr gwrol fathru
 Mawredd daear dan ei draed;
 Llawen seliai ef ei grefydd,
 Fel ei Brynydd, gydâ'i waed.

Dygodd wên i lawer gwyneb,
 Crebychedig gan y fflam;
 Hyn ireiddiodd lawer gwefus,
 Pan yn gwarthus oddef cam,
 I weddio dros elynion
 Ciaidd, creulon, llawn o wawd;
 Parodd i laweroedd foli,
 Dan arteithiau dyfna'r enawd.

Dyma'r "gobaith gwynfydedig"
 A ddyddanodd Eglwys Dduw,
 Wrth ymguddio yn yr anial,
 Rhagy Ddraiggreulona'i rhyw;
 Hyn a'i daliodd yn y ddûnos,
 A ymdaenodd dros y llawr;
 Dysgwyl wnaeth, drwy oesau'r
 caddug,
 Am yr Adgyfodiad mawr.

Dyma daniodd lawer enaid,
 I gyflwyno'n llwyr ei hun,
 I ledaenu'r newydd gwerthfawr
 I golledig deulu dyn;
 Hyn a'i gyrodd drwy'r anialwch,
 A thros dônau gwyllt y môr,
 Er gwneud ereill yn gyfranog
 O gyfoethog roddion Iôr.

Eistedd heddyw lawer pagan,
 Gynt a hoffai waed a thrais,
 Megys gwylaidd blentyn bychan,
 Gwrando mae yr hyfryd lais;
 Llithro wna y gloëwon ddagrau,
 Megys perlau, dros ei rudd;
 Byth y "gobaith gwynfydedig"
 Iddo'n fendigedig fydd.

Nid yw eto bron ond dechrau
 Gwasgar golau dros y byd;
 Cyn bo hir yr â'i belydrau
 Dros ororau hwn i gyd;

Ni bydd mynydd, na chyfandir,
Nac eigionawg ynys bell,
Heb eu swyno gan gyhoeddiad
Gobaith "Adgyfodiad gwell."

Ail gynullir yr Iuddewon,
Fu yn crwydro lawer oes;
Golchant ymaith, gyda'u dagrau,
Fawrion dramgwyddiadau'r
Groes;

Derbyn wnant y gwir Fessia,
Plyga Judah wrth ei draed;
Bythol seiniant eu telynau,
Am rinweddau pur ei waed.

Dryllir nerthol allu Anghrist,
Llwyrd dymchwelir Babel fawr;
Yna dengys gwych ogoniant
Y milfwyddiant maith ei wawr;
Derfydd gwaedlyd fawredd rhyfel
Llai o ebyrth gaiff y Bedd;
Tros y ddaear y teyrnasa
Cariad a nefolaidd hedd.

Gwyrddach gwelir dail y goedwig,
Mwy grisialaidd fydd y nant;
Bydd hyfrytach peraroglau
Ar y blodau yn y pant;
Cân yr adar yn bereiddiach,
Bydd ddystawach tônau'r môr;
Peidia'r bwystfil drwg ysglyfio,
Dan lywodraeth dyner Iôr.

Rhwymir Satan yn y pydew,
Ail estynir einioes dyn;
Prin y gwelir ar y ddaear
Olion pechadurus wŷn;
Chwyfia claerwen faner Heddwch
Yn awelon copa'r bryn;
Bydd yn newyn bron ar Angau
Yn yr hyfryd ddyddiau hyn.

Gan mor denau ei ddrychiolaeth,
Ni bydd ei gysgodau du
Yn dychrynu'r teithiwr unig,
Fel mewn oesoedd gynt y bu;
Gwelir, drwy y niwlen denau,
Hawddgar furiau Dinas Hedd;
Braidd na theimliryn amheuthun
Gorphwys gronyn yn y Bedd.

Ond â'r dyddiau yma heibio,
Ail ymdaena tywyll oes;
Gwywo wna, mewn rhan, effeith-
iau
Buddugoliaeth Angau'r groes;
Cyfyd Satan o'i garchardy,
Ail ymruthra gyda llid;
"Rhaib yr Angau" fydd yn
rhyfedd,
Yn mlyneddau diwedd byd.

Ail flagura annuwioldeb,
Chwarddir ar santeiddrwydd
pur;

Bernir melus aeron crefydd
Beunydd megys ffrwythydd
sur;

Llifa tônau balch annuwiaeth
Bron dros etifeddiaeth Duw;
Cilio'n unig raid i'r Cristion
I glogwynau'r anial gwyw.

Ond er bod mewn anial unig,
Trwy ei fendigedig ffydd,
Edrych wna, drwy'r niwl, yn
dawel,

Am y gwynfydedig ddydd
Yr ymddengys Iesu grasol
Mewn buddugol, freiniol wedd,
I adeni yn anfarwol
Oesol garcharorion Bedd.

CANIAD VIII.

NOS SADWRN Y DDAEAR.

Yr ymlygriad cyffredinol—Rhyfel Gog a Magog—Erledigaeth yn y dyddiau
diweddaf—Gweddi y saint.

Y byd sydd yn oedranus,
Ac uchel ddolef trais
Adseinia ei amgylchoedd,
Mewn ffrom, ddigofus lais;

Aeth heibio hyfryd flwyddau
Yr hir Filfwyddiant hardd,
Pan oedd yn llon flaguro,
Fel paradwysaidd ardd.

Diflanodd mwynder nefol
 Yn llwyr o blith ei blant;
 Ymroddi maent i wagedd,
 A phob aflanaf chwant;
 Y temlau glwys a santaidd,
 Fu gynt mewn uchel fri,
 Fel heirdd drigfanau rhinwedd,
 Yn awr sydd drigfa cri.

Colomen Hedd, fu unwaith
 Yn harddu ael y bryn,
 Ni welir hòno mwyach,
 Ond brithir bron a glyn
 Gan filwyr ymddialgar,
 Mewn syched poeth am waed;
 Gwyrddlesni tecaf daear
 A wywa dan eu traed.

Myrdd o fanerau Rhyfel
 A gwhwfana'r gwynt;
 Myrddiynau dÿn ymgasglant
 I ryw ddinystriol hynt;
 Eu llygaid sydd yn lliidiog,
 Cableddus yw eu hiaith:
 Darostwng Duw, eu hamcan,
 A difa'r dâ, eu gwaith.

Cyfarfod ag uniondeb
 Drwy'r tir nid yw yn hawdd;
 I'r ffos cyfiawnder syrthiodd,
 Ac aeth y gwir i'r clawdd;
 Mae'r Ddraig yn rhydd o'i chad-
 Ar Uffern nid oes glo; [wen,
 Ellyllon heigiant allan,
 Ymwibiant i bob bro.

Gan fythol lid eiddigus
 Cynddeiriog Satan yw;
 Gan artaith gwae difaol,
 Fel marwor ysol byw,
 Ei angerdd byth ni ddiffydd,
 Cynyddol, oesol yw,
 Yn ceisio difa bydoedd,
 A daear, dyn, a Duw.

Ei greulon ddig o'r newydd,
 Ar ol ei gerydd maith,
 Dros adeg y milflwyddiant,
 A'i gwna yn awr yn saith
 O raddau mwy uffernol,
 Nag ydoedd gynt ei hun;

Fel broch ufelwy llosgfal,
 Ymdywallt wna ar ddyn.

Ei ddeifiol hylif gwasgar
 Dros decaf lenyrch byd;
 Fel tanbaid fellt dialedd
 Mae holl deimladau'i fryd;
 Er dwyn i ben ei amcan,
 Daw'r oll o'i lengau ef,
 Fel byddin o locustiaid,
 Yn erbyn teulu Nef.

Rhif tywod môr gynullir
 O faith eithafoedd byd;
 Cenedloedd daear dwyllir,
 A chesglir hwy yn nghyd;
 Daw byddin Gog a Magog,
 Fel rhyw angeuol haint,
 Ar edyn gwynt y nefoedd,
 At wersyll gwan y saint.

Y santaidd "Ddinas anwyl"
 A amgylchynant hwy;
 Bwriadant ei difodi,
 Byth i gyfodi mwy;
 Eu bwriad ydyw difa,
 Yn ngwÿn difaol chwant,
 Bob enaid o'i phreswylwyr,
 Fel na bo mwyach sant.

Cael daear oll i'w gafael,
 Eu hymngais gawraidd yw,
 Heb adael haner modfedd
 O dan lywodraeth Duw;
 O flaen eu byddin nerthol
 Y rhua udgyrn croch;
 Gweryru mae y cadfarch,
 Yn ei wrhydri ffroch.

Mae myrdd o arfau gloëwon
 Yn adlewyrchu'r wawr;
 Dychrynlyd offer Angau
 Sy'n llengau ar y llawr;
 Cymylau llwch ymddyrrchant
 Pan ydynt ar eu rhawd;
 Yr awyr iachus lygrant
 Ag anadliadau gwawd.

Fel cwmwl mae eu cabledd
 Yn hofran uwch eu pen;
 Ei wenwyn ddadgysoda
 O blith elfenau nen;

Cyd-ddwysir ynddo'i hunan
 Elfenau cawod drom,
 O felldith ddialeddol,
 Ar ei gynyrchwyr ffrom.

Un groch "Aha!" hèrefeiddiol
 Yw llais y llu i gyd,
 "Ein meddiant ni yn fuan,
 Yn mhob man, fydd y byd;
 Nid oes na barn na Barnwr,
 Pob peth sy'n para'r un;
 Dinewid ydyw'r ddaear
 O ran ei maint a'i llun.

"Mae'r môr yr un yn aros,
 Ac felly'r mynydd hen;
 Yr un y gwelir Gwanwyn,
 A'i fwyn gynarol wên;
 Mae'r oll yn ofer chwedlau
 Am Farn, a Mab y Dyn;
 Ni fu—ni ddaw yn ddiau,—
 O'r fath—nid oes yr un."

Fel yma yr ymgasglant
 O amgylch gwerysll Iôn,
 Tra am yr Adgyfodiad
 Mae'r saint yn mynych sôn;
 Arswydo maent wrth weled
 Anferthol rif y llu,
 O'u blaen a wna y gorwel
 Yn ail i fynydd dû.

Ymdreigla'r oes ddrygionus
 Yn nwyfus yn y blaen,
 Heb ynddi fwy o deimlad
 Nag yn y pren neu'r maen;
 I bob llawenydd bydol
 Ymroddi mae yn rhwydd;
 Difyrwch pethau nefol,
 Ymgilio raid o'u gwydd.

Yn ail i ddyddiau Nôa,
 Yn brysur ffurfiant drâs;
 Ymdreiglant yn mhydewau
 Y chwantau mwyaf câs;
 Anghofiant Dduw y duwiau,
 Yn ol eu nwydau ânt;
 A phob erchyllaf gamwedd,
 Gorlanw'r ddaear wnant.

Ymruthra lluoedd Diafol
 Ar weinion rengau'r saint;

Ac arnynt gwnant gyflafan
 Echrysol yn ei maint:
 Y ddaear unwaith eto
 A fwydir gan eu gwaed;
 Ac megys sofr eu sethrir
 Gor-is gelynol draed.

Yr wybren a adruddir
 A'r goch ferthyrol fflam;
 Adchwilir hen ogofau
 Am offerynau cam;
 Gwneir prif elfenau natur
 Yn llym beirianau poen;
 Drwy'r byd nid oes drugaredd
 I fychain braidd yr Oen.

Ardderchog wledd a gedwir
 Gan y Satanaidd lu,
 Pan fyddont wedi meddwi
 Ar waed merthyron cu;
 Mor uchel swn eu bloddest
 Ar ol eu gorchest fawr!
 Dadseiniant nabl a thelyn,
 A llifa'r gwin i'r llawr.

Y Nefoedd ganddynt hêrir,
 A gwawdir enw Barn;
 Pob un rydd enw Iesu
 O dan ei droed yn sarn;
 I'w blaenor y cyd-dyngant,
 Y byddant iddo'n bur,
 Nes difa'r Cristion olaf,
 Drwy echryslonaf gur.

Yn mrig yr hwyr-ddydd hwnw—
 Nos Sadwrn ola'r byd,—
 Y gweiniaid saint ymgasglant
 Yn seibiant llengau ilid;
 At Dduw dyrchafant weddi,
 O ing eu clwyfus fron;
 Anerchant orsedd Nefoedd
 A'r brudd ochenaid hon:—

"O Arglwydd bôd a bywyd,
 Ti weli'n hadfyd ni;
 Pa bryd y cawn dy weled
 Yn dyfod yn dy fri?
 Ti weli gyrph dy weision
 Yn feirwon o dan draed;
 A buan difir ninau,
 A brynaist â dy waed.

“ O Dduw ! prysura wared,
Bydd iti fythol glod;
Ai nid yw'r Adgyfodiad
A Barn yn mron a d'od?
Os gwelwn wawr y borau,
Ymgrynwn wrth dy fwrdd;
Er mwyn dy waedlyd angau,
Bydd yno yn ein cwrdd!”

Gan udgorn y gloddestwyr
Ni chlywir mwy o'u llais;
Rhydd hwn ei rybudd nosol
I holl gatrodau trais;
Fe huna'r haul ysblenydd
Yn esmwyth wely'r dôn;
I gysgu gan ddystawrwydd
Y süir daear gron.

CANIAD IX.

BORAU TRAGWYDDOLDEB AC ADGYFODIAD Y MEIRW.

Arwyddion Naturiol—Dydd yr Arglwydd yn dyfod yn ddisymwth—Yr Archangel a Bloedd Udgorn Duw—Yr Effaith—Yr Adgyfodiad—Y Môr yn rhoddi i fyny y Meirw—Newidiad y rhai byw—Galar Angau—Byd yr Ysbrydoedd—Y dyrfa fawr yn esgyn drwy yr awyr.

I.

Yr haul, yn ol ei arfer,
Sy'n dringo'r wybren fry;
Ond braidd nad yw'n arafach
Ei gamrau nag y bu;
Y lloer a llu yr wybren
Ymdröant ar eu taith;
Rhyw ddwysder annaturiol
Sydd yn yr eigion llaith.

Nos Sadwrn olaf amser
Aeth o afaelion byd;
Boreu-ddydd Tragwyddoldeb,
A ddysgwyliesid c'yd,
Yn awr sydd wedi gwawrio,
Byth i fachludo mwy;
Holl ddyddiau oesoedd daear,
I'r pen dirwynwyd hwy.

Nid ydyw y simneiau
Yn mygu, megys cynt;
Mae'r mwg i lawr yn syrthio,
Heb arno gyffro gwynt;
Nid ydyw'r ych yn brefu
Ar waelod dôl na rhos;
Mae'r byd yn hir yn deffro
O hûn ei olaf nos.

Y saint, yn nyfnder trallod,
Edrychant tua'r Nen;

Anfonant weddi wylaidd
Hyd at eu santaidd Ben;
Wrth graffu ar yr wybren,
Canfyddant ynddi fod
Ryw olwg anarferol—
Mor olau mae yn d'od!

Heb nemawr yn ei ddysgwyl,
Fel lleidr yn nhrymder nos,
Neu wewyr gwraig yn esgor,
Neu fel yr enfys dlos,
Yn darfod mewn amrantiad,
Ar lawer gwlawog ddydd—
Ymdoriad dydd yr Arglwydd,
Yn sydyn felly bydd.

Yn nesu, uwch y ddaear,
Y gwelir Angel Nef;
Mor chwim yr hollta'r awel
A blaen ei aden gref!
Ei wisgoedd yw cymylau
O danbaid euraidd liw,
A deil ei law alluog
Aur emog “Udgorn Duw.”

Yr Udgorn hwn ni swniwyd
O'r blaen uwchben y llawr;
Darparwyd ef yn unig
At y ddychrynlyd awr;
Pan i ganolbarth bydoedd
Y grymus angel ddaw.

<p>Ei adlais gogoneddus A dery'r byd â braw:—</p> <p>“Deffröwch, deulu Adda, Mewn mynydd, bryn, neu ddôl,</p>	<p>Neu yn nyfnderoedd eigion— Na leched un yn ol: Doed deiliaid bro marwolaeth, A lluoedd Uffern faith, Gerbron gorseddfainc Iesu, I'w barnu am eu gwaith.”</p>
---	--

II.

Dolefau cryf yr Udgorn croch
 Drwm ruant, fel taranau broch;
 Y Greadigaeth, wrth ei lef,
 Ysgydwir gan ystorom gref;
 Dirgryna bydoedd hyd eu sail,
 A siglant megys egwan ddail:
 Ymdreigla'r llais o'r Dwyrain hyd
 Derfynau pob Llewiniol fyd;
 O Dde i Ogledd, drwy y nen,
 Dyrua yn yr wybr uwchben;
 Mae'n galw ar bob enaid byw
 I ymgyfarfod yn ngŵydd Duw;
 Y marwol gyrph dan rwymau'r Bedd;
 Ei lais a glywant yr un wedd;
 Mewn dychryn y gwranda'w'r môr
 Ar benderfynol alwad Iôr.

Holl feddau'r byd yn agor sydd,
 Dangosant eu trysorau cudd;
 Pob clust a glyw wahoddiad Nef,
 Cyd-ddefry i awb gan rym y llef;
 Cydgodant o'u gwelyau pridd,
 Bawb yn gyfartal—bawb yn rhydd.
 Llŵch oesoedd dry yn fodau byw,
 Ar uchel ddolef Udgorn Duw;
 Pob un anadlodd awyr nef,
 Ddihuna ar ei rybudd ef,—
 Y baban gwan newidiai'r bru
 Am gell yn ngwaelod beddrod dû;
 Y plentyn bach a aeth mewn hedd,
 O fynwes mam i fynwes bedd;
 Y feinir dêg, a'r gwridog lanc,
 Fu yn foreol ebyrth tranc;
 Yr hoffus dad, a'r dyner fam,
 A gollwyd gan eu plant dinam;
 Yr hen methedig, hir ei oes,
 A gurwyd gan y gwyntoedd croes;
 Myfyrgar athronyddion byd,
 A'r sawl ar wagedd r'odd eu bryd;

Y doethwr craff, a'r symlyn tlawd,
 Fu i oferwyr ffol yn wawd;
 Y drwg a'r da, y gwych a'r gwael,
 Y cybydd, a'r cyfranwr hael;
 Aml un y bu teyrnasoedd byd
 Yn ymgrymedig wrth ei gryd;
 Ac yntau'r caeth na phrofodd hedd,
 Nes iddo orphwys yn y bedd,—
 Ar unwaith y cyfodant hwy,
 Gwahaniaeth ni hanfoda mwy.
 O gynhwrf y terfysglyd lawr,
 Yn mhryder yr adgodol awr!
 Brys ddeffry Adda, cwyd i'r lan,
 A'i deulu, o'u cyntefig fan;
 Y cynddiluwiaid, gawraidd hil,
 Ymddyrchu wnant o feddau fil;
 Anwiriaid diluw, dyrfa ddû,
 Gyfodant yn afrifed lu;
 O dan y bryniau dyfod wnant,
 Yn eigion môr eu deffro cânt:
 Macpela hen yn agor sydd,
 Gorweddle Abr'am fawr ei ffydd;
 A'r llanerch nad adnabu dyn,
 Lle claddai Iôr ei was ei hun,
 Mewn gwewyr dwys, yn gyru sydd
 Gorph Moses i oleuni dydd:
 Mewn dirfawr fraw, a chyflym frys,
 Yr ymagora beddau'r blys;
 A holl aberthau maes y gwaed
 Sydd yn cyfodi ar eu traed.
 Marathon a Pharsalia sydd
 Yn rhoi eu caethion heddyw'n rhydd;
 Thermopylæ ei ddewrion gÿr,
 Pob dewr ei gadwen yno dÿr.
 Gwaedfaesydd Alexander Fawr
 A Cæsar, fu'n anrheithio'r llawr,
 Y maent yn fyw—fel gwellt y maes
 Eu meirwon gwyd, ar ruad laes
 Yr Udgorn sydd yn galw dyn
 At orsedd Rhoddwr bôd ei hun;
 A Morfa Rhuddlan, is ei hesg,
 A gadwodd gelaneddau llesg,
 Am lawer oes, esgora hi
 Ar gofion hen wladgarol gri:
 Ac Ynys Enlli, fach ei maint,
 A guddir gan gymylau saint.
 Pob dyffryn, dôl, a chwm, a phant,
 Pob rhedle afon, gwaelod nant,

Pob seiliau craig, pob mynydd ban,
 Y gwyrddlas faes, a'r unig lan,
 Pob creigiog drum, pob bryniog gôr,
 A holl waelodion äang môr,
 Holl dywod byd, holl bridd y llawr,—
 Sydd yn yr esgoreddfa fawr!
 Dinasoedd cedyrn, gynt a fu
 Yn gladdfa annifeiriol lu,
 Ysgydwant bob adfeiliog garn,
 O holl weddillion deiliaid Barn;
 Hen feddau'r Aipht, fu'n ysbail byd,
 Adferu gwnant eu meirw i gyd.
 Cwyd Anghrist ei haiarnaidd droed,
 Er dangos p'le ei gaethion rhoed;
 Holl ebyrth ei gudd-gelloedd dû
 Esgynant i'r goleuni fry;
 A dychwel mae y pedwar gwynt
 Ferthyrol lwch chwalasant gynt:
 Cynauaf daear, addfed yw,
 A medir ef â chryman Duw!

III.

Mewn eigionau mae, rhwng creigiau,
 Yn nyfnderau muriau môr,
 Ystafellau, boddiad oesau,
 Dan fynorol, ddyfrol ddôr;
 Ysgafn dônau, gwyrdd eu lliwiau,
 Dawnsiant dônau uwch eu pen,
 Yn mhelydrau haul y borau,
 Dan weniadau nodau nen;
 Gwena Angau ar y cellau,
 Fel ei hawliau ef ei hun;
 Ond, mewn mynyd,—difrif arswyd—
 Pawb ddeffroir o'u cysglyd hûn!

Tònau tawel, is yr awel,
 Gwyd yn uchel gâd yn awr,
 Yn derfysglyd dorf wreichionllyd,
 Eistedd arswyd ar eu gwawr;
 Dryllir bolltau hen ogofau,
 O'u crombiliau oll yn rhydd,
 Caethion Angau ddont yn rhengau,
 Allan o bob cellau cudd;
 Wyla yntau ar eu holau
 Halltach dagrau nag un dôn;
 Gwel'd eu codiad sydd drywaniad,
 Ingol frathiad yn ei fron.

IV.

Yna cipir y rhai byw—
 Llai na th'rawiad amrant yw,
 Er pan oeddynt ar y llawr,
 Ond cyflymu maent yn awr,
 Drwy y denau awyr lem.
 Taffu wnant eu holaf drem
 Ar yr anghyfanedd fyd,
 Oedd mor anwyl yn eu bryd.
 Eiliad a'u newidiodd hwy,
 Meibion daear nid ydynt mwy!
 Dros bob maes a ddaliai fedd,
 Angau red, â siomgar wedd;
 Mawrywei wae, mor drwm ei och!
 Pob ochenaid sydd yn groch;
 Cenfydd nad oes mwy i'w cael
 Ddeiliaid i'w diriogaeth wael;
 Gynau'n llawn—mae'n awr yn
 llwm,—
 Sudda mewn anobaith trwm.

Hades yn ymagor sydd—
 Milfil o ysbrydion cudd,
 Milfil arall gyda hwy,
 A mil-filoedd fwy na mwy,
 Myrdd ar fyrdd, a myrdd o'u hol,
 Torf ar dorf—yn d'od o'i chol;
 Llu ar lu, a lleng ar leng,
 Ymddyrchafant, rheng ar reng;
 Tywallt hi, o'i hëang byrth,
 Luoedd, fel parhäol wyrth;
 Bodau digyrph yr i'r lan,
 Fel ffynonau'r dyfnder, pan
 Y bwrlyment oll yn nghyd
 Ddyfrlli' cryf, er boddi'r byd;
 Felly daw ysbrydion byw—
 Adeg eu haduniad yw—
 Gyda'r cyrph mewn llygredd fu,
 Ond yn awr a gyrchant fry;
 Ac ysbrydion gwlad y cudd
 Yn cyflymu atynt sydd,
 Fel cymylau yn eu llun;
 Eto unig yw pob un,

Fel pe na bae yn y byd
 Neb ond Duw ac ef yn nghyd.

O'r ymuno sydd i'w mysg,
 Fel drwy reddfól, ddwyfól ddysg!
 Corph ac enaid yn cyd-gwrdd—
 Unant—a phrysurant ffwrdd;
 Dwy-ran wasgaredig dyn,
 Ar amrantiad sydd yn un.
 Nid oes baban llesg ar ol,
 Heb ei ysbryd yn ei gol.
 Bywyd yn teyrnasu sydd,
 Caethion Angau oll sy'n rhydd!
 Gwag yw oerion gellau'r Bedd,
 Gwag yw'r cefnfor gwyllt, di-
 hedd,
 Gwag yw Hades gyda hwy,
 Cell o'u mewn ni lenwir mwy!

V.

Yn nghanol dychryniadau'r
 llawr,
 Gorlenwir cyntedd wybren fawr;
 Y ddirif dorf yn esgyn sydd
 Yn uwch, a nes i oror dydd;
 Ac wrth ymgodi tua'r nen,
 Morastud tremiant oll uwch ben!
 Pob llygad yn sefydlog sydd,
 Fel pe nad allai droi yn rhydd.
 Pryderus drem sydd ar bob
 gwedd,
 Wrth nesu at y Ddwyfól sedd;
 Y drwg sy'n llawn o fewnol gur,
 A'r duwiol deimla hiraeth pur
 Am weled gwedd ei Ddwyfól
 Frawd,
 A thremio ar ei ddynol gnawd,
 Sydd gynllun hardd o'i gorph ei
 hun,
 A chael molianu Mab y Dyn,
 A'i fythol weled fel y mae,
 Mewn ardal na theyrnasa gwae.

CANIAD X.

Y FARN DRAGWYDDOL A DIWEDD AMSER.

Mab y Dyn yn dyfod yn ei ogoniant—Yr orsedd wen fawr—Y didoliad—Hyder y saint—Yr annuwiol yn dymuno ar i greigiau a mynyddoedd eu cuddio—Dystrywiad y ddaear—Yr elfenau gan wir wres yn toddi—Y cydymollyngiad—Ni bydd amser mwyach—Satan yn y Farn—Y Farn a eisteddodd—A'r llyfrau a agorwyd—Barnu y meirw yn ol eu gweithredoedd—Bendigedigion y Tad—“Deuwch”—Y rhai melldigedig—“Ewch”—Cyf-iawnder yn cloi y dorau—“Y gelyn diweddaf a ddinystir yw yr Angau”—Y gân ddiwedd.

I.

Agor mae gororau Nef,
Uchel adsain dolef gref;
Porth ar borth yn agor sydd,
Yn ardaloedd bythol ddydd;
Llu ar lu ddylifa i maes,
Swm eu hudgyrn sydd yn llaes;
Llengarleng, ar belmynt Gwawl,
Uchel leisiant beraidd fawl;
Nef ar nef ymagor wna,
Megys blodau tlws yr ha',
Pan y tywallt haul ei wres
Arnynt, mewn adfywiol dês;
Felly, ger y nefol Haul,
Egyr bydoedd fyrdd eu dail;
Ac o flaen ei wyneb-pryd,
Taenant addurniadau drud!
Byd ar fyd mewn cyffro mawr,
Sêr ar sêr sy'n ffoi yn awr;
Syrthiant, megys ffigys îr,
Yn nhanbeidwres dwyrain dir:
D'rysa'r blaned ar ei thaith
Drwy yr äangderau maith;
Try y seren wib o'i lle,
Nofia drwy äangder ne';
Dianc i bellderoedd bôd,
Draw o'i hen awyrol rod,
Nes, wrth nerth ei rhediad
chwim,
Y diflana hi yn ddim!
Wele'r lloer yn gylch o waed,
Ail i'r olwg hon ni chaed!
Dacw'r haul yn sachlen flew!
Diffodd mae mewn caddug tew!
Sachlen a orchuddia'i bryd,
Pan yn d'od i angladd byd!

Dyfod y mae Barnwr byd,
Nid â dirmygedig bryd,
Fel y daeth i Bethlehem,
Ond â mawredd yn ei drem;
Gwisg o'i gylch danbeidrwydd
Ar gerubiaid merchyg ef; [Nef,
Arch-angylion cedyrn Iôr
Sydd o'i gylch yn rymus gôr;
Holl gerbydau dirif Duw
Lanwant yr orymdaith wiw;
Yn ngogoniant engyl mâd,
Yn ngogoniant pur ei Dad,
A'i ogoniant mawr ei hun,
Dyfod mae i farnu dyn!

O aneirif osgordd Iôr!
Amlach yw nâ thywod môr—
Gwelltglas—coedydd—llysiâu—
dail,—

Ni wna llwch y byd ei hail—
Tyrfa ddysglaer, goruwch rhif,
Yn cyflymu, megys llif—
Holl fyrddiynau Nef y nef
Weithion a'i cylchynant ef;
Mae coronau ar ei ben,
Amlach ýnt nâ sêr y nen;
Y gogoniant ar ei rudd
Yn ofnadwy danbaidd sydd!
Ffoi mae'r ddaear, ffoi mae'r ne'
Rhagddo!—ni cheir iddynt le!
Sigla, cryna llawer byd,
Dan belydrau dwyfol bryd;
Holl ogoniant Duw ei hun
Sy'n addurno Mab y Dyn;
Yn yr enfys uwch ei ben
Plethwyd tlysaf liwiau'r Nen,
Gorchest creadigaeth yw,
Addurniadol gerfwaith Duw!

II.

Fry dacw'r ogoneddus sedd
 Yn cydymdori ar bob gwedd,—
 Mor uchel hi! mor danbaid yw!
 Fel marmor dan belydrau gwiw
 Mil myrdd o heuliau tég eu glain,
 Neu'r Jaspis a'i belydrau cain!
 Gwèn orsedd fawr! taenedig hi
 Yn nghanol yr wybrenau fry!
 Cyd-blethiad tenau awyr wen,
 Cyd-liwiad holl enfysau nen,
 Cyd-wëad o linellau gwawl,
 A haul belydrau yn ddidawl,
 Yw hi; a golwg ar ei hail
 Ni chafodd ein daearol haul.
 I wrando dedfryd bwysig hon
 Dylifa bydoedd ger ei bron;
 Holl deulu Adda'n sefyll sydd
 Yn gyfan, ar yr olaf ddydd,—
 Mae pawb yn nghyd o fewn un man,—
 Ni chollwyd hen, na baban gwan;
 Dwy dyrfa eu didolwyd hwy,
 A byth yn un ni byddant mwy;
 Cydgwrdd—didoli—ysgar byth—
 A'r cyfan oll yn gynt na'r chwyth
 Anadlant mewn cyflymder mawr,
 Yw tynged holl drigolion llawr!

Un dorf a edrych fry yn llon,
 Amhëus fraw nid oes yn hon;
 Pob calon, mewn dedwyddawl fryd,
 Groesawa Brynwr mawr y byd;
 Hwy welant fywyd yn ei wedd,
 A buddugoliaeth ar y Bedd,
 A bythol fywyd gydag ef
 Yn uchelderau'r drydedd Nef.

Ond Och! y ddû annuwiol dorf!
 Pob glin sydd laes—pob pryd yn llof!
 Pob calon yn grynedig sydd,
 Teyrnasa arswyd ar bob grudd;
 Cydwybod rua, megys arth,
 A'r meddwl sydd yn llawn o warth;
 Daeth awr eu barn, a'i dechreu hi
 Wynebant mewn dirdynol gri,
 Ar i fynyddoedd uwchaf byd
 Eu cuddio rhag digofus bryd
 Yr Hwn eistedda ar y sedd,
 A thaer ddymunant am i'r Bedd

Eu derbyn oll i'w freichiau'n ol,
I fythol huno yn ei gôl.

Y ddaear glyw eu herchyll gawr,
Malurir hi gan chwyldro mawr;
Pob maes, cyfandir, ynys, gryn,
O'r mynydd balch i fynwes glyn;
Syrth Basan i ddyfnderau'r môr,
Ffy Carmel rhag gelynyion Iôr;
Ararat hen, fu gynta'n sych,
Ymwibia, mewn dychrynlyd ddrych,
I eigion pell, fel pe mewn ofn,
Am ddychwel gynt y dôn oedd ddofn;
Llam Sinai âg ochenaid groch,
I'r cofus fôr a elwir COCH.
Clogwynawg gribau India boeth,
Ddaliasent bob tymhestloedd noeth,
Mewn brys adlamant oll o'u lle,
Ac, yn lle cuddio gâlon Ne',
Ymsuddant mewn eigionau mawr,
A throstynt caua'r dwfr yn glawr!
Amerig, â'i chadwynau hyf,
Chwarddasent ar ystormydd cryf;
Yn mhell uwchlaw y cwmwl dû
Y codent hwy eu penau fry;
Haul oesol drigai ar eu crib,
Ond dyma hwythau ar eu gwib
I ddwfn eigionau môr y Dê,
Ac nid oes mwyach ond eu lle!
Mynyddoedd Affrig, fu yn hir
I ddynion yn anhysbys dir,
Sydd oll yn teimlo'r chwalfa fawr,
Ymestyn dros ororau'r llawr.
Yr Alpau ban, fu'n gwisgo iâ
Yn benwisg ar bob tymor ha';
A'r hen Farwynion codi wnant,
A'u lloches yn Môr Tawch a gant;
Holl fryniau noeth Celyddon lom
Gyfodant gyda rhuad ffrom:
A Chymru fryniawg sydd yn awr,
A'i bryniau mewn chwyldroad mawr;
Iselaidd gadwen Dyffryn Clwyd
O'i gwely hên frawychus gwyd;
Cwyp Gogarth rhag ei flaen i lawr,
Ac ymollynga'r Penmaen Mawr;
Y Wyddfa dâl a'r cwmwl llwyd,
Ysgaru maent; Eryri gwyd,
Ac yn y Werydd disgyn hi,
Nid yw ond tamaid bach i'r lli';

Ail agor ei fochgernau wna,
 A Chader Idris ynddynt ca;
 Yr Aran serth, a Berwyn hir,
 Plumlumon a'i fynyddig dir,
 Y Mynydd Du, a'r Banau ânt,
 Ymguddio yn Môr Udd a wnant;
 A chwardd y dôn, âg uchel lef,
 Ar siomiant holl elynion Nef!
 Ymffaglu mae adfeilion byd,
 A thanllyd bentwr yw i gyd!
 Nid oes a'i dalia yn ei le,
 Ar ol cyflawni bwriad Ne';
 Cyd-ddettyd ei elfenau'n awr,
 Angerddol wres a'u tawdd i lawr;
 Mae'n cyd-ymollwng—try yn ddim,
 Pan welir angel mawr ei rym
 Yn dyfod, megys corwynt cryf,
 Yn arwain yr ystormydd hyf;
 O'i ffamllyd law y cyflym hyllt
 Y torchog fellt, a'r tanllyd fyllt.
 A llais yn ail i daran gref,
 Y gwysia holl amgylchoedd nef
 I sefyll ar eu hoesol daith;
 Ac yna, mewn mawreddus iaith,
 Y twng i Dduw, na syflant hwy,
 Ac na anadla Amser mwy,—
 Ac Amser syrth yn wysg ei gefn,
 Byth ni ysgoga ef drachefn;
 O'r pethau sydd yr aeth ar goll,
 Mae Tragwyddoldeb oll yn oll.
 Yn Amser y dechreuai'r dydd,
 Ond Amser wedi trengu sydd,
 Cyn gweithio cylch ei ddydd yn llawn,
 Byth, byth ni welir ei brydnawn—
 Diderfyn Dragwyddoldeb yw,
 Difesur gan belydrau gwiw
 Yr haul a'r lloer a'r nefol lu,
 Gynt yn mesuro amser fu;
 Un Dydd fydd mwy, a Duw y Nef
 A'i fythol hanfod mesur ef!

Gerllaw y frawdle, wele lu
 Cadwynog lengau Uffern ddû;
 Pob un sydd lawn o ysol ddig,
 Fel yr euogrwydd ynddo drig,
 Yn difa, heb ddyfetha dim,
 O nerth eu dirdyniadau llym.
 Saif Satan yn y flaenaf res,
 A thalcen o bardduol bres;

Gwel mai oferedd fu ei waith,
 Mewn milfil o gynllwynion maith;
 Gwel undeb perffaith Duw a dyn,
 A theimla'i fythol wae ei hun;
 Gwel fyrdd o deulu dyn mewn hedd,
 Yn ysbeiliedig gwel y Bedd;
 Ymnydda gan ddigofaint llym,
 A chryna ger anfeidrol rym;
 Cynddaredd hyd ei ruddiau dring,
 Llawn ydyw o siomedig ing;
 Ond beiddiol yw yr olaf drem
 A chwery ar ei brydwedd lem.
 Yn ail drychiolaeth gul, ddigig,
 Ymddengys Angau yn ei ddig;
 Gerllaw i Satan sefyll mae,
 Yn llawn o bersonoliaeth gwae;
 Dirdynir ef gan arswyd tranc,
 I ben y daeth ei reibus wanc!

III.

Ar ei orsedd eistedd Iesu,
 Mor urddasol yw ei wedd!
 Ar un llaw y dalia angel
 Drymion agoriadau'r Bedd;
 Anferth agoriadau Uffern,
 Fuont yn ddiddefnydd c'yd,
 Ddalia grymus angel arall
 Ger yr euog dorf i gyd.
 Rhydd y Dwyfol Farnwr amnaid,
 Ac agorir llyfrau'r Farn;
 Cofres holl weithredoedd dynion
 Sydd yn gyfan yn mhob darn;
 Nid oes fwllch, o drosedd Adda
 I Nos Sadwrn ola'r byd;
 A thywynna ei chynwysiad,
 Megys mellten, i bob bryd.
 Gwel pob llygad ei bechodau,
 Megys mewn llythyrenau tân;
 Nid oes un o'r holl linellau
 Yn aneglur, nac yn fân;
 Pob cydwybod a'i hateba,
 Fel trydaniad cryf ei hun;
 Iesu yna a gyhoedda
 Fythol ddedfryd ar bob un.
 Gwena'n dyner ar ffyddloniaid,
 Fu yn wylo dan y groes;

Gwahodd hwy i'w deyrnas nefol,
 I fwynhau anfarwol oes:
 Gwga ar y dorf elynol,
 Nes y fföant oll yn llu,
 Llawn o anobeithiol lefau,
 I ddyfnderau Uffern ddu.

'Hed cyfiawnder ar eu holau,
 Rhwyga'r awyr fel y wawr,
 Disgyn wna drwy'r eangderau,
 Clöa ddorau Uffern fawr;
 Croch ywrhugl y rhydlyd folltau,
 Yntau a ddychwela fry,
 Gan chwyrndafu yr allweddau,
 I eigionau'r awyr ddû.

Clywir adsain dwys ruddfanau
 Y colledig, euog rai; [au,
 Hirdrwm adsain mae'r allwedd-
 Megys rhuad môr ar drai;
 Gwrando mae y damnedigion,
 Nes yr attal pawb eu chwyth,
 I roi dolef fwy echrydus—
 "DYMA NI'N DRUENUS BYTH!"

Cydia Angel cryf yn Angau,
 Ymaith y chwyrn gipia ef;
 Arno yr edrycha bydoedd,
 Trwy y nefoedd traidd ei lef;

Dystaw yw'r aneirif dyrfa,
Nid oes llais, na murmur cân,
Pan y disgyn yr arch elyn
I eigionau'r Llyn o dân.

Clywed wneir ei groch ochenaid
Yn ymgodi uwch y dòn,
Yna sudda iddi eilwaith,
Ac ni chyfyd mwy o hon;
ANGAU, p'le mae'th oruchafiaeth?
P'le dy fuddugoliaeth, FEDD?

Llwyr orchfygwyd chwi eich deu-
oedd,

Gan alluoedd Brenin Hedd!

Llynwyd Angau!—do, ynddïau;
Seiniwch eich telynau, saint!

Swniwch uchaf nodau moliant,
Darfu cystudd, cur, a haint;

Chwithau, fydoedd, llawenych-
Unwch yn y felus gainc, [wch,

Chwydda fel taranau nerthol,
Ger y ddwyfol orseddfainc.

MARWNAD MRS. HEMANS.*

GANWYD HI YN LLYNLLEIFIAD, MEDI 25, 1793. BU FARW YN
DULYN, MAI 16, 1835.

“Calm on the bosom of thy God,
Fair spirit, rest thee now!
Even while with us thy footsteps trod,
His seal was on thy brow.
Dust to its narrow house beneath!
Soul to its place on high!
They that have seen thy look in death
No more may fear to die.”

EI BEDDARGRAPH: Gwel y penill olaf.

Y ddaear hon sydd gartref tristwch du,
A noddfa ydyw i ofidus boen;
O'i mewn diflana pob mwynderau cu,
A chilio'n gyflym wna pob siriol hoen;
Pan godo Haul heb gwmwl ar ei rudd,
I wasgar ei dyneraidd, fore wawl,—
Pan gân yr adar wresog groesaw dydd,
A phan offrymant eu plygeiniol fawl,
Ymleda cwmwl dû ar draws y nen,
A chuddia'r cyfan â'i gaddugawl len.

Pan egyr rhosyn ei ddalenau llon,
I berarogli'r dyner awel fwyn,

* Cyrhaeddodd y Farwnad hon feirniaid Eisteddfod Rhuddlan yn 1850 un diwrnod yn rhy ddiweddar i'w derbyn i mewn i'r gystadleuaeth.

Ceir gweled, cyn y treigla diwrnod bron,
 Ei fod yn prysur wywo ar y llwyn;
 Pan fyddo'r goedwig yn ei mantell werdd,
 Ar fryniau gwlad, neu wrth ddinasaidd byrth,
 A'r adar ynddi yn cydwau eu cerdd,
 Daw Hydref oer, a'i dail yn gyflym syrth;
 Ac felly yn ei noethder unig, llwm,
 Rhaid iddi ddâl ystormydd gauaf trwm.

Er dyfod Gwanwyn â'i gynarol wên,
 Ac er i'r wybren wenu ar ei daith,
 Ni chaiff ei ddail na'i flodau dyfu'n hen,
 Anurddir hwy gan ddagrau hinsawdd laith:
 Er gwisgo daear yn ei swynion haf,
 Ei gwychedd ddaw yn fuan iawn i ben;
 Ymgilio wna, fel gwrid o rudd y claf,
 Diflana'r cyfan yn oer wyntoedd nen;
 Ni bydd ar fyr ond cofio'r hyn a fu,
 Ag athrist bryd, a theimlo gauaf dû.

Wel, felly mae; hyn ydyw tynged dyn,
 Nid yw ond ofer dodi arno serch;
 Ni phery'n mwyniant ond fel bore hûn,
 Pan hoffom rywun, fe ddaw Angau erch,
 A'i gipio wna am byth o'n cyrhaedd ni;
 Er maint ei glod am rinwedd, dysg, a dawn,
 Ein gadael wneir i wylo dagrau'n lli',
 Am na cha'dd dreulio gyda ni ei nawn;
 Bydd drwm ein gofid, a bydd lem ein loes,
 Am iddo gilio yn moreuddydd oes.

FELICIA HEMANS! dy adgofion cu
 Enynai'r pruddaidd fyfyrdodau hyn!
 Yn nghanol bywyd y'th gymerwyd di,
 Dy guddio wnaed yn oer briddellau'r glyn;
 Pan oedd cenedloedd yn mawrygu'th gân,
 Newidiai Angau dy hawddgaraf wedd;
 Pan dwymid Prydain â'th awenol dân,
 Tydi osodwyd yn nhywyllwch bedd!
 Dy angau fu yn debyg iawn i'th oes,
 Dy lestr a ddrylliwyd gan awelon croes.

O Ferch yr Awen! dwys a phrudd y drem,
 I'r golwg ddwg dy yrfa boenus di!
 Ymddengys rhywbeth megys tynged lem,
 Mewn cryf eiddigedd at dy glod a'th fri;
 A gwedd ddrwg-dybus hi amgylchai'th gryd,
 Fel pe am ddechreu yno ar ei gwaith;
 Dy riaint wasgodd â cholledion byd,
 I ddechreu croesau dy ddaearol daith;

Ond nid oedd colled na wylofus gri,
Yn ddigon llym i lethu'th ysbryd di.

Dy ysbryd oedd yn brwydro â phob nerth,
Ni fynai suddo yn nhrallodion oes;
Tydi ni chrynit rhag y llwybrau serth,
Ni'th lethai siomiant, gyda chwerwaf loes.
Fel eryr nerthol yn yr awyr fry,
Yn syth ymgodi tua bro yr haul,
Fel hyny uchel yr ehedit ti,
Uwch blin drallodion, heb yn aml eu hail,
Gan dremio, gyda dirmygedig fryd,
Ar holl ofidiau dreiniog lwybrau byd.

Yn ieuanc iawn yr hoffaist Natur hardd,
Dy enaid lanwodd âg ysbrydol swyn;
Edrychaist arni gyda llygad Bardd,
Nes gweled harddwch yn mhob gwig a llwyn;
Dy galon deimlodd ei dirgelaidd lais,
Fel gwysiad dwyfol, yn dy wahodd di
I'w ffyddlawn ddilyn; ac, yn ol ei chais,
A glewder Bardd y pur ddilynaist hi,
Nes gwasgu gemau o bob cwmwl llwyd,
Gusanai ruddiau Moelydd Dyffryn Clwyd.

Er nad oedd hi yn ferch i Gymru hen—
Ei gwythi lenwid gan allforawl waed—
Derbyniodd Awen Cymru gyda gwên,
A'i grymus ysbrydoliaeth arni caed;
Dilynodd hi drwy ddoldir, cwm, a glyn,
Dros wyrddion lethri i'r iselaid bant;
Eisteddodd gyda hi ar ael y bryn,
Cyd-rodient lenydd y furmurawg nant;
A mynych iawn y byddent law yn llaw,
Yn gwrando taran y rhaiadrau draw.

Pob ogof hen, neu wyllt glogwyni craig,
A gwyll y goedwig mewn cornelau prudd,
Y droellog afon, ac ymylau'r aig,
Ddadlenent iddi ddrychfeddyliau cudd;
Y bwthyn bach, a gardd is godre'r coed,
A'r eiddew gwyrdd yn lledu ar ei fur,
Mewn man na sangodd pendefigaidd droed,
Oedd fel paradwys i'w theimladau pur;
Ac hoffach oedd, os byddai iachus blant
Yn difyr chwareu ar ymylau'r nant.

Ei meddwl braidd yn rhy ysbrydol oedd
I drigo mewn tymhestlawg, siomgar fyd,
Lle mynych deimlir gormes, trais, a bloedd,
Lle gwelir camwedd o erchyllaf bryd;

Yr ydoedd fel rhyw sylwedd canaid, pur,
 Na chawsai ddethol ei briodol le;
 Neu fel planigyn mewn Gogleddol dir,
 Ddylasai fod yn nhyner hinsawdd De;
 Neu megys un o hoff ysbrydion Nen,
 Gollasai'r ffordd i'w gartref gwych uwch ben.

Yn myd y wyllo, mawr yr hoffai gân,
 Ac fel yr Eos, melus oedd ei cherdd,
 Yn nyfnder nos, heb y goleuni glân,
 Yn nhewion lwyni pell y goedwig werdd;
 Ac fel yr Eos, pan y mae ei bron
 Yn cael ei phigo gan y blaenllym ddrain,
 Melusach ydoedd holl ganiadau hon,
 Ei llais gyfodai i bereiddiach sain;
 A'i henaid grymus 'hedeg wnae yn mhell,
 I gasglu blodau yn y "Wlad sydd well."

Dihysbydd ydoedd ei hathrylith gref,
 A'i dysg oedd gydradd â'i huchelaidd ddawn;
 Ar aden crebwyll, hi amgylchai'r nef,
 Gan wau ei chân â thlws sidanaidd wawn;
 Hi fedrai blethu addurniadau'r sêr,
 Benthyciai gudyn gan y seren wib;
 O'r fforchog fellten gwëai goron dêr,
 I'w gosod ar y Wyddfa falch ei chrib,
 A throai gwmwl o felynwyn wedd,
 Yn wisg ysblenydd i'r awyrol sêdd.

O wlad i wlad ymdeithiai wrth ei phwys,
 I sylwi ar brydferthaf geinion byd;
 Ac fel argraphiad y goleuni glwys,
 Eu delwau tlysiion cerfid ar ei bryd:
 Anadlai falm awelon tyner De,
 Aroglai lysiau peraidd Dwyrain hin;
 Drwy'r Gogledd rhodiai, er mor oer y lle,
 Yn mysg uchelfrig hen goedwigoedd pîn,
 Neu gwrendy gwynion alarch gwlad yr Ia,
 A'i wylltaf dônau, pan eu dadgan wna.

Ei bywiog ysbryd i'r Gwerddonau llon,
 Lle gwisga Anian ei hawddgaraf wên,
 Dramwyai; lle mae'r Orllewinol dôn,
 Mewn oesol ymdrech gyda'r creigiau hên.
 Nid oedd drwy Anian un olygfa dlos,
 Oreurid gan belydrau haul y dydd,
 Neu a arianai llewyrch lleuad nos,
 Oddiwrth ei threiddgar lygad hi yn nghudd;
 Holl Natur blygai, gyda gwylaidd serch,
 I daer geisiadau tyner Awen merch.

Er bod ei Hawen, fel ei rhyw ei hun,
 Yn fwyaf addas at destynau serch,
 Hi fedrai rodio fel arwrol ddyn,
 Heb gollu dim o swynion gwylaidd merch;
 SYR WILLIAM WALLACE a enynai 'i chân,
 Hen arwyr Cymru a fawrygai hi;
 A gwych y medrai ei phrydyddol dân
 Gynyrchu nodau o ryfelgar gri;
 Holl eheddiadau ei hathrylith gref
 Oedd gyffredinol, fel goleuni Nef.

Palmero, Dartmoor, a'r Amheuwyr câs,
 Yn nghyd a'r gorau o'i barddonol waith—
 "Cysegr y Goedwig," is yr wybren lās,
 A "Chofion Menyw," â'u tyneraf iaith,
 A llon "Ganiadau Teulu" gyda hwy,
 A'i "Gwladol Gerddi,"—sydd yn llawn o swyn;
 Ond yn "Nghaniadau'r Serch" canfyddir mwy
 O fewnol nodwedd yr awdures fwyn,
 Y rhai'n ddadlenant wresog galon merch,
 Fel santaidd breswyl yr anwylaf serch.

Ond trist y dydd gadawodd Gymru dêg,
 Gan ddewis cartref yn Iwerddon dir;
 Nid BRON Y WYLFA, a'i hawelon chweg,
 Fu Dulyn iddi; ond ei nerth cyn hir
 Adfeilio wnaeth, a buan dygwyd hi
 I sefyll yn nghynteddau prudd y bedd;
 Ond yn ei chystudd trwm, ei Hawen gu
 A daenai lewyrch ar ei nychlyd wedd;
 Cyn gadael byd, am ddysglaer Wlad y Gwawl,
 Ei henaidd chwyddai gan emynau mawl.

Ar foreu Sabbath, pan oedd Gwanwyn mwyn
 A blodau Ebrill yn addurno'r llawr—
 Pan ganai'r adar yn mhob gwyrddlas lwyn,
 Y nychai hi; ond ar y santaidd awr,
 Pan gasglai'r saint i hawddgar demlau Iôr,
 Enynai ynddi ysbrydoliaeth glân;
 Ymunai 'i henaidd â'r molianus gôr,
 Mewn llawer cysegr a ddyrchafai gân;
 Ei hodlau olaf, cyn wynebu'r bedd,
 Oedd melus ganiad am Sabbathol hedd.

Y babell egwan ei llwyr ddattod gai,
 A'r bywiol ysbryd, mewn nefolaidd nwyf,
 A dyner giliodd, ar ryw hwyr yn Mai,
 Ac aeth i wlad goruwch daearol glwyf:
 Ei chorff osodwyd mewn unigol fan,
 I huno'n esmwyth, heb un ingol loes.

Bydd hoff ei hûn, yn meddrod Eglwys Ann,
 Nes iddi ddeffro i anfarwol oes;
 A'i chân ei hun goruwch ei hanedd ddû
 Fynega fod yr enaid dedwydd fry.

Ein galar derfydd yn ei hemyn gwiw,
 Sydd uwch ei phen yn mhriddell oer y llawr:—
 "Yn dawel iawn yn mynwes bur dy Dduw,
 O ddedwydd ysbryd! gorphwys di yn awr;
 Dy rudd a wisgai nôd ei ddwyfol hedd,
 Pan ar y ddaear trigit gyda ni;
 Y llwch ddisgyno i ddyfderoedd bedd,
 Ond aed yr enaid i'w breswylfa fry;
 Y rhai a welsant dy drengedig wên
 Mwy ni raid ofni poenau Angau hên."

I'W BRIOD, MRS. RACHEL JONES.

Yn y Rhagymadrodd i'r gyfrol gyntaf o'r GYMRAES, ar ol "dychwelyd ei ddiolchgarwch gwresocaf i'w Nodd-wraig anrhydeddus (Lady Hall), i'w Gyhoeddwr caredig (Mr. W. Owen, Caerdydd), i Ohebwr medrus, Dos-barthwyr ffyddlawn, a Derbynwyr lluosog a charedig," ychwanega, "Ond y mae un, i'r hon yr wyf yn fwy rhwymedig na hwynt oll; yr hon a fu yn helaethach mewn llafur, yn amlach mewn gofidiau, yn fynychach mewn dagrau, ac yn fwy amgylchedig gan ofnau, na neb arall, yn mlwyddyn gyntaf cyhoeddiad Y GYMRAES. Ac nis gallaf derfynu yr anerchiad hwn yn well na thrwy gydnabod "cariad tu hwnt i gariad gwragedd;"—

Ti wyliaist wrth fy ngwely,
 Pan ydoedd haul yr haf,
 A'i danbaid wres bob diwrnod
 Yn gwywo'th briod claf;
 Ti wyliaist wrth fy ngwely,
 Nosweithiau gauaf oer;
 Pan syrthiai ar y lleni,
 Oleuni llwyd y lloer.

Ti wyliaist uwch fy ngwely,
 Pan oedd yn wely gwaed,
 A ffrydiau coch y galon,
 Yn drochion wrth dy draed;
 Ti wyliaist wrth fy ngwely,
 Pan oedd y peswech blin,
 Drwy'r nos yn peri imi
 Ddihoeni yn ddihun.

Tach. 18, 1850.

Ti wyliaist uwch fy ngwely,
 A mawredd cariad merch;
 Dy enaid wrthyf rwymwyd,
 Ni syflwyd dim o'th serch;
 Ti wyliaist wrth fy ngwely,
 Yn misoedd nychdod maith,
 A'th fron dy hun mewn cystudd,
 A'th dyner rudd yn llaith.

Ti wyliaist uwch fy ngwely,
 Dan wenu gyda'r wawr;
 Dy serch nid oedd yn pallu,
 Pan suddai'r haul i lawr;
 Ti wyliaist uwch fy ngwely,
 Pan giliai eraill draw;
 Fel angel glân goleuni,
 Cawn lynu yn dy law.

PRIODASGERDD

Y PARCH. JOHN DAVIES (YN AWR O GAERDYDD), A MISS MARGARET JONES, LLANELLI.

MOR hoff imi, fy nghyfaill mwyn,
Yw llunio cân o serch,
Pan i dy gartref y gwnei ddwyn
Dy hawddgar briod ferch;
Hoff iawn i mi yw cofio hynt
Y dyddiau dedwydd llon,
Ar lanau Honddu dreuliem gynt,
Heb nemawr loes i'r fron:
Mynachod oeddym ar y pryd,
Ysgerid ni oddiwrth y byd.

Nid oes cyflawnder yn y dyn,
Pan yn unigol mae,
Heb gymhar tebyg iddo'i hun,
I ranu hedd a gwae;
Ei ystlys sydd o hyd yn wan,
Ar ol yr asen wiw,
A drefnyd gan y Nef i'w ran,
Mewn hoffaf fan i fyw;
A llon yw genyf iti gael,
O law Rhagluniaeth, rodd mor
hael.

Da gwyddost ti am yrfa fu
Yn dechreu megys gwawl;
Ond darfod wnaeth mewn cyf-
nos ddu,
Ni fynai tynged dawl;
Obyth na theimlot ti, fy mrawd,
Y fath arteithiol gur!
Gwaethydyw nâ dirdynu'r cnawd
A danedd gefail ddur.
I chwi eich dau, boed oes o hedd,
Hir, hir, cyn cyrhaedd glan y
bedd.

Maddeua y crwydriadau hyn
I dywell fro y bedd;
Nid Bardd wyf fi yn byw ar fryn,
Yn nghanol blodau hedd;
Yn mysg y beddau, rhodio'r wyf
Er mwyn y meirw cudd;
Ac yn fy mron fy hun mae clwyf
Ddyfnha o ddydd i ddydd;
Nid ydyw felly'n werth i mi
Ymdrech gadael llanerch cri.

Ond boed i ti, fy nghyfaill llon,
A'th briodasferch wiw,
Bob bydol fwyniant is eich bron,
A grasau Ysbryd Duw:
Dy BERL a fo yn loew em
Yn harddu'th goron di;
Boed prydfferth lewyrch yn ei
threm,
O'i dilyn bydded bri:
Pob merch o fewn dy Eglwys
boed

Yn falch i sangu'n ôl ei throed.
I Dduw a'n gwlad, fy Ioan bach,
Yr ymgysegram ni;
Myfi yn glaf, a thi yn iach,
Ymdrechwn dros ein Rhi;
Ein gwragedd sychant ymaith
chwys
Ein gruddiau yn y gwaith,
Nes yr amneidia'n Tad o'i lys
Fod terfyn ar ein taith;
A'n cyrchu oll i wlad y gân,
I etifeddu bywyd glân.

AWDL ARWEST

ER COF AM MRS. WADDINGTON, O LANOFER, MAM YR ARLWYDDES
HALL. BU FARW ION. 19, 1850, YN 78 MLWYDD OED.

TRYSORAU yn yr eigion sydd,
Yn mhell islaw i oleu dydd,
Yn mynwes oer y dôn;

Yn nyfnder mawr y dulas lif
Y gorwedd gemau fwy nâ rhif
Drwy foroedd daear gron;

Y mynydd yn ei grombil brudd
 A geidw gyfoeth oesau'n gudd,
 Goris ei daren serth;
 Ond eto o guddleoedd byd
 Y bedd yw'r penaf fan o hyd,
 A'r mwyaf oll ei werth.

Holl degwch daear faith i gyd,
 Holl nerth a grym a mawredd byd,
 Trysorau fwy na mwy,
 Sydd yn ei gelloedd oerion ef,
 Ac yno mae anwyliaid Nef,
 Mor werthfawr ydynt hwy!
 Os rhifo ein trysorau wnawn
 O'r nifer yn y beddrod gawn,
 Dan gloion oer ei glai!
 Rhai oeddynt i'n heneidiau
 prudd,
 Yn hoffach nâ thrysorau cudd,
 Neu hyfryd fwynder Mai!

Y decaf em addurnodd dir
 Ddirdyna i'w gaethiwed hir,
 Anniwalledig yw;
 A thrwsio wna ei fynwes ddu,
 A'r cyfan sydd, a fydd, a fu,
 Yn symud, bod, a byw;
 Ond er ei raib a'i ddidor wanc,
 Daw ato yntau awr ei dranc,
 Pan orfydd iddo ef,
 Ymadael â'i drysorau oll,
 Ni bydd o honynt un yn ngholl,
 Pan swnio udgorn Nef.

Ond gan mai yno maent yn awr,
 Awn i'w ororau prudd di wawr,
 A chwilio wnawn am un,
 A welwyd yn addurno'i hoes
 A'i rhinwedd a'i charuaidd foes
 A'i da i deulu dyn;
 Ond mwyach nid yw hi i'w chael
 Yn gwenu ar dylodion gwael
 O fewn y manau bu;
 Mae lle i ofni fod ei gwedd,
 Yn awr yn mysg trysorau'r bedd,
 O fewn ei gafell ddû.

Mae gwagle yn y neuadd wych,
 Galara teulu mwyn,

Gorsedda prudd-der ar eu drych,
 Wylofus yw eu cwyn; [cân,
 Yn ddystaw aeth holl swynion
 Y delyn sydd yn fud;
 Mae cwmwl dros y gemau glân
 A'r addurniadau drud.

Mae pendefigaidd lys yn llawn
 Arwyddion galar prudd,
 Am foneddiges uchel ddawn
 Mewn marwol gell sy'n nghudd;
 Mae bonedd yn anghofio nwyf,
 Pleserau urddas coeth,
 Derbyniodd eu mwynderau glwyf
 Yn nhranc y dda a'r ddoeth.

Mae beddrod newydd yn y Llan,
 A Thristwch wrtho sydd,
 Yn taenu dwysder dros y fan
 O wawr hyd wyll y dydd.
 Mae swyn y gwynt yn nail yr Yw
 Yn sibrawd galar-gerdd;
 A'r bedd yn llanerch unig yw
 Yn nghanol daear werdd!

Mae athrist gwyn yn mwth y
 tlawd,
 Am golli noddwraig lwys;
 Yn fwy gofidus daeth ei ffawd,
 Pan roddwyd hi dan gwys,
 Yr elusenau mynych rif,
 Beidiasant gyda hi,
 O'i lygaid rheda dagrau'n llif,
 A thrymllyd yw ei gri;
 Ca'dd archoll ddofn o dan ei fron,
 Yn nhranc GEORGIANA WAD-
 DINGTON.

Mae'r weddw dan ofidiau lu,
 Hi gollodd dyner un,
 A wyddai beth oedd adfyd dû,
 Yr unig weddw 'i hun:
 Mae dagrau breision ar ei grudd,
 Mor dwym a'r gwresog serch
 A deimlodd cynsymudiad prudd,
 I garchar angau erch,
 Y foneddiges WADDINGTON,
 Fu'n gwneud ei mynwes gynt yn
 llon.

Mae yr amddifad llwm ei gefn
 A'i lygad gwelw'n llaith,
 Eisynllyd glust ni chlyw drachefn
 Ei hoff, dosturiol iaith;
 Diflanodd y pelydrau cu,
 A wnaent ei lwybrau prudd,
 Yn nghanol dwys ofidiau dû
 Yn ail i olau ddydd;
 Ererwydro'nawr dros ddôlarhos,
 Nid oes o'i amgylch ond y nos.

Mae galar trwm yn llanw'r fro,
 Nid clwyf unigol yw;
 Ond pawb a glwyfwyd ar y tro
 Y peidiodd hi a byw;
 Pan drengodd hon y cryfa'r gwan
 Gydgyrment dan y loes;
 Gofidiai'r dewraf yn y fan,
 Am unwaith yn ei oes;
 A'i cholli deimlid gan bob un
 Yn golled iddo ef ei hun.

O hygar foneddiges fwyn,
 Deilyngai uchel fri;
 Y ddaear gafodd achos cwyn
 Yn awr dy syrthiad di;
 Cyfeilles oeddit ti i DDYN
 O bob rhyw lwyth ac iaith;
 A'i wneud yn gysur iddo'i hun
 Fu dy hoffusaf waith.

Ni ddenwyd di gan fawredd byd,
 I esgeuluso'r tlawd;
 Y gwael, angenus, ar bob pryd
 Arddelaist megys brawd;
 Ti gofiaist nad oedd Iesu mwyn
 Ond tlawd flinderus wr,
 A glywyd mewn deisyfoi gwyn
 Ar daith yn gofyn dwr.

Ei lwybrau efelychaist di,
 A hyn a'th wnaeth yn fawr;
 Dy wisgo wnaeth â nefol fri,
 Mil gwell nâ chlod y llawr;
 Dy lwybrau di drwy'r anial fyd
 I ddysglaer wlad y mawl,
 Wnaed gan dy ras a'th hawdd-
 gar bryd
 Oll yn llinellau gwawl.

Y llanerchsangwyd gan dy droed
 Sydd anwyl er dy fwyn;
 Hir gofir iti fod erioed
 Yn parod wrando cwyn
 Y rhai nafeddent nerth nanawdd
 O dan dymestlog hin:
 A lluaus ddygaist ti yn hawdd
 O'u gorthrymderau blin.

Uwch bonedd o Gymroaidd waed
 I Gymru noddwraig ynddi caed;
 Ei chartref gwnaeth yn Nghymru
 hen,

A Chymru hithau gyda gwên,
 Ymlonai'n fawr o herwydd fod
 Un ydoedd yn teilyngu clod,
 Yn trigo yn ei mynwes hi,
 Ac ar ei bron yn rhoddi bri.

Hoffodd hi ei nentydd tirion
 A'i ffynonau grisial gloewon,
 Cân yr adar yn ei choedydd,
 A briallu glwys ei dolydd;
 Awel dyner ei mynyddau,
 Blodau tég ei lliwgar fryniau,
 A neillduedd dwys ei dyffryn,
 Cân ei bardd, a thôn ei thelyn.

Rhodiodd fwynion lenydd Gofor,
 Mewn hyfrydwch, lawer tymor;
 Ac ar lanau Wysg drwy'r dolydd
 Rhodiai hi ar lawer hwyrdwydd,
 Gan ymserchu yn y blodau
 Oedd yn dewfrith ar y llwybrau,
 A chael sugno o'r awelon
 Iechyd a hyfrydwch calon.

Nid bob amser mae rhieni,
 Yn eu plant yn cael eu lloni;
 Weithiau maent yn mhell odd'
 wrthynt,

Ac heb ddeall fawr o'u helynt;
 Weithiau buchedd ddrwg afrad-
 lon

Sydd yn difa hedd eu dwyfron,
 Ond fe drefnwyd gan Raglun-
 iaeth

Iddi hi fwynderau helaeth.

Gwelai orwych lÿs Llanofer,
 Trigfan ei HAUGUSTA dyner,

Un oedd iddi yn anrhydedd,
Am ei mirain ddysg a'i mawredd;
Yn ei hymyl hithau drigai,
Ac o'i gwresog serch derbynai,
Yn yr ymweliadau dyddiol
Delid gan ei merch urddasol.

Er fod amryw o'i hanwyliaid
Gan yr Angau'n mysgei ddeiliaid;
Clodfawr ydoedd HALL a BUN-
SEN,

Ymddysgleirient fel dwy seren;
Adlewyrchent glod y gwledydd,
Nes gwneud mynwes *mam* yn
ddedwydd,

Ac o amgylch ei phenllwydni,
Plethent goron o oleuni.

Felhyn y treuliodd hwyr ei dydd,
Mewn cariad a hyderus ffydd,
Yn derbyn, heb ei geisio, barch,
A chlod yn dyfod yn ddi arch;
I mewn, i maes, ar lwybrau,
ffyrdd,

Derbynai hi fendithion fyrdd;
Ond darfod wnaeth ei dydd o
hedd,

Mae'n cadw noswyl yn y bedd.

Pan ydoedd yn gwasgaru hedd,
O gylch ei llwybrau llon,
A phawb yn siriol yn ei gwedd
Trywanai Angau 'i bron;
Gogwyddodd hithau 'i thynner ben
I ganu'n iach i'r llawr;
A chiliodd drwy'r anfarwol len
I wynfyd Nefoedd fawr.

Rhy gynar, yn ol dynol farn,
Y dygwyd hi o'r byd,
Gallasai Angau wneuthur sarn
O rai diles eu bryd;
Y gwag a'r diffwythoedd heb ri'
O gylch ei lwybrau ef,
Ond trodd o'i ffordd i'w tharo hi
A'i farwol ddyrnod gref.

Pe gwnaethai dagrau aml eu rhif
Ei chadw yn y byd,
O honynt y treiglasai llif
Diattal, cryf, o hyd;

Ac am na wnai y deigryn llaith
Ei chadw gyda ni,
Caiff ddangos yn ei ddystawiaith
Mor fawr y carem hi.

Hi brofodd o hyfrydwch byd,
A phrofodd waddod oes;
Er mor nefolaidd oedd ei bryd,
Hi orfu ddwyn y groes;
Gan Angau ei harcholli wnaed,
Cyn gwaedu 'i bron ei hun,
Pan fathrai ef o dan ei draed
Ei phriod, hawddgar ddyn.

Dy lygaid mwy ni wasgar serch
Yn mysg dy geraint llon;
Dy dyner lais ni chlyw dy ferch,
Fel alaw ber i'w bron:

Ond caed y ddwy fendithion Iôn,
A holl serchawgrwydd byd;
Ac am dy rinwedd gwnelont son
A'i ddilyn ar bob pryd;
A chyn preswylio'r tŷ heb rent,
Hir, hir, fo oes GWENYNEN
GWENT.

Er gwywo yn mhrydnawn ei hoes,
Ni wywa ddim yn hŵy;
Dadfeilio wnaeth mewn gwynt-
oedd croes,

Ond ni ddadfeilia mwy;
Er bod am enyd yn y llwch,
Yn mysg trysorau'r bedd,
Ni phyla un daearol drwch
Ddysgleirdeb gemau hedd;
Cwyd hithau yn yr olaf awr,
Mewn gwisgoedd wnant yn
wyl y wawr.

O! wyled y cymylau prudd
Eu dagrau uwch ei beddrod cudd
Yn loewon ac yn fân!
Ac yn yr Ywen gwnaed y gwynt
Yn ddystaw sibrd ar ei hynt
Briodol alar gân;
Na! pa'm y rhaid i wynt y nef,
O'i herwydd hi ddyrchafu llef
Yn ngheinciau gwyrdd yr Yw?
Na wyler dafn o'r cwmwl dû,
Neu ynte ni bydd lle i lu
O ddagrau dynol ryw!

<p>O! cwsg yn dawel yn y bedd, O dan fendithion fyrdd! Nes ail ddeffroi i fythol hedd, A phur anfarwol urdd; Ni bydd dyhûn yn hirfaithiawn, Dirwynir hi i ben; Cei weled dydd heb iddo nawn, Yn uchel lÿs y Nen; A rhodio yn y goleu byw Sydd yn amgylchu gorsedd Duw.</p>	<p>Cei weled llawer enaid drud A lonaist ti wrth fyw; A llawer sant pan yn y byd Oedd unig, tlawd, a gwyw; Ond yn y ddysglaer ddedwydd Heb ofid, cur, na llef, [wlad Yn blant cydraddol yr un Tad, Cyd-etifeddwch Nef; A thra bo hi yn llawn o wawl, Ni flinwch ar anthemau mawl.</p>
---	--

BRENINIAETH CRIST.

“Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn.”—CRIST.

Y PENILLION BUDDUGOL YN EISTEDDFOD CYMRADORION DIR-
 WESTOL MERTHYR TYDFIL, NADOLIG, 1850. 17 O YMGEISWYB.
 BEIRNIAD, EBEN FARDD.

<p>NID ydyw fy mreniniaeth I Yn hòni bri daearol; Ond ei threfniadau sydd i gyd, Am bethau byd ysbrydol; Ni ofyn orsedd wych na llys, Yn unlle is ffurfafen; Ei gorsedd ydyw mynwes dyn, Lle'r estyn ei theyrnwialen.</p>	<p>Ni ofyn am aberthau drud, Na gwaedlyd gyflawniadau; Ei haberth ydwyf fi fy hun, Dros farwol ddyn a'i feiau; Eihiau a'i baich yn esmwythsydd, A hollol rydd ei chyfraith; Hi ydyw breinlen cariad Ion, I'r sawl a rodio'n berffaith.</p>
<p>Ni cheisia nerth y cleddyf llym, Nac unrhyw rym anianol; Ei byddin, yn mhob oes a gwlad, Yw dylanwadau Dwyfol; Mewn trais ei seilio hi ni wnaed, Ond yn fy ngwaed fy hunan; Mae sail ac adeiladaeth hon, Drwy'r ddaear gron yn gyfan.</p>	<p>Nichyfyd gynhwrf mewn unwlad, Ni lunia frad breninoedd; Ond cadarnha bob cyfiawn sedd, A gwasgar hedd i'r bobloedd; A thaenu wna, ar archiad Nêr, Gyfiawnder a gwirionedd; A chaiff ei deiliaid fythol fyw, Yn mhreswyl Duw tangnefedd.</p>

ENGLYN I'R TRYDAN.

BUDDUGOL YN YR UN EISTEDDFOD.

ENYNOL rym yn anian,—a phoethwyllt
 Effeithydd y Daran;
 Hylifol, adeiniol dân,
 Trwyadawl, yw y TRYDAN.

ADGYFODIAD CRIST.

“Yr Arglwydd a gyfododd yn wir.”

YR AWDL-BRYDDEST FUDDUGOL AR Y PRIF DESTYN YN YR UN
EISTEDDFOD. NIFER Y CYSTADLEUWYR, 17.

BEIRNIADAETH EBEN FARDD.

“Mae Pryddest HANESYDD yn gyfansoddiad godidog, y darluniad o adgyfodiad Crist yn fawreddus a phriodol; lledaeniad gorfoleddus newydd yr adgyfodiad yn arddunol a brwdfrydig; ehedfa frawychus Angau i Uffern, a'i gwmp llewygus wrth y porth, yn nghyd a gloddestwyl Annwfn ar y pryd, ar yr achlysur o orchfygiad Crist, yn farddonol a bywiog; cyfrôad y Fall pan wybu am yr amgylchiad, siom a ffrochiad Satan, yn nghyd a thymhestl ofnadwy Uffern trwy daraniad Duw, sydd ddysgrifiad grymus. Hefyd, mae breuddwydion brawychus a rhagargoelus dinaswyr Jerusalem y noson cyn yr adgyfodiad, yn darawiadol a dyddorol; hynodir y gwahanol ymddyddanion yn ei rhan olaf â llawer o dynerwch a phriodoldeb; mae yr ieithwedd yn syml, coeth, a barddonol; y syniadau yn gywir a naturiol; y mesur yn amrywiol, ond yn esmwyth a llithrig.”

CANIAD I.

CRIST YN Y BEDD.

Prudd-der cyffredinol—Yr achos o hono—Y croeshoeliad—Crist yn y bedd—Y bedd newydd—Y maen—Y sêl—Y nos gyntaf—Y dydd dyfodol—Yr ail nos—Ingoedd Anian—Y wawr.

YMDAENODD cwmwl tywyll dû
Dros Balestina hen;
Tywyllach awr erioed ni bu,
Mwy athrist na diwên,
Yr Haul a'r Lloer a'u llewyrch
glwys
Ni welid yn y nen;
Ni threiddiai drwy y caddug
dwys,
Belydrau'r ser uwch ben,
Nid oedd ofydoedd nefoedd fawr,
Yr un edrychai ar y llawr.

O holl wasgfeun celyd byd,
Y ddwysaf ydoedd hon;
Ni wisgodd un fwy athrist pryd,
Er cread daear gron;
Ond penaf fan ei thristwch dû
Oedd goror Canaan wlad,
Am mai o fewn ei muriau bu
Yr echryslonaf frad;
Er dued holl gamweddau dyn,
Hwn oedd yr echryslonaf un.

Anfonodd Duw Eneiniog Nef—
Ei anwyl Fab ei hun,
I'r ddaear, lle hoffasai ef,
I gynyg hedd i ddyn;
Ond er ei holl ddoethineb pur,
A'i wyrthiau mawr eu nerth,
Gwnaeth dynion eu calonau'n
ddur,
Rhag teimlo dim o'u gwerth;
Gwrthodent Ion âg unol lef
Y weddi drom, “Croeshoelier Ef.”

Croeshoeliwyd Mab y Dyn ar
bren,
Gan greulon, waedlyd lu;
Ynghanol dirfawr syndod Nen,
A mwyniant Uffern ddû;
Efe, yn addfwyn megys oen,
Oddefai bob rhyw aeth;
A gwaddod suraf phiol poen,
Ei yfed oll a wnaeth;
Ac yna, mewn ochenaidd, rhoes
I “fyny'r ysbryd” ar y groes.

Y Byd, â dychryn, welodd hyn,
 Arswydodd Anian Fawr;
 Mab Duw ar groes Calfaria fryn
 Oedd syndod Nef a llawr!
 Cynyddu wnaeth yrarswyd trwm,
 Wrth weled Brenin Hedd,
 Yn gorwedd ar y creiglawr llwm,
 Yn mynwes oer y bedd;
 Y Bôd a wnaeth bob dwyfol
 wyrth,
 Oedd gaeth o fewn y marwol
 byrth!

Pa le yn awr mae'r llygaid cu
 Oedd fel yr wybren lās,
 A'r hawddgar wefus gynt a fu
 Yn mwyn ddyferu gras?
 Pa le mae'r wedd wnae'r nefol
 gôr
 Yn llawn seraphaid dan,
 Nestreiddiai drwy holl gread Iôr
 Acenion byw eu cân?
 Y wyneb lanwai'r Nef â hedd,
 Sydd archolledig yn y bedd!

Pa le mae'r llais uwch gwagle fu,
 Yn ei anfeidrol rym,
 Yn galw allan fydoedd lu
 O'r annherfynol DDIM—
 Y llais a drodd elfenau cryf
 A'i gyntaf air i'w lle—
 Y llais gadwynai'r dymhestl hyf
 Pan ewyllysiai E'!
 Mae'r nerthol lais a greodd fyd,
 Yn mynwes craig yn eithaf mud!

Pa le mae'r wedd geryddai leng
 Gythreulig, lawn o gās,
 Nes rhuthrent yn gynddeiriog
 reng,
 I dônau'r eigion glās?
 Pa le mae'r Hwn dro'i ddyfnaf gri
 Yn llon ganiadau hedd?
 O fydoedd Duw! rhyfeddwch
 chwi!
 Mae'n farw yn ei fedd!
 Mae'r Hwn a greodd ddaear lawr,
 Yn gelain oer o'i mewn yn awr!

Y lle sydd unig lanerch hardd,
 O'i mewn y tyfa coed;
 Ac o fewn newydd fedd yr ardd
 Ni ddodwyd dyn erioed;
 Lle tawel, cysegredig yw,
 A llethrau uwch ei ben,
 Amgenach bedd ni cheisiodd byw
 Dywysog mawr y Nen;
 Er gwaeled ei glwyfedig wedd,
 Rho'dd y cyfoethog iddo fedd.

Rhoed trwchus faen ar ddrws y
 gell,
 I guddio'r farwol ran;
 A chan elynion sicrwydd gwell
 A fynid ar y fan;
 Rhoed dwyfol sêl Mawrhydi Nef
 Ar weithred ddû y Ddraig,
 A mynwyd gwyliadwriaeth gref,
 I wyllo bedd y graig;
 Ymdrechai dyn, greadur gwyw,
 Yn erbyn nerth y cadarn Dduw!

Aeth heibio un flinderus nos,
 A'i horiau'n erchyll drwm;
 Ar gopa bryn, a gwaelod rhos,
 Y gwllith fel llèn o blwm,
 Yn lle adfywio Anian flin,
 Oedd hunllef iddi hi;
 Gan lethol bwysau llawn oedd min
 Pob gwelltyn tlws o gri:
 Pa ryfedd fod y byd mor wael,
 Pan mae yn fedd i'w Grewr hael?

Aeth heibio ddydd, ond trym-
 ach hwn
 Nâ thrymder prudd yr hwyr;
 Gruddfanai Natur dan ei phwn,
 Fel ar lewygu'n llwyr;
 Ni chwythai'r gwynt, ni wenai'r
 haul,
 Prin yr anadlai'r llawr,
 Cynhyrfid Anian hyd ei sail,
 Gan ddirdyniadau mawr;
 Gan ingol wewyr blinid hi;
 Cyn rhoddi un allanol gri.

Y nos a ddaeth, a Natur wan
 A deimlai wasgfa fwy,

Dros Balestina yn mhob man
Ymdaena nychlyd nwy;
Y meusydd oll yn chwysu sydd,
Y tARTH arafaidd, tew,
Ynfferlyd oerni, cysglyd, prudd,
Fel brathlyd iasau rhew:
Mae blodau'r ddôl, agwellty banc,
Gan bwys eu gwae, yn mron ar
dranc.

Mae dwysder marwol dros y llan
Y gorwedd Brenin Nef,
Nis gall y graig, rymusaf fan,
Yn hir ei gadw ef;
Mae'r awr yn prysur, brysur,
dd'od,
Y cyfyd Iesu'n rhydd,
Ni ddichon yn y beddrod fod
Yn hwy nâ'r "trydydd dydd";
Ni ddalia'r ddaear Fab y Dyn
Am awr yn hwy, heb ddryllio'i
hun.

Nid rhyfedd fod dirdynol wae
Yn ysu Anian oll,
Mwy syndod ydyw sut y mae
Heb fyn'd i fythol goll;
Fel llong heb lyw o flaen y dôn,
Yn dryllio ar y graig,
Sÿn yw na soddai'r ddaear gron
Mewn rhyw dragwyddol aig;
Gan adael tro-lyn uwch ei phen,
Er rhybudd i holl fydoedd nen.

Y ddysglaer wawr ymsaetha o
Ororau'r Dwyrain bell;
Hi rudda yr awyrol fro,
Rhydd arni olwg well;
Ei llewyrch cyntaf yn yr ardd,
Ddisgynai ar y bedd;
Canfyddai Angau'r pelydr hardd,
Ac mewn brawychus wedd,
Aeth yn agosach nag o'r blaen
I ddrws y bedd, er gwylio'r maen.

CANIAD II.

GWYLIADWRIAETH ANGAU.

Angau wrth y bedd—Ei bryder—Ei adgofion—Ei ymgomiad—Ei hyder
adnewyddol.

Fel drychiolaeth ddig ei gwedd,
Safa Angau wrth y Bedd,
Cleddyf noeth sydd yn ei law,
Tremia yma, tremia draw;
Sylwa'n fanol ar y sêl
Sydd yn cadw Iôr yn nghêl,
Edrych wna yn ol a blaen,
Dros bob modfedd ar y maen,
Pen ac ochrau, a phob man,
Rhag bod rhigol mewn un rhan;
Pob ysgogiad ef a'i gwel,
Rhagddo nid oes dim yn gêl;
Esmwyth syrthiad deilen clyw,
Personoliaeth Pryder yw.

Hawdd yw darllen ar ei drem
Deneu, welw, wancus, lem,
Fod amheuaeth is ei fron,
Megys sarph, yn brathu hon;
Er cadarned yw y Bedd,
Gellir deall wrth ei wedd,

Nad oes ganddo fawr o ffydd
Yn ei nerth y "trydydd dydd."

Rhodiai'r gwylwyr drwy yr
ardd,
Ambell un yn awr a chwardd;
Ond ar wyneb Angau hen
Nid oedd ôl nag eilun gwên:
Ymgrynhöa yn ei bryd
Ddwysder gofal am y byd;
Pob crebychiad yn ei wedd
Ddengys bryder am y Bedd.

Pan ei w̄g yn ddtûach try,
Teimla fwy dros Uffern h̄y;
Pob newidiad yn ei liw
Ddengys ddigter mwy at Dduw;
Gwisg ei holl brydweddau ef
Feiddiad i alluoedd Nef;
Gwasga'n dynach garn ei gledd,
A'n agosach at y bedd;

Tremia eilwaith dros y maen
Yn fwy manol nag o'r blaen;
Nid oedd doriad ar y sêl,
Pob peth yn ddiogel gwel;
Eto prin y cred ei hun
Iddo drechu Mab y Dyn.

Cofia fab y weddw gynt
Gododd Iesu ar ei hynt;
Cofia Jairus dwym ei serch
Yn ad-dderbyn ganddo'i ferch;
Cofia ddwyn o fynwes bedd
Laz'rus mewn buddugol wedd;
Cofia hyn, a methu mae,
Deimlo'n dawel, fel pe bae
Ganddo hyder yn ei byrth,
Nad oes un o honynt syrth;
Edrych eto ar y maen,
Wele hwnw fel o'r blaen;
Ail edrycha ar ei ben,
Nes i'w hunan rhoddai sen,
Am ei fod yn amheu dim
O'i fuddugol nerth a'i rym;—
“Oni thorwyd ymaith oes,
Fy ngharcharor ar y groes?
Oni welais i fy hun
Ddirdyniadau Mab y Dyn?
Oni welais lif o waed
Drosto oll o'i ben i'w draed?
Oni chlywais i y llef
Wisgodd â thywyllwch nef?
Oni chrynai rhagddi'r aig?
Oni holltodd galon craig!

Oni welais frathiad llym,
Picell miliwr llawn o rym,
Yn ymsuddo yn ei fron,
Nes y llifai byw-lif hon?
Gwn mai gwir y pethau hyn,
Pa'm y teimlaf gryndod syn?
Onid fi yw llyw y Bedd?
Oni feddaf awchlym gledd?
Onid ydyw oesau'r byd
Yn fy ngharchar i i gyd?
Ni ddiangodd dim ond dau,
Heb eu dwyn i'm marwol bau;
Mi nid ofnaf Dduw na dyn,
Neu y ddau pe byddent un!”

Ond mewn eiliad, fel o'r blaen,
Tremiai Angau ar y maen;
Drosto oll y tremia fwy,
Megys pe am ganfod drwy
Glawr y Bedd, i'r oerllyd gell,
Fel y caffai sicrwydd gwell.
Wedi eilwaith roddi trem,
Mewn ochenaidd ingol lem,
Ymgais i ddadlwytho mae
Gorlwyth mynwes lawn o wae.
Ond y pryder yn ei fron,
Megys tân a ddifa hon.
Dan ddirdynol ysol loes,
Seibiant iddo ef nid oes.
Gyda thoriad glwys y dydd,
Rhodia'r gwylwyr yn fwyrhydd;
Ond ni thafai Angau'i wedd
Ar un gwrthddrych ond y BEDD!

CANIAD III.

YR ADGYFODIAD A'I EFFEITHIAU.

Y Ddaeargryn—Y Gwylwyr—Cerbydau Duw—Disgyniad yr Angel—Treigliad
y maen—Crist yn cyfodi—Diddymu Angau—Y wên ymadawol—Beddau y
Saint yn agoryd—Dychweliad yr orymdaith nefolaidd—Newyddion yr
Adgyfodiad—Cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig—Ffoad Angau—
Ei ddychrwn—Ei lewyg—Gloddestwyl Uffern—Cenadwri y Porthor—
Digofaint Satan—Taran y Nefoedd—Tymhestl yn Uffern—Siomedigaeth
Satan—Gwawd yr Ystorm—Hûn Jerusalem ar Sabbath y Croeshoeliad—Y
breuddwydion gwaed—Deffrôad y Ddaeargryn—Cyrph y Saint—Ffoad y
Gwylwyr—Rhyfyg y Cynghor—Ymlonyddiad y ddinas—Y gwragedd yn
myned at y Bedd—Eu hymddyddan—“Pwy a dreigla i ni y maen”—
“Hwy a gawsant y maen wedi ei dreiglo”—Y weledigaeth o Angylion—
“Nid yw efe yma”—“Ewch a mynegwch i'w ddysgyblion”—Yr Iesu yn
ymddangos i Mair—Ei ddychweliad i'r ddinas—Y ddau ddysgybl yn myned
at y Bedd—Y daith wyneb-drist i Emmaus—Yr ymddyddanion trymllyd—

“ Yr Iesu ei hun a nesäodd ”—Y Gynnadledd annysgwyliadwy—Hanes “ y Gwr o Brophwyd ”—Y trydydd dydd—Chwedl y gwragedd—Yr ymchwil—Diflaniad gobaith Israel—“ Onid oedd raid i Grist ddyoddef y pethau hyn? ”—“ Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant ”—Yr un Aberth tragwyddol—“ Na phruddhaed eich calon ”—Cyflawniad y Prophwydoliaethau—Nesáu at y dref—“ Aros gyda ni ”—“ Yntau a aeth i mewn ”—Bendithio a thori y bara—“ A’u llygaid hwynt a agorwyd ”—Y Diflaniad—“ Ein calonau yn llosgi ynom ”—Eu dychweliad i Jerusalem—“ Yr un ar ddeg wedi ymgasglu yn nghyd ”—“ Yr Iesu ei hun a safodd yn eu canol hwynt ”—“ Tangnefedd i chwi ”—Y brawychiad—“ Yr ydych chwi yn dystion i mi o’r pethau hyn ”—Yr ymadawiad.

I.

Mae crynlyd dwrf yn ysgwyd llethr y bryn,
 A dirfawr sigliad a ysgydwa’r glyn;
 Mae adail Natur wedi derbyn hollt
 O fewn ei mur, gan ryw arswydol follt;
 Y bryniau crynant, megys crinllyd ddail,
 A dawnsia’r mynydd ar ei oesol sail;
 Drwy frigau’r coed ysguba corwynt llym,
 Eu penau blygant i’w awyrol rym;
 Rhagfuriau’r tai sy’n deilchion ar y llawr,
 A’u muriau siglant fel teganau’n awr,
 A’r ffrwd ymettyl, fel i geisio gwynt,
 Ac yna rhuthra i’w brawychus hynt.
 Y goedwig dâl—Libanus frigog, gref,
 Fel hesg a blyga; â chynhyrfus lef,
 Iorddonen wyllt ymruthra dros ei glân,
 Yn ol ymdreigla i’w harferol fan.
 O’r llwyni prysg wylofus rhua’r llew,
 A’r blaidd a uda yn y dreinlwyn tew;
 Y defaid frefant mewn dychryndod dwys,
 A syrthia’r ychain gan orthrechol bwys,
 Ysgrecha’r adar ar gangenau’r gwydd,
 Yn lle emynu mawl, am weled dydd.

Y milwyr safant—gwyrant ar bob llaw,
 Nes eu dylenwi gan arswydol fraw;
 Eu danedd gurant fel holltedig ddellt,
 Maent hwy a’u harfau yn coffeidio’r gwellt;
 Ymaflant ynddo, a phob dwrn wna gloi
 Ei dusw glas, fel pe bae’r byd yn ffoi,
 Nes taena dychryn dros bob calon ddur,
 Ac iddynt suddo i lewygol gur.

Och! unwaith mwy ysgydwa seiliau’r byd,
 Ac Anian siglir megys eiddil gryd!
 Ah! wele’r nef yn llawn cerbydau tân,
 A’r oll yn llawn o rymus engyl glân!
 Heb swm olwynion ar balmantau’r wawr;
 I’r ardd dynesant mewn cyflymder mawr;

A dyma hwy'n ddirif orymdaith hardd
Yn wylwyr newydd yr unigol ardd!

Un grymus angel a adawa'i sedd,
A hyf anturia at y rhyfedd fedd;
Y maen a gyffwrdd gyda phen ei fys,
A threigla hwnw mewn ofnadwy frys.
Y bedd agorir, a holl Anian sydd,
Mewn haner eiliad, yn anadlu'n rhydd!
Mewn gogoneddus ac ysblenydd wedd,
Daw Iesu allan o'i ogofawg fedd.
I'w erbyn Angau, fel anghenfil dû,
A ruthra'n mlaen drwy y goleuni cu;
Ond yno Iesu i'w gyfarfod ddaeth,
A'i wasgu ef yn gysgod egwan wnaeth.
Diddymwyd Angau; dygwyd bywyd pur
I deulu dyn gan Iesu mawr o'i gur.
O law ei elyn, mewn buddugol wedd,
Y dygai ymaith agoriadau'r Bedd;
Ac wrth ei wregys y cylymai hwy,
I ddwyllaw Angau ni ddychwelant mwy!
Ac wrth ei adael, gwenai ar y Bedd,
Nes gwneud ei ddunos yn foreu-ddydd hedd.
Trodd gysgod Angau yn ddysgleiriaf ddydd,
Rho'dd lusern bywyd yn yr ogof gudd,
Yn arwydd o'r goleuni perffaith wyn,
Groesawa'r saint yn mhellaf gonglau'r glyn,
I'w harwain fry i hyfryd ddinas Ior,
I fythol uno â'r pryndedig gôr.

Ar feddau'r saint dirgryniad dirfawr fu,
O'u hirfaith gartref y dyrchafai llu
O gyrph ysbrydol, a'u hogofau hen
Drwy'r wlad adawant, gyda bywiol wên,
Drwy'r ddinas rhodiant, yna tua'r ardd
Y cyd-esgynant yn orymdaith hardd,
Yn waredigol o gadwynau'r Bedd,
Ac oll yn barod i anfarwol hedd;
A myrdd angylion a'u derbyniant hwy,
Yn werthfawr ernes o gynauaf mwy.

II.

Tra chwyddai'r awel â'u boreuol glod,
Y nefol gôr darawent felus nod;
Y bywiog dônau, mewn dystawrwydd fu,
Er pan roed Iesu yn y beddrod dû,
Yn awr chwareuir mewn buddugol hwyl,
Cyd-ddeffry'r Nefoedd at yr uchel wyl.

Yr osgordd ddychwel drwy yr wybren lcn,
A'i mawl yn cyrhaedd äng fydoedd hon.

Pob byd o'r newydd ail-enyna'r gân,
Pob haul a'i gwasgar ar adenydd tân;
Pob planed bell a glywa'r uchel fawl,
Gÿr ef yn mhellach â'i chyflymach wawl;
Y peraidd adsain o ryw heulog grib
Ddisgyna'n llawen ar y seren wib,
Rhed hithau'n gynt nâ'r fflamawg wawl ei hun,
I draethu mawl buddugawl Fab y Dyn.
Fel tòn ar dòn, ymrolia'r lawen iaith
I bellaf fydoedd yr ängder maith.
Rhes goruwch rhes o ddysglaer fydoedd nef,
Cylch ar ol cylch, a'i huchel folant ef,
Nef goruwch nef sydd lawn anthemau byw,
Cyd-adsain tânau holl delynu Duw;
Pob tant a thafod gyd-arllwysant glod
Y dyrchafedig, fendigedig Fôd.

Cymanfa'r Saint, â phêr lewygol lef,
Cydweuant foliant am fod uchder Nef
Yn awr i'w rhan yn feddiant di-nacâd,
Er gwaethaf Satan ac uffernol frâd.
Yn mysg y dyrfa, mwy nid ofna un
Ail-golli'r Nef o herwydd trosedd dyn;
Eu holl elynion sathrwyd o dan draed,
A'u Nef a brynwyd â dihalog waed!
Eu hoff Waredwr, er pob gofid llym,
A drechodd Angau â'i ddigofus rym;
A phan ar fÿr i'w nefol orsedd daw,
Teyrnwialen bydoedd ysgwyd yn ei law;
Pob gradd, pob dosbarth o'r angylaidd lu,
Pob dedwydd sant yn llygredd daear fu,
A blygant oll mewn parch goris ei draed,
I ddiolch iddo am y gwerthfawr waed,
Agorodd ffordd i ddwyn truenus fyd
O'r blin anialwch y crwydrasai c'yd,
Ac adfer dyn, er ei wrthgiliad ef,
I berffaith undeb â Chreawdwr Nef;
Uwch, uwch y chwyddant y fuddugol gân,
Na dderfydd byth, ond, megys bywiog dân,
A ail ymenyn, ac mewn uchel glod,
Byth a ymloda, tra bo'r Nef yn bod.

III.

Dan erch oernadu, Angau ffodd,
O faes ei warth yn gyflym trodd,
Fel caddug tenau, drwy yr wybr
Tramwya ei uffernol lwybr:

Mwy oedde ei fraw, mwy tristeilef,
Fel y cynyddai moliant Nef.
Pob nod o fawl oedd daran ffroch,
O'i fynwes dygai ddolef groch.

Chwim, chwim yr ai drwy denau
 nwy
 Yr awyr, â chyflymder mwy
 Nâ gwib y fellten fforchog wên,
 Mewn eiliad a dramwya'r nen.
 Pob melus gainc, ddych'mygai ef,
 Oedd ruthriad holl raiadrau'r nef,
 Yn ddiluw digllawn ar ei ol,
 Neu fel arllwysiad oesol gol
 Taranau Duwdod am ei ben,
 O flaen ystormydd tanllyd nen.

Cyn hir i olwg Uffern daeth,
 A disgyn wrth ei phorth a wnaeth;
 Ond, yn ei flinder, llewyg dwys
 A'i llethai gan ei ingol bwys.

Yn Uffern cedwid uchel-wyl
 Loddestfawr, mewn cythreulig
 hwyl;
 Mawr oedd y mwyniant am y loes
 Deimlasai Iesu ar y groes.
 Mewn dawns a nwyfiant, cedwid
 gwledd,
 Am fod y Cadarn yn y bedd:
 A gorfoleddent fod y byd
 Yn eiddo iddynt hwy i gyd.

I'w mysg y porthor cyflym
 ddaeth,
 A gwyneb prudd yn llawn o aeth,
 Ganddweyd wrth Satan, "Rymus
 Bôr,
 Mae Angau'n gorwedd wrth y
 ddôr,
 Mewn llewyg blin, nis gall ysgoi,
 O'r ddaear gorfu arno ffoi."

"Ffoi!" ebe Satan, "p'le y mae?
 Fe haeddai annherfynol wae!
 A myn fy nig, os gollwng wnaeth
 Ein gelyn o'i gadwynau caeth,
 Gwnaf iddo deimlo dial noeth
 O fewn berweddig dro-lyn poeth."
 Ond ust! yn rhuad taran gref
 Y collir ei fygythion ef.
 Osteimlodd Angau erchyll glwy',
 Dychryndod Uffern oedd yn fwy;
 Trôasai eu melusaf win,
 Yn chwerwaf wermod ar eu min.

Teimlasant ingol wasgfa syn,
 A dychrynadwy UFFERN-GRYN.
 Ei môr o dân i'w muriau dig
 Ymruthrai âg ymchwyddawl frig,
 A throai'n faglau tònau tân
 Ar draws ywledd, dystawai'rgân;
 Ystormus, boethwyllt, ddeifiog
 wynt

Chwyrnellai'r tònau ar eu hynt,
 Nes llanw'r wlad âg ufel wlaw
 Cawodydd brwstan ar bob llaw.
 Pobbryn o'i mewno'i danllyd safn
 A boerai losgwy i bob hafn.
 Pob nant sydd lawn o hylif brwd,
 Yn rhuthro yn wreichionawg
 ffrwd.

Agenau dû, yn gyneu dân,
 Oedd yn eichreigiau'n fawra mân.
 O'u holl lochesau, dreigiau drwg
 Eu gwenwyn chwythent megys
 mwg.

Holl ysgorpionau'i haniaf dir,
 Estynant eu colynau hir,
 I frathu yr ellyllaidd lu,
 Ar hyd-ddynt yn cyflymu sy!
 O'r oesol gaddug oedd uwch ben,
 Yn fythol annhreiddiedig len,
 Disgynai y llosgedig wllith,
 Yn wyrddlas ddafnau yn eu plith,
 Nes ydoedd Satan gyda'i lu,
 Am suddo i ryw ddyfnder dû,
 Yn is nag Uffern ddofn ei hun,
 Ond lle o'r fath nid ydoedd un.
 O dan eu traed, yn ol a blaen,
 Yr ymagorai myrdd ar daen
 O ffrydiau tanllyd, golosg, glas,
 A'u bwrlwm megys gwreichion
 cras.

I'r ddiefflig dorf, yn awr eu rhaid,
 Diangfa rhag y llid ni chaid.
 Ymnyddant is arteithiau fyrdd,
 Fel pe â Hollalluog yrdd
 Y melid hwy, i'w hymlid i
 Ddyfnderoedd mwy arswydol gri;
 Dylifa eu dolefau tru
 Yn ochus gydlef drwy y llu:
 Pob llygad oedd fel tanllyd bêl,
 Ond man ymwarded un ni wêl;



Ac yn lle llòni wrth y gân,
Hwy brysur wylant ddagrau tân.
Ystorm o'r fath erioed ni fu
O'i mewn, er seiliad Uffern ddû.
Dwys deimlai Satan wermod sur
Yn llifo o angeuol gur
Yr Hwn a drengodd ar y groes,
Pob ing a deimlodd Iôn—pob
loes,

Gymysgwyd yn phiolaid gref,
A'r cwbl i'w yfed ganddo ef!
Cynddaredd a digofaint llym
A'i llanw, ond ni fedda rym
I'w bwrw hi mewn dig i'r llawr,
Ei hyfed a ddechreua'n awr;
A'r ddychrynadwy dymhestl gref
A chwardda, gydag uchel lef,
Am fethiant holl ddichellion câs
Y Diafol a'i gythreulig dras,
Yn erbyn hedd fwriadau Duw,
I arwain dyn i'r Nef i fyw;
Ac yn y gwawd, mwy llym a blin
Ymdora y dymhestlawg hin,
A thrwy holl Uffern llifo mae
Digymysg, erchyll ddiluw gwae!

IV.

Ar nos ei chlodfawr Sabbath
Yr huna Salem dref,
Cadwasai Basg mewn moliant,
Yn wyl o drefniant Nef,
I gofio gwaredigaeth
Yr Abrahamaid had,
O rymus, gelyd rwymau
Caethiwed estron wlad.

Cadwesid pob defodau,
Fel yn y blwyddau gynt,
Cysgodawl ŵyn laddesid,
Fel yn yr Aiphaidd hynt,
Heb nemawr un yn teimlo
Nad oedd eu heisiau mwy,
Na dirnad am aberthiad
Ddirymai 'u trefniad hwy.

Ail trymllyd gwsg y meddwyn
Yw hûn y ddinas fawr;
Anesmwyth, difeithriniad,
Yn aros toriad gwawr;

Breuddwydion dychrynadwy,
Fel gofwy hunllef flin,
Ddirwasgant y preswylwyr,
Gan dd'rysu'n llwyr eu hûn.

Ar aelgerth mynydd bychan
Canfyddant anferth groes,
O'i chylch y clywant ochain
Oer lefain am ryw loes;
A gwelant wrth ei gwaelod,
Er syndod, ffynon waed
Yn bwrlwm ffrydiau cochion,
A'u trochion wrth eu traed.

Ymdrechent ymaith gilio,
Ond chwyddo mae y nant,
Yn afon hon gynydda,
Dilyna hwy a'u plant;
Ar fyr eu goddiweddir,
Amgylchir hwy heb rif;
Y cedyrn dônau codant,
A llyncant hwy i'r llif.

O flaen y gwaedlyd dônau,
I'r bryniau, rhai mewn braw
A fföant yn brysurol,
Ond ar eu hol y daw;
Am nodded, o'r mynyddau,
Yn oriau erchyll ing,
Cânt siomiant,—y dialydd
I gopa'r mynydd dring.

Rhai redant am ymwared
I'w Teml o uchel glod,
Lle gynt bu presenoldeb
Dwyfoldeb pur yn bod;
Mae hono'n adawedig,
Heb gyfrinedig lais,
Fel gynt, i ateb gweddi,
Na phenderfynu cais.

Er cilio at ei hallor,
Nid oes ymwared mwy;
Y diluw gwaed a'u dilyn,
I bob man erlyn hwy;
Diffodda dân yr allor,
A'i waedlyd dônau ef,
Wrth gladdu'r ffoedigion,
Ddystawa 'u dolef gref!

Naid holl breswylwyr Salem
 O'u herchyll freuddwyd syn,
 Ond Och! mae'r llawr yn siglo
 Gan nerthol ddaeargryn!
 Wrth ffoi o'u tai yn sydyn,
 Derbyniant ddychryn mwy,
 Cyrffsaint dysgleirdeg, claerwyn,
 Sy'n d'od i'w herbyn hwy!

Yn fintai ddychrynedig
 Ffy'r gwylwyr tua'r dref,
 Adroddant wrth y cynghor
 Eu cwyn mewn aethus lef;
 Dywedant am yr Angel
 Ddisgynodd wrth y bedd,
 Fod taran yn ei enau,
 A mellt yn gwau o'i wedd.

Ond, er i'r ddaear grynu,
 Yr oedd calonau rhai
 O'r cynghor dyrchafedig
 Mor llawn o ffyrnig fai,
 Nes iddynt, gydag arian,
 Hud-ddenu'r milwyr hyn,
 I son am gwsg esgeulus,
 Yn lle am ddaear gryn.

Yn fuan, ymlonyddodd,
 Tawelodd twrf y dref:
 Dychwelodd y brawychus
 I'w tai heb ofnus lef;
 Ond dwy o wragedd egwan,
 Yn druan iawn eu gwedd,
 Sydd â sypynau'n cyrchu
 I fyny at y bedd.

MAIR.

“Ah,” ebe un o honynt,
 “Mor drymllyd yw ein gwaith,
 Mor flin yw bod yn rheidiol
 Y fath foreol daith,
 I ddodi pêraroglau
 Ar gorph ein Hathraw mawr;
 Hon yw y neges drymaf
 O'm geni hyd yn awr.”

MAIR MAGDALEN.

Ebe'r llall, a'i dagrau'n llifo,
 “Dyna yw fy nheimlad i,

Er im' deimlo mwy o ofid,
 Nag erioed a deimlaist ti;
 Mi dybiaswn nad oedd calon
 Wnaethai ei ddirmygu ef—
 Neb allasai ladd yn greulawn
 Un mor llawn o eiriau nef.

“Pan ei gwelais ar y cyntaf,
 O mor hawddgar oedd ei wedd!
 Darfu golwg ar ei lygaid
 Ddwyn i'm henaid dawel hedd;
 Llengoedd Uffern yn fy mynwes,
 Ymostyngent ger ei fron,
 Uffern ddarfu droi yn nefoedd,
 Yn yr euog galon hon.

“Gwrando wnaeth â chariad
 tyner
 Ar fy anobeithiol gri,
 Er mor erchyll oedd aflendid
 Fy mlaenorol fywyd i;
 Sain ei lais oedd yn fy mynwes,
 Megysmwyngerddoriaeth Nef,
 Nes y teimlwn fod fy mywyd,
 Hedd, a gwynfyd ynddo ef.

“Oh! ni thybiais y teimlaswn
 Byth y fath dangnefedd lion!
 Trigfa i erchyllaf ddreigiau
 Am flynyddau fu fy mron;
 Ond efe â'i lais dawelodd
 Holl ystormydd meddwl blin;
 Gwella wnaeth fy nghlwyfau
 marwol,
 Gyda balm o nefol rin.

“Oh fy Arglwydd! pa'm y
 rhoddwyd
 Ef i farw ar y groes,
 Pan mae ereill, megys finau,
 O dan bwysau beiau oes?
 Pan mae'r cloff, a'r dall, a'r
 clwyfus,
 A'r truenus, yn y wlad,
 Onid erchyll oedd i ddynion
 Lunio iddo greulon frad?

“Dyma ni yn awr yn dyfod
 At y beddrod, lle, o'r blaen,

Ef ni welsom yn gorphwyso, —
 Pwy a dreigla ini'r maen?
 Beth! mae'r bedd yngwblagored!
 Dyna'r maen gerllaw y ddor!
 Dygodd rhywun oddiyma
 Ddrylliog gorph fy Arglwydd
 Iôr.

“Ni buasai lawer iddynt
 Adael llonydd iddo mwy;
 Ond ei erlid ef hyd angau
 Nid oedd ddigon iddynt hwy;
 Ah! ni chai fy anwyl Arglwydd
 Ganddynt lonydd yn y
 bedd,”—

MAIR.

“Mair, dystawa! Pwy yw hwna
 Sydd mor ddysglaer yn ei
 wedd?”

YR ANGEL.

“Ffyddlawn wragedd, byddwch
 dawel,”
 Ebe tyner angel mwyn,
 “Sychwch ymaith heilltion
 ddaerau,
 Bydded diwedd ar eich cwyn;
 Ofer i chwi geisio Iesu
 Yma forau'r trydydd dydd;
 Gwedodd wrthy ch y cyfodai,
 Ac y byddai heddyw'n rhydd.

“Deuwch, gwelwch, dyma'r anedd
 Y bu'n gorwedd ynddi hi;
 Deuwch, wragedd mwyn, ed-
 rychwch,
 Na arswydwch rhagof fi;
 Nid yw corph eich Arglwydd
 yma,
 Gwelwch, wele'r dillad bedd:
 Codi'r borau heddyw'n fywiog
 Ddarfu Pen Tywysog Hedd.

“Ewch, a thraethwch i'w gyfeill-
 ion
 Nad yw gyda'r meirwon mwy;
 Ond, fel gynt, yn Galilea,
 Ef a'u cyfarfydda hwy;

Aed ei holl ddysgyblion yno—
 Peidiwch wylo,—afraid yw;
 Cewch yn fuan ei gyfarfod,
 A chewch wel'd ei fod yn fyw.”

YR IESU.

“Pa'm, O wraig, y chwerw wyli,
 Dywed pwy a geisi di?”

MAIR.

“Syr, os ti a'i dygaist ymaith,
 Dangos lle y mae i mi;
 Mi gymeraf gorph fy Arglwydd—
 Gwnaf—cymeraf ef fy hun,
 Fel y caffwyf ei addurno
 A'i eneinio, anwyl Un.”

YR IESU.

“Mair! dystawa, sych dy ddaagr-
 au,”—

MAIR.

“O fy Athraw! wele di!
 Cael dy weled sydd yn wynfyd
 I'm hadfydus galon i;
 Bendigedig fo dy enw!
 Croesaw iti, Brophwyd Duw!
 Wrth dy hawddgar draed eis-
 teddaf,
 Mwyach tra y byddaf byw.”

YR IESU.

“Mair! na chyffwrdd fi yn sydyn,
 Cyn im' esgyn at fy Nhad;
 Dos, a dywed wrth fy mrodyr,
 Garwyd genyf oll yn rhad,
 Fy mod i yn ymddyrechafu
 I breswylfod bur fy Nuw;
 Brysia atynt i'w cysuro
 Fod eu Hathraw eto 'n fyw.”

Rhedent atynt â'r newyddion,
 Ond ni chredai'r ofnog gwan;
 Dau o honynt brysur redent
 A chyfeirient at y fan;
 Syllent, tremient, ail-edrychent,
 Gyda syndod yn eu gwedd,
 Nes y caent eu llwyr foddloni,
 Nad oedd Iesu yn y bedd.

Ofn, a braw, a dwys amheuaeth,
Lanwent eu meddyliau prudd;
Anghrediniaeth, gadarn allu,
Ydoedd bron a llethu ffydd;
Prin y gallai neb amgyffred
Y ceid gweled Iesu mwy;
Dydd o bryder poenus, chwerw,
Brofodd hwnw iddynt hwy.

I dref Emmaus ymdeithiai dau
O'r brodyr wedi llwyr bruddhau;
Luc a Chlêopas aent yn drist,
Dan son am ryfedd wyrthiau
Crist,
Ei wawd a'i ing, a'i farwol gur,
Ei goron ddrain, a'i hoelion dur,
Ei gladdiad yn y creigiog fedd,
A'r weledigaeth deg ei gwedd,
Welasai'r gwragedd yn y lle,
Pan aethant i'w eneinio E.

Mewn anobeithiol bryder syn,
Yr ymddyddanent hwy am hyn:
Nid oedd tawelwch yn eu bron,
Ond crynai fel ymchwyddawg
dôn:

Ychydig wyddent hwy am drefn
Adferu hedd i ddyn drachefn.
Ar fawredd gwladol rhoent eu
bryd,

A meddwl wnaent am weled byd
Yn crynu ger gorseddfainc gref
Buddugol Frenin Salem dref.
Ond gan i Iesu oddef loes
A marwol ddirdyniadau'r groes,
Holl obaith Israel, tybient hwy,
Drengasai o angeuol glwy'.
Diflanodd holl obeithion hedd,
Pan ddodwyd Iesu yn y bedd.
Y gwragedd draethent ryfedd
beth,

Ond gallai hyny fod yn feth:
Efallai mai eu dychryn dwys
A luniodd weledigaeth lwys
Oryw angylaidd, hawddgarddull,
Pan ydoedd bron rhwng gwawr
a gwyll.

Gwir ydoedd fod angylion gynt
Yn fynych ar ddaearol hynt,

Ond prin y gallent goelio fod,
O honynt neb i'r byd yn d'od,
Y dyddiau hyn,—yr oedd mor
ddrwg,

Nes tynu arno nefol w̄g.
A llawer deigryn ar y rudd,
Cynalient eu cyfeillach brudd;
Nis gallent beidio siarad am
Yr Iesu a'i angeuol gam;
Er fod yr hanes megys plwm,
Yn gwasgu'r y ddau yn drwm.
Eu braw a'u galar oeddynt fawr,
Ni welent un obeithiol wawr
Yn tarddu o'r tywyllwch dû,
Grëasai angau Iesu cu—
Ar hyn cyferchid hwy mewn
hedd
Gan deithiwr arall llon ei wedd.

TEITHIWR.

“Beth yw'r ymadroddion yma
Mor ofidus draethwch chwi?”

CLEOPAS.

“Beth, ai teithio'n Ierusalem
Heb eu deall yr wyt ti?
Oni wyddost am y pethau
Wnaethpwyd yn y dyddiau
hyn?”

TEITHIWR.

“Pa ryw bethau?”

CLEOPAS.

“Rhaid y gwyddost,
Am y dygwyddiadau syn.
“Pethau am yr Arglwydd Iesu,
Gynt o Naz'reth, ydynt hwy;
Ni fu er ys oesoedd meithion
Yn Judea brophwyd mwy.
Grymus oedd mewn gair a gweith-
red
Gyda dyn, a chyda Duw,
Gallai agor llygaid deillion,
Codi wnaeth y marw'n fyw.

“Ond fe ddarfu'r Arch-offeiriad
A blaenoriaid balch ein gwlad,

Greulawn genfigenu wrtho,
A thrwy gynorthwyon brad,
Marwol farn gyhoeddwyd arno,
A'i groeshoelio gafodd ef;
Dyna sydd yn peri ini
Siarad mewn galarus lef.

“Ni obeithiem mai Gwardwr
Teyrnas Israel ydoedd hwn;
Gwyddost fod llywodraeth
Rhufain
Ar ein gwlad yn erchyll bwn:
Cref fu'n hyder y gwelasid
‘Ef ar orsedd Dafydd dad,
Yn llywyddu mewn tangnefedd
Dros yr etholedig had.

“Ac heblaw'r trallodion yna,
Heddyw ydyw'r trydydd dydd
Er pan wnaed y pethau yma,
A dychryndod arnom sydd;
Wrth ei fedd bu gwagedd heddyw,
A adweinir genym ni;
Ond ni chawsant Iesu yno,
Eithr gwedant ddarfod i

“Weledigaeth o angylion
Hardd ysblenydd, ddysglaer
wiw,
Eu hysbysu fod yr Iesu
Wedi codi, ac yn fyw;
Ac aeth rhai o'r brodyr ereill
I gael golwg ar y lle;
Gwelsant hwy mai gwag y bedd-
rod,
Eto ni welasant E'.

“Rhyfedd ydyw'r pethau yma,
Parant ofid yn ein bron,
Ail i Iesu ni welasom
Ar y ddaear ddiffaeth hon:
Gwarth i ddynion ydoedd gwrth-
od
Un mor ryfedd lawn o ras,
Tra mae'n gwarau'n isel grymu,
Dan yr iau Rufeinaidd gas.”

Y TEITHIWR.

“O ynfydion! mor hwyrfrydig
Yw eich trymllyd galon chwi,
I roi hyder yn ymadrodd
Hen brophwydi mawr eu bri!
Rheidiol i'r Messia oddef
Y blinderus bethau hyn,
Cyn gallasai, megys Brenin,
Esgyn i'w ogoniant gwyn.

“Oni dd'wedodd Moses wrthy ch
Y cyfodai Prophwyd mawr?
Oni thraethodd y prophwydi
Bethau sydd ar ben yn awr?
Ni soniasant hwy am wared
Canaan wlad rhag Rhufain
gref;
Ond hwy draethent mai eich
gward
O'ch camweddau wnelai Ef.

“Gorchest fwy oedd gorchwyl
Iesu
Na gorchfygu Rhufain wlad;
Hawdd gallasid mathru'r Eryr,
Heb gymodi dyn â'r Tad.
Oni wyddoch chwi fod Satan
Yn teyrnasu ar y byd,
A bod Angau'n rhaglyw drosto,
I'w drigolion gwael i gyd?

“Ni anfonwyd y Messia
I adferu gorsedd wyw;
Ef anfonwyd i gymodi
Euog ddyn â chyfiawn Dduw;
Dibwys i chwi pwy eistedda
Ar orseddau gwael y llawr,
Trana byddoch mewn tangnefedd
Gyda gorsedd Nefoedd fawr.

“Rhaid oedd symud beiau ym-
aith,
Cyn cymodi dyn â'r Nef;
Rhaid oedd enill ar y Diafol
Rymus fuddugoliaeth gref;
Rhaid oedd llwyr ddiddymu
Angau,
Rhaid oedd mathru muriau'r
Bedd,

Ac i Grist o hono esgyn,
Megys ysgub blaenffrwyth
Hedd.

“Beth oedd llais yr holl aberthau
Lanwent eich allorau chwi?
Onid ydoedd ‘gwaed’ yn adsain
Byth i’w hing a’u marwol gri?
Ond ni allai gwaed creadur
Myrdd iselach nag yw dyn,
Wneuthur iawnol aberth drosto,
Rhaid oedd taro’r Dwyfol
Ddyn!

“Niraid aberth mwy dros bechod,
Gall eich milod fyn’ d yn rhydd;
Aberth Duw fydd calon ddrylliog,
Ysbryd tyner, llawn o ffydd;
Dygydd Oen y Nef i’r lladdfa,
Tregodd ar Galfaria fryn;
Prynodd hedd i chwi â’i fywyd,
Dwyfol gariad ydoedd hyn.

“Aeth i lawr i’r isel feddrod,
Crogodd ynddo lusern hedd;
Daeth o hono’n ddyrchafedig,
Ac ar anllygredig wedd.
Ni raid mwy i’r truan ofni,
Wrth ddynesu at y lle;
Nid yw bedd y sant llesgeiddiaf
Ond agosaf borth y Ne’.

“Na foed yn eich calon drymder,
Mae yr oll yn drefniad Duw,
Chwi gewch eto gwrdd â’ch
Athraw,
Gwrando ar ei eiriau byw;
Yn ei ing a’i angau gwaedlyd
Y mae gobaith bywyd dyn,
A’i adferiad i breswylfod
Nef at Dduwdod pur ei hun.

“Nid oes weithian brophwydoliaeth,
Nad yw am eich Crist yn llawn;
Byw a wnaeth yn Brophwyd
nerthol,
A bu farw’n ddwyfol Iawn.
Ni adawodd Duw mo hono,
I ddadfeilio’n llygredd bedd;

Rhaid i’r Nefoedd fawr eidderbryn
Byth i eistedd ar ei sedd.

“Bellach rhwydd-deb ichwi,
deithwyr,
Boed tawelwch yn eich bron;
Rhaid i mi yn awr eich gadael,
Troaf hyd y brif-ffordd hon”—

CLEOPAS.

“Na, yn wir! mae’n hwyro’n
barod,
Gwell it’ ddyfod gyda ni”—

LUC.

“Tyred, aros, cawsom gysur
Rhyfedd yn dy gwmini di.”

Y TEITHIWR.

“Wel, nid yw wahaniaeth genyf,
Aros enyd gyda chwi;
Blin i mi oedd clywed genych
Iaith mor llawn o athrist gri.”
Tua’r pentref y cyfeirient,
Ac i’r lletty yno aent;
Ac ar ol gorphwysio enyd,
Galw am eu hwyr-bryd wnaent.

Rhoed y swper ger eu bronau,
Cyd-ddynesent at y bwrdd,
A hyderai’r gwan ddysgyblion
Y caent eilwaith felusgwrdd.
Troai’r teithiwr mwyn ei lygaid,
Fel arferol,—tua’r Nef—
Pwy oedd ef—ond CRIST—a
hwythau
Yn ei bresenoldeb Ef!—

Presenoldeb!—nid yw yno!
Darfu gilio’n chwimo’ugwydd;
Megys awel y diflanodd,
Darfu ei gysurol swydd!
Hwythau dremient ar eu gilydd,
Er nad yn annedwydd mwy;
Byth ni thraethir y gorfoledd
Lanwai eu calonau hwy.

Yr oedd gwreichion ynddynt
gynau,
Pan yn d'od o gam i gam,
Ac yn gwrando ar ei eiriau,
Ond yn awr cyneuai fflam,
Sydd yn tanio eu heneidiau,
Nes y maent, âg uchel lef,
Yn dychwelyd at eu brodyr,
Oedd mewn cur yn Salem dref.

Erbyn iddynt gyrhaedd yno,
Cawsant hwy â llawen fryd,
Yn mynegu'r un newyddion
Am Waredwr mawr y byd—
Megys esmwyth si'r goleuni,
Clywent rywbeth yn y lle—
Erbyn iddynt droi eu llygaid,
Pwy a welent ond—EFE!

Braidd nad oedd y gwan yn
crynu
Wrth yr olwg ar ei wedd;
Yntau a anadlai arnynt,
Nes y profent nefol hedd;
“Rhoddi'r wyf i chwi dangnef-
edd,”
Ebe y Gwaredwr mwyn,
“Ac ni chaiff eich holl elynion
Byth oddiarnoeh chwi ei
ddwyn.

“Gwelwch mai myfi yw Iesu,
Teimlwch, gwelwch, droed a
llaw,
De'wch, edrychwch ar fy ystlys,
Syllwch—pa'm y ciliwch draw?
Chwi sydd dystion o fy angau,
Tystion i mi fod mewn bedd,
Tystion hefyd im' gyfodi,
Manwl dreimiwch ar fy ngwedd.

“Hyn i ddynion cofiwch dystio,
Hyd ororau eithaf byd;
Dechreu gwnewch yn Ierusalem
Draethu am fy angau drud;
A phregethwch edifeirwch,
Cariad, a maddeuol ras,
I fy holl erlidwyr diriaid,
A fy lleiddiaid mwyaf cas.”

Dagrau breision, gwresog lithr-
ant,
Megys ffrwd, dros lawer
grudd;
Etto dagrau cariad ydynt,
Nid oes yno neb yn brudd;
Cilia'r Athraw pur o'u canol,
A diflana'i ddwyfol wedd;
Cadarn gredant hwythau bellach
NAD OEDD MWYACH YN Y
BEDD.

ADFERIAD JERUSALEM.

(EFELYCHIAD O HEBER.)

CWYD etto yn fuddugol,
Nid mewn rhyfelgar wedd;
Mewn gwaed ni wneir ei seilio,
Ni phlenir hi â'r cledd;
Daw dydd dy fawredd, Salem,
Ceryddol law dy Dad
A'th glwyfodd gynt mor boenus,
Rydd iti lwyr iachad.
Dy feilch orthrymwyr creulon,
A fernir gan dy Dduw;
Eu presaidd rwymau ddryllir,
Fel crinllyd ddeiliach gwyw;

Ac yna ar dy fryniau
Tardd bythol wyrddni glân;
Molianwch, O fynyddoedd!
Ddyffrynoedd, eiliwch gân!
Ni wga'ch aeldrwm greigiau
Mewn syched unig mwy,
Grawd didduw-wr ac estron
Ni theflir atynt hwy;
O'r diffwyth dywod anial
Ceir gwych gynhauaf llon,
A gwelir Eden newydd
Yn gwisgo'r ddreiniog fron.

Gall fod rhyw nerthol angel
 Yn awr goruwch y tir,
 A chorsen aur, yn gwylio
 Yr addewidion gwir;
 Mae'n rhifo dy holl dyrau,
 A chyfrif mae dy byrth,
 Nes ydyw am geryddu
 Yr hir ataliol wyrth—

Sy'n cadw'th Lew o Juda
 Rhag eistedd ar ei sedd—
 Ond pwy yw Ef sy'n dyfod?
 Mawreddus yw ei wedd:
 Wrth farchog nef y nefoedd,
 Ei ffurf yn ddychryn wnaed;
 Ei wregys ydyw'r corwynt,
 Ystorm yw gwisg ei draed.

Mae cwmwl gorllewinol
 O gylch ei lwynau'n llen;
 Ei goron ydyw'r enfys,
 A dysglaer haul ei ben;
 I uchelderau'r nefoedd,
 Y cwyd ei freiniol law,
 A sangu wna ar unwaith
 Y tir a'r eigion draw.

Ust! gyda llais y daran
 Cyhoeddi mae o'r nen,
 A dolef gref ddychrynlyd,
 Fod amser byth ar ben!
 Ha! gan gerubaidd ddwyllaw
 Darperir llysoedd aur;
 Ymgyfyd gorseddfanciau,
 Pob sant o'u hamgylch gair!

Gororau eithaf daear
 Ymgrymant yn eu gwydd;
 Addola y mynyddoedd,
 Pob ynys blyga'n rhwydd:
 Heb eisieu haul na lleuad,
 Na throad nos a dydd,
 Bydd Duw yn deml i'w deulu,
 A'r Oen eu goleu fydd.

Ac oni ddychwel Israel
 A gorfoleddus wên,
 Wrth wawr y pur oleuni
 Amgylcha'u cartref hen?
 Ac ar orseddfainc Dafydd
 Mab Dafydd eistedd wna;
 Adfywir esgyrn sychion
 A gwresog fywyd ha'.

Clywch! Clywch gan dyrfa glaer-
 wen

Wych lef Hosanna lân!
 A'r holl lif-ddyfroedd cryglyd
 Sydd yn adseinio'r gân;
 Deng mil o aur delynau
 Chwareuir oll mewn hwyl;
 Deg mil o saint â'u lleisiau
 Wnant gadw'n mlaen yr wyl:—

“Yr Oen sydd deilwng,” medd-
 ant,

“A chadarn i iachau;
 Bu farw, ac wrth drengu
 Nerth Uffern wnaeth leihau;
 Cyfododd yn fuddugol
 O byrth y marwol fedd;
 Teyrnasu wna'n dragwyddol
 Mewn anorphenol hedd.”

PA LE Y MAE?

Yn ystod arhaith y plâ yn Nghaerefrog Newydd, yn mis Gorphenaf, 1849, gwelid dynes ieuanc anffodus yn llawn o brysurdeb cymwynasgar yn nghladdle y meirwon. Ei gorchwyl oedd taenu dail a blodau ar hyd y beddau, a chanu tônau gwylltion a phruddaidd yn eu mysg. Yr oedd, yn ol pob ymddangosiad, wedi hollol golli ei synwyrâu, ac, fel y cyfryw, cydymdeimlid â hi yn ddwys gan bawb a'i gwelent. O'r diwedd, collwyd hi o'r ddinas ac o'r gladdfa, ac ni wyddai neb pa beth a ddaeth o honi. Yr oll a gafwyd o'i hanes sydd fel y canlyn:—O gylch pedair blynedd yn flaenorol, tiriodd hi a'i brawd yn Nghaerefrog. Ymadawsant yn fuan ar ol hyny yn Rochester, tref yn y dalaeth hono, drwy iddo ef ymuno â'r fyddin, a myned i Ryfel Mexico. Ni

chlywodd ei brawd ond unwaith oddiwrthi ar ol hyn, ac yr oedd y pryd hwnw yn Nghaerefrog, ac yn caru dyn ieuanc o'r enw John Weber. Gan mai Catharine Weber oedd yr enw wrth yr hwn ei hadweinid yn y gladdfa, casglai ei brawd iddynt briodi, ond ni wyddai neb yno pa beth a ddaethai o'i gŵr. Yr oedd hi yn enedigol o Wompen Noof, Foerstrou, yn Bavaria. Pan gyrhaeddodd ei brawd i Gaerefrog, ar ol gadael y fyddin, ni allai gael dim o'i hanes, ond yr hyn a nodwyd. Nid oedd ganddo ond gofyn PA LE Y MAE, heb neb, ysywaeth, i adrodd iddo helyntion ei chwaer. Mae y ramgylchiad ynddo ei hun mor bruddaidd a chyffrous, fel y mae yn anhawdd peidio a themlo wrth ei ddarllen. O dan ddylanwad y cyfryw deimlad y cyfansoddwyd y llinellau canlynol, ac nid amheuw'n naddeffry yr hanes byr a diaddurn syniad-
au cyffelyb yn mynwesau llawer o'n darlennyddion.

PA le y mae? A yw ei chàn
Yn deffro eto gyda'r wawr?
A ydyw y gorphwyllog dân
O'i mewn yn llosgi hyd yn awr?
O blith y meirwon collwyd hi,
Darfyddodd sain ei thônau
gwae,
Dystawodd ei dolefus gri,
Oes neb a wyr *pa le y mae?*

Nid ydyw yn Bavaria hen,
Yn chwareu feleigwelwyd gynt,
Pan oedd ei hwyneb oll yn wên,
A'i chalon fel yr ysgafn wynt;
Nid yw yn chwareu gyda'i brawd,
Yn ymyl ffynon cwr y cae,
Ond crwydra hi yn estron tlawd,
Oes neb a wyr *pa le y mae?*

Pa le y mae? Nid ydyw hi
Yn croesi dulas lif y dôn;
Pan nad oedd ar ei gwefus gri,
Na phoenus archoll is ei bron;
Nid yw yn sefyll gyda'i brawd,
Gan ddeisyf arno'n daer nad ae
I waedlyd ryfel, tost ei ffawd,
Oes neb a wyr *pa le y mae?*

Pa le y mae? Nid yw yn awr
Yn mraich ei phriod hyd y dref,
Nid yw mewn bwthyn glân ei
lawr
Yn dysgwyl ei ddychweliad ef;
Wrth golli priod cu a brawd,
Ymdd'ryasai hi gan fewnol wae;
Anffodion wnaent o honi wawd,
Oes neb a wyr *pa le y mae?*

Rhag. 28, 1850.

Pa le y mae? Nid wrth y bedd,
Yn gwasgar blodau ar ei lwch;
Nid ydyw â galarus wedd
Yn cyfrif mwy ei ebyrth trwch;
Ni chana araf dônau prudd,
Mor lawn a'r bedde ei huno wae;
Os yw goruwch ei ddorau cudd,
Oes neb a wyr *pa le y mae?*

Pa le y mae? A ydyw hi
Yn crwydro'n unig drwy y byd,
A'i gwefus eto'n arllwys cri,
Orlifa o siomedig fryd,
Heb frawd naphriod wrth ei llaw,
I ymlid drychiolaethau gwae,
A chadw'i bron uwch hud a brawd?
Oes neb a wyr *pa le y mae?*

Oes, y mae UN a edwyn fan
Yr eneth unig, serchog hon;
Gwyr EF yn dda beth yw ei rhan,
Arwynebtir, neu ddyfnder tòn;
EFE a gofia'r cwpan llawn
A yfodd o waddodion gwae;
A gwylia hi'n ofalus iawn,
A chofia byth *pa le y mae.*

Pan eilw Duw, i olau dydd,
Y meirw cudd, daw gyda hwy,
Heb gwmwl athrist ar ei gwedd,
A'i chwynion maith ni chana
mwy;
Ei chàn ni bydd orphwyllog lef,
Ni thafleillygad ddbwyll wawl;
Ei phryd fydd lawn o harddwch
Nef,
A'i llais yn adsain llysoedd
mawl.

COFFADWRIAETH Y GYMRAES IEUANC.

NA fydded y marmor a'r rhos
 Yn unig arwyddion ei beddrod;
 Ond mynych ar ddechreu y nos
 Cyfeillion fo ato yn dyfod;
 Gan nesu yn araf i'r fan,
 Rhwng oesol welyau'r ardal-
 wyr,
 A throedio yn ysgafn bob rhan,
 Rhag iddynt gynhyrfu y cysg-
 wyr.

Pan wlitho eu dagrau y lle
 Y gorphwys y rhian a garent,
 Dyrchafer eu llygaid i'r Ne,
 At Iesu yr hwn a addolant;
 Gan edrych ar seren yr hwyr
 Yn llewyrch ei dysglaer ogon-
 iant;
 Ond purach a llawer mwy gŵyr
 Yw'r hoffus anwylyd gollasant.

Yn mhell uwch y seren a'i gwawl
 Mae ysbryd y feinir rinweddol,
 Yn nhrigfan ysblynydd y mawl,
 A genir am fywyd anfarwol,
 Lle nad yw goleuni y sêr,
 Na miloedd aneirif o heuliau,
 Yn cyrhaedd; ond llewyrch ei
 Ner
 Wna breswyl y gwynfyd yn olau.

Cariadus obeithion fel hyn,
 Anadler wrth feddrod y wryf,
 Ac os bydd y llygad yn i'lyn,
 Na wywed y dagrau y llawryf;
 Boed hwnw yn ngwyrdd-dere ei liw
 Yn dweyd uwch y carchar
 daearol,
 Mai tyfu yn iraidd a gwiw,
 Mae'r ysbryd mewn gardd
 baradwysol.

COFFADWRIAETH Y TADAU YMNEILLDUOL.

“ NID oes un gyfrol faith
 Yn adrodd am eu proffes;
 Eu cofiant yw eu gwaith,
 A'u llwyddiant yw eu hanes;
 Eglwysi aml ein gwlad,
 Sydd ger ein bron yn profi,
 Y galwent ar y Tad,
 A'i fod yn ateb gweddi.

Ni chawsant demlau gwych
 Yn lleoedd i addoli;
 Mewn bythod gwael eu drych
 Y cawsant eu cysgodi,
 Rhag y cawodydd gwlaw,
 Pan fyddent yn ymarllwys;
 Neu pan mewn ofn a braw
 Rhag eu herlidwyr cyfrwys.

Ar lawer noswaith oer,
 Mewn cornel lom o'r mynydd,

Heb olau ser na lloer,
 Ymgasglent at eu gilydd,
 A melus oedd eu cân,
 Yn nyfnder dyffryn trallod,
 O'u mewn enynai tân,
 Ar allor eu myfyrdod.

Canasant yn y coed,
 A'r eira gwyn yn disgyn;
 Y wryf dyner oed,
 Yn nghyd â'r hen-wr brigwyn,
 Gyd-blethent fawl eu Duw,
 Nes deffro'r crynlyd adar,
 I foli'r Crëwr byw
 Yn eu priodol drydar.

Canasant dan y graig,
 Yn ymyl genau'r ogof,
 Lle cilient rhag y ddraig,
 A'u cân nid aeth yn anghof;

Nid ofer fu eu mawl,
Gwrandawodd yr angylion;
Nes llenwi bydoedd gwawl
A chân y pererinion.

Nid ydoedd yn eu mysg
Un medrus ysgrifenydd,
I adrodd am eu dysg
Yn mawrion bethau crefydd;
Ni cheisient eiriau dyn
I gannol eu gweithredoedd;
A llafur dwys pob un
Gofreswyd yn y Nefoedd.

Fe gofiodd Ior eu gwaith,
Ni chollwyd un o'u dagrau;
Os bu y nos yn faith,
Fe wawriodd dysglaer forau;
Ei Seion gofiodd Duw,
Ac wrth ei llwch tosturiodd;
A hon â meini byw
Yn Nghymru adeiladodd.

O cenwch chwi, eu plant,
Emynau diolchgarwch,

Am fod ein gwlad i Sant
Yr Israel yn hawddgarwch!
O cenwch ar y bryn
Ac yn y cymoedd dyfnion,
Am nad yw'r dyddiau hyn
Fel oes y pererinion!

O cedwch yn eich bryd
Helbulon blin y tadau!
Na chaed oferedd byd
Lywodraeth ein calonau;
Cyn gwerthu dim o'r gwir,
Am brisiau uchaf daear,
Dewiswch anial dir,
A chystudd, gwawd, a charchar.

Na sethrwch dan eich traed
Y santaidd egwyddorion,
Seliasant hwy â'u gwaed,
Yn nghanol eu gelynyon;
O cofiwch am y cur
A brofodd eu mynwesau,
Wrth arddel crefydd bur,
Mewn erlid a charcharau!

MARWOLAETH FY NAI,

EVAN JONES, MAB HYNAF MR. JOHN EVANS, CAERNARFON, YR HWN
A FU FARW MEHEFIN 21, 1851, YN 12½ MLWYDD OED.

O FEWN y bedd Evan bach—a orwedd,
I aros dydd tecach;
A llon wedd cwyd oll yn iach,
Un boreu, i wlad burach.

O gorphwys, fy nai! a huna yn dawel,
Ti nychaist yn hir heb heulwen nac awel;
Ciliodd dy degwch, fel rhosyn yn gwywo,
A chrinodd dy wedd fel deilen ar syrthio.

Ti welaist dy fam yn edwi am fisoedd,
Nes cwmpo i'r llwch yn rhuthriad y gwyntoedd;
Diflanodd dy wên wrth ganfod ei gwywdod,
Yna prysuraist i'w dilyn i'r beddrod.

Trwm i fy meddwl yw clywed dy farw,
Ynot y syrthia i'r ddaear fy enw!
O gynfab fy mrawd! i'w ewythr yn anwyl,
Mor athrist i mi yw dyfod dy arwyl!

Ciliaist yn gynar o fydol ofidiau,
Darfyddodd dy gur a'th lafur yn angau;
Tyfaist i ddangos mor deg ydyw bywyd,
A gwywaist yn brawf o'i freuder disyfyd.

Ti giliaist yn gynt nâ fi o'r anialwch,
Ac aethost yn gynt i fyd y prydferthwch;
O hedd i dy lwch! a bydded dy goffa
Mor beraidd a'r rhosyn pan yr aroglâ.

Yn meddrod dy fam, y fory, y'th ddodant,
Dy frawd a dy chwaer eu dagrau dywalltant;
Hallt wyla fy mrawd yn weddw ac unig,
Wrth adael y ddau yn mynwent Llanbeblig!

O na chawn inau ddyferu un deigrin,
I wlychu y bedd y gorwedd ei blentyn!

Ond teimla fy mron yn glwyfus a thrymllyd,
O herwydd dy gloi yn ngharchar y gweryd;
Angeu o'm hamgylch sydd beunydd yn rhodio,
Lladda'm carenydd i aros fy nharo.

Rhyfedd yw gweled y gwaelaf yn nychu,
A'r cryfion o'i gylch yn prysur ddiflanu!
Trwm iddo ganfod y cleddyf angeuol
Yn taro i'r bedd gyfeillion mynwesol.

Ond felly y mae—a gwylia marwolaeth
Yn ymyl fy nrws, fel swyddog llywodraeth;
Yr Angeu i mi sydd nesaf cymydog,
A chwm'ni parhaus fy mywyd tymestlog.

BYTHOD CYMRU.

BUDDUGOL YN EISTEDDFOD CAERDYDD, MEHEFIN, 1851.

O dlyision Fythod Cymru, sy'n mygu yn y glyn,
Ac ar y gwyrddion lethrau, a'u muriau oll yn wÿn!
Mae'r gwenyn wrth eu talcen neu gysgod clawdd yr ardd,
A'r rhosyn coch a'r lili o'u deutu yno dardd.

O *dawel* Fythod Cymru! mor ddedwydd ydych chwi!
Er bod heb fawredd breiniol, nac un daearol fri;
O'ch mewn y triga'n wastad y cariad eu a'r hedd,
Nad ydynt yn berthynol i'r ymerodrol sedd.

O *hawddgar* Fythod Cymru, sy'n gwenu ger y nant,
A'u gerddi'n llawn o flodau, a hwythau'n llawn o blant!
Mor glaer a'r dwr tryloew yw llygaid y rhai bach,
A'u gruddiau, fel y rhosyn, yn brydferth gochwyn iach.

O *ddystaw* Fythod Cymru, sy'n mhell o sŵn y dref!
Ni flinir chwi gan derfysg, nac un anfoesol lef;
Ni thyr ar eich dystawrwydd ond chwarddiad llon y plant,
A sibrwd dail y goedwig, a murmur mwyn y nant.

O *lwydion* Fythod Cymru, sy'n llechu is y llwyn!
Er bod heb furiau mynor, a'u tô yn wellt neu frwyn,
O'u mewn mae llawer angel yn hoffi troi ei ben,
I syllu mewn gorfoledd ar etifeddion Nen.

O *dirion* Fythod Cymru! o'u mewn, ar doriad gwawl,
Ac yn y coed o'u hamgylch, y plethir odlau mawl;
Y feinir gân yn gynar, a'r adar gyda hi,
Eu diolch-gerdd foreuol am râd eu nefol Ri.

O *anwyl* Fythod Cymru! ni fedd un wlad eu hail;
Na lygrer eu haelwydydd, na sigler byth eu sail!
Byth, byth, mor bêr a'r blodau sy'n gwisgo siriol wên,
Ar fryn a dôl o'u deutu, bo Bythod Cymru hen!

AR FARWOLAETH

DAU FAB Y PARCH. D. REES, LLANELLI, TRWY FODDI WRTH
YMDROCHI, AWST 9FED, 1851.

YMAGOR wnaeth dau rosyn
hardd,
A'u harogl per a lanwai'r ardd:
Ond cawod oera'u drylliodd hwy,
Ni welir eu prydferthwch mwy.
Dau ysbryd newydd yn y Nef
Sydd hardd eu lliw, aciach eu llef,
Byth, byth o gyrhaedd unrhyw
dôn,
Mewn dwyfol hedd yn nofio'n
llon.

Dau feddrod newydd sydd yn
llawn,
Lle wylir dagrau heilltion iawn,
Dwy orsedd newydd yn y Nef
Adseiniant gan yr anthem gref,
Yn wan gychwynwyd ar y
llawr,
Ond sydd mewn perffaith dôn
yn awr:
Dwy golled gafodd teulu eu,
Dau enill gaed i'r Nefoedd fry.

ING A BUDDUGOLIAETH CRIST.

TRIST iawn y bu Eneiniog cu y Nef,
 Pan am ein bai y dyoddefai Ef;
 Trist iawn y bu, pan oll o'i ben i'w draed
 Y chwysai Ef y mawrion ddafnau gwaed.

O drymed oedd ei gur, ar farwol bren y groes,
 Pan yfai'r cwpan sur y Duwdod iddo roes!
 O brudded oedd! o'r bobl nid ydoedd un,
 I'w nerthu Ef, wrth iddo brynu dyn.

Ond daeth i ben dialedd llym y groes;
 Fe ddarfu'r cur, fe ddarfu'r olaf loes;
 "Gorphenwyd!" ebai, gydag uchel lef,
 Nes enyn mawl pob telyn yn y Nef.

Clod am ei angeu, clod, o'r byd yn gweddu sydd;
 Y carcharorion ro'd, â'i briod waed, yn rhydd:
 Dyrchafed dynion, gyda lluoedd Nef,
 Eu cân o fawl dragwyddol iddo Ef!

1851.

 BEDDARGRAFF DAFYDD IONAWR.

Cynnygiodd y Cyhoeddwr gopi o Waith Dafydd Ionawr am yr Englyn, neu y Toddaid goreu, i'w roddi ar y gofgolofn newydd a godasid uwchben ei fedd. Daeth 97 o gyfansoddiadau i law y beirniaid, Eben Fardd a Mr. Ellis Owen, Cefnymeusydd, ac yn eu mysg y tri canlynol oddiwrth Ieuan Gwynedd.

YN Iesu huna isod—ŵr o ddawn,
 Bardd enwog "Y Drindod;"
 Anfarwol ryglyddol glod
 Dododd i waith y Duwdod.

I "Dduw Awdwr" bardd ydoedd—i ganu
 Gogoniant ei nerthoedd;
 Bardd o Gristion union oedd,
 Dan nwyfiant dawn y Nefoedd.

I "diriondeb y Drindod"—y canodd
 Acenion diddarfod;
 Cristionogol, glwysol glod,—mewn cerdd gu,
 I enw Iesu wnai gyfiawn osod.

AWDL AR HEDDWCH.

TESTYN Y GADAIR YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL TREMADOC, YN 1851. NIFER YR YMGEISWYR, 9. YR AWDL FUDDUGOL, EIDDO GWILYM HIRAETHOG. YR AIL OREU, UN GANLYNOL IEUAN GWYNEDD. Y FEIRNIADAETH ARNI OEDD:—

“DARFELYDD.—Y mae yr Awdl hon yn un deilwng iawn, yn gryno a destlus, yn llithrig ac esmwyth, a gweddol o gywir yn ei mydriad. Y cyfansoddiad yn eglur a syml, yn bur fywiog a tharawiadol yn aml; y syniadau yn briodol, ond heb lawer o egni meddyliol, a grym barddonol; fraethder a phertrwydd ymresymiadol yw ei phrif deithi nodweddiadol. Gellir dywedyd am dani ei bod hi yn dlws a hyfryd, ac yn gwella at y diwedd.”

AT Y DARLLENYDD.

Anfonir yr Awdl ganlynol i'r gystadleuaeth heb ddim pryder neillduol am ei thynged. Ni ofalwyd am ddilyn manylrwydd y mesurau caethion ynddi, ac arferwyd yn achlysurol “fraint mesur” Dosbarth Morganwg. Bernir nad oes ynddi yn bresenol ddim o'r pethau a elwir yn “feiau gwaharddedig cerdd dafod,” dros y rhai nad ellir dwyn gwarant Beirdd Cadeiriog y 30ain mlynedd diweddfaf; o leiaf, ystyriai yr awdwr, tra y byddo y beirniaid mor wahanol eu hesboniad ar y rheolau, y gall fod yn ddeddf iddo ei hun ar brydiau. Hydera ei fod wedi cyfansoddi Awdl eglur; ac, fel y cyfryw, cyflwynir hi i sylw ei gydwladwyr.

Dichon y bernir fod drygau ac effeithiau rhyfel wedi cymeryd gormod o le. Barnasai yr awdwr yr un modd, pe na buasai Heddwch yn bwnc mor bwysig, ac mor ANSEFYDLOG yn y dyddiau hyn. Dewisodd gan hyn y rodol golwg ymarferol ar y testyn, a darluniodd erchyllderau rhyfel oddiwrth ffeithiau hanesyddol a diweddar, at y rhai y gallai gyfeirio fel profion o gywirdeb ei ddysgrifiadau. Yn mysg y deddfau sydd yn rheoli ad-ddilyniad meddyl-ddrychau, CYFERBYNIAD ydyw yr ail, ac felly defnyddiwyd un o'r llwybrau rhagoraf i gynyrchu yn mynwes y darlennydd ddymuniad am heddwch.

Bernir yn mhellach na chymerwyd golwg ry obeithiol ar gyflwr dynolryw ar ol i ryfel beidio. Y mae cynydd aruthrol y Gwyddonau a'r Celfau yn yr ychydig flynyddau diweddfaf, yn profi tu hwnt i bob dadl y lleiheur llafur, blinder, a damweiniau y bywyd dynol yn fuan i raddau anghredadwy. A chan mai “eiddo yr Arglwydd yw y ddaear a'i chyflawnder,” y mae genym bob sicrwydd y defnyddir holl ddatguddiadau Gwyddor, a holl beirianau Celfyddyd, er ychwanegu ei ogoniant ei hun, a dedwyddwch dyn. Tra y pery rhyfel, etyl eiddgedd cenedlaethol i'r cyfryw bethau gael eu gosod mewn gweithrediad; ond pan “na ddrygir ac na ddyfethir” trwy yr holl ddaear, ceir cyfle i chwilio allan ac arfer holl roddion grasol Rhagluniaeth er dedwyddwch cyffredinol.

Awst 1leg, 1851.

Y CYNWYSIAD.

ARWEINIAD I MEWN.—Dymuniad am Heddwch, fel y tebygolwr y ddaear i'r Nefoedd—Angylion yn cyhoeddi Heddwch i'r byd—Tywysog Tangnefedd yn ymweled a'r ddaear i'r un dyben—Dynion yn gwrthod gwrando arno—Y canlyniad o hyny.

RHAN I.—NODWEDD A DRYGAU RHYFEL.

Ei ddinystr ar ddynion—Darluniad cynwysfawr o hono—Ei dras, ei darddiad, a'i anian—Ei ddechreuad boreol—Ei ymledaeniad yn mysg cenedloedd y ddaear hyd yr awrhon—Sefyllfa bresenol y byd gyda golwg arno—Darluniadau manylach a mwy neillduol o'i effeithiau niweidiol—Goresgyniad

gwledydd—Y cryf yn anrheithio y gwan—Haint a dinystr—Rhyfeloedd cenedloedd cydnerth—Maes y gwaed—Y Frwydr—Gloddest Angau—Y clwyfedigion—Swper bwystfilod ac adar yr awyr—Ymlid y fyddin orchfygedig—Yr elfenau yn dinystrio y gorchfygwyr—Effeithiau cymdeithasol a moesol Rhyfel—Dinystr amaethyddiaeth, masnach, celfyddyd, ac addysg—Y farn boblogaidd er hyny yn bleidiol i Ryfel a Rhyfelwyr—Llygredd moesol byddinoedd.

RHAN II.—HEDDWCH YN EI EGWYDDOR A'I EFFEITHIAU.

Heddwch yn effeithio ar y farn boblogaidd—Cymdeithasau Heddwch—Ymdrechadau eu pleidwyr—Yn dwyn yr egwyddor o gymrodiad, neu gyflafareddiad, i fri, trwy alw sylw at y priodoldeb o sefydlu Llysoedd Cenedlaethol—Egwyddor Heddwch yn ganfyddedig yn y llywodraeth deuluaid, ddinasol, daleithiol, a theyrnasol—Gallu anianol yn hollol amhriodol i benderfynu hawl neu honiad; yn groes i reswm, gwirionedd, anian, a Christionogaeth—Heddwch yr unig foddion effeithiol a phriodol i enill a sicrhau gwir ryddid—Profion o hyn yn nhraul rhyfeloedd a beichiau trethdalwyr Prydain Fawr—Cyflwr Ffrainc, Hungary, yr Eidal, &c.—Cynydd rhyddid, addysg, a gwareiddiad, dan nawdd Heddwch—Dylanwad y Wasg—“Y darn llaw”—Effeithiau Heddwch ar gymdeithas yn gyffredinol, ar ryddhad y caethion, ar Affrica, y Dwyrain, Australia, America, Ewrop,—Heddwch cyffredinol—Ysgariad byddinoedd sefydlog—Yr effeithiau ar amaethyddiaeth, mwnyddiaeth, a diwylliad cyffredinol—Dedwyddwch gwladaidd dyddiau Hedd—Hwyr yn yr haf—Yr elfenau yn gwasanaethu dyn—Trafnidiaeth y Palas Grisial yn ei effeithiau heddychol—Cynydd y celfau teg—Gwellhad cyflwr iechydol y bobl—Cynydd gwybod-aeth—Addysg y dall, y mud, a'r byddar—Cynydd a phurdeb llenoriaeth a barddoniaeth—Offrwm y ddaear i Dduw—Rhodd Duw i'r ddaear—Y Milfwyddiant—Planu banerau Hedd ar feusydd brwydrau—Dymuniad am gyflawniad yr amser, a mwynhad Heddwch bythol.

ARWEINIAD I MEWN.

CU HEDDWCH, O cyhoedder!—
a'i ddoniau

I ddynion cyfraner;
Llawn odlau fo tânau têr
I'w fendith a'i gyfiawnder,
Fel y bo i fawl y byd
Wiw ymuno am enyd,
A mwyn gân emynau Gwawl,
Lleisiau difai'r Llys dwyfawl!

Mae'r Nefoedd a'i lluoedd
llawn,
Ddiachludd, yn heddychlawn;
Lle unol, deddfol, a da,
O iawnfodd, ydyw Gwynfa.
O na bae o fewn y byd
Ddifai dangnefedd hefyd!
Dyger o fwynder Nef wen
Oludoedd i hil Eden!

Heddwch a gaffo haddef
I oesi'n hŵy is y nef;
A'i goron hardd flaguro,
Tra ein byd yn fyd a fo!
Un adeg—mor dêg y dydd,—
A goludog i'r gwledydd!—
Deuodd i dir Iudea,—gan od-
iaeth
Genadon o Wynfa,
Nodded Iôn, yn newydd da,
I anniddig lin Adda;
Heddwch oedd eu cyhoeddiad
I bob glyw, ac i bob gwlad.
Er rhoddi bri ar Heddwch,
A throi'r cledd yn sylwedd
swch,
Anfonodd ein Nâf unwaith
Ei gu Anwylyd i'r gwaith

O haeddol iawn gyhoeddi
Hedd a'i nawdd yn rhodd i ni.
Iesu cu, Tywysog Hedd,
O ganol ei ogonedd,
A meddyliau, geiriau gwâr,
A ddeuodd hyd y ddaear,
Er dysgu a denu dyn,
I anwylo hen elyn,

A'i guro â thrugaredd,
Yn lle clwyf ac archoll cledd.

Ow! paham? mae'n anhap hir—
Yr Iôn da ni wrandewir!
Nid Hedd hyd y funyd hon,
Ond Dinystresy'n mryd dynion!

RHAN I.

NODWEDD A DRYGAU RHYFEL.

Am oesau hir eu mesur—oer ofid
A wnaeth Rhyfel anmhur;
Enynodd a gyrodd gur,
Wylofain, a chwerw lafur,
I nychu holl deulu dyn,
A dialedd i'w dilyn.

Pa beth yw Rhyfel? Pa beth yw rhifo
Amryw filoedd i ymryfaelio,
A gyru gwledydd a'u gwŷr i gludo
Arfau miniawg, afrywiawg, i friwio,
A rhoi nodded i'r rhai a weinyddo
A hwy bob trosedd, heb wiw betruso;
Gyru dynion ar gaerau i danio
Yr ufel eirias, a'u llwyr falurio;
Gyru^e eu llengoedd is gorwyll angho',
A'u rhianod i drallod, a'u dryllio,
Trwy ddyrnod cledd, trwy ddarnio—â magnel?
Dyna yw Rhyfel, mewn gwaed yn rhwyfo!

Difa, trwy nerth a dyfais,
Ydyw trwm ddymuniad trais,
A gollwng medr a gallu
Yn nerthol, ymladdol lu,
Mewn digder, blyngder, a bloedd,
Ar antur, fel corwyntoedd,
I ysgubo oes, gobaith,
Neu *oll* dyn, i'w herchyll daith!

Rhyfel o wyddor hefyd—a fyna
Ei fwyniant dychrynlyd;
Ac hel foddion celfyddyd
Ag egni, i boeni byd.

Ail finir yr elfenau,—ac asir,
Yn gysawd o boenau
Daneddog, bob adnoddau
Fedd eiddig, ddibwyllig bau.

Enyn pylor i anfon pelau,
 Fel gwywedig ufel gawodau;
 Lluchio dynion â lluchedenau,
 Taffu y llwythog, boliog belau,
 I ddinodded dda aneddau—ar g'oedd,
 A chôl o ingoedd, i chwalu angau!
 A pheri 'n awchus, â'i ffroen uchel,
 Fathru Rhinwedd a'i duedd dawel,
 A'i osod yn ben isel—am byth mwy,
 Dan hir ofwy—dyna yw Rhyfel!

Rhyfel sydd wedi rhifo—i ddunos
 Fyrddiynau i huno;
 Llonder bryn, a llawnder bro,
 Drwy oesoedd gafodd dreisio.

Ail uffernol lyw ffyrnig
 O'r Fagddu, i daenu dig,
 Ydyw efe, mewn dû fâr,
 I ddeol Duw o'i ddaear.

Hyn yw dyfais hen y Diafol—ganfu
 Yn y Gwynfyd dwyfol,
 I ddwyn Nef ei Dduw, yn ol
 Ei ddichell anheddychol.

Ac er iddo gyrhaeddyd—o'i herwydd,
 I hirwae dychrynlyd,
 A phoenau,—yr un ffunyd
 Mae drwyddi am boeni 'r byd.

Trwy bechod, mawr ddifrod ddaeth,
 Anaele ar ddynoliaeth;
 Ar bob ffol, annynol nwyd
 Llu o ingau ollyngwyd:
 Yn y rhif y mae Rhyfel,—a'i ddrygau
 Yn hyll lengau—yr erchyll angel!

Dan edyn du anwydau—y ganwyd
 Ei gynen a'i waeau;
 O chwant am ogoniant gau
 Dëorwyd ei flinderau.

Hwn a fagodd Cenfigen,
 Hyf iawn bu 'n llyfnhâu ei ben;
 Hi faethodd, a noddodd naws
 Ei un anian anhynaws;
 Ac o'i noddod cynyddodd,
 Er ing byd, rhyngai ei bodd.

I'w borthiant, yn aberthau—hi fynodd

O fwyniant yr oesau;
A mawredd ei goegwedd gau
Hud lithiodd genedlaethau.

Yn hwn y ceir anian Cain,
A malais ellyll milain;
Afon o waed a yfa,
Mewn syched, a dywed, Da!
E fyn i'r afon arall,
Yna llwnc hi 'n ail y llall;
Ac afonydd cyfunawl
O waed fydd ei ddiod fawl!
Ni 'nebydd hwn un aberth,
Oni chaed o waed ei werth!
Ei fawr ddig yn forau ddaeth
I anhwylio dynoliaeth;
Ynfydion ddynion, heb Dduw,
Nis dalient wers y diluw
Yn eu cof; am hyny cawn
Wŷr annoeth, croes i'r uniawn,
A gwydlawn egni gwaedlyd,
Yn oesau borau y byd,—
Nimrodiaid, a lleiddiaid llym,
A dorent hedd y dirym.

Bai olynol y Babiloniaid,
Un o feiau y Ninifeaid,
Un o sarug wyniau Assyriaid,
A gwael duedd yr hen Galdeaid,
Oedd rhuthro, beiddio 'n ddibaid—â grym cledd,
I roi dialedd ar warau deiliaid.

Dyma reol ynfydol hen Fediaid,
Ie, pa orsedd na fynai y Persiaid?
A garw agwedd rhyfelai 'r Groegiaid,
Ac, wrth eu gwyniaw, y Carthaginaid;
O gref anian, bu llidiawg Rufeiniaid,
A hen deulu y cedyrn Fandaliaid,
Ag eithaf nerth, bu 'r Gothiaid—ganrifau,
Dirif o flwyddau, yn dorf o fleiddiaid.

Anmhwyllog ac eiddig oedd
Anadliad hen genedloedd;
Llaw dinystr yn lledaenu,
Drwy fyd, greulonder a fu:
Uchelfrydig chwel fradwyr,
Yn eu gwaith, fu'n enyn gwyr
I ryfel, a'i fawr ofid,
A'i farwol, ymladdol lid.

Am oesau gwnai gormeswyr—ymgyrhaedd

Am goron gorchfygwyr;
Bu o enbyd, waedlyd wyr,
Ganoedd o oresgynwyr.

Un wlad, â bwriad diball,
A dyrent at wlad arall;
Eu dyfais a'u hymgais oedd
Truenuso teyrnasoedd;
Dwyn pobloedd, lluoedd y llawr,
Yn dorfoedd, i ing dirfawr,
Er iddynt hwy gael rhoddi
Rhyw brawf o uchder eu bri;
Cyfuno'r byd cyfanedd
Mynent hwy, nid mwyniant Hedd.

Annoethaidd fu hen Athen,—er ei dysg,

Ei gwyr da, a'i hawen;
O fagu meib Cenfigen,
Y ddoeth bau a ddaeth i ben.
Anrheithiwyd, llygrwyd hi'n llwyr,
Oherwydd trais ei harwyr;
Dygwyd ei chlodfawr degwch
I'r llawr, yn gymhar i'r llwch.

Syndod fu Alexander—i ddynion,

Meddianai bob glewder;
O lawndid ei greulonder,
Treisiai fyd trwy ei oes fer.
Gorchfygodd, baeddodd y byd,
A mynodd gael, am enyd,
Bob coron o'r bron, a bri
Ei elynion, i'w loni;
Yna'n drist daeth arno dro,
Hwn welwyd yn blin wylo
Am fyd arall, (anghall ŵr!)
Fel arwr i'w falurio!

O'i ol y ceisiodd Iwl Caisar—enill

A meddianu'r ddaear;
Lladd y bu, â lluoedd bâr,—aberthau
Yn fyrddiynau i'w fawredd anwar.

Ar ei ol bu mawr helynt,
Rhyfelgar, anhawddgar hynt;
Pob gwlad dan driniad ei drain
A rhyfel ceisiai Rhufain;
O oes i oes, er gloes gwlad,
Rhyw enfawr filwr anfad
Fu o hyd yn difa Hedd,
A dilyn ffyrdd dialedd.

Ac hyn ni lysai y canol oesoedd,
 A'u hir, filain, eirwon ryfeloedd:
 Sathrent, baeddent, malent eu miloedd,
 Heb liw o nodded, drwy y blynyddoedd.
 Chwilio i dyrau yr ucheldiroedd,
 Deol mwneiddiaf deulu mynyddoedd,
 Chwalu, newynu, ysu, dinasoedd,
 Tori yn isel eu cyd-deyrnasoedd,
 Gwaith rhyfelwyr, arwyr, oedd,
 A gorchest eu Croes-gyrchoedd.

Gan ormes, llynges a llu,—a gedwid
 Yn gadarn, er llethu
 Pob union foddion, a fu
 Dynion o hedd am daenu.

A diomedd, hyd yma,—mawr ofid
 Am Ryfel sy'n para;
 Teg wledydd oedd ddedwydd dda
 Yn fythol a ddyfetha.

Ni roddir gan Wareiddiad—o'i anrhaith
 Braidd unrhyw warediad;
 Eglwysydd glenydd ein gwlad—a dawant,
 Hwy ni ddygant o hyn ddiwygiad.

Hyd Ewrop mae câd-arwyr—yn noddi
 Annyddan ormeswyr,
 A chigyddlyd, waedlyd wŷr
 Yw hyfrydwch teyrn-fradwyr,
 Sydd anhydrin a blin blaid
 Yn dal yn gaeth eu deiliaid.

Daw anair i Brydeiniaid—o rhifir
 Eu rhyfel â gweiniaid;
 Yn achles gormes hwy gaid
 A diras bechaduriaid.

Eu llynges gref, a'u llongau,—a welwyd
 Ar waelion negesau;
 Dal teyrniaid ag enaid gau
 Ar eu suddol orseddau.

Myned i wledydd mwynion—arferant
 Ar farus amcanion;
 Taer y galwant y trigolion
 Yno i ddifa'u hen ddefion
 A'u llywodraeth, er mwyn lladron;
 Ac os osiant nacau Saeson,
 A'u gwedd anwar (gwae i ddynion!)—o'u chwant
 Hwy dreisiant yn drawsion!

Uchenaid drom o China—a wiria
 Yr arferion yna;
 Ac o randir tég yr India—at Ion
 Llais y gweinion a'u llw esgyna:
 Cwyn ddigllon dynion a'u dá—yn ddidor
 A gyffry oror holl Gafraria.

Nesáu wna ynysau Iòn,
 Ac i'n sylw daw Ceylon;
 Un yw bloedd eu hegwan blant,
 I'n goror cwynion gygrant:
 Y gweiniaid hyn, pan gwynant,
 Trom ddyrnod neu gernod gânt;
 Ein nerth sydd freinlen i ni
 Beunydd i'w gerwin boeni.

Anrheithydd, diboblydd byd,
 Yw Rhyfel anwar hefyd.

Ofer waith rhifo weithion—aneddau
 Dinodded y gweddwon;
 Rhy boenus, arswydus son
 Am glwyfus, ddirym gleifion,
 Neu oddefaint amddifaid;
 I angho' eu rhifo rhaid.

Newidia geinion Eden,—gwaethyga
 Ei thegwch a'i gwyrddlen;
 A thaena dros ei thonen
 Waed ei llu, er mwydo 'i llen.

Yn borthiant, teiliant i'r tir
 Rhuddwaed ei drinwyr rhoddir;
 O'u da waed ei diodir—i'r meusydd
 Afonydd a fynir.

Pobl egwan, sy'n druan draw,
 Yn elynion wneir luniaw;
 Try gerwin, eiddig arwyr
 Lu creulon ar weinion wŷr.
 Arweinydd, llywydd y llu,
 Cun arfog sy'n cynhyrfu;
 Gan ddirwyllt lym gynddaredd,
 Yr hoga, gloewa ei gledd:
 Gwysia, e fynd i'w fan,
 Lu heinif, ail i'w hunan;
 Dalia hwy, fel diluw hyll,
 Dan ei archiad yn erchyll,
 Uwch y wlad, gynyrcha wledd
 I lanw ei greulonedd;
 Mal rhuthrwynt dröwynt o draw,
 Llym gorwynt yn llwm guraw,

Disgyna; rheda ar hyn,
 Ar ddiffro, dyner ddyffryn;
 Ac mewn fflamawg, dyrddawg dân
 Y cefir yno 'r cyfan!
 Y meusydd a'r llwynydd llon
 A daniwyd; a thai dynion,
 Temlau dysg, tai mawl a dâ,
 Sy 'n anferth gras enynfa!
 Trwy ei ofwy, pentrefydd
 Yn ulw salw y sydd!

O flaen y dorf elynol—y gwelid
 Pob golwg ddymunol;
 Dinasoedd yn dân ysol,
 Drwy eu hynt, geid ar eu hol.

Y boreu, O mor beraidd—yr awel!
 Mor rywiog a balmaidd!
 Orn y gâd, a'i ffyrnig aidd,
 A ddygai dawch caddugaidd;
 A'i heintus arswydus sawr,—pan daena,
 Letha dyrfa, fel gorlwyth dirfawr:
 Cyn awr y nos cwyna 'r nef,
 A gwaedda rhag ei oddef.

Archolla, clwyfa y cledd
 Bob enaid o bob anedd;
 Rhifo yn ebyrth Rhyfel
 Y byw i gyd wneir, na b'o gel;
 Neu eu gyru o'u goror,
 I dost gaethiwed, heb ddr.

Pob oed a rhyw yn mysg y byw,
 O henaint gwyw i ieuaint gwan;
 Y gwael a'r gwych, mewn nerth neu nych,
 Un fu eu drych, a'u hanfad ran.
 Ni thycia hedd, na mwynder gwedd,
 Rhag gloew gledd a'i rwygawl glwyf;
 Ond ceid yn haws ffeidd-der traws
 Enynol naws anianol nwyf.

Y ddeg wlad a'i goludoedd—a fetha
 Gan feithrif byddinoedd;
 Darnir, llurgunir ar g'oedd,
 A milain w'g, ei miloedd.

Cyrhaedd dinasoedd caerawg,—i arllwys
 Rhyw oerllu newynawg;
 Yno yr haint, cyn pen y rhawg,—â bloedd,
 A dry y miloedd i drem halawg!
 Newyn yn ddygyn a ddaw,
 Dynion syrthiant o danaw;

A digon o feirwon fydd
 Er hulio yr heolydd!
 Cànt y dydd ar y cynta' daw—i'r llwch;
 O arafwch!—pwy all rifaw?
 Yna tynir cànt arall
 Bob dydd, mor llonydd a'r llall;
 Hyd un bedd—rhyw lydan bant—
 Y dygir mwy na deugant!
 Y gwael lu lwm, gwelwlas,
 O ddynion yn y ddinas,
 Yn gwneud saig o gnawd y sydd—cnawd dynion,
 Neu bwdr helion budr heolydd,
 Nes iddynt gyflawn soddi
 Yn ei haint a'i newyn hi!
 O Dduw yr Hedd! mor ddû y rhan—gafwyd
 I'r rhai weddilliwyd i orwedd allan,
 Heb fedd! holl wyneb y fan
 Enyna fraw yn Anian!
 Y fro lân sy 'n fôr o lwch,
 Hon welir yn anialwch;
 E daena 'r gwyneb ei dônau
 Draw o bell, nes drwy y bau,
 O ddiwylliad, harddiad hon,
 Na welir braidd un olion.
 Os unwaith bu rhosynau—yn addurn
 Cynyddol aneddau,
 Ni adwyd dim o'u nodau;—fflam ysol
 O'u canol fu 'n cynau.
 Hoff fronau a dyffrynydd—un adeg
 Fu 'n odiaeth am ffrwythydd;
 Oll yn anial sal y sydd;—llawn diflant,
 Di-ogoniant ydyw y gwaenydd.
 O bontydd mae aml bentwr
 Yn atal a dal y dw'r;
 Adfeiliau eu seiliau sydd
 Ar finion yr afonydd.
 Pob heol ansangol sydd
 I'r gwaelod yn rhigolydd;
 Dielw yw ei dolydd—diffaith âr
 Yw braenar eu bronnydd;
 Yn nythod gwiberod bydd
 Ei huliedig aelwydydd.
 Nawdd a barn o'i llysoedd bu
 I'w dynion yn ymdaenu;
 Tumlau yn deiau ei dysg—am oesau,
 Llu ei neuaddau 'n llawn o addysg.

Ei masnachaeth helaeth hi
 A lluniaeth fu i'w lloni;
 Tref hynodawl Trafnidaeth,
 Er ei grym, yn ddiddym ddaeth:
 Er tegwch a harddwch hon,
 Hi osodwyd fel Sidon,
 Neu Tyrus, pan ei torwyd
 I ddyfndwr y llifddwr llwyd.
 Ni cheir dyn i'w chwr y dydd.
 Na milyn ar ei moelydd:
 Cyrnig, na phedwar carnol,
 Ni cheir un, na chi ar ol;
 Nac adar yn y coedydd,
 A'u caniad doriad y dydd!
 O lid dwys!—yr harddwlad hon
 A folir am adfeilion!

Os gan y goresgynydd—y llunir
 Cynllwynion i'r gwelydd,
 Erchyll fawr ei archoll fydd
 I ddynion, a'i ddienydd:
 Neu, os bydd, drwy ddrygnaws bau,
 Yn orfawr am ddwyn arfau,
 Am lwyddiant cydymleddir,
 Rheda tân ar hyd y tir.
 Y ddwy blaid a ddaw, â bloedd
 O aidd anwar byddinoedd;
 A thren* twym ymruthrant i
 Frwydrawl a hyf wrhydri.

Wele y maes, a dau lu mawr—arno,
 Am ornest ddychrynfawr;
 Dystawrwydd newydd un awr
 Cawn drosto, cyn y dristawr.

Hen flaenor, yn fileinig,
 Arw ei dôn, â gair dig,
 A rhwydd ddull, a rydd allan
 Ei erch a dwys arch o "DAN!"

Yna, â bron yn enyn brâd—a bloedd
 Gableddus o feiddiad,
 Rhuthrant, ymgyrchant i'r gâd—yn ddigllon,
 Fel yr igion o ufel rwygiad.

Gyda nerth ymgydio wnant,
 A dinystr a ledaenant;

* Fury.

Ger eu rhwysg y gyrrir haid
I ddiflant o archddiafliaid;
A'u rhengau yn ddiau ddwg
Uthr olwg i gythreuliaid!

Y gâd, yn ei chwyrniad chwern,
A wna effaith yn Uffern;
Ni wna y dieifl mewn un-dydd,
O galon ddifa'u gilydd;
Ond yma ymdaena dig
Uwch uffernol awch ffyrnig!
Lle enbyd o danllyd yw,
Lle nodol llwon ydyw;
Uffern hell yw y ffwrn hon,
A lle dinystr llu dynion!

Hyll agor mae pob llygad—a'r genau,
Mae'r gwyneb yn anfad!
Aruthr yw gwedd rhuthr y gâd,
A gneuon* ei hegriad!

Ar un eiliad fer eu hanelir,
Drylliau y llengau gyd-ollyngir;
Angau i ddegau mewn ing ddygir,
Llu o wŷr dewrion i'r llawr dorir.

Twrrw egr y cyflegrau,—ail ydyw
I lidiog daranau;
Tân gwyllt o honynt yn gwau,
Dyr rengoedd i dir angau!

Dreigiau o dân, drwy ŵg dwys,—a chwythant
Yn chwithig, heb orphwys;
O'u mwrllwch yr ymarllwys
Eu safnau belau o bwys.

Tew nifwl yn toi y nefoedd,—guddia
Dan gaddug y lluoedd;
Drwy och blin y dyrcha bloedd
A llw ingol y llengoedd.

Ail y twrf i ryfel tòn
Ar rwygo mur yr eigion,
Neu ruthriad rhaiadr ar hynt,
A rhu gerwin mawr gorwynt;
Rhed dirgryn ar hyd oergraig,
A deffry roch groch y graig;—
Ail rhuad ymwriad mŷr
Yw dyrüad yr awyr.

* Shocks.

Y magnelau a gyflym gnuliant,
Lluchedenau'n aberau boerant,
Peli poethion wylltion dywalltant;
Hwy eu miloedd yn ddarnau malant.

Gan ergydion blodau dynion
Yn ysgyrion a wasgerir;
Dynion mawrglod, ag un ddyrnod,
Yn eu hylldod yno holltir.

Peli yn dresi dyrysol—'hedant
Yn heidiau angeuol;
A niferoedd yn farwol—ysgubant,
Angau daenant drwy rengau dynol.

Garw yw trem y gwyr traed
Erch eu gwedd yn nghyrch y gâd;
Dolef gwyr, a dylif gwaed,
Yn eu cylch, sy'n ddinacâd.

Dyrysa gâlon ar draws eu gilydd,
Wedi gwylltio, fel llewod y gelltydd.
Ar ol pob gelyn dilyn dialydd,
Pawb sy'n cyrchu i daenu dienydd;
A sain eu bloeddiadau sydd—yn debyg
I lais dirmyg, dan lu o ystormydd.
Yn mhob cyfwng blwng yw bloedd—druenus
Yr anafus hyd uchder nefoedd.
Y meirch cryfion a lymion garlamant,
Y maes o'i gyrau rymus agorant,
O gario arwyr yn groch gweryrant,
Is tân gelynol anwydol neidiant,
Rhag pelenau y drylliau ymdroellant,
A'u carnau geirwon ar feirwon fwriant,
Ar hyd mynwesau rhedant,—am oriau
Ar rym y llengau yr ymollyngant.
Ar hyd wynebâu 'u hegwydau godant,
Y clwyfedig erchyllig archollant;
Llu o'r gweinion yn fwy-fwy llurguniant,
A newydd loesau aelodau lidiant;
Llym ddirdyniadau i ddegau ddygant,
Ar feibion gwragedd rhyfedd eu rhwyfiant;
Ac yna hwythau cwynant;—dan boenau
A chur eu loesau y chwerw leisiant.

Uwchben y maes chwibana—yr Angau,
A'r rhengoedd teneua;
Ac ar bigion dewrion da
Mewn gloddest mae yn gwledda!

Ni phaid a gofyn yn ffest
 Erchyll aberthau'r orchest;
 Bob mynyd, hyd enyd hir,
 Ei seigiau luosogir;
 Ac o gwpan celanedd
 Yfa waed yn hyf ei wedd!
 Maes y gwaed! mae ysig wedd,
 A gelynol gelanedd,
 Ar hyd-ddo, nes llwytho'r llawr
 A rhyw dorfoedd tra dirfawr
 Yn eu gwaed; a chwyn y gwyr
 A rua yn yr awyr.
 Un heb goes, mewn loes, neu law,
 Yn ei waeledd sy'n wylaw;
 Uwch y llef am fraich, y llall,
 A'i gwyn oer sydd gan arall.
 Eiddil blin a ddeil, â bloedd,
 Gyrau ei ymysgaroedd;
 Llifa gwaed rhwng llefau gwyllt,
 A ffreua yn gyffrowyllt.
 Arswydol lefa'r sawdwr
 Sych ei safn, am ddafn o ddwr;
 Ond egni mawr gyni'r gâd
 Luddia ei ymgeleddiad;
 Ei waed rhudd o hyd y rhed,
 Nes ochain gan ei syched:
 Ust! melldithia, rhega'r haul,
 Is ei eirian dês araul;
 Yno'n llesg, dan yngan llw,
 Ymorwedd wna, a—*marw!*

Darfu gwyllt, chwyrn dwrf y gâd,
 A'i sydyn ymosodiad;
 Gawriad magnelau gorwyllt,
 Mewn egni i boeri byllt,
 Ac unol leisiau cynhwrf,
 Beidiasant, tawsant â'u twrf;
 Ac yn y maes deugain mil
 Yn westfa sydd i'r bwystfil;
 Arlwyaeth helaeth yw hon
 Ad-daenwyd o gnawd dynion!
 Gwylltfilod eu gormod gânt,
 I'r weithred yr ymruthrant;
 O'r gelltydd adar gwylltion
 Aroglant, tynant at hon.

Yna y fyddin â'i thân a faeddodd,
 Frysia i erlyn y gelyn giliodd;

I gŵr eu dinas ei gwyr a dynodd,
Ac O yr olwg o gur a welodd!
Yn sydyn ymosododd—i ddychwel,
Ië, hen RYFEL ei hun arafodd!

Muriau o gyrph y meirw gânt,
Yn y ffosydd gorphwysant;
Dorau y tai a dyrant,—pob heol
Olynol a lanwant.

Hwythau orchfygir weithian
Gan eirias *dinas ar dan!*
Ymaith ar unwaith yr ânt,
O'i golwg hwy a giliant;
A gyr Angau gur ingol,
Fel corwynt, hyrddwynt o'u hol,
Neu ddonau, mynau y môr,
I'w blino hwy a'u blaenor.
Y rhew durol raddol rydd
Ergyd lew ar gadlywydd;
Dwrn y gwynt dyd arno gosb,
E ddygai'r niwl ei ddugosb:
Eira mân wna arwr myg
A'i ddarnmerth yn fawr ddirmyg.

Nos a dydd fe rydd yr ia—a'i oerwedd
Y dialedd hwnt a'i deola;
Er mai blin a thromeu bloedd,—ar bob tu
Eu hanafu y mae y nefoedd!

Dyn a'i farch o dano fydd
I'w gweled gyda'u gilydd;
Ni honir un gwahaniaeth,
Y dyn yn anifail daeth;
Treiglwyd yn un eu tringle,
Yn y llaid un yw eu lle;
Ni luniwyd i'w celanedd
Wisg, neu arch, neu barch y bedd.

Mewn rhyfel, drwy dawel dir
Anialwch fuan welir;
Peidir a methir amaethu,—o'i achos
Annichon yw arddu;
Dinystr a haint wna daenu,
Yn ei daith, a newyn du.

E nycha bob masnachaeth—atalia
Waith teilwng trafniadaeth;
Dwg ei gosb adegau gwaeth,
I dori y wladwriaeth.

Addoedydd celfyddydau—yw RHYFEL,
 A rhifydd eu dyddiau;
 Ni ddyrydd i wyddorau—un nodded,
 Nid yw yn gweled eu dawn golau.

Ni ddaw o hono na'i ddysg—i ddynion
 Ddaioni nac addysg;
 Coelcerthau o lyfrau lysg,
 A gemau celf yn gymysg:
 Ni rana hwn i rinwedd
 Un bau amgenach na bedd.

Ond, er ei greulonderau,—i'r milwyr
 Rho'ir moliant Seneddau!
 Bostir, eglurir yn glau—er eu clod,
 Nad oes orfod ar eu dwys arfau.
 Hwyr a ganmolir gan y miloedd,
 Ac o'u Beiblau y dwg y bobloedd
 Destynau, geiriau ar g'oedd—yn warant,
 Neu wir foliant, am ein rhyfeloedd!

Dyrchefir, rhifir Rhyfel—yn weddus
 Iawn wyddor oruchel;
 Addurnir, gosodir sêl
 Duw y Nef ar dân ufel!

Awyddfrydig ddifrodi—wna arwr
 Yn wron uchel-fri;
 Ynfydion ddynion fydd i
 Ei ddilyn, a'i addoli.

Ei glod yn chwai a gludir,—â thiroedd
 A thyllau fe'i breinir;
 Ac o'i flaen y cyflwynir
 Holl harddwch tegwch y tir.

Ger ei fron bydd gwyr o fri
 Yn hyddysg iawn gyhoeddi
 Ei gampau; emynau mawl
 A seiniant iddo'n swynawl.

E gais y boneddigesau—yr aur,
 Yr arian, a'r gemau,
 Er bod holl wychder ei bau
 Yn llwyr ar ei allorau.
 Rhag eu blaen y rhwyga bloedd
 Dynesiad y dinasoedd,
 Er rhoddi braint eu rhyddid
 I wyr balch, arwyr y bid.
 I arwr, cludwr y cledd,
 I'w wersyll daw o'r orsedd

Enwau braint, arwyddion bri,
 Ar unwaith i'w goroni.
 Rhed y beirdd ar hyd y bau,
 Hyawdlaidd yw eu hodlau;
 Canant, hyf eiliant fawl,
 Mel eiriau clod milwrawl.

Ar y byd i gyd o'i gŵr
 Eu harwr beiddgar heriant;
 Gyda blâs fe gwyd eu bloedd
 Y miloedd, i roi moliant,
 Ac euro llidiog arwyr,
 Yn nofio gaed mewn gwaed gwyr.

I foliant y Rhyfelydd,—a'i rinwedd,
 Yr enwir aml drefydd;
 A rhyw hil o'r heolydd
 Yn y fan ar ei enw fydd.

E blyga y boblogaeth—yma 'n wyl,
 Mewn aidd, heb wybodaeth;
 Eu deall hwy tra dall aeth,
 O gael y fuddugoliaeth.

Cân y clychau fywiog dônau,
 A thelynau hwythau lonant;
 Y magnelau ar y muriau
 O'u dur enau a daranant.

Ar y bryniau mae banffaglau,
 Goleuadau, er ei glodydd;
 Yn addurniant blodau 'n balmant
 A orhuliant yr heolydd.

Mewn ffenestrau gwelir golau
 Y canwyllau 'n cyneu allan,
 Ac i'r arwr ceir eirian
 Gerfluniau mewn torchau tân.

Byw una gwreng a bonedd,
 I ddyfod a'u clod i'r cledd,
 Yn dra twym oll drwy y tir
 Ei ddelw a addolir;
 Er hyny, arwyr rhinwedd
 Yn y tir a bleidiant hedd.

Er ei foli, y Rhyfelwr—nid ydyw
 Ond adyn;—gwir arwr
 Da a gwych ydyw y gwr
 Fyddo yn dangnefeddwr.

Llaw ruddiog ac euog wyr,
 Er mawl y wlad, yw'r milwyr;
 Meib i Gain, ymwibiai gynt
 O tan nôd gwaed dyn, ydynt;
 Cenfigenllyd, waedlyd wyr,
 A'u bryd ar ladd eu brodyr.

Halogant, llygrant bob lle,—nid ydynt
 Ond adwyth eu trigle;
 A'u trachwant tröant bob tre'
 I anllad erch buteinlle.

Mesur niweidiau moesol—y fyddin
 Ni feiddia neb dynol;
 Ior o hyd wel ar eu hol
 Ryw Sodom dra arswydol.

Cyn hir y gwelir eu gwaith
 Anhygar yn euog waith;
 Derfydd eu clod o'n brodir,
 Arnynt daw ysgorn ein tir.

Heddychol, fuddiol foddion,—yn eu lle,
 Fydd yn llywio dynion;
 A nodi prif ynadon,
 Ddyry hedd i'r ddaear hon.

RHAN II.

HEDDWCH, YN EI EGWYDDOR A'I EFFEITHIAU.

Haeddol egwyddor HEDDWCH
 I'w lle gyfoda o'r llwch;
 Heb oedi, i beri barn,
 Y coda, megys cadarn:
 Heb dwrf blin, heb dorf a bloedd,
 Cynadla â'r cenedloedd,
 Nes y daw ei hynaws dôn
 Yn ddenol iawn i ddynion;
 A gwylaidd wrendy gâlön
 Ar ei llais a'i geiriau llon;
 Trefn newydd, o'i herwydd hi,
 Gymerant at gamwri.

A daeth oes y Cymdeithasau—Heddwch,
 I gyhoeddi ffeithiau,
 A lethant ogoniant gau
 Milwriaeth â'u syml eiriau.

O'r Amerig gwyr mawrion,—a goreu
 Wladgarwyr y Brython,
 A daenant yn mysg dynion
 Eiriau Hedd yn yr awr hon.

Eu gollwng o'u dystaw gellau—y maent,
 Mewn mynych ysgrifau;
 Dylanwad eu dalenau,—heb grochwaedd,
 Yn fuan gyrhaedd trwy gryfion gaerau.

Newid barn a syniad byd,—a'i dywys
 O'i duedd gynenllyd,
 I garu Hedd, geir o hyd—eu rheol
 Goeth a bywiol, a gwaith eu bywyd.

A thrwy y myg Athrawon—y gwelir
 Gwell golwg ar ddynion;
 Oera brwd digder eu bron,
 Cilio wna trais o'u calon.

Ceir llysoedd cywir, llesawl,—heb Ryfel,
 I brofi'n heddychawl
 Bob gwadiad, honiad, neu hawl,
 I lwythau cenedlaethawl.

Pwyllog, alluog wyr llen,—llëygion
 Call hygar, digynen,
 Ni fynant hwy fwyniant hen,
 I fagu mwy cenfigen.

Achwyn gwlad a'i chwyn gludant,—arno
 Heb wryni, gwrandaewant;
 A'r gweinion yn gyfion gânt
 Eu rhyddid, fel yr haeddant.

Os ydyw iawn osodiad—a gofri
 Y gyfraith, yn wastad
 Yn rheol ryglyddol gwlad,
 Fe rydd cyflafareddiad
 Foddion, y rhai a fyddant
 Yn ddigon at gwynion gânt,
 Rhwng gwledydd beunydd sy'n bod,
 Oherwydd rhyw ddihirod.
 I wneud i ddyn am a wnaeth,
 Y nodwyd trefn YNADAETH.

Lladron, yn mhob llywodraeth,—a gosbir
 Gan geisbwl y dalaeth;
 Carcherir, gyrrir hwy'n gaeth,
 I'w doddi mewn alltudiaeth.

Os yn ngafael “gwas anghyfiawn”—y delir
 Rhyw daliad cyfreithlawn,
 Y man yr â mynir iawn,
 Ac hefyd y llôg cyfiawn.

Os adyn ymosoda
 Ar ddyn, neu arfer ei ddâ,
 Y gyfraith berffaith a bâr
 Ei gyrchu ef i garchar;
 A'r Ynad iddo rana,
 Ei gosb heb wyrni a gâ.
 Os llidiog, gynddeiriog ddyn,
 O'i ddialedd, ladd elyn,
 Yna'i waed ei hun, yn wir,
 Yn y fan a ofynir;
 A laddo, yntau leddir,
 Waith tost, gan gyfraith y tir.

Onid oes yn nhrefnu da
 Y teulu fawr atalfa
 I gynen, a drwg annoeth,
 A geiriau fel pelau poeth,—
 Yn nghariad, cytuniad dau,
 Heb ochain, i ddwyn beichiau,
 O dan bwys gofidion byd,
 A'i afrwydd lwybr anhyfryd?
 O gu, unawl, dêg anedd,
 Eu cân hwy acena hedd;
 A Heddwch leinw'u haddef,
 Gwna'r adail yn ail y Nef!

Dygwyd i gymydogoeth
 Yr un rheol ddynol, ddoeth;
 Hyn sydd i Ddinasyddiaeth
 Yn ddarn cain o'i haddurn coeth.

I ddynion a meddianau—yn addas
 Rho'ir noddod heb arfau;
 A'i rhaith y gyfraith a gau
 Ddirif warcheidiol ddorau.

Cyllyll, a llym bicellau—y waewffon
 Ni ddiffynant deiau;
 Cedwir, arbedir y bau,
 Heb gryfion, fawrion furiau.

A'r un moddion a'r rhai'n y maeddir
 Holl gynenau, du iasau dwysir;
 A hynaws degwch, llon ostegir
 Ochaint talaeth, a'i chwyn atelir;

O ddig un da ni ddygir,—dedwyddwch,
O garu Heddwch, a gyrhaeddir.

Hyn a esyd deyrnasoedd—yn gedyrn,
Hwy gadwant frawdlysoedd;
Yno'r gwir yn llawn ar g'oedd—am bethau
Ddaw i'r golau, o ddwfn ddirgeloedd.

Y barnwyr fydd, heb wyrni,—a'u golwg
Yn gwylio a nodi
Pob dyfais neu ymgais i
Ymarwedd mewn camwri.

Astudia ein hystadwyr—y moddion
Er maeddu troseddwyr;
Barn union ar weigion wyr
A osodant, heb sawdwyr.

Ond, er hyn, mae'n drueni—na cheisient
Achosion i brofi,
Y gallai gwlad, heb golli
Ei braint, amddiffyn ei bri,
Heb friwiau clwyfau y cledd,
A gelymol gelanedd.

Tori aniesin gynen teyrnasoedd
A wnai dawn llesol Ynadon llysoedd;
Cu anadlai tég *farn* y cenedloedd
Fwy o ddaioni na'u gwyllt fyddinoedd;
Ni all Angau na llengoedd—brofi hawl
I finion oesawl neu fân ynnysoedd.

A brofodd wbwb Rhyfel—un achos,
Heb nychu gwlad dawel?
Ai egni mwg a magnel
Y sydd i osod eu sêl
Ar raniad o dir unwaith,
Neu hen lyn, ac afon laith,
Neu lom graig, a lem groga
Ar drwyn môr yn ddôr lled dda,
Neu ynys noethlom, anial,
(Nad wyr un dewin a dâl)
Wyllt ei rhyw, heb wellt yr haf,
Neu gywaeth yn y gauaf?

A yw Rhyfel yn medru rhifo
Y milltiroedd, yn amhwyll taro?
Na, ei radd â gwaed wna ruddo;—ei dir
A gwaeau nodir:—gwae a'i newidio!

Ai pelau a grym pylor—enillan
Iawn linelliad goror?
A ddwg Angau dda gynghor
Am dir mwys, am dyrau môr?

Ni wna oerlais Trais y tro—i Reswm,
Ei rysedd, a'i gyffro:
Nid un hawl a edwyn o,
Ar undyn ni fÿn wrando:
Diben rydd ar gydwybod,
A min y cledd mÿn y clod.

Gwâr enau a gwirionedd,—a rheol
O frawdol unfrydedd,
A geiriau hoff hygar Hedd,
I Drais sydd uchel drosedd.

Gair Heddwch mor dêg rhodda—heb anfoes,
Heb ynyd ymladdfa,
I ddyn ei diroedd a'i ddâ,
Du olwg a dawela!

Barn bwyllus, foddus a fÿn,
Yn lle twrf, yn llw terfyn;
A thrwy bwyll, heb dwyll na dig,
Fe rodde yn fawreddig;
Y farn yn gyfiawn a fydd,
I gloi adwy y gwledydd.
Ni ddylid, mae yn ddilys,
Gefnogi na llogi llys
I ymladd; eithaf amlwg
Hyn a dry i enyn drwg.
Gresynol groesi anian,
Ar fai tost, wnaï arfau tân.
Anafwch ryw anifail,
Neu bryfyn dillyn y dail,
A hwnw brofa 'i hunan,
A llun dig, yn llawn o dân.

Am ddialedd meddylia,—ei garnau
Neu ei gyrn arfera;
Danedd neu golyn dyna
Pob milyn, er diffyn da.

Os y gwas fydd gas i gi,
Oni cheir hwnw'n chwerwi?
Y gath ceir yn bwgwth câd,
A chwyrnu mynych oernad;
O châ anffawd i'w chwnffon,
Rhag y briw y rhega bron.

Cynheddfau a doniau dyn
Godant yn gryfach gwed'yn;
O'i sarhau, rhyw gais a rydd
I afloni ei flinydd. [ddichlyn
Yn ei fron cynllunia frâd—yn
O hyd i'w elyn yn ad-daliad;

Ac at hyn yn dŷn y dâl
Nos a dydd, nes y dial.

Ac os *un* hirgeisio wna
O'i elyn ei ffun ola',
Mwy ffyrnig, anwydig naws,
A llewaidd, fydd y llauws;
Drwg nwydau yn donau dig
A godant felldigedig
Hyfrydwch i ddifrodi
Plant dynion. Creulon y cri
A geir am anrhaith a gwaed,
Ymroddir am ireiddwaed;
Enynir gwreichion anian,
Yn ei dig, yn boethwyn dân;
Ac, mewn gwg, pob drwg a'i dras
A lunir,—mawr alanas!
Min y cledd yw diwedd dâ,
Gwareiddiad a gerydda;
Dwyn Grefydd dan ei grafanc,
Ac ysbryd Crist i drist dranc;
Ond Hedd, yn ei duedd da,
A'i nodedd a'u cynyddda.

Croesder yw gweled Cristion,
Dan dyngu, yn brathu bron,
Neu yru Cristion arall
I ladd dyn,—O waeledd dall!
IESU, dy Dduw, wnai osod
Y rheol fuddiol o fod
I ddynion, trwy *ddaioni*,
Gyda brawd gadw eu bri,

A thrwy *garu*, drechu drwg
Y gelyn llyma'i gilwg.
O cofier geiriau'r Cyfiawn!
Mor nerthol ei ddwyfol ddawn,
Yn cyhoeddi cu Heddwch,
Yn lle trais anniwall, trwch!
Ei air mwyn ar y mynydd
Mor frawdol a swynol sydd!—
“Ufuddion dangnefeddwyr
Sydd nefol, rinweddol wyr;
Plant Duw sy' heb helynt dig,
Da ydynt, gwynfydedig.”
Anadlai Iôn odlau Hedd,
A geiriau o drugaredd;
Ac i waedlyd fyd o fai
Heddwch o hyd gyhoeddai;
A thrwy ei oes, i'w groes gref,
Beunyddiol bu yn addef
Ei hun yn DŴWYSOG HEDD,
A Dēolwr dialedd.
Ei grefydd ddaw yn gryfach,
Nes enill bryd ein byd bach,
A gweled o'i drigolion,
Mai gwarthus, arswydus son
Am wrthod *barn* haeddgloed
hedd,
Ac ail enyn celanedd.
Eu rhyddid, a'u holl rhoddant
I gadw dan sylw'r Sant,
Sy'n Llywydd, Barnydd y byd,
—a'i gyfiawn
Byw Iôr uniawn, ar bob rhyw
enyd.

Ni rydd y cleddyf ryddid—i werin,
Neu wared o'u gofid;
Ai catrodau, llengau llid,
I deyrnas rydd gadernid?
Fyth gwae y deyrnas o'r fath gadernid!
A gwae a roddant atreg ein rhyddid
Ar fin y cledd, a'i ryfedd hir ofid!
A gwae i iawnder, pan ruthro gwendid
Greulonder, llymder, a llid;—oferedd
Anos dialedd mewn modd nas dylid.
Oni orfydd y durfin arfau,
Hwy gânt drymach, dynach *cadwynau*;
Neu, os enill yr ymrysonau,
Ah! nid bychan y gwnaed eu *beichiau*!

Dir y bydd yn ddrud i'r bau
 A orfydd, draul ei harfau;
 Hi a lethir gan lwythau—ei rhyfel,
 O'i chodwm isel ni chwyd am oesau.

Dyled nad ellir dalu—wna Brydain,
 Ein brodir, i waedu;
 Cynaliwyd, llanwyd ei llu
 Trwy eithaf moddion trethu.

Mor ddinag aeth myrddiynau—i gynal
 Gogoniant ei harfau,
 Nes yw'n drethawg, beichiawg bau
 I lwythawg genedlaethau.

Aneirif yw ein harwyr—(mewn enw)
 Mae'n anhawdd i rifwyr,
 Yn eu gwaith, enwi y gwyr
 Ar resau'r cyfarwyswyr.

Mae urddas naw cân myrddiwn
 O bunau hardd ar ben hwn!—
Rhwd ar gof ein brwydrau gânt,
 Ag enw ein *gogoniant*!
 Byth i Ffrainc beth yw ei ffrwyth?
 Tra amlwg yw mai trymlwyth
 O dreuliau, beichiau dibaid,
 A dolef rhwng ei deiliaid;
 Yna taerion anturwyr
 A lethant, gwaedant eu gwyr.
 O'r euog, lofruddiog frâd
 Chwalai drwy ei Chwildroad!
 Mor hell i'w Bwyell y bu,
 Heb wrthod, yn aberthu!

Gwaedlfiad, gwae, dolefain,—ymument
 O'i mewn i gydochain;
 Dan ffrewyllawg, ddrylliawg ddrain
 Y gyrid hi i gerain.

Anferthol, ddidorol did
 A roddodd hi am Ryddid;
 O hòno gwnaeth ei hunan
 Angenfil, nid gwylltfil gwan,
 Nes ydoedd ry arswydawl
 I haeddu na meddu mawl.

A'i luoedd ei Napoléon—i lwch
 Luchiai dywysogion;
 I'w geraint rho'dd aml goron,—a hael fu
 Ef o'i allu i'w brif gyfeillion.

Dros yr Alpau, tyrau tàl,
 Fe redodd ef i'r Eidal;
 Diraddiodd, poenodd y Pab,
 A gofid ro'dd i'r geufab.

Dros ysgythrawg, agenawg glogwynau,
 Ar hyd y gwgawl, ymgrogawl greigiau,
 A thros erchyllig lithrig hir lethrau,
 Manau oedd lyngol, mynodd ei lengau.
 Yn awr ei nwyfiant, pan heriai y Nefoedd,
 Fe feiddiai Anian, â'i hyf fyddinoedd;
 Ei eiriau ysent eira yr oesoedd
 O'i fan,—nodded y brigwyn fynyddoedd.
 Ewrob wnai yru i'w erbyn arwyr,
 Anwar, filain, a chedyrn ryfelwyr;
 Yn eu mawrhydi, hen ymerawdwyr
 Fuon' am lwyddiant hyfion ymladdwyr;
 Teyrniaid redent, ymfrydient am fradwyr,
 Cyfle fynent i'w cyflafanwyr;
 Yntau a'u malai hwyntwy a'u milwyr,
 A thaniai obaith ei wrthwynebwyr;
 Llwyddo wnae, er gwae i'w gwyr—pan ruthrai
 Hwy osodai yn ebyrth i'w sawdwyr.

Yn ngoror Syria, Asia ysodd,
 Ewrob orddig ac Affrig cyffr'odd;
 Ei enw llidus, fel tân lledodd,
 Braw i galon dynion a daenodd.
 Tori neu osod ffiniau teyrnasoedd,
 Darnio neu asio cedyrn ynnysoedd,
 Creulon orthrymu a malu miloedd,
 Neu roddi o'i enau eisiau oesoedd,
 Ysgar bron Anian, neu wasgar breninoedd.
 O holl ogoniant, llesiant eu llysoedd,—
 Hyn ei waith cyffredin oedd—â'i alwad,
 Ac i'w anadliad plygai cenedloedd.

Y wlad, i feithrin ei olud, fathrodd,
 I boen a chyni ei meibion chwynodd,
 I Ryfel anmhur ei blagur blygodd,
 O'i harddaf bigion ei ddigon ddygodd;
 Yn groes i'w lwon y goron garodd,
 Y gwerinwr ei hunan goronodd,
 A'r drefn werinol a farwol fwriodd;
 Y wasg gyhoeddus a rymus rwymodd,
 Ei golygyddion, lywyddion, laddodd;
 Achos erlid ar ryddid roddodd,
 I'w fryd uchel y werin fradychodd,
 A'r ddaear rhagddo dan grino grynodd,
 Yntau i'w gedyrn hyntiau a gododd;

Ar ei holl gyfoeth y llwyr wallgofodd,
 Ei hunan-ddelw yn benwan addolodd,
 Ie, yn Dduwdod ei hun a ddododd!
 Nes i warth o'i nen syrthiodd;—a llawen
 O dori ei gynen, daear ganodd.

Ac hefyd, hawdd yw cofio—y gwrol
 Hungariaid fu'n brwydro,
 Yn dwym eu bryd, am eu bro,
 A'u coron—blin eu curo !

Er dewrder, glewder eu gwlad,
 A mawr addas ymroddiad,
 Y fro dêr i fradwriaeth
 Y gwyrawg wr Georgey aeth;
 Er ei warth, ei dir werthodd,
 A'i hyder yn drymder drodd.

Rhyddhad rhwydd hon,
 Ei wlad wiw, lon,
 O frâd ei fron—afraid fri—
 A wrthun werthodd,
 Ochus fradychodd,
 Buan y rhoddodd boen hir iddi;
 Dynion gadwynwyd, chwerw garcharwyd
 Niferi gludwyd i fawr galedi.

Hen deuluoedd hynod lewion tros iawn goron tras Hungaria,
 A niferoedd o'i hen fawrion, yrai estron wyr i Awstria;
 Dieneidiwyd ei hynadon, gywir ddynion gwir ddaionus;
 Ei llu dodwyd yn alltudion ar dir estron—oerder astrus !
 Ei gwladgarwyr i orthrymwyr sydd yn filwyr—swydd anfelus !
 Ac ysbïwyr ar Eidalwyr i'w trallodwyr—hortwyr llidus !
 Llengau ffurfiant er attaliant y rhan fyddant wyr anfoddus
 I'w hualau, ac am freiniau fo i raddau yn fawreddus.

Mor greulon eu hanfon hwy
 I hen eirth yn gynorthwy,
 Er difa arwyr dyfal,—a fyddont
 Am faeddu o'r Eidal
 Y gwyr dig a geir i'w dal,
 Heb alwad neb ond Belial !
 Yn alltudion, waelion wyr,
 Y gygrant eu gwladgarwyr,
 Am garu y magwrydd,
 A swyn yn eu henwau sydd !

Os enwir un "Mazzini"—dyn ydyw
 O nodwedd diwyrni ;

Pur yw ei fron, par ei fri,
 Wr iesin, i'w oroesi.
 Er hyny croesa rinwedd
 Wrth anog at glwyfog gledd.
 Nid ymladd mewn nwyd amlwg
 O wledydd a drydd eu drwg.
 I waredu yr Eidal,
 Gwell iddo â'i ddwylo ddal
 Ysgrifell, na'r bicell bâr
 Waed-yfed, a châd afar.
 Gwell geiriau na'r pelau poeth,—
 Geiriau mawrddysg, gwir, mirddoeth,
 Ddifiniant, dorant y dur;
 Llefant, heb arbed llafur,
 Nes o glyw a mynwes gwlad
 Y deua eu gwrاندawiad.

Ac yna eu hacenion—a faeddant
 Drais fyddin yr estron;
 Heb lawer o bryder bron,
 Rhoddant eu gwyr yn rhyddion.

Ger enw y GWIRIONEDD—y dygir
 Eu Dagon o'i orsedd;
 Gwasga Bab i gwsg y bedd,
 A delwau ei hudoledd.

O Ryddid! byth na'th rodder—i ymladd;
 Rhy amlwg mai trawsder
 Ddaw o hyn, a rhoddi her
 I fwyndeg ddeddf Cyfiawnder.

Anorfod dyfod mae'r dydd—i roddi
 Eu rhyddid i'r gwledydd;
 Llywodraeth Gwybodaeth bydd
 Yn gryfach, ac iawn Grefydd.

Gyr y Wasg ei gair o wir,—a llysoedd
 A'i llais gywilyddir;
 Ystyria, teimla pob tir
 Yr addysg ganddi roddir.
 Ger ei threm y gorthrymwyr—a grynant
 Mwy ni heriant grymanau'u harwyr;
 Cofresau ei beiau bydd,
 I'w galw i gywilydd.
 Hithau, â'i llinau llonydd—o'u blaenau,
 I hir boenau a'u gyra beunydd:
 Yn eu bron gwna enyn braw,
 A dyr eu nerth i daraw.

Nid dwrn llym, ond "darn y llaw"—arswydant,
 Hwnw gwelant o hyd yn eu gwyliaw!
 Daw achreth drom a dychryn,
 Y lwyn gref fel deilen gryn.
 Ymgilio rhagddo er hyn—nid allant;
 Y lle y delant y llaw a'u dilyn,
 Nes iddynt, fel maen, soddi
 I aflwydd o'i herwydd hi.
 Gan Addysg y gweinyddir
 Foddion hael i gael y GWIR;
 Hwnw dyr ei hun y did,
 A rhodda bawb mewn rhyddid;
 A rhyddid, pan ei rhoddir,
 Ddwg elwch a heddwch hir.
 Pob taeawg neu frwydrawg fro,
 O Heddwch, wnei ddyhuddo!
 Arafaid, ac heb ryfel,
 Yn addas dy deyrnas dêl;
 Heb waed llid, na baeddu llu,
 Heb ochain, na hy' bechu;
 Heb ymdrin un fyddin fawr,
 Neu dorf llyngesau dirfawr;
 Heb godi dyfnlli' y dôn,
 At dônau o waed dynion;
 Heb gestyll, deryll dyrau,
 Yn rhestr hir, na rhwystro hau;
 Heb rwydro meib aradrwyr,
 O ladd gwellt i ymladd gwyr;
 Heb yru neb o'i oror,
 I boenau dig, heb un dor;
 Heb lwydo hoen blodau haf,
 Na niwaid i gynhauaf;
 Heb drawsedd, llygredd, na llw,
 Na gwaedd o enau gweddw;
 Heb luddio plwyf, heb ladd plant,
 I gynal ffug ogoniant;
 Heb losgi na gloesi gwlad,—
 Y myni dy ddymuniad.
 Caethion yn rhyddion rhoddi,
 Yn urddas dy deyrnas di;
 Meibion Ham o'u cam a'u cur
 Ni lefant mwy dan lafur;
 Yr estron creulon a'u cri,
 Weis duon, a ddystewi.
 Hwyl i warth mwy ni werthir,—ond iddynt
 Addysg a gyfrenir;
 Daw Ham o'i gaethiwed wir,
 A chyfiawn ei dyrchefir.

AFFRIG yn ddi-ddig a ddaw—o dŷnion
 Gadwynau i rodiaw;
 O'i choedydd llonydd rhagllaw
 Y dail wnant guro dwylaw.

Ei llwythau diau deuant
 Heb lid, yn debyg i blant;
 Picellau, bwâu ni bydd
 Yn llanw mwy ei llwynydd.
 Gyr masnach amgenach gwyr
 I'w hymylon na milwyr;
 Trafnidwyr, mordwywyr da,
 Gwyr addas, a'i gwareiddia.

Ger ei llynau gwyr llonydd—a drigant,
 Nis drygir ei meusydd;
 Yr amaeth yn benaeth bydd
 Ar fin ei hir afonydd.

Geiriau Heddwch gyr Addysg
 I greulon ddynion yn ddysg;
 Yntau ei hun i'w hynt â,
 Ar eu hol prysur hwylia;
 Hyd i reibiol ddeiliaid ARABIA,
 Rhed heb arswyd yn rhad i BERSIA;
 Ac i randir bryniog yr INDIA,
 Hyd y miloedd yn nhröed y MALWA;
 Ar hyd ei chanol yr â drwy CHINA,
 A dwg yn ufudd wyr dig yn IAVA.

Holl ysgarmain y Dwyrain dora,
 A'i chynhwrf oesol, enbydol beidia;
 Heddwch a'i llwyr ddyhudda,—a Rhyfel,
 Yn goll angel, ei afael gollynga.
 Y Tyrciaid eu cyfraid cânt,
 Gwir heddwch a gyrhaeddant;
 Ynysoedd ceinion ASIA,
 O'u hoch dwys i heddwch da,
 Cyn hir, ollyngir yn llu,
 I uchel lawenychu:
 Yn mwynder a hyder Hedd
 Y rhedant i anrhydedd.
 AUSTRALASIA! deua y dydd
 Da i wylltiaid dy ellydd;
 Daw y gwyllt yn frawd y gwâr,
 A'i hyf lefau aflafar
 Ddystawant, beidiant a bod;
 Daw i undeb â dyndod.
 Gad ddail a gwiail y gwÿdd,
 Myn adeilad mewn dolydd;

Yn lle bod mewn tyllau, bydd
 Yn trafod pigion trefydd;
 Ac o'i dir y cwyd orwych
 Drwm gnydau, heb nodau nych;
 Gwaedd Rhyfel, o'i dawel dud,
 Ni wylltia ef yn alltud;
 Tawelfyd a hawddfyd Hedd
 Goronant gaer ei anedd.
 Yn mawrwyd dir AMERIG,
 Drwy Grefydd y derfydd dig;
 Yr Indiaid cânt eu rhandir,
 Heb Ryfel, yn dawel dir;
 Bydd heb ddrwg, na gwg y gwŷn,
 Na malais i'r dyn melyn;
 Y dyn coch ei reidion câ,
 A'r un gwŷn arno gwena.
 Dros LIMA ymdaena dydd,
 A'n gryfach na'i choelgrefydd;
 Grym y nefol, dwyfol dês
 Wna'n siriol BUENOS AYRES;
 Ymlid ddrwg, a dwg y da
 I breswylwyr BRAZILIA;
 Cydfod o ganfod y gwir
 I dir PERU darparir;
 Yn EWROB mwy ni yrir
 Bro hyfryd yn danllyd dir;
 RWSSIA daw i resi dyn,
 I GALIA ni bydd gelyn.
 Yna rhwystrir trais yr Awstriaid
 Ar hen goron yr Hungariaid;
 O'u deolaeth daw Eidaliaid,
 Oll ymuna yr Allmaeniaid.

Brysied, O deued y dydd,
 I'w gweled gyda'u gilydd!
 Cyfuner byd cyfanedd,
 Heb un rhwyg, is baner Hedd,
 Yn deilwng un frawdoliaeth,
 Heb ynddo, o'i geisio, gaeth!

PRYDAIN FAWR y pryd hyn fydd—heb anair,

Yn benaf o'r gwledydd;
 I bob gwlad yn rhad y rhydd
 Wir addysg y gwareidddydd.

Enfyn ei mâd genadon,
 A Gair Duw uwch garw dôn,
 I bob gwlad, mewn cariad cu,
 I'w daenu yn mhlith dynion.

Yna rhyddion y rhoddir—y fyddin
 Anfuddiol; ni chedwir
 Ei llengau; ond gollyngir
 Oll i'w taith, holl lu y tir.

Mwy elw troi y milwyr
 Yn llafurus, weddus wŷr;
 Gyrrer hwynt i gario'r rhaw,
 A deol chwŷn â'u dwylaw,
 Yn dawel weithwyr diwyd,
 Yn lle byw yn ffrewyll byd.
 Hen gorsydd a gweinydd gwyllt,
 Neu gyrau mynydd gorwyllt,
 Arloesir, a heuir hwy,
 Ac ebrwydd y ceir gwobrwy.
 Y gwenith ar ei gynydd
 Mewn corsiog fawnog a fydd;
 A'r creigle oer, careglyd,
 Dry allan ei ran o'r ŷd;
 Yn lle drain ac ysgall drwg
 Y gwelir yn harddach golwg.

Man nodded fu'r mynyddau—yn nyddiau
 Hen eiddig ymladdau;
 Yn oriau Hedd gwneir eu hau,
 Ar y ffrithoedd ceir ffrwythau.

O'r mynydd, â'i lonydd lwch,
 Cyhoedder adeg Heddwch;
 Bryniau llwm, fu'n brin eu lles,
 Oer, nychlyd, droir yn achles.
 Trysorau bryniau heb rif
 O'i gofrestr Heddwch gyfrif;
 Mwnau a geir o'u mynwes,
 O'u pridd cyfodir y pres;
 O'r Eryri daw'r arian,
 A Meirionydd rydd ei rhan
 O lwch aur; dadlocha hi
 Oludoedd o'i thylodi.
 Gwythen blwm yn y cwm cul,
 A wycha ardal wachul;
 Lle uchel claddfa llechi
 Ar y fron, wna gaer o fri.
 O grin foel wyw, groenfelen,
 Lle na cheid gwraidd braidd i bren,
 Na difai borion dafad,
 Haiarn a glo—cedyrn gwlad—
 Allan geir; mwy llon y gwaith
 I filwyr, na rhyfelwaith.

Ysgaru y segurwyr—yn addas
 Gynydda lafurwyr;
 Mintai lawn a gawn o'r gwyr
 Yn ddidwyll gelfyddydwr.
 Morfilwyr yn forwyr fydd,
 I gludo nwyddau'r gwledydd;
 I dymer llawer o'r llu
 Ameuthun fydd amaethu,
 Ac arllwys ffridd a gorllwyn
 O bob dreiniog, lidiog lwyn:
 A gwelir hwy'n drigolion—o deilwng
 Ardaloedd newyddion,
 A'u hil fry ar ael y fron,
 Neu ddifyr lenydd afon.

Ac yna bydd amcanion
 Am ddiwylliant, llesiant llon;
 Gwyddor yn ddidor a ddwg
 O ddirgeloedd i'r golwg
 Haelfoddion i gelfyddyd,
 I ddwyn Hedd i ddyn o hyd.
 Llauer enwog FADOG fydd,
 I roi trothwy i'r traethydd;
 Gwarchgloddiau, muriau mawrion,—a godant
 I gadw yr eigion
 O'r tir, a dygir y dòn
 I'w gwely mewn rhigolion.
 Gorchfygant, maeddant y môr,
 A gyrrant ef o'u goror;
 A'r eidion cryf a rodia
 Dros feusydd a dolydd da,
 Yn dalaeth fu i'r dylif,
 I besgu llon bysg y llif;
 Y fan i bysg fu yn bau,
 Ddaw'n Eden, i ddwyn ydau.

Gerddi â'u llenyrch gwyrddion—a lluniaidd
 Berllanau yn llawnion,
 Defaid, ac adar doffion,
 Y sydd i'r baradwys hon.

Yn yr hwyr brydnawn o'r haf,
 Dan irwydd rhodio'n araf
 Y gwelir mât gariadon,
 Yn dyner, heb bryder bron
 Rhag i ringyll, erchyll wr,
 Afael'r llanc yn filwr,
 A gyru ei mwyn gariad
 O freichiau Gwen i froch gâd.

Eu deuoedd ceir hwy'n dawel,
A llais mwyn yn arllwys mêl,
Yn lif o wefusau llon,
I giliau'r serchus galon.

Plant iachus, mewn hoenus hwyl,
A'u rhieni, 'r rhai anwyl,
Yn min nos yn llawn mwynhâd,
Y cu unant mewn caniad
O wir fawl i'w dwyfawl Dad,
A diau cânt wrandawriad.
Cerdd dlos yr eos a rydd
Harddwch i fawl yr hwyrddydd;
O lonydd dewion lwyni
Cân o hedd acena hi,
Nes y daw perleisiau dydd—yn bur gân
Mawl holl Anian yn nheml llawenydd.

O Heddwch! pan y rhoddi
Dy wâr nawdd i'n daear ni,
Diamheu, yn dy dymor,
Daw'n decach, mwynach y môr;
Nerth ager yn ngwrth eigion,
I ffrwyno dig ffroen y dôn,
I ddynion yn foddion fydd
I fygu ei lifogydd;
Trwyadawl nerth y Trydan
Yn hylif, dylif o dân,
Pan chwyddo ar hyd-ddo rhed
Yn glau, heb braidd ei glywed;
Caiff y guchiog, daiog dôn
Lai dinystr ar lu dynion.

Trwy fynediad Trafnidaeth—a'i nodedd,
Cynydda Masnachaeth,
Ar bob trum, ac ar bob traeth,
Y dyru Newidwriaeth.
Pob llawnder o bellder byd
Yn rhwydd a fyn gyrhaeddyd;
O adnoddau banau byd
Daw bywiol reidiau bywyd;
Dwg aur am dô o geryg,
Ac am dom y gemau dyg.
Un oestad farchnad a fydd
Ar glodwych nwyddau'r gwledydd.
Groesaw i'r Palas Grisial!
O'i nen dêg yn uniawn dâl
Fanerau, yn fwyn arwydd
O'i enwog a'i serchog swydd

O dyner uno dynion
 Eitha'r byd mewn bryd a bron;
 A'u dysgu i garu gwyr
 Na heriant gledd eu harwyr;
 A'u dwyn i gydledaenu
 Cydgeisiad mewn cariad cu.
 Neuadd Hedd yw'r anedd hon,
 Aruthrol, ryfeddol fan!
 Iddi miloedd, lluoedd llon,
 O bob rhyw, ac o bob rhan
 O'r ddaear, hawddgar ddeuant,
 Ac ynddi pob celfi cânt.
 Addysgant fyd i ddysgwyl
 Y daw gwech odidog wyl
 O ddedwyddwch, Heddwch hir,
 Yn baradwys wna'n brodir;
 Amlhau wna y deml hon
 Dda ddoniau Hedd i ddynion.

Try dynion y Trydaniaeth—yn gyson
 Negesydd Trafnidaeth;
 I'r byd y rho wybodaeth,
 Daw aden mellten â'i maeth!

Addysgir, a chodir chwaeth,
 O godi bri Dysgeidiaeth;
 Breingelfau'n ddiâu ddeuant—yn tichel,
 Ni nychir eu llwyddiant;
 Yn oes Hedd eu coledd cânt,
 Oes burach ar foes barant.

Ar lenau y darlunir
 Hyfrydwch, tegwch pob tir—
 Y graig fawr yn grog a fydd,
 Neu fanawg gribwyn fynydd;
 Y rhaiadrau mawr, hydrwyllt,
 Yn syrthlif o genllif gwyllt,
 A'u bwrlymawg, lamawg lif,
 Ar ddelw'r boreu ddylif;
 I un bau lluniau y llall
 Yrir, ac felly'r arall.

Y llymion gynion mewn gwaith—o fynor
 Wnant fanwl orchestwaith;
 Ac arfod i dêg gerfwaith
 Y celfydd a fydd yn faith.
 Y gof aur a gyfeiria
 Holl gais ei ddyfais ar dda;

Dygymod â bryd gemydd
 Yr oes hon yn fawr y sydd.
 Mwy gweddaidd, lluniaidd, a llon
 Y daw aneddau dynion;
 A phur allu Fferyllwaith
 Wna lesol, rinweddol waith;
 O beri mwy o buredd,
 Llai a syrth i byrth y bedd.

Troir picellau yn bladuriau,
 Offerynau a pheirianwaith;
 Tawdd y celfau y magnelau
 I wiw ddarnau o addurnwaith;
 Y cofddelwau am ymladdau,
 Hwyl yn rhesau ni arosant;
 Ond, fel tyrau'r canol oesau,
 I adfeiliau o hyd falant.

Yn ddiau toir y ddaear—heb oedi,
 A Gwybodaeth hawddgar;
 Pob un a'i gofyn i'w gâr
 Heb addysg ni bydd *byddar*.
 Y *dall* i ddeall a ddaw,
 E ddeil addysg â'i ddwyllaw!
 Ni ymedy un *mudan*
 A byd mwy, heb wybod man
 Y câ'r truan *fudan* fod,
 Er doddi mawl i'r Duwdod;
 Gwybod a gaiff fod gobaith
 Yn y Nef am gyflawn iaith,
 A llais mwyn, er lleisio mawl
 I'r Iesu, Brynwr grasawl,
 A roddai gynt beraidd gân
 Iôn mâd yn ngenau *mudan*!

Hwn fydd tymor Llenoriaeth,
 Derbynia, myna bob maeth;
 Teilwng fydd yn mhob talaeth—odidog
 Urdd enwog Barddoniaeth.

Arweinir yr Awenau,—o ddilyn
 Eiddilaidd destynau;
 Un adroddiad, geiriad gau,
 Ni sieryd eu mesurau.

Am fawredd y myfyriant—ar nifer
 Llu'r nefoedd y tremiant;
 Eu pigion acenion cânt
 O geinion mawl Gogoniant.

Rhwydd i Dduw rhydd y ddaear—ei hoffirwm

Yn effro a chynar;
A'r Duw byw o'i gariad bâr
Hedd ddigon yn rhodd hygar.

O'r uchelder daw Cyfiawnder,
A llaw dyner yn lledaenu
Ei fendithion yn mysg dynion,
Oerion gwynion droir yn ganu.
Mewn gogoniant y Milfwyddiant
A wir ddeuant ar y ddaear;
Gwelir rhinwedd a duwioledd
Yn eu hagwedd oll yn hygar.

Lle bu aflan gelanedd,
Yno y rhoir Baner HEDD
I chwifio mewn uchafiaeth,
Am yr hynod ddiwrnod ddaeth,
A'i lawn dês, i loni dyn,
Ail gwenau haul y Gwanwyn,—
Am drechu, gyru dan gël,
A rhifo dyddiau RHYFEL!

Brysied, O deued y dydd
I ddodi DYN yn ddedwydd!
Pan na bydd yn poeni byd
Ei anferth ddrygau ynfyd,
Na golwg ar un gelyn
Yn nhalaeth brawdoliaeth Dyn!

Wedi adfyd byd a bedd,—yn Salem,
Preswylfa Tangnefedd,
Y deuom yn y diwedd,
I fwynhau o AFON HEDD.

DOETHINEB DUW.

TESTUN YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL TREMADOC YN 1851.
NIFER YR YMGEISWYR 14. BUDDUGWR, MR. T. PARRY,
LLANERCHYMEDD.

CANIAD I.—Elfenau Doethineb Duw.
CANIAD II.—Amlygiadau Doethineb
Duw yn y Cread.
1 Gallu a Deall; y Cyfnod Hunan-
fodol.
2 Crëadigaeth Defnydd.
3 Crëadigaeth Bodau Rhesymol.

CANIAD III.—Doethineb Duw mewn
Rheolaeth.
1 Llywodraeth Foesol.
2 Rheolaeth Anianol.
CANIAD IV.—Doethineb Duw mewn
Pryredigaeth.
1 Cyfryngwriaeth Crist.
2 Gweinidogaeth Iachawdwriaeth.

CANIAD I.

ELFENAU DOETHINEB DUW.

O GREAWDWR Nef y nefoedd, Awdwr bydoedd maith, dirif,
Sydd yn troi o gylch dy orsedd â chyflymder mwy na'r llif!
O cyffyrdda fy ngwefusau â dy gysegredig dân,
Marwor o allorau 'r Nefoedd rho i ysbrydoli 'm cân.

Edrych o'r uchelder golau, sydd yn danbaid gan dy wedd;
Tafla arnaf o'r wybrenau olwg o garuaidd hedd;
Gad i'm henaid syllu arnat hyd eithafoedd gallu dyn,
Nes y llanwer fy myfyrdod â dy ddelw bur dy hun.

Tremia di rhwng myrdd o heuliau ar greadur ar y llawr,
Sydd yn meddwl am ddarlunio dy Ddoethineb pur yn awr;
Symud ymaith y cymylau duon a'm hattaliant i
I fawrygu mewn rhyfeddod anlygiadau 'th Dduwdod di.

Milfil o blanedau gloewon yn yr eangderau maith,
Milfil mwy o sêr goleuon, a gynelir ar eu taith;
Gair dy nerth sydd yn eu cynnal yn nhroadau eang nen,
Sydd gerbron dy ddwyfol wyneb yn daenedig megys llen.

Ond er hwylio myrdd o fydoedd â chyflymder mwy na'r chwâ,
Teimlo wna dy galon dyner megys Tad trugarog, da,
Dros y rhai sydd yn dymuno dy adnabod fel eu Duw,
A disgyni o'r uchelder atynt, megys Ysbryd byw.

Ti ddyddani eu calonau â thangnefedd nefol, pur,
Drydd yn gân eu galarnadau, ac yn wynfyd wna eu cur;
Tyni 'r cèn oddiar eu llygaid, megys yn y dyddiau gynt,
Pan y byddai dyn yn canfod Duwdod ar ddaearol hynt.

Edrych heibio y Seraphiaid sy 'n ymgrymu ger dy fron,
Taf! dy olwg dros Gerubiaid hyd ddyfnderau 'r ddaear hon;
A thra fyddo dirif fydoedd yn dyrchafu cân dy fawl,
Rho i minau nerth i'w dilyn, er yn mhell o fydoedd Gwawl.

Mynwn ganu dy Ddoethineb—priodoledd uchel yw,
Priodoledd anheggorol yn yr un anfeidrol Dduw,—
Priodoledd nad wyr dynion nemawr am ei nodwedd hi,
Er mai o'i ffynnonau bywiol llifa 'n hiachawdwriaeth ni.

Lleni o oleuni tanbaid sydd yn cuddio'th hanfod pur,
Fel nas gallwn dremio trwyddynt, mwy na thrwy wybrenydd dur;
Ond dangosa dy weithredoedd ddyfnder dy Ddoethineb mawr
Yn gerfiedig mewn llyth'renau tecach na phelydrau 'r wawr.

Anhawdd i gyneddfau dynol, i lygredig serch a bryd,
Geisio rhoddi un darluniad o Ddoethineb Crëwr byd;
DEALL ydyw, i gynllunio dwyfol ac aruthrol waith,
GALLU yw, i greu a gosod Creadigaeth ar ei thaith.

Ni wna DEALL, heb y Gallu, greu na chynal dim mewn bod,
 Ni wna GALLU, heb y Deall, ffurfio 'r ogoneddus rôd;
Darlun a fuasai DEALL, prydferth, megys ef ei hun,
Carnedd a ffurfiasai GALLU, anferth faint, ac erch ei llun.

DEALL ydyw, i amgyffred hunanymddibyniad IOR,
 GALLU yw, i alw allan o ddiddynder ddirif gôr
 O ysbrydion gogoneddus, ac o fydoedd hardd eu gwedd,
 Ac i'w gosod, fel orielau i amgylchu 'r ddwyfol Sedd.

DEALL ydyw, i ystyried hanfod angel pur ei wedd,
 GALLU yw, o ddim i'w osod mewn mwyñhâd o fythol hedd;
 DEALL ydyw, i gynllunio hanfod gymysgedig dyn,
 GALLU ydyw, pan yn uno hon â'i hanfod ef ei hun.

DEALL ydoedd, pan yn trefnu cylchoedd anfesurrol nèn,
 GALLU ydoedd, pan yn taenu cyrau 'r annherfynol len;
 DEALL ydoedd, pan yn llunio gorsaf myrdd o heuliau byw,
 GALLU oedd, yn creu eu defnydd gyda gair o enau Duw.

DEALL ydoedd, pan yn ffurfio holl amodau byw a bôd,
 GALLU, pan yn dwyn y cyfan i weithredu er ei glod;
 DEALL oedd y llygad treiddiol chwiliodd dragwyddoldeb pell,
 GALLU weithiai gynghor allan o bob dofn ddirgelaidd gell.

DEALL perffaith i gynllunio, GALLU 'n gweithio 'r cwbl i ben,
 Ydyw eithaf ein hamgyffred am Ddoethineb Ior y Nèn;
 Mwy nid allwn, dim ond edrych ar ei weithrediadau ef,
 Sydd yn tarddu fry o'r ddaear, ac yn edrych lawr o'r Nef.

Tremio ar ei holl arwyddion byth ni ddichon marwol ddyn,
 Hyn fydd annherfynol orchwyl Tragwyddoldeb maith ei hun;
 Hyn yw gorchwyl yr Angylion cedyrn yn y Nefoedd fry,
 Ac nid ydynt hwy ond dechreu darllen ei brofiadau cu.

Hyn yw gorchwyl y cyfiawnion, fu yn oesau borau 'r byd,
 Rhai o'i egwyddorion cyntaf sydd yn dechreu llanw 'u bryd;
 Cyfrol faith y rhyfeddodau chwiliant hwy yr enyd hon,
 Sydd hyd yma yn seliedig rhag preswylwyr daear gron.

Nid oes genym ni ond syllu ar y byd o'n hamgylch sydd,
 Troi ein golwg fry i'r nefoedd, darllen hono nos a dydd;
 Darllen yn y Greadigaeth fawredd yr anfeidrol NERTH
 Sydd ar DDEALL i gynllunio wedi gosod bythol werth.

Gallwn hefyd wel'd ei nodau yn Rhagluniaeth rasol Duw,
 Yn y gofal sydd yn cadw milfil o hanfodau byw;
 Ef sy'n taenu eu harlwyfaeth, cânt eu lluniaeth ganddo Ef,
 Cyrhaedd y bywiolyn lleiaf glustiau'r Iôr â'i egwan lef.

Geiriau Moses a'r proffwydi hefyd sydd yn eiddom ni,
 Gair eglurach proffwydoliaeth draethodd Iesu gyda bri;
 Ac Efengyl bur y Deyrnas, ydynt oll yn wersi llawn
 Ar Ddoethineb y Jehofah, os darllenwn hwynt yn iawn.

Gyda'r testyn-lyfrau yma, dan arweiniad Ysbryd Duw,
Ceisiwn gyrhaedd hyd y terfyn eithaf, lle y gall y byw
Edrych ar y Bôd anfeidrol, a darlunio yn ei gân,
Rai o ddirif weithrediadau rhyfedd ei Ddoethineb glân.

Syllwn ar y dwyfol ALLU sydd yn un â DEALL DUW,
Yna tremiwn ar REOLAETH uniawn pob creadur byw;
A diweddw'n yn y CARIAD sydd yn codi euog ddyn
O ddyfnderoedd ei drueni, gan ei wneud â Duw yn un.

CANIAD II.

AMLYGIADAU DOETHINEB DUW YN Y CREAD.

1. GALLU A' DEALL.—Y CYFNOD HUNANFODOL.

Ofnadwy Dragwyddoldeb! mor dywyll ydwyt ti!
Fel dudew leni'r Fagddu ymddangos wna'i i ni!
O ysbaid diddechreuad, ti sefi ger ein bron,
Ac nid oes dyn a'th ddirnad drwy gyrau'r ddaear hon!

Ofnadwy Dragwyddoldeb!—yr olwg arnat sydd
Mor erch, nes yw yn peri bod nos ar haner dydd;
Drychiolaeth annheimladwy wyt yn ein golwg ni,
Annichon yw dy ddeall, na chyffwrdd bÿs â thi!

Ofnadwy Dragwyddoldeb!—diddechreu, megys Duw,
Diddiwedd, megys yntau, ac oes y Duwdod yw!
O ysbryd dychrynadwy! O bresenoldeb dwys,
I'r llawr sy'n llethu'r enaid yn hollol gan dy bwys!

Gall dynion bwyso'r ddaear, a'i holl ronynau mân,
A mesur cylch y blaned, ar hyd ei llwybrau tân;
Ond pwysu Tragwyddoldeb sydd waith nad allant hwy,
A thraethu rhif ei oesau, sydd yn anhawsder mwy.

Ofnadwy Dragwyddoldeb!—tydi yw cartref Iôr,
Yn ei gylchynu'r ydwyt, fel annherfynol fôr;
Dynesu at y Duwdod nid ellir genyt ti,
Wyt megys amddiffynfa o gylch y Dwyfol Dri.

Ofnadwy Dragwyddoldeb!—dy feithder sydd dan gél,
Nid olrhain neb dy achau, nid egyr neb dy sêl;
Ni ddeall neb dy hanes, blaenoraist ar bob byw,
Nid oes all dy amgyffred ond y Tragwyddol Ddu w.

Ni threiddia llygad Seraph i dy bellafoedd maith,
Na grymus edyn Cerub, pan ar ei bellaf daith;
Hyd adeg dy ddechreuad Archangel byth ni ddaw,
A'r meddwl am dy chwilio i engyl fyddai'n fraw.

Amgylchaist ti yr orsedd, tydi oedd iddi'n llen,
Pan y myfyriai'r Duwdod gynlluniau dae'r a nen;
Fel cwmwl tew o'i hamgylch yr oeddit ti o hyd,
Am oesau cyn i'r Duwdod sylfaenu'r cyntaf fyd.

Tydi a'th frawd EANGDER oedd dystion iddo ef,
 Pryd nad oedd ond ei hunan i'r Dwyfol Fôd yn Nef,
 Cyn iddo greu goleuni, na llunio heuliau un,
 Pan ydoedd yn ymloni yn ei oleuni 'i hun.

Y Duwdod oedd y Nefoedd, a'r Nefoedd ydoedd Duw,
 Holl fwyniant y Jehofah, fel dysglaer ffynon fyw,
 Oedd ynddo ef ei hunan, ac ynddo ef yn llawn,
 A'r dwyfol ymhyfrydiad oedd ogoneddus iawn.

Yn Fôd heb deimlo gwendid, ond hollalluog rym,
 Nis gallai ofni gelyn na gwrthwynebydd llym;
 Yn meddu pob gwybodaeth, hyd y manylaf nôd,
 Un gwrthdrysych dirgeledig ni allai rhagddo fod.

Yn llawn digymysg burdeb yr oedd ei fynwes ef,
 Yn meddu pobpeth rheidiol i gyfansoddi Nef,
 Mewn gallu annherfynol, doethineb pur, didrai,
 Ac ysbryd llawn o gariad, erioed heb deimlo bai.

Rhaid ydoedd fod y teimlad yn annherfynol wledd,
 Fel llifiad afon rymus, ddibaid, o ffrydiau hedd;
 Goleuni glwys, digwmwl, yn llawn pelydrau byw,
 Tragwyddol, anfachludol oedd Nefoedd mynwes Duw.

Ond yn y Nefoedd yma, heb ynddi wae na chur,
 Y ffurfiodd y Jehofah ei holl fwriadau pur,
 I estyn ei ddedwyddwch i afrifadwy lu,
Os nad rhyw ran o'i hanfod yw'r fath amcanion eu.

Doethineb digyfeiliorn a luniai'r cynllun mawr,
 Cyn ffurfio lle na defnydd, cyn geni boreu wawr,
 Ei ranau anfesuro, oll yn anfeidrol ddoeth,
 Ger manwl lygad Duwdod yn eglur oedd a noeth.

Er ini wneud ymbiliad am gymhorth Iôr i'n gwaith,
 Rhaid yw dysgrifio Mawredd trwy gyfrwng dynol iaith;
 Er nad yw yn feddiannol ar wyneb, braich, na llaw,
 Ein syniad ni am dano trwy eiriau felly ddaw.

Nid all ein marwol lygaid adnabod Ysbryd byw,
 Nid all un meddwl meidrol amgyffred hanfod Duw;
 Trwy gymhorth iaith ddaearol rhaid ei ddarlunio Ef,
 Yr hwn sydd uwch amgyffred ysbrydion doeth y Nef.

O'i hunanddigonoldeb cynlluniodd Natur Fawr,
 A'r briod awr i osod ei seiliau hi i lawr;
 Edrychodd ar bob gronyn trwy'r greadigaeth oll,
 A myrddiwn ranau'r gronyn gynlluniodd ef heb goll,

Holl feusydd Creadigaeth orweddent ger ei fron,
 Fel yn ei heiliad gyntaf,—fel yn yr eiliad hon,
 Fel trwy bob cyfnewidiad allasai arnynt fod,
 Deallai bob dygwyddiad i'w cwrdd allasai dd'od.

Mesurodd eu pellderau, ac "uchder llwch" y byd,
Cynllunio wnaeth ei hunan eu holl agweddau i gyd;
Y pellaf fyd o'i orsedd oedd, fel y nesaf un,
Yn berffaith adnabyddus mewn defnydd, maint, a llun.

O fawredd y Doethineb a luniai'r oll o ddim,
Ac a gynlluniai'r cyfan yn gynt na'r fellten chwim!
Holl oesoedd y Bydysawd oedd anferth ddarlun byw,
Yr eiliad gyntaf ffurfiwyd y cynllun mawr gan Dduw.

Nid oedd un cynllun gwreiddiol i'w ddilyn ganddo ef,
Yn yr iselder dyfnaf, nac yn uchelder Nef;
Efe ei hun oedd Awdwr pob llinell a phob lliw,
Sy'n llanw â prydfferthwch y Grëadigaeth wiw.

A'r cwbl oedd amcanedig i ryw ddybenion doeth,
All fod i ni'n dywyllwch, ond sydd i Dduw yn noeth;
Pob peth o fewn y bydoedd yn dyst sydd ynddo'i hun,
Ei fod yn ateb dyben yr Anweledig Ün.

Pob gwrthddrych a ganfyddwn yn effaith *bwriad* sydd,
A dysgu mae y *bwriad* fod rhyw *FWRIADWR* cudd;
Oblegid nis gall cynllun byth heb gynlluniwr fod,
O *ddim*, mae'n eithaf amlwg, na ddichon *bwriad* dd'od.

Mae'r myrddiwn o wrthddrychau ganfyddwn ar bob llaw,
Yn ateb oll mor berffaith, nes enyn santaidd fraw
Wrth gofio y Doethineb a'u lluniodd oll i'w gwaith,
O uchelderau'r nefoedd hyd ddyfnder moroedd maith.

O ddirgel Dragwyddoldeb!—trwy'th dduon leni di,
Mae bellach ar ymdori oleuni pur i ni;
Mae cynllun doeth y Duwdod yn gyflawn yn mhob rhan,
A'r cyfan mewn gweithrediad ganfyddwn yn y man.

2 CREADIGAETH DEFNYDD.

Yr adeg osodedig ddaeth, i greu gwrthddrychau lu,
I wneud o Ddefnydd fydoedd maith, trwy'r holl eangder fry;
Daeth enyd gosod seiliau llawr Teml Defnydd fawr i gyd,
Ac i fodolaeth galwai Iôr oleuni clae ei bryd.

Fel bywiol ffrwd y tarddai ef,
Y cyntaf o weithredoedd Nef;
A thragwyddoldeb ger ei fron
Gusanai ei belydrau llon.

Nid ydoedd, trwy'r eangder oll, ond gwagle yn mhob man,
Ac nid oedd Defnydd yn ei gylch yn un o'i ffurfiau gwan;
Ond yna safai Ysbryd Iôr uwch yr aruthrol ddim,
A chyda'i "Fydded" Defnydd ddaeth i gyflawn fod yn chwim.

Digymhar nerth y dwyfol Air
Wnaeth yr eangder megys pair,
Yn gynhwrf dirfawr drwyddo i gyd;
Pob cynhwrf oedd yn geni byd.

Ymgodai Defnydd ar bob llaw, wrth arch y Dwyfol Bôr,
 I ateb i'r gwasanaeth oedd drefnedig gan yr Iôr;
 Y llanerch lle na thrigai dim un eiliad fêr o'r blaen,
 Yn awr yn gyfaneddle sydd i fydoedd fyrdd ar daen.
 Holl ferw yr elfenau llaith,
 Sydd i'w haddasu hwy i'w gwaith,
 A'u trefnu oll i lanw'u lle,
 Yn gymhwys yn nghynlluniau'r Ne'.

Am ffurfiad cyntaf Defnydd, nid yw hawdd i'n deall ni
 Amgyffred fel ei lluniwyd gan y doeth anfeidrol Dri:
 Feallai mai rhyw deneu nwy, ail gynyrch gwres a dwr,
 A ffurfid gan y cyflam air, fel taran groch ei stwr;
 A'r nwy fel hyn yr Iôr a wnaeth,
 Yn ddefnydd Creadigaeth ddaeth,
 Oblegid Iôr un pryd ni chaid
 Yn gwneuthur gwyrthiau heb eu rhaid.

Os gallwn ymresymu'n deg oddiwrth y ddaear gron,
 A ffurfio barn am fydoedd nef trwy gyfansoddiad hon,
 Ni allwn gasglu iddynt fod gynt yn hylifol dân,
 Pryd nad oedd yn ffurfiedig un o'i holl ronynau mân:
 A'u trôad yn y cyflwr hwn
 A wnaeth eu ffurf yn hir-gylch crwn,
 O'r fath yn awr yw ffurf y byd,
 A'r holl wybrenol lu i gyd.

Mae'r llosgfal, a'r ufelwy poeth, yn dystion hyd yn awr,
 Fod moroedd o hylifol dân yn mynwes ddofn y llawr;
 A phrofi mae Daeareg fod holl grystyn tew y byd
 Yn dangos nodau amlwg tân braidd trwy ei gorff i gyd.
 A thebyg mai pelydriad gwres
 A wnant ei haenau, res ar res;
 A phob rhyw adnewyddol haen
 A'i gwnei yn dewach nag o'r blaen.

Gwnaed ager poeth y tanllyd llyn, pan yr ymgodai'n darth,
 Cymylau drwy yr wybren fry a ffurfiodd yn mhob parth;
 A'r rhai'n, wrth wlawio ar y llawr, ffurfiasant lynau llawn,
 A'r llynau yn mhen oesoedd hir yn ddwfn eigionau cawn;
 Er ffurfio gwely'r eang aig,
 Y dyfroedd treulio wnaent y graig;
 A'r tanllyd nwy yn nghellau'r llawr,
 A ymgynhyrfai, megys cawr,

Nes plygu'r crystyn oedd o'i gylch, yn bant neu ynte'n fryn,
 Gan chwydu drwyddo ambell dro ei hylif poeth yn llyn;
 Os hyn oedd cyflwr Defnydd gynt, pan greai Duw un byd,
 Tebygol mai fel hyn y bu trwy fydoedd Iôr i gyd.

A phwy ond yr Anfeidrol ddoeth
Wnai fydoedd o'r fath hylif poeth,
Gan eu cymhwysu hwy bob un
Yn drigle engyl gwiw neu ddyn?

O radd i radd y cyfan ddaeth o dan drefniadau gwell,
Ymgadwai'r tân yn fwy o fewn ei dan-ddaearyl gell;
Y môr yn fwy sefydlog ddaeth rhwng dorau tywod mân,
Cymylau raddol oerent wres yr holl awyrgylch lân,
Nes gallai llysiau teg eu pryd
Ymddangos trwy arwyneb byd,
Er eu darparu'n drigfan gu
Ar gyfer anifeiliaid lu.

Os chwilio wnawn y creigiau cudd,
Sy'n mhell o gyrhaedd goleu dydd,
Cawn yn eu mynwes brofion lu,
Am ddirif oesau gynt a fu,
Yn tyfu llysiau, drwy y byd,
Sydd wedi trengu oll yn nghyd.
Y coedydd tâl, fu'n chwyfio gynt
O flaen awelon araf wynt,
A gladdwyd yn nyfnderau'r llawr,
Er ffurfio un ystordy mawr
O danwydd, pan y deuai dyn
I drigo yn ei fyd ei hun.
Y gwellt a'r llysiau, gyda'r coed,
Yn lo mewn oesau felly droed;
Mor fawr oedd y Doethineb cu
Yn rhagofalu felly fu!

Bu creaduriaid aml eu rhyw,
Am feithion oesoedd ynddo'n byw,
Rhai nad oes un o'u hil yn awr
I'w ganfod drwy y ddaear fawr.
Rhyw ar ol rhyw fu gynt yn bod,
Nes dyfod eu terfynol nôd;
Pob rhyw i ateb hinsawdd ddaeth,
A chyda'i hinsawdd darfod wnaeth.
Oes-gylchoedd meithion iddynt fu,
Ac annifeiriol oedd eu llu;
A phan suddasant is yr aig,
Eu ffurfiau yno droed yn graig,
Er dangos i holl oesoedd byd
Y gofal a arferwyd c'yd
I ddarpar cartref iawn i ddyn,
Fel cynrychiolydd Iôr ei hun!

Y graig a ddengys ger ein bron
Chwe' rhyw fu ar y ddaear hon,

Am oesoedd maith cyn cread dyn,
 O'r rhywiau hyn nid ydoedd un
 I'w gael yn cydfyw yr un pryd;
 Pob un a ddaeth, ac aeth i gyd,
 Cyn i rywogaeth arall dd'od,
 I deimlo swyn a mwynder bôd.
 Pob rhyw heb berthyn oedd i'r llall,
 A phan ddaeth ar y cyntaf ball,
 Yr ail a grëwyd gan y Duw
 Ddeallai holl amodau byw,
 Ac oedd yn graddol ddwyn ei waith
 Yn mlaen drwy'r Grëadigaeth faith,—
 Y Duw a ddygai fyd o dân
 Yn drigle prydferth llysiâu glân,
 Nes iddo 'i raddol weithio ef
 Yn drigle i Etifedd Nef!
 Yn mhob newidiad gwelai fod
 Y cwbl yn gweithio er ei glod,
 Fel pan y daeth, mewn hin a llun,
 I fod yn addas breswyl dyn,
 Yn uchel llawenychai'r Nef
 Yn "nghyfaneddle'i ddaear ef."

3. CREADIGAETH BODAU RHESYMOL.

Ar ol i'r Crëwr Dwyfol adeilio temlau'r Nef,
 Yn unol â dadblygiad ei ddoeth gynlluniad ef,
 Fe grëodd yr ysbrydion yn santaidd, ddedwydd lu,
 I lanw dysglaer fydoedd yr eangderau fry.

Mor ryfedd y Doethineb, mor rasol yw y gwaith!
 Ni chrëodd un creadur o flaen ei le na'i waith:
 Cymerodd oesoedd meithion i ddarpar iddynt le,
 Pryd nad oedd ond ei hunan yn llanw cylch y Ne'.

Ni alwodd i'w wasanaeth un seraph pur, cyn bod
 Priodol drigfan iddo, atebai ddeddfau'i fôd;
 Ni chrëodd yr angylion yn wasanaethgar lu,
 Nes bod yn barod iddynt drigfanau Nefoedd fry.

Ac yna pan ddarparodd y cyfan yn eu lle,
 A myrddiwn o angylion y llanwodd lysoedd Ne';
 Cyn hyny wrth ei orsedd erioed ni phlygodd un,
 Ac un ni chawsai blygu heb fod, fel ef ei hun,—

Yn ddedwydd yn ei drigfan, yn ddedwydd yn ei waith,
 Yn ddedwydd yn ei deimlad, yn ddedwydd yn ei iaith;
 Heb y dedwyddwch yma, byth nid allasai ef
 Ei hunan fod yn ddedwydd yn nghanol lluoedd Nef.

Ond trigle yr angylion yn barod iddynt oedd,
 Fel myrddiwn o orielau, pan alwai dwyfol floedd

I fywyd "Sêr y boreu," nes oedd eu lleisiau llon
Yn dyblu pur ddedwyddwch y ddedwydd Nefoedd hon.

Darlunio natur angel annichonadwy yw,
Nis gwyddom gudd elfenau hanfodol ysbryd byw;
Amodau ei fodolaeth i ni yn dywyll sydd,
Er fod y cwbl yn amlwg yn ngoleu nefol ddydd.

Ond gwyddom fod angylion yn "gedyrn" iawn "o nerth,"
Mai mwy yw grym eu cryfder na'r holl daranau certh;
Cyflymach gallant deithio na'r cyflym fellt uwchben,
Pan 'hedant yn genadon i'r Iôr o Nen i Nen.

Caredig a charadwy yw angel têt ei bryd,
Ni wyddom faint ei hoffder at deulu marwol fyd;
Gynt yn ymdeithio yma, ar lawer neges gu,
Gan wisgo delw ddynol i guddio 'i natur, bu.

Ac wedi creu angylion, y creai'r Duwdod ddyn,
Yn fôd rhyfedda'r bydoedd, ac "ar ei ddelw 'i hun;"
Cyfunwyd ynddo ysbryd a marwol lwch y llawr,
Nes oedd yr orchest benaf grëasai'r Duwdod mawr.

Rh'odd ysbryd bywiol ynddo, o'i natur Ef ei hun,
A phob priodol gynneddf i gymysg hanfod dyn;
Gosododd fôd anfarwol ar dir marwoldeb prudd,
A llunio wnaeth y marwol i weled bythol ddydd.

Rhyfeddol ac ofnadwy oedd Adda yn yr ardd,
Ac eto mae dynoliaeth yn dra ofnadwy hardd;
Ofnadwy y cywreindeb fu'n ffurfio llygad dyn,
Ni wel y llygad hwnw ryfeddach bôd na'i hun.

Holl yrfa dyn sy'n profi Doethineb ryfedd Duw,
O'i anadliadau cyntaf nes iddo beidio byw;
Cyflëad y synwyrâu yn gyfleusderau llawn,
A'u manwl weithrediadau, sydd yn rhyfeddol iawn.

Os egwan un o honynt, grymusach yw y llall,
Cynyddant yn eu cryfder, os un a deimla ball;
Os tywyll fydd y llygad, y dall sydd i ni 'n dyst,
Mor gywrain fydd y bysedd, mor dyner fydd y glust!

Neu, os y glust fydd drymlyd, y llygad fydd yn llym,
Os gwan fydd un o'r breichiau, y llall fedd amgen rym;
Os bydd y coesau'n ddiffrwyth, y breichiau fyddant gryf,
A mynych bydd yr egwan yn llawn o ysbryd hyf.

Mae'r gïau oll yn gymhwys, pob cyhyr yn ei waith,
A'r cyfan yn darparu i'r teimlad bleser maith;
Ond mwy yw rhyfeddodau yr enaid ynddo sydd,
Er fod yr enaid hwnw i ddyn ei hun yn gudd.

Mae ynddo bob cymhwysder i drin helyntion byd,
A phethau'r Nefoedd uchod oll gynwys yn ei fryd;
Mae'n arglwydd ar y ddaear, mae yn etifedd Nef,
A all y bydoedd ddangos rhyfeddach bôd nag ef?

Doethineb pur y Nefoedd a'i lluniodd fel y mae,
Yn gymhwys lestr i wynfyd, neu i ddyfnderoedd gwae;
Llwyr ddilyn deddfau 'i Grêwr a'i dwg i'r Nefoedd lân,
Ond dilyn drwg a'i sudda i ddyfnder Uffern dân.

CANIAD III.

DOETHINEB DUW MEWN RHEOLAETH.

1. LLYWODRAETH FOESOL.

Rheolaeth teyrnas Anian sydd oll yn effaith deddf,
Ac felly y bywiolion o reswm hyd yn reddf;
I lywio rhesymolion llywodraeth foesol sydd,
O'r uchaf fôd i'r ellyll sy'n eigion Uffern gudd.

Pan grëodd Duw ysbrydion, ei ddeddf ro'dd iddynt hwy,
Fel gallent, wrth ei dilyn, gael profi gwynfyd mwy;
Y ddeddf gynyddai heddwch, fel afon gref ei llif,
A firwythau pêr tangnefedd fuasent yn ddirif.

Ond rhaid yw gadael ysbryd at ei ddewisiad rhydd,
Heb hyn llywodraeth foesol analluadwy sydd;
Un gronyn o foesoldeb nid oes mewn gweithred gaeth,
A'r lôr ei ddeiliaid moesol â rhydd ewyllys wnaeth.

Gwir yw fod hyn yn gwneuthur ffordd rydd i ddrwg a bai,
Ond nid yw hyn yn dangos Doethineb Duw yn llai;
Pe gwnaethid yr angylion, a dynion gyda hwy,
Yn debyg i beirianau, a ddaethai urddas mwy—

I Enw mawr y Duwdod, am gadw allan fai,
Wrth lywodraethu bodau y rhai nad allent lai
Na dilyn ei orchymyn, heb ddewis dim o hyn,
Ond myned trwy y cwbl yn ail i ddelwau sŷn?

Gallasai Nefoedd felly yn dalaeth unffurf fod,
Heb neb o'i mewn yn haeddu na meddu unrhyw glod;
Heb neb yn teimlo'r mwyniant o *ddewis* gwneuthur da,
Ond pawb yn rhodio'r llwybrau eu tynged ganiatâ.

Creu bodau rhydd i bechu oedd doeth gynlluniad Duw,
Yn mhlith y llu angylaid, fel gyda dynol ryw;
A llywio'r bodau yma, yn ol bwriadau'r Nef,
Sydd un o'r profion cryfaf o'i fawr Ddoethineb ef.

Diboen i ddeddfau tynged fuasai llywio byd,
Ond gorchest i Ddoethineb oedd llywio serch a bryd
Aneirif lu o fodau, am oesau rif y dail,
A gosod eu llywodraeth ar ansigledig sail.

Pob tyb yn meddwl angel, pob tyb yn meddwl dyn,
Drwy oesodd eu bodolaeth, ganfyddodd Iôr ei hun;
A'i gynllun sy'n cyfarfod â'r oll *allasai* fod,
Yn gystal a'r holl bethau sydd byth i ben yn d'od.

O'r Anfeidroldeb hwnw, ddeallai 'n berffaith iawn
Holl weithrediadau meddwl, drwy dragwyddoldeb llawn!
O'r Llygad dwyfol graffus a dremia ar bob bryd,
Nes deall ei ddirgeloedd, a'u dirnad oll yn nghyd!

Fel hyn rheola'r Duwdod holl luoedd Nef y Nef,
Ac felly lluoedd daear sydd dan ei reol ef,
A'r llengoedd o ysbrydion sydd yn y Fagddu fawr,
Am iddynt wrthryfela, a dilyn "Mab y Wawr."

A dangos mae Rhagluniaeth fwy o Ddoethineb Duw,
Trwy'r gofal a gymera am borthi pob peth byw;
Nis gall aderyn syrthio, er lleied f'o, i'r llawr,
Heb sylw ar ei godwm gan y Jehofah mawr.

Mae holl elfenau Anian yn cydweinyddu llês,
Cydbblethwyd eu gweithrediad mewn gwynt, a gwlaw, a thês;
Ni lefa'r pryfyn lleiaf yn ofer ar y Nef,
A gwanaf gri'r abwydyn wrandewir ganddo ef.

O caned yr angylion am dêg Reolaeth Duw,
O caned Nef y Nefoedd oll mewn anthemau byw!
O caned teulu Adda am ddoeth Ragluniaeth Iôr!
O caned y taranau, a chaned tônau'r môr!

O caned y rhaiadrau oll yn eu cryglyd lais!
A chaned coed y meusydd am reol bur, ddidrais,
Sydd yn dedwyddu engyl—sydd yn dyrchafu dyn,
A'r cyfan yn anrhydedd i'r Dwyfol Iôr ei hun!

2. RHEOLAETH ANIANOL.

Mae holl reolaeth Anian yn profi doethder Duw,
Y dull mae creaduriaid yn derbyn bôd, a byw;
Y modd mae'r byd anianol o dan lywodraeth deddf,
A'i greaduriaid bywiol i gyd yn ddeiliaid greddf.

Mor fanwl yw'r trefniadau a ffurfiodd deall Iôr,
Fel nad yw'r dernyn lleiaf ar dir neu ddyfnder môr,
Heb iawn gyflawni'r dyben a fwriadasai Duw,
A'r dyben hwnw ydyw dedwyddwch dynolryw!

Un achos ar ol achos sydd yn cynyrchu'r llall,
Heb unpeth drwy y bydoedd yn effaith damwain ddall;
O achos ar ol achos eir at y cyntaf un,
Ac Achos yr achosion yw'r Duwdod mawr ei hun.

Mae cadwen hir bodolaeth yn llawn dolenau mân,
Oddiwrth y pryfyn lleiaf i'r angel ucha'i gân;

Pob dolen sydd wrth ddolen yn cynwys bôd a byw
 Sy'n glynu wrth y gyntaf, a'r gyntaf ydyw Duw.

Pe na buasai 'r ddaear i'w chael fel mae yn awr,
 Ni chawsid dynion ynnddi yn unman ar y llawr;
 Rhaid oedd i anifeiliaid, a llysiau, ddirif lu,
 O'u blaen fod yn hanfodi, ac felly 'n gymhwys bu.

Rhaid oedd i'r anifeiliaid gael llysiau er eu maeth,
 Ac i'r llysieuyn eilwaith o'r pridd ei ymborth daeth;
 A'r pridd o greigiau ffurfiwyd, yn eu maluriad rhydd,
 A'r awyr-gylch yn peri eu maluriadau sydd.

Yn ol y deddfau yma y tardd llysieuath byd,
 Y galed graig a wisgir yn bridd rhywiocaf bryd;
 A dyn sydd ar y cyfan yn pwyso am ei fôd,
 Yn ol y dwyfol drefniad sydd yn rheoli 'r rhôd.

Pan siglai 'r corwynt nerthol gyntefig seiliau 'r llawr,
 A'r ddaear-gryn aruthrol yn rhwygo 'r mynydd mawr,
 Fel hyny gyrai 'r Duwdod yn nes i gyrhaedd dyn
 Drysorau mewdol daear, mor werthfawr sydd bob un.

Pe heb y cynhyrfiadau o'r fath ryw oesoedd fu,
 Y cwbl fuasai 'n aros yn nghelloedd daear ddu,
 Fillediroedd ar fillediroedd goris ei lygad ef,
 Fel nad allasai gyrhaedd at ddarpariadau 'r Nef.

Ystormydd felly hefyd ffurfiasant bant a bryn,
 Yn dangos pwys dylanwad y darpariadau hyn;
 Pe 'r byd fuasai 'n wastad, buasai 'n llawn o darth,
 Fuasai yn angeuol i ddynion yn mhob parth.

Ni welsid yr afonydd yn llifo, fel yn awr,
 A'r maethlon wlaw nid all'sai ddefnyddu ar y llawr;
 Ni chlywsid y llifeiriaint yn curo'u dwylaw 'n llon,
 Pe un gwastadedd anferth fuasai 'r ddaear hon.

Y llosgfal, bair dychrynlyd, sydd yn arswydo dyn,
 Sydd un o'r doethion ddeddfau a'i llesant ef ei hun;
 Hwn sydd yn cadw 'r ddaear rhag dirgryniadau llym
 Y tanllyd foroedd mewdol sydd ynnddi 'n fawr eu grym.

Nid hir gallasai 'r ddaear fodoli yn ei lle,
 Pe heb y cyfrwng yma yn noeth drefniadau 'r Ne';
 Ymrwygo wnai yn ddrylliau, a thrwy agenau mân
 Gorchuddid gwyneb daear yn llwyr â diluw tân.

Mae 'n anhawdd canfod rheol mewn tymestl fawr ei grym,
 Pan ddêl y gwynt o'i garchar fel rhuthriad llengau llym,
 Pan wisgir nefoedd loewlas yn nŵch haner nos,
 A'r niwl mor dew a'r fagddu yn cuddio 'r wybren dlos,—

Pan rwygir y cymylau gan wyllt wibiadau 'r mellt,
 A holli 'r celyd greigiau yn ddarnau mân neu ddellt,

Pan chwydda tònau 'r eigion fel diluw drws y tir,
Mae canfod ynddynt reol yn anhawdd iawn yn wir.

Er hyny, yn ol rheol y trefnir hwy bob un,
Er fod y rheol hono uwch cyrhaedd deall dyn;
Nid oes yn chwythu awel, i ysgwyd dail y pren,
Heb fod dan un o ddeddfau Creawdwr doeth y Nen.

Y gofal manwl yma am ddeddfau Anian sydd
I'w wel'd yn argraffedig ar wyneb nos a dydd;
Olyniad y tymorau o'r rhew i'r hafddydd poeth,
Gyhoeddant fod i'r ddaear Reolwr perffaith ddoeth.

Gan hyny, Gristion egwan, nac ofna ar dy daith,
Dy Briod sy'n rheoli holl ddeddfau Natur faith;
Os gwnaeth, er mwyn dy lygad, y ddaear oll yn wyrdd,
Fe a gymhwysa'th enaid i bur, anfarwol urdd.

Os ydyw ef yn cynal y bydoedd er dy fwyn,
Fe edrych ar dy ddagrau, fe wrendy ar dy gwyn;
Os newid mae'r tymorau, i fod er llês i ti,
Ni lefi yn dy drallod âg anobeithiol gri.

Mae'r oll a gyfarfyddi, trwy gysylltiadau pell,
Yn rheidiol i'th addasu i fyw mewn gwlad sydd well;
Os mawr y darpariadau oedd reidiol ar y byd,
I'w wneud i ti yn drigfan, trwy oesoedd maith eu hyd,

Faint mwy sydd angenrheidiol i'th ddarpar di yn iawn,
I drigo yn ngogoniant, a derbyn urddas llawn,
Y wlad nas gwelodd llygad erioed ei thegwch hi,
A byw yn mhresenoldeb y santaidd Ddwyfol Dri?

O atal lif dy ddagrau, nac ofna, blentyn Duw,
Er gweled dy obeithion yn cilio 'n llesg a gwyw;
Pe ciliai pob cicaion, na fydd, er hyny,'n drist,
Ni syfl tragwyddol gariad dy Ddwyfol Brynwr, Crist.

CANIAD IV.

DOETHINEB DUW MEWN PRYNEDIGAETH.

1. CYFRYNGWRIAETH CRIST.

Rhyw bryd ar ol eu crëad—cuddiedig ydyw 'r awr—
Y gwrthryfelodd lluoedd o engyl glân eu gwawr,
Pan gododd "Mab y Wawrddydd" yn erbyn gorsedd Duw,
Gan filoedd maith o'r engyl arddelwyd ef yn llyw.

Gan fod y dorf elynol yn gedyrn oll o nerth,
Ac felly yn alluog i wneuthur drygau certh,
Alltudiwyd hwy o'r Nefoedd, yn anobeithiol lu,
I oddef cosb a melldith yn eigion Uffern ddu.

Pe cawsent fry eu goddef, llygrasent lawer byd,
 Gan nad oedd ond gwrthryfel a llygredd yn eu bryd;
 Fe gauwyd arnynt ddorau y Carchar du heb wawr,
 Ac yn y Carchar hwnw y gwaeant hyd yn awr.

Trwy brofedigaeth Diafol i bechod denwyd dyn,
 Dewisodd ddilyn Twyllwr yn fwy na Duw ei hun;
 Ond Iôr o'i fawr drugaredd, a'i rad anfeidrol ras,
 Edrychodd mewn tosturi ar wrthryfelwr cas.

Ei ddamnio â dymchweliad ni ddarfu'r Dwyfol Bôr,
 Agorodd fynwes lifai o gariad, fel y môr;
 Ei gynllun oedd yn barod i lwyr adferu dyn,
 Trwy ddwyfol gyfryngwriaeth ei Briod Fab ei hun.

Annichon i bechadur oedd troi yn ol at Dduw,
 Collasai gydymdeimlad â'i ddeddfau pur eu rhyw;
 Aeth meddyl-fryd ei galon i hoffi gwneuthur drwg,
 Nes suddo yn ddiobaith o dan y Dwyfol wêg.

Nid ydoedd un archangel allasai adael Nef,
 A chodi 'n ol ddynoliaeth, â nerth ei aden gref,
 I'r gwynfyd yr oedd ynddo cyn iddi syrthio'n brudd,
 Fel gallai ganfod eilwaith oleuni nefol ddydd.

Ond dewis wnaeth y Duwdod ei Briod Fab i'r gwaith,
 Eneiodd ef ei hunan i'r Offeiriadaeth faith;
 A threfnodd iddo wisgo am dano natur dyn,
 Er dwyn y gwrthryfelwr i hedd âg ef ei hun.

O fawredd y Doethineb yn mhrynedigaeth dyn!
 Y benaf o weithredoedd yr Unig Ddoeth ei hun!
 Mae'n toddi'r gelyn creulon â golwg cariad mwyn,
 Wrth weled Mab y Brenin yn marw er ei fwyn!

Ar ol y codwm erchyll, fe dreuliwyd tymor maith,
 Er gwneuthur dyn yn hysbys, trwy help ffugyrol iaith,
 O rasol gyfryngwriaeth Gwardwr mawr y byd,
 A'r achos oedd yn gofyn am ddarpar Iawn mor ddrud.

A phan y dysgodd dynion nad allent foddio Duw,
 Heb roddi yn aberthau eu creaduriaid byw;
 A deall gyda hyny, nad oedd yr ebyrth hyn
 Yn gwneuthur neb yn gyfiawn, na golchi neb yn wÿn,—

Fe ddaeth yr adeg rasol, yn nhrefn y Duwdod pur,
 I anfon Mab ei fynwes i oddef marwol gur,
 Fel llyncai'r Aberth hwnw holl ebyrth gwael y byd,
 Gan wneuthur mwy'n ddieisiau aberthau dyn i gyd.

Y dwyfol Aberth roddwyd mewn eithaf ing a loes,
 Pan hoeliwyd y Messiah ar farwol bren y groes;
 A thrwy ei werth anfeidrol dyhuddo'r Duwdod wnaed,
 A'r Iesu brynodd ddynion â rhin ei werthfawr waed.

Fel hyn, o ddyoddefaint y cafwyd pur fwynhâd,
 I feddiant dyn colledig, o fewn y nefol Wlad;
 Y dydd yr hoeliwyd Iesu ar felldigedig bren,
 O'i Angau tarddodd bywyd a bery tra bo Nen.

2. GWEINIDOGAETH IACHAWDWRIAETH.

Pan roddwyd dwyfol Bridwerth dros gamwedd erchyll dyn,
 Ni roddodd Duw'r pechadur i fyny iddo'i hun;
 Pe unwaith gwnaethai hyny, buasai'n ofer waith
 Ei holl gynlluniau grasol er tragwyddoldeb maith.

Mae calon dyn mor gyndyn, nes mynu dilyn drwg,
 Er gwybod bydd i hyny ei ddwyn dan ddwyfol wêg
 Arteithiol y Jehofah, mewn bythol waeau fyrdd;
 Fe ymgyndyna fwyfwy, ni newid un o'i ffyrdd.

Y Duwdod doeth ragwelodd yr holl gyndynrwydd hyn,
 Canfyddodd na wnai'r Ethiop ei hunan byth yn wÿn;
 Am hyny, pan agorodd i'w olchi Ffynon lân,
 Darparodd Olchwr hefyd yn ngwaith yr Ysbryd Glân.

Efe agora'r galon, fu'n gauad lawer dydd,
 Fe ddryllia'r bàrau cedyrn, a'r bolltau dyn yn rhydd;
 Fe argyhoedda'r enaid mewn mwynlais dystaw, main,
 I garu'r Hwn, i'w achub, fu'n gwisgo coron ddrain.

Yn raddol yr enilla yr enaid at ei Dduw;
 Yn lle pydewau drylliog, ffynonau'r dyfroedd byw,
 Cyn hir, ddewisir ganddo, ac yf o honynt hwy,
 Ni oddef yn dragywydd gan syched enaid mwy.

Lluosog foddion eraill ordeiniwyd gan y Tad,
 Er dwyn y tlawd i dderbyn yr Iachawdwriaeth rad;
 Mewn llestri pridd anfonodd brif drysor Nef ei hun,
 Fel na b'ai i ardderchawgrwydd un aur ddychrynu dyn.

Gan ddynion megys eraill cyhoeddi wneir y Gair,
 Ac yn y Gyfrol Ddwyfol y symledd mwyaf cair;
 Mae oll yn hawdd ei ddeall, yn "ddidwyll laeth" i'r gwan,
 Cyfiawnder Crist ddangosa i'r euog yn y fan.

Llyfr i bechadur ydyw, nid Llyfr i ddoethion byd,
 ("Ni raid i'r iach wrth feddyg," sy'n para'n wir o hyd;)
 Nid ydyw hwn yn traethu am ddyfnion bethau Iôr,
 Ond agor mae i'r euog yn llawn drugarog ddôr.

Pe buasid yn y Beibl yn arfer manwl iaith,
 O'r fath arfera Gwyddor am bethau Anian faith,
 Nis gallai'r fath ddatguddiad gyfateb deall dyn,
 Rhaid oedd llefaru wrtho ei syml iaith ei hun.

Nid dysgu y Gwyddorion yw amcan Gair y Nef,
 Ond dangos i bechadur fod Noddfa gadarn, gref,

Lle gall yr euog gilio rhag y dialedd llym
Dywelltir ar yr anwir gan yr anfeidrol rym.

Heblaw dylanwad moddion, mae yn ein gwyllo ni
Lu dysglaer o ysbrydion gwas'naethgar, mawr eu bri;
Caredig engyl hefyd sy'n gweini yn y gwaith,
Maent ar ein traed yn gwyllo yn holl flinderau'r daith.

O Gristion! paid ag ofni, os ydyw'r nos yn ddu,
Gwasgerir ei thywyllwch gan lewyrch oddi fry;
Du ydoedd Tragwyddoldeb amgylchai Dduw fel llen,
Ond o'r tywyllwch hwnw daeth i ni Nefoedd wên.

Du oedd y nos ar Jacob ar gopa'r mynydd oer,
Nid ydoedd i'w sirioli na llewyrch haul na lloer;
Ond trwy dywyllwch dunos yr ymagorai'r Nef,
Ac ysgol lawn o engyl o flaen ei lygaid ef !

Ymledai noswaith dywell dros fynydd Tabor gynt,
Pan ddringai y Gwaredwr i'w ben ar ryfedd hynt;
Ond pan oedd yn gweddïo, a galw ar ei Dad,
Daeth Moses ac Elias o'r baradwysaidd Wlad,

I 'mddyddan am ei angau, ac am ei ingawl groes,
A gweini cysur iddo, cyn teimlo marwol loes;
Os rhaid y fath gefnogaeth i Benaeth Nef ei hun,
Pwy draetha eu gwasanaeth yn iachawdwriaeth dyn?

Ac ar ddu noswaith erchyll, yn Gethsemane lem,
Pan ydoedd enaid Iesu dan y ddigofus drem,
A chleddyf llym y Duwdod yn gwanu'i fynwes bur,
Daeth angel Nef i'w nerthu yn ei arswydol gur.

Os sychwyd dagrau'r Dwyfol gan un o engyl Nef,
Gwneir eto'r un gymwynas â'r marwol trist ei lef;
Ac er na wel y llygad y cymwynaswyr llon,
Gwasgara'u presenoldeb dangnefedd dan y fron.

Ysbrydoedd y cyfiawnion, yn berffeithiedig sydd,
A deimlant dros eu brodyr o'r unrhyw werthfawr ffydd,
Wrth iddynt ddringo'r creigiau gynt a ddringasant hwy;
A thra yn gorfoleddu eu bod o'u cyrhaedd mwy.

Eu brawdol serch a ddeffry yn ucher Nefoedd fawr,
Wrth edrych ar flinderau eu brodyr ar y llawr;
A thrwy ryw ddirgel foddion uwchlaw ein deall ni
A chân eu genau lanwant, yn lle wylofus gri.

Y myrddiwn o angylion edrychant ar eu taith,
A hwythau oll ymroddant i'r un cariadus waith;
Ysbrydion gwasanaethgar, wrth alwad Iesu, sydd
Yn gwyllo llwybrau Sion, heb huno nos na dydd.

Nid allai angel ganu, ni theimlai sant yn llon,
Pe na chaent gydymdeimlo â saint y ddaear hon;

Doethineb mawr y Duwdod wnaeth eu teimladau'n un,
A pharodd fod y teimlad yn fywiol nerth i ddyn.

Yr Ysbryd Glân arweinia blant Duw i ben eu taith,
Ni edy hwy mewn dyfroedd, dyfnderoedd lleoedd llaith,
Ac ar y crasdir anial, a'i wres tanbeidiol boeth,
I gysgod "Craig" fe'u harwain, fel tyner Fugail doeth.

Ni edy hwy yn angau, rhydd yn eu genau gân,
O'u blaen y dengys fryniau gororau Salem lân;
Eu harwain, heb ddiffygio, i ben eu taith wna ef;
Pan dderfydd—yna byddant yn llawn ogoniant Nef!

Ac o'r gogoniant hwnw, lle gwel y llygad noeth
Am oesoedd dirifedi gynlluniau'r Bythol Ddoeth,
Pob cynllun fydd yn enyn, mewn adnewyddol dân,
Holl ranau annherfynol yr un dragwyddol gân.

PRYDDEST AR "OLYGFA MOSES O BEN PISGAH."
(BUDDUGOL YN EISTEDDFOD GYMROAIDD LIVERPOOL, MEDI, 1851.)*

Y FEIRNIADAETH.

At Bwyllgor Eisteddfod Gymroaidd Nerpwl.

FONEDDIGION,

Derbynias saith o Bryddestau ar "Olygfa Moses o ben Pisgah;" ac o honynt oll, yn ol fy marn i, yr oreu yw y Bryddest sydd â'r ffugenw HEBER wrthi. Rhanodd HEBER ei destun yn naturiol ac yn drefnus iawn; ond meddylw'n fod y darluniad a roddir yn y Bryddest o "Wlad Canaan," megis ei dangoswyd i Moses, gan HEBER, ar y meithaf: os nad yn gyfryw ddarluniad na welodd Moses yr holl barthau a'r lleoedd a enwir gan HEBER.

Yn union ar ol ysgrifenu o honof y sylw uchod, gwelais yn ddamweiniol, ac er fy syndod hefyd, yn hysbyslen yr Eisteddfod, fod yn ofynol i'r Bryddest gynnwys mil o linellau o leiaf; o herwydd hyn, ni allaf feio HEBER oblegid meithder ei Gân, ond y sawl a roddasant y testun ar y telerau nad oedd i'r Bryddest fod yn llai na mil o linellau; mal pe ar feithder y Gân yr oedd teilyngdod y cyfansoddiad i orphwys.

Nid meithder Cân, ond rhagoroldeb cyfansoddiad, yw Barddoniaeth. Gadawer i feithder Cân, gwaelder iaith, a mesur distadl, fod yn brawf o ddawn barddoni; yna, yn y fan, llenwir ein gwlad, nid â Beirdd, ond â Chrachfeirdd.

Ar destun lle y disgwylir i'r Bryddest fod o faintioli yn cyfateb i sylwedd y testun, cynghorwn i'r ymgeiswyr amrywio eu mesurau ar wedd Awdl. Diau yw genyf y carai y darllenwr weled hyn; a'r darlleniad, yn lle bod yn flinder iddo, a roddai iddo ddifyrwech; ac anghofiai feithder y Gân.

* Dyma ymgais diweddaf Ieuan Gwynedd am y llawryf ar faes Barddoniaeth Gymreig, a therfynodd yn fuddugoliaethus. Yn hanes yr Eisteddfod yn y BEDYDDIWR am Hydref dilynol dywedir,—“Pan y codwyd y guddlen, ac y deallwyd mai Evan Jones (Ieuan Gwynedd) oedd yr enillwr, meddyliodd rhai na cheisid hamdden i ddim mwy y noswaith hono, gan y banllafau a churiadau dwylaw.”

Mae yn ddrwg genyf yma ddywedyd na wybum hyd nes ar ol anfon y Pryddestau i'm Cydfeirniaid, fod TAIR o'r Pryddestau i gael eu gwobrwyo. O herwydd hyn, nid oes genyf ond gadael iddynt hwy bigo allan y tair Pryddest a farnant yn teilyngu gwobrau yr Eisteddfod. Gan obeithio y cydwelant â mi o barth rhagoroldeb Pryddest HEBER. Ydwyf yr eiddoch,
 NANHYFER, YN MHENFRO, Mehefin, 1851. TEGID.

"HEBER," Rhif 25, yr hwn yr wyf fi (yn wyneb yr anffawd uchod, yn eiddo VIRGIL, sef gadael ei destun, a chwareu uwch ei ben ac o'i amgylch), yn ei gyfrif yn brif oreu. Mae y dangosiad o'r wlad, a'r adroddiad o'r pethau a ddygwyddasant i'r genedl, yn dra hyfryd a dyddorol. Y rhag-gyfeiriau at ddirywiad a chaethgludiad y genedl, a'r trychineb a dynai eu gwrthgiliad arnynt mewn oesau dyfodol, a gyffrôa Moses i ymaflyd am y tro olaf yn ei hen swydd o EIRIOL ar eu rhan: yn hyn hefyd y mae rhywbeth dyddorol ac effeithiol iawn. Dadblygir yr olygfa yn ardderchog; ac y mae yr adganiadaeth yn cael ei achlysuru yn naturiol gan, ac yn gynwysedig yn, y brif olygfa. Moses sydd yn marw yn nodedig o naturiol a thlws.

CLYNOG FAWR, Gorph. 10, 1851.

EBEN FARDD.

"HEBER."—Pryddest o 1099 o linellau. Dichon nad yw aden awenyddiaeth HEBER lawn mor gryfed ag eiddo VIRGIL, nac wedi ei phrydferthu â'r fath amrywiaeth o blŷf tlysiôn: ni ymgyfyd mor uchel, ac ni eheda mor gyflymed; ond y mae ei llygad yn fwy cywir at y nôd,—ceidw ef yn dëg arno o'i ddechreu i'w ddiwedd. Planed reolaidd ydyw yn amgylchu ei chanolbwnc mewn rhôd sefydlog. Y mae cylluniad HEBER yn rhagori ar eiddo ei gydymdrechwyr. Arddengys grebwyll rhagorol. "Golygfa Moses o ben Pisgah" oedd ei destun, a cheidw ato yn ffyddlon. Cymerodd yr "Hanesyddiaeth Sanctaidd" yn gyfarwyddyd. Yr Arglwydd yn dangos tir yr addewid i'w "hen was ffyddlon yn ei holl dŷ." Darlunia randir pob llwyth yn fanwl ac awenyddol; arwynebedd ac ansawdd y tir yn mhob un—y mynyddau a'r bryniau; llynau ac afonydd; dyffrynoedd a'r glynoedd, a'r ffrwythau a-gynyrchant; dinasoedd a threfi; yn nghyd â'r dygwyddiadau hynod a gymerant le yn y naill a'r llall mewn oesau dilynol i amser yr olygfa, gan dybio fod yr Arglwydd yn RHAG-ddangos yr amgylchiadau hyny i'w "was" wrth ddangos y wlad a'r manau hyny iddo.

HEBER, a PHRYDAIN AP AEDD MAWR, yn unig, a grybwyllasant am yr achos pahan na chawsai Moses arwain plant Israel i wlad eu hetifeddiaeth; ac ni wnant hwythau ond byr grybwylliad. Dylasai yr amgylchiad wrth "Ddwfr cynhen Cades" gael cryn le mewn Pryddest ar "Olygfa Moses o ben Pisgah," canys oni buasai i ysbryd Moses gythruddo, fel y "camddywedodd â'i wefusau" ar yr amgylchiad hwnw, a tharo y Graig â'i wialen yn lle llefaru wrthi,—diau mai efe fuasai arweinydd y genedl i'r wlad dda. Goddefasai y testun gant neu gant a hanner o linellau ar y dygwyddiad hwnw; a gallasai yr Awen gasglu gwersi tra phwysig oddiwrth y tro, trwy ddangos eiddigedd Jehofah dros ei ogoniant, a'i awdurdod yn ei orchymyn; a'r perygl o'i ddiystyru trwy gymeryd rheswm neu nwyd yn rheol ymddygiad, yn lle ei "ewyllys ddatguddiedig Ef." Gallasai ddangos golwg gyffrôs ac effeithiol ar Moses y waith hon yn dianrhydeddu Duw, ac yn dwyn ei hun dan gerydd, drwy gamarfer y wialen hono a fuasai yn offeryn yn ei law, drwy gyfarwyddyd Dwyfol, i gyflawni cynifer o bethau rhyfedd yn nhir Ham, yn maes Zoan, wrth y Môr Coch, ac yn yr Anialwch. Dyma, debygwn, yw prif, os nad unig ddiffyg Cân Heber. Y mae y Bryddest drwyddi yn rhagorol; rhai darnau yn orchestol. Gwasanaetha yn lle Darlunlen o Wlad Canaan; a rhydd grynodedd o'i phrif ddygwyddiadau yn ystod trigias "meibion Israel ynddi." HEBER, yn ol fy marn i, a deilynga y wobwr fiaenaf. Ydwyf, &c.,
 Awst, 1851. G. HIRAETHOG.

RHAGNODIAD.

EFALLAI fod cynllun y Bryddest ganlynol yn gofyn am eglurhad byr. Ar ol desgrifio yr achos o orphwysiad y gwersyll, yn lle myned a meddianu y wlad, rhoddir darluniad byr o'r amgylchiadau arweiniol i esgyniad Moses i ben Pisgah. Wedi ei ddilyn yno, cymerir yr hanes yn llythyrenol. Esgynodd y Prophwyd yno, nid i adgofio a myfyrio, ond i weled y wlad a marw. Credir i Dduw ddangos Canaan iddo yn weithredol, a bernir y byddai yn afresymol meddwl i hyny gael ei wneud heb fynegiad lled helaeth o'r dygwyddiadau cysylltiedig â'r lleoedd a ddangosid ac o helyntion y genedl mewn oesoedd dyfodol. Gan fod Duw wedi egluro yn flaenrol i Moses y cyfodid Prophwyd arall yn mysg y genedl, ni thwybiwyd yn anmhriodol cyfeirio at ymddangosiad a dyoddefaint y Messiah. Y dewisiad o'r cynllun hwn a esyd Dduw i lefaru drwy y rhan fwyaf o'r Gân; a chan mai â dyn y llefarai, yn ol dull dyn y darlunir ei ymadroddion. Mae yn wir y collir drwy hyn bob cyfle i ddangos teimlad wrth ddarlunio manau sydd a'u henwau yn anwyl i bob Cristion; eto pe y cymerasem gynllun arall, buasem yn gorfod gadael Moses heb neb i ddangos y wlad iddo, neu ymdrechgu ei osod ef i ddarlunio teimladau, y rhai na buasai un sail i gredu y buasent gydweiddol â'i wybodaeth. Wedi crybwyll am ddygwyddiadau lleol, rhoddir golwg fer ar hanes y genedl, fel canlyniad naturiol i'r olygfa sylweddol a ddangosasai yr Arglwydd i'w was. Yn y desgrifiad hwn gwelir Moses yn ei hen gymeriad o eiriolwr, tra yr eglura Duw ei gyfiawnder, ac y dadlena ei fwriad o wisgo y daearol â delw y nefol. Ac yn y rhagolwg hwn yr ymollwng y Prophwyd i freichiau Angelion.

Bernir hefyd fod meithder y cyhydeddau arferedig yn y mesurau arwraidd yn gwneuthur amrywiad o honynt yn ddymunol. Gyda golwg ar derfynau y llwythau, dilynwyd Map y Sunday School Union. HEBER.

TREFN A CHYNWYSIAD Y BRYDDEST.

CANIAD I.

YR AMGYLCHIADAU ARWEINIOL.

CANIAD II.

YR OLYGFA:—

- § I. YN LLEOL A DYGWYDDIADOL.
- § II. YN HANESOL A GORUCHWYLIAETHOL.
- § III. Y DIWEDDGLO.

Gwersyll Israel yn Rhosydd Moab—Hiraeth am Wlad yr Addewid—Oediad y lluoedd i groesi yr Iorddonen—Yr achos o hono—Mawredd prophwydol Moses—Ei atal i Wlad yr Addewid—Y rheswm o hyny—Duw yn addaw dangos y wlad iddo—Yr ymadawiad â'r llwythau—Yr Henuriaid—Iosua—Darluniad o Moses—Ei agwedd a'i fyfyrddodau—Ei esgyniad i'r mynydd—Agwedd y gwersyll—Pen y bryn—Goleuni Pen Nebo—Ei dynerwch—Duw yn lefaru—Atebiad Moses—Duw yn amlygu ei gariad ato, ac yn dangos iddo y wlad—Tir Reuben—Tir Gad, Ramoth Gilead, Peniel, Iabboc, Mahanaim, Mynydd Basan, rhan hanner llwyth Manasseh, Llyn Merom—Dinystr y Canaaneaidd—Abel-Beth-Maaca, Riblah, Libanus, Gwlith Hermon, y Cedrwydd, Llochesau y Llew, a Mynyddoedd y Llewparidiaid—Yr Hydd—Tir yd, gwin, ac olew—Tir Naphtali—Rhan Aser—Pentrefydd y Môr—Tyros, ei golud, ei chwymp, galar y cenedloedd—Accho—Tir Zabulon—Gorchfygiad Sisera—Y goleuni mawr—Tir Issachar, Gilboa, Esdraelon, neu Ddyffryn Megiddo—Brwydr Armagedon—Haner llwyth Manasseh—“Cleddyf yr Arglwydd a Gideon”—Carmel—Y newyn—Ai Baal ai yr Arglwydd sydd Dduw?—Y Duw a atebodd drwy dân—Ephraim, Siloh, Glyn

Saron, Rhosyn Saron, Gerizim ac Ebal, Mynydd y Brofedigaeth—Tir Juda—Tir Dan—Brwydr Ebenezer—Dal yr arch, ei dwyn i Asdod—Cwmp Dagon—Llaw yr Arglwydd yn drom ar Asdod, Gath, ac Ecron—Anfon yr arch yn ol—Cosbedigaeth y Bethsemeiaid—“O haul aros”—Rhandir Simeon—Afon yr Aipht—Rhan Juda—Dynystr Sennacherib—Dyfodiad yr Eneiniog—Jerusalem, y deml, helbulon y lle, ei chwerwedd—Rhandir Benjamin—Cwmp Jericho—Meddianu y wlad—Gwasanaeth y Lefiaid—Y Golygiad yn darfod—Ymroddiad ac ymbil Moses—Jehofa yn amlygu iddo mai cyfiawnder yw ei reol—Yn dangos iddo ragorfreintiau daearyddol, dinasyddol, a moesol, yr Israeliaid—Eu hanniolchgarwch a’u pechodau—Y caethgludiad i Babel—Eu dychweliad—Eu gwrthodiad o’r Messiah yn unol a’u holl ymddygiadau eraill—Goresgyniad y genedl—Toster ei barn—Eiriolaeth Moses—Golwg am adferiad—Teyrnasiad y Messiah.

“A’r Arglwydd a ddangosodd iddo holl wlad Gilead, hyd Dan; a holl Naphtali; a thir Ephraim, a Manasseh, a holl dir Judah, hyd y môr eithaf; y dehau hefyd, a gwastadedd dyffryn Jericho, a dinas y palmwydd, hyd Soai.” DEUT. xxxiv. 1—3.

CANIAD I.

AMGYLCHIADAU ARWEINIOL.

MAE’R gwersyll yn agos i WLAD YR ADDEWID,
 Ei thlysiion gyffiniau drwy’r pellder a welid;
 Mae Israel o’r diwedd ar ddarfod eu gofid,
 Ar adael yr anial am deyrnas o lawndid;—
 Ar adael tirogaeth gelymol fu’n erlid,
 A’r rhai am flynyddoedd yn wastad rhyfelid,—
 Am diroedd y Ganaan a hir ddysgwylliesid,
 Pob mynwes gan awydd ei meddu a lenwid,
 Per arogl ei llysiâu drwy’r awyr a gludid;
 Drwy Moab a’i rhosydd eu sawr a aroglid,
 Nes tua’i gororau yn fynych edrychid,
 Fel caeth yn hiraethu am enill ei ryddid.

Am Ganaan yn oriau yr hirnos meddylid
 Am dani yn ystod y dydd ymddyddenid,
 Cael meddiant o honi yn fuan hyderid,
 Ar hirfaith grwydriadau yr anial blinesid;
 Ei deithiau trallodus yn fynych adroddid,
 A gweddi am Ganaan yr hanes derfynid;
 Gweithredoedd Jehofah mewn arswyd grybwyllid,
 Am fyrdd o fendithion i’w enw diolchid;
 Y gwynfyd drwy Israel yn awr a ddymunid
 Oedd myned a meddu eu brodir gynhenid,—
 Y wlad i’w henafiaid gan Dduw a roddesid,
 Drwy lw a chyfamod, a deddf ddigynnewid.

Paham nad yw Moses yn arwain y lluoedd
 Yn mlaen, fel arferol am hirfaith flynyddoedd?
 Paham na chyflawnir addewid yr oesoedd,
 Sydd ysgrifenedig ar Gôflyfr y Nefoedd?
 Ai ni ddaeth yr adeg i ddifa'r cenedloedd,
 Ac ymlid yr annuw o'r hyfryd ardaloedd?
 Ei llwyni halogant—ar ben y mynyddoedd
 Cynaliant addoliad brenines y nefoedd.
 Ond llonydd yw'r gwersyll—digyffro ei filoedd,
 Yn gwrando adroddiad am ryfedd weithredoedd,
 A welodd y tadau drwy'r meithion ganrifoedd,
 Pan grwydrent heb gartref mewn gwlad na dinasoedd.

Eu hanerch yn ddyfal a ffyddlon mae Moses,
 Ac iddynt yr edrydd yn fanwl eu hanes;
 I'w meddwl ad-ddygir holl daith yr anialwch,
 Eu cyndyn wrthryfel, a'u hanniolchgarwch
 I'r Duw a'u gwaredodd o'r Aifft a'i chaethiwed,
 Drwy wyrthiau rhyfeddol, a chadarn ymwarded;
 Ac iddynt ar finion y frodir ddymunol,
 Y traetha y proffwyd ei gân ymadawol,
 A blethodd ei awen o ddwyfol syniadau,
 Cyn doddi o'r neilldu flaenoriaeth y llwythau,
 A newid y babell am nefol drigfanau
 Myrdd amgen na Chanaan, goruwch yr wybrenau.

Yn oesoedd y ddaear nid oes genym hanes
 Am broffwyd cyffelyb mewn gallu i Moses;
 Ond er i Ragluniaeth ei ryfedd ddarparu,
 Mewn bwthyn a chawell, a llŷs a lluesttŷ,
 I arwain plant Israel o fysg eu gelynion,
 A gwneuthur Jehofah yn arswyd i ddynion;—
 Er iddo gael addysg bersonol y Duwdod,
 A threulio wythnosau ei hun yn ei wyddfod,—
 Er hollti yr eigion âg ergyd ei wialen,—
 Er derbyn o hono y ddwyfol ysgrifen,
 Nid ydoedd i sangu ar wlad yr addewid;
 Mynediad i hono am fai waharddesid.

Er cymaint oedd tawel larieidd-dra ei feddwl,
 Fel wybren las olau, heb ddŵch na chwmwl,
 Unwaith ei belydrau a guddiwyd gan nifwl,
 Camdd'wedodd â'i enau wrth ddyfroedd y gynen;
 Mewn digder tarawodd y graig gyda'i wialen,
 A'r Arglwydd a ddigiodd—adalwodd ei freinlen,
 Nes colli o'r proffwyd ei ran yn nhir Canaan,
 Er maint fu ei lafur i gyrhaedd y drigfan;
 Ond os oedd y golled ddaearol yn gerydd,
 Trodd cariad Jehofah y cur yn llawenydd!

Bu attal ei gamrau i'r Ganaan ddaearol
Yn fodd i'w cyflymu i feddu y nefol.

Er hyny nid ydoedd i farw heb weled
Y fro etholedig i blant y caethiwed,—
Y wlad fu yn obaith ei hoffaf syniadau,
A'r tir a ganmolodd mewn dwyfol ganiadau,
Pan danid ei enaid gan nefol awenau;
Ei Arglwydd addawodd ei dangos ei hunan
I'w ffyddlon ddilynydd, cyn newid ei drigfan;
Am hyn ni symudai y gwersyll o'r unfan,
Nes gweled o'u blaenor, cyn gadael y ddaear,
Holl wlad yr addewid oludog a hawddgar,
Ac agor o hono ei lygaid ysbrydol
Ar wychder rhagorach trigfanau tragwyddol.

Un nawn ymadawodd â llwythau y gwersyll,
Ac Israel ddychwelent mewn galar i'w pebyll;
Yr hwyr ymadawai â'i ddeg-saith henuriaid,
Eu dagrau oedd heilltion, a throm eu hochenaid,
Hwy gilient o'i wyddfod yn araf, hwyrffrydig.
Mae Josua ffyddlawn ac yntau yn unig;
Mynyddau y ddu-nos mewn cynghor a dreuliant,
A'r babel yn nhrymder y nôs a adawant:
Drwy rosydd têt Moab, gwnant araf ymlwybro,
Nes ydynt yn agos i droed mynydd Nebo,
Ac yno mewn cariad yr hir ymgoffleidiant—
Mewn dagrau a gweddi—*am byth ymadawant!*

Mab Nun ddychwela mewn dystawrwydd syn,
Yn unig Moses esgyn lethr y bryn :
Gwr prydferth oedd, yn meddu nerth a grym,
Heb deimlo henaint â'i arteithiau llym;
Ireidd-dra mebyd welid yn ei bryd,
Neu degwch benthyg o brydferthach byd;
Er iddo rifo chwe' ugein-mlwydd oed,
Ei gam oedd heinif, ysgafn oedd ei droed:
Hardd gynllun oedd o ffurfiad Llyw y Nen,
O'r bur ddynoliaeth welodd Eden wen,
A gweddus oedd fel hyn ei wneuthur ef,
I fod yn genad dyrchafedig Nef.

Wrth ddringo'n araf tua Phisgah hên,
Ni wisg ei wyneb un foddhaol wên;
Ymroddiad tawel eistedd ar ei wedd,—
Cymysgedd yw o drymder gyda hedd;
Adgofio mae am yr anialwch maith,
A'r deugain mlynedd a'u blinderus waith;
I'w feddwl geilw holl weithredoedd Iôr,—
Ei blâau erch, a'i waith yn holli'r môr,—

Y nefol fara—glöew ddwfr y graig,
 Mor hir fuasent yn ddigonol saig;
 Y mynydd uchel wisgai amben dân,
 Lle chwyddai engyl eu brawychus gân,—
 Lle safodd Duw yn nhew gymylau'r nef,
 I draethu'r gyfraith gyda nerthol lef:
 Holl helynt blin y tanllyd seirff, a brád
 Y gwŷr anfonwyd i ysbio'r wlad;
 Y deugain mlynedd gyd-grynhoid yn awr
 I ddarlun bychan, llai ei gylch nag awr;
 A theimla'r proffwyd rywbeth megis cur,
 Am na buasai ei holl daith yn bur,
 Fel y gallasai gyrhaedd Canaan dir,
 Am feddu'r hwn y gobeithiasai'n hir.

Ond os nad oedd ei bryd yn berffaith lon,
 Os ydoedd gradd o drymder yn ei fron,
 Er hyny boddlon oedd i drefniad Duw;
 Da gwyddai'r proffwyd nad oedd peidio byw
 Yn difa bôd, nac yn anhuddo hedd;
 A deall wnai nad ydoedd düwch bedd
 Yn diffodd pur oleuni'r byd a ddaw,
 Ac yn ei fynwes ni anadlai braw:
 Er gwybod fod ei farwol daith ar ben,
 Fe wyddai fod gwell byd yn uchder Nen.

O gam i gam mae'n dringo copa'r bryn,
 Gan edrych weithiau yn ei ol i'r glyn,
 I wel'd y pebyll yn dysgleirio sydd
 Dan forau wlith, wrth gyfarch brenin dydd;
 O gylch eu drysau saif edrychwyr prudd,
 Tra gwllitha dagrau lawer gwridog rudd,
 Am golli gwych arweinydd hên eu llu,
 A'i ganfod draw ar grib yr aelgerth fry.
 Uwch, uwch, esgyna—ac o'u golwg hwy
 Diflanu wnaeth, byth i ymddangos mwy!

Y proffwyd safai ar y cribog fryn,
 A Duw a'i cuddiodd mewn goleuni gwyn;
 Awelon chweg chwareuent yn y fan,
 A'u hedyn gludent i'r uchelder ban
 Aroglau hoff o diroedd Canaan fwyn,
 O'r deiliog faes, a phob blodeuog lwyn.
 Y lle oedd unig, nid oedd llais na llef
 I dori ar ei ddwys dawelwch ef.
 Fel gorwych gyntedd i amgenach byd,
 Lle cymhwys oedd i'r proffwyd llariaidd fryd.

Er bod yr haul yn uchel yn y nen,
 Nid ydyw'r gwres yn taro ar ei ben;

Ond sefyll mae yn nghysgod llaw ei Dduw,
 Mewn pabell gànaid o oleuni byw!
 Nid goleu haul na lleuad yw efe,
 Nid goleu sêr sydd yn addurno'r lle:
 Esmwythach gwawl, na fina lygad gwan,
 Er maint ei gryfder, sydd yn llanw'r fan:
 Cynyddu mae,—ni welodd Moses ddydd
 O debyg hwn erioed â llygad ffydd!

O hyfryd ddydd! mor hoff dy lewyrch yw!
 Nid llethol wres, ond glwys ogoniant Duw!
 Mor dyner ydwyf, mor ddiboen a glân,
 Nid rhyfedd fod y nef yn llawn o gân,
 Pan mae ei bodau yn cydarllwys mawl,
 Yn hoff awelon ei adfywiol wawl:
 Ddysgleiriaf ddydd! rhy ddwyfol ydwyf ti
 I wênu ar ein heuog ddaear ni!
 Er hyny gall marwolion gwael y llawr
 Gael bythol drigo yn dy nefol wawr!

Fel hyn, yn mhorth ysblenydd lÿs y Nef,
 O'r pur oleuni y llefarai Duw,—
 "Moses fy ngwas," dywedai mwynaidd lef,
 "Nac ofna ddim, myfi Jehofah yw.
 I ti addewais olwg ar y wlad,
 Yr hon nad wyt i drigo yn ei thir;
 Ond hi a roddir i'r dewisol had,
 Yn ol fy llw a'm haddewidion gwir.
 Dy wahodd wnes i edrych ar ei gwedd,
 Cyn dy gymeryd i'm tragwyddol hedd."

Atebai Moses, "O Dragwyddol Iôr,
 Bendigaid f'o dy santaidd enw di!
 Tydi a fuost fy ngrymusaf Bôr,
 Drwy flin dymorau o adfydus gri;
 Dy gyngor di a'm cadwodd rhag y llif,
 Dy ofal di a'm gwyliodd foreu oes;
 Bendithion roddaist uwch daearol rif,
 I leddfu poenau llawer chwerw loes.
 Erioed ni chefais genyt ond y da,
 A hyn, fy Arglwydd, eto caniata."

Atebai'r Arglwydd, "Gyda chariad pur
 Y'th gerais di, cyn bod y mynydd hwn;
 Dy gynal wnes drwy lawer poenus gur,
 A thithau hoffaist fy ngwasanaeth, gwn.
 Ni bu o'th flaen, ar wyneb daear faith,
 Neb yn fy adwaen fel y gwnaethost ti;
 A thi siaradais mewn daearol iaith,
 Ac arnat dodais fwy na dynol fri;

Yn awr, edrycha ar y tir o'th flaen,
O'r dwyrain hyd lle nôs ei mentyll taen:—

CANIAD II.

YR OLYGFA:—§ I. YN LLEOL A DYGWYDDIADOL.

“Tir Reuben yn dy amgylchynu sydd,
Cyfarwydd ydwyt â phrydweddau'r wlad;
Holl rosydd Moab etifedda'n rhydd,
Ac nid ychydig nifer fydd ei had;
O lènydd Arnon hyd Gilead fry,
O Bethabara hyd i fro Aroer,
Yn etifeddiaeth cynfab Jacob sy',
Is gwênau haul, a mwyn belydrau lloer;
Ei goelbren syrthiodd mewn dewisol fan,
A thiroedd hyfryd roddwyd iddo'n rhan.

“Gwel wlad Gilead yma ger dy fron,
Tiriogaeth Gad,—aml yw ei brynau hi;
O Anon Nopha yr ymestyn hon,
Drwy lethrau cribog, nes y cyrhaedd i
Fôr Chinnereth, a'i dawel, esmwyth dôn
Yn bythol furmur ar y glènydd llon.
Trig Gad fel llew ar hyd ei brynau cryf,
Ac o'u huchelder y disgyna'n hyf;
Mewn pur uniondeb y gweinydda farn,
Ni esyd ef fy nghyfraith i yn sarn.

“Islaw Gilead, Ramoth cenfydd di,
Yn ddinas noddfa i'r llofruddiog mae;
Hi fynych lenwir â rhyfelgar gri,
O'i chylch breninoedd deimlant farwol wae;
I'r aswy Peniel gwyd ei wylaidd ben,
Lle yr ymdrechai Jacob gynt â Duw;
Fe welodd yno fawr ogoniant Nen,
Edrychodd arno, a bu wed'yn fyw.
Gerllaw rhed Iabboc ar ei graian mân,
Cymysga'i dwfr a choed ei glènydd gân.

“Bryn Mahanaim i'r Dwyrain yna sydd,
Lle y cyfarfu Jacob wersyll Duw;
Trist oedd ei feddwl gan amheuon prudd,
Na wnai ei frawd ei adael ef yn fyw.
Ychydig uwch mae cribau Basan fawr,
O Golan redant yn gadwynawg rês;
Eu hochrau guddia derw tég eu gwawr,
Lle cilia gwartheg er ymochel gwres.
Y coedydd hyn chwenycha Tyrus bell,
Na'u derw tîrf ni lunir rhwyfau gwell.

“A dyna Argob, y ffrwythlonaf fan
 Yr ochr hyn i ffrwd Iorddonen hên;
 Manasseh yna gafodd hyfryd ran,
 Ei etifeddiaeth wisga oesol wên.
 Ar làn Chinnereth trigo wna, yn mhlith
 Perllanoedd ffrwythlawn, a dyffryndir bras,
 Bendithion nefoedd a'i thyneraf wllith,
 Ac awel hoff tragwyddol fryniau glas:
 Hyfrydwch daear, a'i chyflawnder hi,
 Fydd rhan y gwr neillduwyd genyf fi.

“Llyn Merom sydd yna yn heilltion ei ddyfroedd,
 Lle brwydra fy ngweision â chedyrn fyddinoedd:
 Daw Hazor, a Madon, a Simron â'u lluoedd,
 Ac Acsaph, a'r Gogledd, a thorf o freninoedd.
 I'r dyffryn y deuant, o'u brigog fynyddoedd,
 Eu pobl fydd yn llawer, fel tywod y moroedd;
 Ond er eu rhifedi hwy ddryllir yn erchyll,
 Dialedd a distryw ddymchwelant eu gwersyll;
 Pob enaid o honynt o Sidon hyd Mispa,
 Yn frenin a deiliaid, mab Nun a ddyfetha.

“O Gesur edrycha yn mlaen hyd yn Maacha,
 Mewn oesoedd i ddyfod aml waedlyd ymladdfa
 Fydd yno, a dygir y bobl i gaethiwed,
 O herwydd eu drygau ffrewyllir hwy'n galed.
 Tro'th lygaid i'r aswy ac edrych ar Ribla,
 Fydd brif-ffordd ryfelgar i lu Babylonia,
 Pan ddeuant drwy Syria, fel corwynt ymruthrol,
 I ddial ar Israel am fuchedd annuwiol.
 Y genedl yn fynych ymlithia i gamwedd,
 A'r estron a'i cosba â ffrewyll anwiredd.

“Uwch Lais yn y Gogledd, gwel fynydd Lebanon,
 Fel cadwyn o gallestr, o Syria hyd Sidon;
 Myfi a'i gosodais yn fur anorchfygol,
 I ffurfio i Ganaan ei therfyn Gogleddol.
 Ei goron yw talaith ysblenydd o eira,
 Dan oleu yr heulwen fel perlau dysgleiria;
 Oddiwrtho mae Hermon yn rhedeg i'r Deau,
 A'i wllith yn dyferu ar Sion a'i brynau;
 I'r Dwyrain Amara a rêd i Damascus,
 Lluosog eu ffrydiau yw llethrau Libanus.

“Ei aelïau dan wigoedd y cedrwydd a laesant,
 Eu brigau a chwifant yn awel y nen;
 Y cedyrn eryrod eu nythoedd adeilant,
 O honynt ehedant o amgylch ei ben.

Ffynidwydd a dyfant wrth ddisgyn i waered,
 A'u llwyni cauedig fydd lloches y llêw;
 A thora y llewpart brychedig ei syched
 Mewn ffrydiau a redant o ffynon y rhêw;
 A'r hydd, o dan frefu yn mhoethwres y nefoedd,
 A reda i yfed afonydd y dyfroedd.

“Ei lethrau fydd lenyrch gwinllanoedd a gerddi,
 Lle lleda y gwenith mewn brasder ei wraidd;
 Melusion ac olew a gesglir o'r llwyni,
 Ni ddifir y winllan gan lwynog na blaidd.
 Hir ddyddiau a hawddfyd fydd rhan y trigolion,
 Bydd dawel eu preswyl, a'u daear yn ffrwythlon;
 I fysg eu trigfanau y peraidd awelon
 Yn wastad a ddeuant, a'u mwynder a draidd
 I babell ac anedd, a balmaidd aroglau
 A'u llanwant, yn debyg i erddi pêrlysiau.

• “Tir Naphtali yna yn llain a ymestyn
 O Hamath hyd lènydd Chinnereth i lawr;
 O Aser ymleda, o du y Gorllewin
 Hyd làn yr Iorddonen, i'r Dwyrain yr hawr;
 Ei ran fydd yn gyflawn o fendith Jehofah,
 O waelod Libanus i Rimmon Methôr;
 O buraf ddanteithion y ddaear y profa,
 Ei darian a'i astalch fydd cysgod ei Iôr.
 Addurnir ei ddolydd â cheinion prydferthwch,
 A gwisgir ei fryniau â mentyll hawddgarwch.

“Is minion Lebanon a'i goron o iâ,
 Rhan Aser* osodir, a'i frodir fydd dda;
 Un ochr bydd ei muriau yn dônau y môr,
 I'r llall yn derfynau bydd bryniau yn gôr;
 O frasder y ddaear y dewis ei fwyd,
 A pherlau y moroedd heb drafferth a gwyd;
 Mewn ffrydiau o olew y gwlycha ei droed,
 Hyfrydach preswylfa ni welwyd erioed;
 Adfywir ei llwynydd gan awel a thês,
 Ac esgid llwyth Aser fydd haiarn a phrês.

“I'w glènydd byth-wyrddion yn minion y môr,
 Y Dwyrain a enfyn drysorau'n ystôr;

* Ni sonir am ddangosiad y rhan hon o'r wlad, ond bernir i ddysgrifiad o'r holl dir gael ei roddi. Y mae cysylltiad Tyrus a Sidon â Chanaan mewn oesoedd dyfodol, yn gwneud crybwylliad am danynt yn debygol; ac am hynny ni fernir yn addas gau etifeddiaeth Aser o'r "Olygfa." A siarad mewn dull dynol, yr oedd mor hawdd gweled hon a rhanau eraill o'r "tiroedd pell," ond ni ddylid siarad am anhawdder yn mhresenoldeb gallu Dwyfol.

Bydd Tyrus a Sidon yn uchel eu bri,
 A'u llongau cyfoethog yn marchog y lli';
 O Accho hyd Sidon, drwy gyfoeth y dòn,
 Cwyd dirif bentrefydd ar wastad a bron;
 Eu masnach fydd helaeth, a'u golud yn fawr,
 A Sidon ymestyn hyd Tyrus i lawr;
 Ymchwyddo mewn balchder digymhar wna hon,
 Pan ddaw yn unbenes a duwies y dòn.

“Holl olud y gwledydd i'w llongborth a ddaw,
 Deil berlau y ddaear yn ngheudod ei llaw;
 Pob ynys bellenig yn mynwes y môr,
 I'w llongau masnachol, agora ei dôr.
 Pob awel a gluda drysorau i hon,
 I'w golud daw cynydd o ymchwydd y dòn;
 Bydd gwyntoedd pedryfan yn chwiban ei chlod,
 I edrych ei gwychder y ddaear wna dd'od,
 Nes iddi ymgodi hyd uchder y sêr,
 Ar edyn ei balchder—a hêrio y Nêr!

“Er cryfed ei chaerau, er uchel ei brig,
 I'r llwch y caiff ddisgyn, pan enyn fy nîg;
 Ei chaerau a'i thÿrau, hyd enau y dòn,
 O fawredd a fwrir, fe'u llyncir yn hon;
 Ei muriau ddymchwelir—osodir yn sarn,
 A thaw ei thelynau dan boenau ei barn.
 Ynysoedd a wylant, a llefant yn llu,
 Pan gofiant ei mawredd i fonedd a fu;
 Eu haethus gyfyngder, a llymder eu llef,
 A lanwant â chwynion awelon y nef.

“Pan synir y gwledydd â newydd ei chwyp,
 Arswydant ddialedd o'r diwedd, a'i dyp;
 Mewn lludw gorweddant, a moelant eu pen,
 Sachliain a ddodant i'w llwynau yn llen;
 Tralodir hwy'n ddirfawr, bydd uchel eu cri,
 A'u galar wylofus am Dyrus a'i bri.
 Gan ddyfnder ei chodwm, brawychu wnant hwy,
 A hithau pan geisir—ni welir byth mwy!
 Yn graig anghyfanedd y gesyd yr Iôr
 Y ddinas fu unwaith yn feistres y môr!

“Bydd Accho a'i hebach, mewn oesoedd i dd'od,
 Yn lle i ryfelwyr ymofyn am glod;
 O'i blaen yr ymleddir, nes rhuddir y dòn,
 Mewn llawer ymdrechfa, gan gochwaed y fron;
 Ei phorthladd ystyrir yn allwedd y wlad,
 A mynych o'r herwydd enynir y gād.

Byddinoedd yr Anghred a'i daliant yn hir,
 Gan waed y diodir a mwydir ei thir;
 Ac Aser a'i feibion wasgerir o'r lle,
 Yn grwydriaid digartref dan awyr y ne'.

“Ymestyn Zabulon o odrau Chinnereth,
 Yn llanerch ddymunol, hyd ymyl Dabereth;
 Ei derfyn o'r Deau a gyrhaedd o Kattath,
 Is Tabor uchel-grib, hyd dref Anaharath.
 Ei fryniau llewinol ymgodant yn uchel,
 Yn gadwen o fynor ymunant â Charmel;
 O Tabor y disgyn, mewn oesoedd dyfodol,
 Llu Barac, i ddryllio Sisera ormesol.
 Caiff nefoedd a daear i'w erbyn ymuno,
 A nerthoedd y cadarn eu bythol ddistrywio.

“I'w erbyn yr ymladd y sêr yn eu graddau,
 Nes dryllio ei fyddin a'i nerthol gerbydau;
 Daw Lison i'r ymgyrch, a'i thônau llifeiriol
 Ysgubant y gelyn â'u rhuthriad angeuol.
 Yr hwyr ni adawa un gwr dan ei arfau,
 Oedd barod i fathru fy mhobl y borau.
 Mewn dirmyg y trenga Sisera uchelgais,
 A hoel yn bwyedig gan wraig yn ei arlais.
 Er grym eu cadernid, er maint eu cyndynrwydd,
 Fel hyn y diflana gelynyion yr Arglwydd.

“Bydd Zabulon lawen o amgylch ei bebyll,
 Trysorau y ddaear i'w feddiant a gynull;
 Cwyd cedyrn ddinasoedd, a threfydd blodeuog,
 Ar hyd ei derfynau, nes bydd yn gyfoethog;
 Ac er y bydd iddo, yn nhreigliad yr oesoedd,
 Drwy wneuthur anwiredd, anghofio y Nefoedd,
 Er hyny, pan gyfyd y dwyfol Oleuni,
 Ei nefol belydrau ddisgynant i'w loni.
 O'i fryniau dylifa, fel mêl, yn mhen oesoedd,
 O enau'r Eneiniog, ddoethineb y Nefoedd.

“Rhan Issachar weli yn gorwedd yn nesaf,
 Rhwng pynau mynyddoedd, mewn dyffryn o'r harddaf;
 Mewn oesoedd i ddyfod, bydd pwysig weithredoedd
 Ar hyd ei wastadedd, ac ar ei fynyddoedd.
 Gerllaw i dref Bethshan, mynyddoedd Gilboa
 I fysg y cymylau ddyrchafant eu copa;
 Ar hyd-ddynt yn filoedd plant Israel a gwympir,
 Eu brenin a'i feibion â'r saethau drywenir;
 Y cedyrn a gwympant yn llu archolledig,
 Yn nghanol gorfoledd y dienwaededig:

“Ac Israel ddiosgir o’u holl ardderchawgrwydd,
 O herwydd ymadael â deddfau yr Arglwydd;
 Ac erys Gilboa yn golofn dragwyddol,
 I ddangos fy nigder at frenin annuwiol.
 Ni fwydir ei dōnen â man-wlith y nefoedd,
 Ni thyfa y glaswellt ar hyd ei fynyddoedd,
 Ni cheir ar ei lethrau ond llwyni gwywedig,
 Yn crino wrth edrych ar dir anrheithiedig;
 Ac yno y safant yn gofion tragwydd,
 Ar fynydd deifiedig gan ddigder yr Arglwydd.

“Manasseh a dderbyn o’r rhandir rai lleoedd,
 Ac ynddo yn fynych y gwelir byddinoedd,
 O ran eu rhifedi fel tywod y moroedd,
 Ac, megys y tōnau yn ymgyrch tymhestloedd,
 Yn ffyrnig ymruthro i waedlyd gelanedd,
 Nes bydd eu myrddiynau yn angau yn gorwedd.
 Yn nyffryn Megiddo, cenedloedd y ddaear,
 Am oesoedd hirfeithion, a feddwant yn anwar
 Ar waed y lladdedig, dywelltir mewn rhyfel,
 Nes uwch eu galanas y gruddfan yr awel.

“A minau un diwrnod a gasglaf ysbrydion,
 Yn hwyrdydd yr oesoedd, i faes Armagedon;
 O honynt y casglaf gythreuliaid yn genfaint,
 Ysbrydion celwyddog, a ffiائد fel llyffaint.
 Ac yna fy phiol dywalltaf i’r awyr,
 Nes rhega y giwaid gan lymder eu gwewyr.
 Agoraf y bydoedd lle cedwir taranau,
 A’r mellt a ollyngaf o’u hoesol gadwynau;
 Anfonaf hwy allan yn ddirif finteioedd,
 Yn nydd fy nigofaint, i nerthu’r tymhestloedd.

“Ysgydwaf y ddaear â nerth fy nialedd,
 Nes gwneud ei dinasoedd yn llwch anghyfanedd;
 Gan ddychryn gorphwyllog, o wyddfod fy nerthoedd,
 I’r dyfnion eigionau dianga’r mynyddoedd.
 Ar ddynion y gwlawiaf, o dduon gymylau,
 Belleni o genllysg, fel mawrion dalentau;
 A Babylon feddw, yn nghyfnos ei henaint,
 Gaiff yfed o gwpan digymysg digofaint.
 Ar faes Armagedon—rhyfelfan yr oesoedd,—
 A’m heuog elynion ymladdaf o’r Nefoedd.

“Y tir wyf yn roddi yn feddiant i’r llwythau,
 I ddifa yr ethnig, fydd eto’n mhen oesau
 Y llanerch i ddangos i gryfion genedloedd
 Nad oes yn teyrnasu ond Arglwydd y lluoedd.

Er iddynt ymchwyddo yn hafddydd eu balchder,
 A chyfrif eu hunain fel sêr yr uchelder,
 Ag anadl fy ngenau y bwriaf eu miloedd,
 Fel dafnau o gwmwl, i grombil y moroedd,
 Heb ddim i ddynodi eu bod yn yr eigion,—
 Gwnaf felly â'r cedyrn ar faes Armagedon.

“Yn nesaf Manasseh a driga yn dawel,
 Mewn tiroedd hyfrydlon, o Ophra hyd Carmel;
 Bydd gyflawn eu cynyrch o fyd a meluswin,
 O'r hên Iorddonen hyd fôr y Gorllewin.
 O Ophra y galwaf un grymus o'm gweision,
 Pan flinir y genedl â thrais ei gelynion;
 Ei fraich wnaf yn gadarn i ddryllio llu Midian,
 A chleddyf yr Arglwydd y gwna eu cyflafan.
 Pan gyrhaedd eu gwerysll yn ddystaw, ddirybudd,
 Tro'nt bawb eu cleddyfau yn erbyn eu gilydd.

“Bydd Abelmeholah yn llawn o'u celanedd,
 A'u miloedd difywyd o'i hamgylech yn gorwedd,
 Fel crinddail yr Hydref, pan fyddo y gwyntoedd
 Yn gollwng eu ffoenau ar warau'r tymhestloedd.
 Ysgydwir hwy ymaith â chorwynt yr Arglwydd,
 I fraender a mallod, a distryw tragywydd:
 Ac agos yw Bezek, lle methrir byddinoedd
 Y beilch Ganaaneaid gan Israel a'u lluoedd.
 Gollyngdod a roddaf i angel marwolaeth,
 I arwain y genedl i faes buddugoliaeth.

“Deg mil yn y borau fel tònau ymchwyddant,
 Yn hir cyn y cyfnos fel tywod gorweddant;
 Y borau ymruthrant, fel eigion mewn berw,
 Cyn nôs, fel yr ewyn, yn oerllyd a marw
 Y gwelir yr arwyr yn feirwon lladdedig,
 A'u gwaed yn eu cuddio yn dolchion ceuledig.
 Y fonllef ddialgar yn angau ddystawa,
 Goleuni y llygad mewn dunos fachluda;
 Fel gwlyth ar y glaswellt yn mhoethwres yr haulwen,
 Y cyflym ddiflanant oddiar y ddaearen.

“Ger Môr y Gorllewin mae Carmel yn codi
 Ei dàlgrib freninol uwch ymchwydd y weilgi;
 Y tònau ymgurant yn erbyn ei wadnau,
 A'r gwres sydd yn deifio ei gallestr-ysgwyddau;
 Ond brithir ei goryn â gwyrddni llysieuol,
 A bythol anadla awelon adfywiol.
 Diysgog y safu mewn tegwech a dryc-hin,
 Fel gwyliwr gofalus, uwch môr y Gorllewin,
 I ddangos fod gallu uwch rhuad ei dònau,
 Mwy grymus na chedyrn ddinasoedd ei lànau.

“Ei dàlgraig ni syfla, er canfod cenedloedd
 Yn dechreu a darfod ar rêd-gylch yr oesoedd;
 Cwyd grymus deyrnasoedd goris ei olygon,
 Nes gwneuthur eu harfau yn ddychryn i ddynion.
 Wrth adlais eu henwau y cryna ynnysoedd,
 Fel deilen ddinodded yn ymgyrch y gwyntoedd;
 Ond Carmel a’u gwylia, heb arswyd na deigryn,
 Yn toddi i anghof, fel cwmwl o ewyn
 A gyfyd o’r tònau o gylch ei waelodion,
 Pan ddeffry y gwyntoedd gynddaredd yr eigion.

“Mewn oesoedd i ddyfod amlygaf fy mawredd,
 A’m gallu ddangosaf i Israel o’i ben,
 Pan syrthiont oddiwrthyf i ddilyn anwiredd,
 A gwneuthur drygioni heb gysgod na llen.
 Pan rodio eu brenin yn ffordd y cenedloedd,
 Yn mhellach nag ereill o’u heuog freninoedd,
 Mi gosbaf â ffrewyll eu hyfion weithredoedd,
 Ataliaf wlawogydd a gwllithoedd y nen,
 Nes byddo’r wlad i gyd yn dōnen ddiffrwyth, gras,
 Heb fywiol ffrydiau dwfr, na hawddgar lanerch lās.

“Y nef fel glöew ddur a wnafr goruwch y frô,
 A chosbaf hwy â thês, rho’f ar y cwmwl glô,
 Nes byddo newyn tōst yn rhodio drwy y tir,
 A’u duwiau uchel-fōst, yn eu cyfyngder hir,
 Heb ateb cōyn na chais gyfeirir atynt hwy,
 Mewn gostyngedig lais, am gael ymwarded mwy,
 O’u ffafr i’r euog wlad, fydd, gan y deifiol dês,
 A’i daear megys craig, a’i nefoedd fel y prês;
 Cyfiawnder, ar ei ben, weinydda uniawn dâl
 I holl broffwydi’r llwyn, ac euog weision Baal.

“Cyfodaf ŵr o nerth yn broffwyd yn eu mysg,
 Eneiniaf ef i’m gwaith, rho’f iddo ddwyfol ddysg.
 Cyhoeddi wna fy ngwae uwchben pechodau’r oes,
 Ceryddu wna yn hyf y genedl ddrwg ei moes.
 Anfonaf ef i’r llÿs i draethu gair fy nîg,
 Ac, er peryglon fyrdd, o fewn fy llaw y trig;
 I’r cigfrain rhoddaf arch, am ddwyn ei ymborth ef,
 A’m gofal drosto fydd fel cysgod tarian gref,
 Nes dengys ef i’r wlad, yn nyfnaf awr ei chri,
 Nad oes un duw yn bod, nac arglwydd, ond Myfi.

“Ar Carmel cyferfydd â’r cànnoedd proffwydi
 Arweiniant y genedl i blygu i Baal,
 Mewn temlau eilunod ar fryniau a llwyni,
 A’u heuog hudoliaeth fel corwynt a chw al;
 Cyfodir dwy allor ar gopa y mynydd,

Eu lleoedd a'u hebyrth a wneir ar wahân,
 Ac Israel ymrwymant i dderbyn yr arwydd,
 Mai Duw fydd yr hwn a atebo drwy dân;
 Os Baal wrth ei alw a enfyn ei fflamau
 I ddifa yr aberth, efe fydd eu llyw;
 Os marwor Jehofah a'i gesyd i gyneu,
 Mewn arswyd addefant mai'r Arglwydd sydd Dduw.

“ Y prawf a gynelir yn ngolwg y llwythau,
 Proffwydi yr eilun fydd uchel eu cri;
 Er briwio eu hunain, a gwaeddi am oriau,
 Ni enfyn wreichionen i brofi ei fri:
 Ond pan y crybwyllir am enw Jehofah,
 Y nefoedd ymegyr, a cholofn o dân
 Ar allor ac aberth yn wenfflam ddisgyna,
 A'r dyfroedd o'u hamgylch a leibia yn lân.
 Try Israel mewn dychryn oddiwrth eu heilunod,
 Y llwyni adawant mewn arswyd a syndod,
 Ac ataf dychwelant i chwilio am gymod,
 A'u delwau faluriant yn fawr ac yn fân;
 A thafant hwy ymaith i'r wadd a'r ystlymod,
 A lleddir ar unwaith broffwydi'r eilunod;
 Jehofah yn unig gaiff ganddynt ufudd-dod,
 A'i fawredd ddyrchafant mewn gweddi a chân.

“ Rhan Ephraim yn nesaf a genfydd dy lygaid,
 Yn firwythlawn, daionus, a hyfryd ei gwedd;
 Y tir lle bugeiliai y tadau eu defaid,
 A'r tir lle mathrasant ar gariad a hedd,
 Wrth werthu yn gaethwas, i'r gwylltion Ismaeliaid,
 Y brawd oedd yn hoffus anwylyd ei dad;
 Ond mi a edrychais ar burdeb ei enaid,
 A'r fangre benodir yn feddiant i'w hâd.
 Er myned o hono mewn rhwymau yn gaethwas,
 Ei epil ddychwelant mewn mawredd ac urddas,
 A byddant yn gedyrn golofnau i'r deyrnas,
 Hir iawn yr arosant yn addurn y wlad;
 A'm harch a arosa am oesau yn Silo,
 Lle gyraf gerubiaid tanbeidiol i'w gwyllo.

“ Porfäoedd glÿn Saron sydd feillion a blodau,
 Nes ydyw'r awelon o'u sawyr yn llawn;
 Gwasgerir eu mwynder gan awel y borau,
 A'u purdeb gan chwäon adfywiol prydawn.
 Ei winwydd estynant eu meinion ysbrigau,
 Addurnant y muriau amgylchant yr ardd;
 Ymnyddant yn droellawg eu tyner ganghenau,
 Cofleddiant y prenau'n garuaidd a hardd.

Ar freichiau cyfeillgar y dodant eu pwysau,
 Er sugno o'r awyr ireidd-der eu blodau,
 A dangos i'r awel brydferthwch eu ffrwythau,
 A hithau gusana ei thegwch, a chwardd.

• “Trwy erddi rhosynawg yr araf ymdeithia,
 Sy'n dwynau amryliw o goch ac o wÿn;
 Ar lili y dyffryn y serchus amneidia,
 A'r milfil o flodau dryfrithant y glÿn.
 O erddi perlaysiau mae'r frodir yn gyflawn,
 Ceir olew a ffigys ar lechwedd a bron;
 Y palmwydd cangenawg sydd gysgod ar boethnawn,
 I wneud y lluddedig yn siriol a llon.
 Yn nherfyn tir Ephraim gwna Josua drigo,
 Ac yno y gorphwys ei lwch pan yr huno,
 Yn mynwes y creigiau, nes gelwir i ddeffro
 Farwolion yr oesau o'r ddaear a'r dòn.

“Gwel eto fynyddoedd y felldith a'r fendith
 Yn dyrchu eu cribau uwch gwastad y wlad;
 Yn gwisgo Gerizim mae blodau yn dewfrith,
 Ond Ebal sydd alltud, heb wisgoedd ei Dad.
 Mor wyrdd a'r bendithion o'i lethrau gyhoeddir
 Yw mynydd Gerizim o'i waelod i'w ben;
 Mor noethlwm a'r erchyll felldithion adroddir
 Ar Ebal yw yntau is gwywdod fel llen.
 Bydd un yn ddangosiad o dyner fendithion,
 A'r llall megys colofn frawychus i ddynion,
 I'w cadw rhag rhodio yn ffyrdd y melldithion,
 A'u harwain i deithio ar lwybrau y Nen.

“Mynyddoedd tir Ephraim sy'n uchel ymgodi,
 Yn nerth eu cadernid, uwch doldir a glÿn;
 A'r copa uchelaf o honynt a weli,
 Sydd safle i weithred ryfeddol a syn;—
 O'i ben y dangosir i'r Proffwyd dyfodol
 Deyrnasoedd y ddaear a'u hurddas breninol,
 Ac iddo cynygir y cyfan yn siriol,
 Ond iddo addoli, ar aelgerth y bryn,
 Yr angel syrthiedig sydd elyn i'r Duwdod,
 Yr ysbryd a demtiodd ddynoliaeth i bechod;
 Y twyll a'r hudoliaeth wna yntau eu gwrthod,
 A'r temtiwr yn ngwyddfod ei burdeb a gryn.

“Rhwng Ephraim a'r Deau a Môr y Gorllewin
 Derbynia llwyth Juda yn gyntaf eu rhan;
 Ond gan ei äangder adranant ef gwed'yn
 Rhwng Benjamin fychan, Simeon, a Dan.
 Nid oes etifeddiaeth mwy hoff a dymunol,
 Ei meusydd lifeiriant o laeth ac o win;

Y gwinoedd i'r llygaid rydd gochni iachusol,
 Fel llaeth bydd y danedd, fel cwrel y mân.
 Yn nghanol ei frodyr bydd Juda yn gadarn,
 Tra pery heb osod fy neddfau yn wasarn.

“Ar fin y môr eithaf bydd Dan yn trigianu,
 Y fro sydd yn noddfa'r Philistiaid yn awr;
 Man ydyw lle dysgir yr ethnig i grynu,
 A theimlo fod gallu Jehofah yn fawr.
 Un adeg, pan lithra plant Israel i bechod,
 O Silo i'r gwersyll y dygant fy Arch;
 Ond er y cynwysa holl eiriau'r cyfamod,
 Bydd ddinerth i'w hachub a gwrando eu harch.
 O flaen y Philistiaid eu milwyr a syrthiant,
 A'r Arch, yn eu hencil, i'r gelyn adawant.

“Llu'r dienwaededig yn uchel a floeddiant,
 Mewn cân a gorfoledd i Asdod ei dygant;
 A banllef a bloddest, yn nwyfiant eu calon,
 Fy Arch a osodant yn nhŷ eu duw Dagon.
 Ond erbyn y boreu ceir Dagon yn gorwedd
 O'i blaen mewn iselder, heb barch nac anrhydedd.
 O'r llwch ei cymerant, ac eilwaith fe'i codir
 I'w orsaf arferol;—ond dranoeth canfyddir
 Fod Dagon yn ddelw ddiallu a drylliog,—
 Ei ben wedi tori yn erbyn y rhiniog!
 Heb allu i achub ei hunan rhag syrthio,
 Heb nerth na chyfander i'w gadw rhag dryllio,
 Heb ddeall i ganfod na gochel peryglon,
 Heb olwg mewn llygad na theimlad mewn calon,
 Heb ffûn yn ei enau na gair ar ei dafod,
 I adrodd i'w ynfyd addolwyr ei drallod.
 Gorwedda mewn gwarthrudd yn eilun drylliedig
 Yn nghanol gruddfanau y dienwaededig;
 A bydd, megys yntau, y genedl annedwydd
 Yn syrthio yn ddinerth dan ffrewyll yr Arglwydd.

“Am herio fy mawredd rho'f gerydd ar Asdod,
 A daw ei phreswylwyr i glefyd a thrallod;
 Yr Arch o'u terfynau a brysur anfonant,
 I Gath, yn eu dychryn, yn gyflym ei dygant;
 Ond yno tarawaf y mawrion a'r bychain
 A chlefyd dirboenus, nes iddynt ddolefain
 Am anfon o'u goror y gwrthddrych echrslon,
 A'r Arch a gymerir oddiyno i Ecron;
 Ond rhag ei dyfodiad y gwaedda'r Ecroniaid,
 A chasglant i gyngor arglwyddi'r Philistiaid;

“Ac iddynt mynegant y dinystr angeuol
 A rodia y ddinas, fel angel difäol;

A hwythau gan arswyd ei gleddyf darewir,
 A'r Arch i dir Israel yn ol a ddanfonir.
 Cyrhaedda Bethsemes yn nyddiau'r cynhauaf,
 Ac yno y dyrfa ryfygus darawaf,
 Am iddynt anturio, mewn balchder a drygchwant,
 I edrych i gafell fy sanctaidd ogoniant,
 Nes anfon o honynt yr Urim a'r Thummim,
 Mewn arswyd a galar, i Giriath-jearim.

“ Goris y bryn yna mae dyffryn Ajálon,
 Ac yno y gwelir rhyfeddol arwyddion;
 Pan syrthia'r cenedloedd yn ymyl Gibeon,
 Erlidir eu lluoedd hyd fynydd Beth-horon;
 Y Nefoedd a'u difa â chenllysg bras, trymion,
 Nes syrthio o'u miloedd yn ddrylliog a meirwon;
 A Josua waedda, 'O haul, uwch Gibeon,
 A thithau, O leuad, yn Nyffryn Ajálon,
 Aroschwch yn llonydd o fewn yr entrychion,
 Nes dial o'r genedl ar waedlyd elynion !’

“ Yr haul a arosa yn nghanol y nefoedd,
 Ni fachlud y lleuad, fel teimlo'r cenedloedd
 Y gwrendy Jehofah ar weddi ei weision,
 Pan fyddont yn erlid ar ol ei elynion.
 O flaen ei ddialedd oferedd yw cryfder,
 Ynfydrwydd i'r ddaear yw beiddio'r Uchelder.
 Trwy Dan y dangosir gogoniant fy ngallu,
 A dychryn fy Enw wna danbaid lewyrchu;
 A'm mawredd adwaenir trwy randir Simeon,
 Sydd acw yn ymestyn i'r isaf eithafion.
 Yn Gaza a Gerah, hyd waelod Beersheba,
 Gan arswyd fy mawredd fy ngelyn a gryna;
 Ei gamrau arafant ar lènydd y Sihor,
 Gan ddychryn ni feiddia ei chroesi i'm goror.

“ Gwel eto ran Juda yn cyrhaedd o'r Deau,
 Llinellir ei ganol â chadwen o fryniau.
 Yn ochr y Gorllewin mae Debir a Lachish,
 Lle profir fy nigder gan elyn cabledus.
 Un hwyr yr ymffrostia mewn rhyfyg a chabledd,
 Ond erbyn y borau yn angau y gorwedd
 Ei luoedd rhyfelgar, heb udgorn yn swnio,
 Na baner mewn awel yn balchaid ymchwifio;
 Y gwersyll a deflir i hir-gwsg tragwydd,
 Pan arno'r anadlir gan angel yr Arglwydd.

“ Ar ymyl ddwyreiniol y bryniau mae Hebron,
 Lle cadwaf eneiniog o law ei elynion.
 Goruwch iddi'n sefyll mae Bethlehem Juda—
 Lle bychan, anenwog, yn awr yr edrycha;

Ond gwisgir ei hanes gan amgen gogoniant
 Na'r trefydd gan berlau a marmor ddysgleiriant;
 Ar lasfryn hyfrydol yn nghanol gwinllanoedd,
 Y derbyn o wenau serchocaf y nefoedd.
 Bydd amllder daionus ei ffrwythau daearol
 Yn arwydd i'r oesau o drysor mwy nefol,
 Dderbynir un noswaith o fewn ei therfynau,
 Pan chwery angylion anfarwol anthemau.

“ O honi daw allan y Cadarn Eneiniog,
 Gwir natur a delw y Duw Hollalluog,
 I wneud yn rhagorach i lwythau y ddaear
 Na'u dwyn o gaethiwed i diroedd mor hawddgar,
 Y rhai wyf yn Nghanaan i Israel yn roddi.
 Efe a'u harweinia o ddyfnder trueni,
 Trwy stormydd a phoenau eu gyrfa ddaearol,
 I ddedwydd ardaloedd y Ganaan dragwyddol.
 Efe fydd y Proffwyd galluog gyfodir,
 Ac yna y deddfau dderbyniaist ddiddymir.
 O wyddfod yr *ysbryd* y cilia y *ddefod*,
 Yn ymyl y *Sylwedd* diflana y *cysgod*;
 Darfydda pob angen am lusern ddaearol
 Yn nysglaer danbeidrwydd Goleuni ysbrydol,
 Fel lleuad a sêr yn ymgilio o'r wybren
 Rhag llewyrch gorchfygol esgyniad yr heulwen.

“ Ar derfyn Judea gwel fryniau Jebusi,
 Bydd yno brif-ddinas ardderchog i mi;
 'Mhen oesoedd bydd Salem i'w huchel goroni,
 A'i theml fydd anrhydedd y ddaear a'i bri.
 Ar Sion ac Acrah, Bezetha, Moriah,
 Cwyd dinas gref, gaerog, i'r cwmwl ei phen;
 Ond gloewach na'r marmor o'i muriau ddysgleiria,
 Fydd purdeb goleuni llewyrchol y Nen,
 Pan daflo ei belydr o bryd y Shecinah,
 Yn nghafell y cysegr ar fynydd Moriah.

“ Fel adail gyfaredd, uwch dyfais marwolion,
 Y deml a ymgyfyd yn gyflym a hardd;
 Ni chlywir o'i hamgylch drwst morthwyl na chynion,
 Ond fel gweledigaeth o'r ddaear y tardd:
 Y ddaear gyfrana y meini prydferthaf,
 Ac enfyn y goedwig y tecaf o'r coed;
 O'i mewn y pelydra gan rudd-aur o'r coethaf
 A ddygwyd yn addurn i gysegr erioed.

“ Yr eigion a enfyn o'i gelloedd cuddiedig
 Y gemau rhagoraf yn addurn i hon;
 A dygir goreuon y gwledydd pellenig,
 Yn aur ac yn berlau, ar fynwes y dôn;

Teyrnasoedd y ddaear o'u cyfoeth gyfranant,
 I gysegr Jehofah eu teyrnged a dalant;
 Eu hebyrth a ddygir i'r Duw nad adwaenant,
 O afon a mynydd a dyffryn a bron;
 Nes bydd yr adeilad ysblenydd a llachar
 Yn hoffder y Nef a gogoniant y ddaear.

“O'i mewn y bydd trigle y tanbaid Shecinah,
 O'i chyntedd yr esgyn ymbiliau a chân;
 Y dwyfol oleuni ei chysegr a lanwa,
 Ni bydd ei hallorau heb ebyrth a thân.
 O'i mewn gan orwychder ei haur y pelydra,
 Ac arogl pêr ebyrth gwastadol a'i pura;
 Odd allan ei marmor serenawg ddysgleiria
 Is heulawg belydrau aneirif a mân,
 Nes rhoddi i ddynion ryw awgrym am wychder
 Y Ddinas sydd uchod i feibion cyfiawnder.

“Ond dros Jerusalem yn fynych ymdaena
 Cymylau o'r duaf, nes gwneuthur ei dydd
 Yn dywyll a niwlog am wrthod Jehofah,
 Ar lawen uchelwyl yn drymllyd a phrudd.
 Ysbeilir y ddinas yn aml o'i gogoniant,
 Yn mloddest rhyfelwyr dystawa ei moliant,
 Wylofus ddolefau o honi esgynant,
 I newyn a heintiau yn fwyniant y bydd;
 Ei phyrth yn dramwyfa i'r anwar genedloedd,
 A'i thynged yn ddychryn i'r ddaear am oesoedd.

“O'i hamgylch cyflawnir rhyfeddol weithredoedd,
 Ar wyneb y ddaear ni welir eu hail;
 Er codi o'i thyrau yn aml hyd y nefoedd,
 Yn amlach yn uffern y gesyd ei sail:
 Er bod yn breswylfa weledig y Duwdod,
 Ni cheidw reolau y dwyfol gyfamod,
 A'r genedl a dröant at dwyll ac eilunod,
 Fel defaid gwrthnysig y crwydrant o'r gail;
 Ac er yn awyddus am lais proffwydoliaeth,
 Hwyr roddant broffwydi y Nef i farwolaeth.

“Er cyngor a cherydd gwrthodant ddiwygio,
 Eu llwybrau eu hunain a garant o hyd,
 A dyfnach mewn camwedd y mynant ymsuddo,
 Defodau a rhagrith a lanwant eu bryd,
 Fel, pan yr ymddengys y dwyfol Eneiniog,
 Y cyndyn anghredant ei wyrthiau galluog,
 Ac yntau a laddant â dwylaw llofruddiog,
 Rhyfygus groeshoeliant Adferwr y byd,
 Nes llenwi o honynt â ffrwyth eu hanwiredd,
 Hyd at yr ymylau eu cwpan dialedd.

“Rhan Benjamin fychan sydd uchod i'r Gogledd,
 Ac mewn diogelwch yn dawel y trig;
 Dan gysgod yr Arglwydd, wrth godi a gorwedd,
 Y treulia ei ddyddiau, heb gynhwrf na dig.
 Pan groeso y gwerysll yr afon i Ganaan,
 Ei randir a syrthia yn gyntaf i'w law.
 Ti weli hardd ddinas y palmwydd, sydd weithian
 A'i muriau mor gedyrn, heb argoel am fraw;
 Ond hona a syrthia i'r ddaear un diwrnod,
 Pan chwytho'r offeiriaid mewn saith o gyrn hyrddod.

“Ei syrthiad frawycha holl lwythau'r cenedloedd,
 Mewn dychryn a digder ymgasglant i'r gâd;
 Ond ofer fydd iddynt ymdrechu â'r lluoedd,
 Y rhai a addewais eu harwain i'r wlad;
 Syrth dinas ar ddinas yn gyflym i'w meddiant,
 Nes bydd yn eu dwylaw ddaioni y tir;
 O Dan hyd Beersheba mewn llawnder y trigant,
 A'r Lefiaid a ddysgant fy neddfau yn hir;
 Y Gyfraith i Israel drwy Ganaan fynegant,
 Ac ar fy allorau yr ebyrth offrymant.

“Yn awr y cyflawnais yn llwyr fy addewid,
 Y wlad a ddangosais yn gyflawn i ti;
 Na lanwer dy galon gan dristwch a gofid,
 Am nad wyt i arwain fy mhobl iddi hi.
 Dy yrfa lafurus yn awr a ddybenaist,
 A thaith yr anialwch peryglus orphenaist,
 A'th orchwyl er moliant fy Enw gyflawnaist,
 A chywir a ffyddlon y buost i mi;
 Am hyny boddlona i adael y ddaear,
 Ac esgyn i drigfa fwy dedwydd a hawddgar.”

II. YN HANESOL A GORUCHWYLIAETHOL.

“Yr ydwyf yn foddlon, O Arglwydd fy Nuw!
 Gwell genyf yw dyfod i'th wyddfod na byw;
 Trugarog a graslawn y buost i mi,
 Yn mhob cyfyngderau gwrandewaist fy nghri.
 Ond, Arglwydd, mynegaist am ddystryw yn wir
 Ysguba fel diluw y genedl o'r tir;
 O Arglwydd, na rodder dy Enw dan garn
 Cenedloedd y ddaear, i'w wneuthur yn sarn!
 Ond cofia drugaredd, er cymaint eu drwg,
 Llewyrched dy gariad yn gymysg â'th wêg.”

“Bydd dawel, fy nghyngor a weithir i ben,
 Nid erys fy Enw na'm mawredd dan len;
 O ffrwyth ei weithredoedd y telir i ddyn,
 Os cilia o'm deddfau i'w lwybrau ei hun.

Rhoir Israel mewn meddiant o degwch y byd,
 Ond pan y gosodant ar gamwedd eu bryd,
 Myfi nid arbedaf—ceryddaf eu bai,
 Cyfiawnder a wahardd im' wneuthur yn llai;
 Gan fod eu goleuni a'u mantais yn fwy,
 Mwy haeddol o gerydd eu pechod gwna hwy.

“Eu gwlad sydd o foddion cynaliaeth yn llawn,
 Mewn mynydd a dyffryn y cyfan sydd iawn;
 Nid hawdd i elypon fo'n gryfach na hwy
 Eu blino â lluoedd, o herwydd mai drwy
 Gufylchau mynyddig rhaid d'od iddi hi,
 A hawdd fydd eu cadw heb lawer o ri'.
 Ni bydd profedigaeth i neb yn y wlad
 Yn erbyn ei genedl gyfodi mewn brâd;
 Ni bydd tiriogaethau mor helaeth i'w cael,
 Fel gallo y cadarn orthrymu y gwael.

“Nid all y cyfoethog mwy lygru y tlawd,
 Ni bydd ond ychydig yn isel eu ffawd;
 I fyw mewn gorwychedd eu modd fydd ry fach,
 Ond clyd fydd eu pebyll, a'u hymborth fydd iach.
 Bydd teg gydraddoldeb i'w gael yn mhob man,
 Fel na bydd orthrymwr i lethu y gwan.
 Ca pawb etifeddiaeth, ni welir un brawd
 Yn meddu rhan arall; ond, megys un cnawd,
 Bydd gydradd eu meddiant o fwyniant y wlad;
 Cânt weled dedwyddwch a heddwch i'w had.

“Ond, er fy naioni i'w tadau a hwy,
 Fy neddfau ni chadwant, ymlygrant yn fwy;
 Ymgodant i'm herbyn ar ol eu mwynhad
 O gnydau toreithiog a brasder y wlad.
 Ar dduwiau'r cenedloedd y galwant yn hy',
 A gwarthus ymgrymant i'r nefoedd a'i llu;
 Eu Craig a anghofiant, ni ddaliant ar Dduw,
 Eu plant a aberthant, a losgant yn fyw!
 Nes iddynt, wrth deimlo fy nial a'm gŵg,
 Ffieiddio 'mhen oesoedd weithredoedd mor ddrwg.

“Un tymor fy neddfau a gadwant yn iawn,
 A chwpan eu cysur a welir yn llawn;
 Ond eilwaith Jeshurun ymdeimla yn fras,
 I'm herbyn ymchwydda a gwinga y gwas.
 Ni wrendy ar broffwyd, ni chwilia am farn,
 Ond gesyd fy neddfau i'w sodlau yn sarn,
 Nes dygaf estroniaid yn ffrewyll fy nig,
 I erchyll anrheithio y fangre y trig;
 Ac yna dychwela yn athrist ei lef,
 Dan gerdded ac wylo am ddigio y Nef.

“ O’r diwedd ni fynant eu llywio gan Dduw,
 Am frenin y gwaeddant, i’w osod yn llyw;
 Bydd ofer eu cymhell i adael i mi
 Lywyddu eu lluoedd, fel bu’m gyda thi.
 Hwyl fynant gael brenin, a brenin a gânt,
 Ond gweled yn fuan eu ffoledd a wnant;
 Am wared o hono dyrchafant eu llais,
 Ond mi ni wrandawaf, bydd ofer eu cais;
 Cânt weled mai ofer ymddiried mewn dyn,
 Ar ol iddynt adael Jehofah ei hun.

“ Pan seilier eu gorsedd, a’i gosod yn gref,
 Gan ddau o ddewisiad diwyriad y Nef,
 Pan gyrhaedd eu mawredd o’r afon i’r môr,
 Yn fuan anghofiant pwy ydyw eu Hior.
 Eu teyrnas ymrwyga, ymddarnia yn ddwy,
 A’r rhwyg nid adferir, waeth, waeth, yrânt hwy;
 Deg llwyth a wrthgiliant, halogant y fro,
 Yn dduw eu mynyddoedd a’u lluoedd bydd llo!
 Allorau cythreuliaid, ar gopa pob twyn,
 Ddyrchafant eu fflamau is cangau y llwyn.

“ Fel hyn am ganrifoedd cynyddant mewn drwg,
 Er teimlo o’i herwydd yn fynych fy ngŵg;
 Nes cyneu o’r diwedd fy nigder fel tân,
 A’u hysu o Juda ac Israel yn lân.
 Caethgludir hwy ymaith i Babel, wlad bell,
 Er iddynt gael dysgu fy mharchu yn well;
 At dduwiau’r cenedloedd a garent mor fawr,
 Y dwg eu gelynion hwy’n gaethion yn awr.
 Dwys iawn y gofidiant, a cheisiant eu gwlad,
 Fel plentyn yn wylo am aelwyd ei dad.

“ Saith deg o flynyddoedd ymdreiglant i ben,
 Ac yna eu llefau cyfodant i’r Nen;
 Datodir eu rhwymau, a deuant i’r tir,
 O’r hwn y buasant alltudion mor hir.
 Teml arall gyfodant, ond ni bydd yr ail
 Yn debyg i’r gyntaf mewn adail na sail;
 Er hyny derbynia fwy urddas a bri,
 Y Proffwyd dyfodol ymwela â hi;
 Ond hwy a wrthodant ei dderbyn yn Llyw,
 Gwell ganddynt fydd amod â dyndod na Duw.

“ Pan welant Ddysgwyliad yr oesoedd yn dyfod,
 Oddiwrtho y tröant, prysurant i’w wrthod;
 Yr un fydd eu hanian, a’r un eu hymddygiad,
 A’r hyn a ganfyddaist yn ystod eu dygiad
 O wlad y caethiwed trwy’r anial hyd yna,
 Eu cyndyn rwgnachrwydd yn erbyn Jehofah.

Mor uchel eu cwynfan! mor daer oedd eu gweddi,
 Dan ffrewyll yr Aiffiaid yn ngwaith y priddfeini!
 Ond pan y datodais eu tynion gadwynau,
 Dywedent dy fod yn eu harwain i angau!

“ Pan iddynt y rhoddais yn drigle ymwarded
 Y wlad cefaist heddyw â'th lygaid ei gweled,
 Er canfod ei ffirwythau toreithiog, danteithiol,
 Ni fynent eu harwain i'r breswyl ddewisol;
 A'u hesgyrn adawyd i wynu'r anialwch,
 Yn gofion rhybuddiol o'u hanniolchgarwch.
 Tydi ni wrandawent, pan darfum dy anfon
 I'w dwyn o gaethiwed gorthrymus yr estron,
 Er imi dy osod yn flaenor eu lluoedd,
 A'th wisgo âg ysbryd a nerthoedd y Nefoedd.

“ Ar ol dy symudiad, dy eiriau ni chofiant,
 Ond mynych at feirwon eilunod y tröant,
 Nes cospi o honof y genedl wargaled,
 A'u hanfon i wylo yn ngwlad y caethiwed;
 Ac yno y gwywant mewn gwarthrudd a dirmyg,
 A'u mudion delynau ar gangau yr helyg.
 Heb wynfyd i'w calon na chân yn eu genau,
 A ffrydlif Euphrates cymysgant eu dagrau,
 Nes dyfod o'r amser nodedig i'w cofio,
 A'u harwain i Ganaan yn ol i breswyllo.

“ Nid hir ar ol hyny yn nhreigliad yr oesau
 Y pery awdurdod y deddfol gysgodau,
 Y rhai y gorch'mynais i ti eu sefydlu;
 Daw'r amser o amgylch i'w hollol ddiddymu.
 Y Proffwyd addawyd i'w dysgu ymddengys,
 A nerth yn ei lygad a gras ar ei wefus;
 Ac er y gwrandawa'r tymhestlog elfenau,
 Gan brysur glustfeinio ar awgrym o'i enau,
 Hwyl am ei weithredoedd rhyfeddol a wawdiant,
 A'i ddwyfol ddysgeidiaeth ryfygus anghredant.

“ Er maint eu dysgwyliad am rymus Eneiniog,
 Efe a gymerant, a barnant yn euog
 O fathru mewn dirmyg tydi a'r proffwydi,
 Am iddo eich holl addewidion gyflawni;
 A'i waed a dywalltant, a chaur y Nefoedd
 Rhag derbyn eu gweddi o fewn ei chynteddoedd.
 Gollyngaf ar unwaith fy ngafael o honynt,
 Fel llongau diangor yn ngwyneb y corwynt,
 Yn ebyrth diarbed dialgar elfenau,
 A ruthrant o loches ystormydd yr oesau.

“ Eu henw osodaf yn felldith cenedloedd,
 Yn rhêg a chwibianiad i ddynion am oesoedd;
 Yn wreiddyn a changen o Ganaan eu bwrrir,
 A chorwynt digofaint yn grwydriaid eu gyrir,
 Heb deml ac heb allor, heb lewyrch Shecinah,
 Yn wibiaid llawruddiog o wyddfod Jehofah.
 Ac er y chwenycha eu henaid farwolaeth,
 Eu hawydd omeddir gan ddwyfol reolaeth;
 Caethiwed na rhyfel ni wnant eu dyfetha,
 Gwyrth oesol o’u hamgylch i farn a’u harbeda.”

“ Trugaredd, O Arglwydd!—trugaredd i’r llwythau,
 Fu’n bobl dy ofal am gymaint o oesau!
 Ac er mai priodol yw cospi anwiredd,
 Na chospa dy eiddo â phoethni’th gynddaredd.”

“ Trugaredd o’u cospi a leinw y ddaear,
 Nes gwneuthur yr anial yn brydferth a hawddgar.
 Er gwneuthur holl Ganaan yn anrhaith dychrynlyd,
 Ymbortha’r cenedloedd ar ffrwythau y bywyd;
 Er gwneud y wlad yna yn llom-anghyfanedd,
 Addurnir y ddaear â blodau tangnefedd.

“ Breniniaeth Messïah a raddol ymestyn,
 Nes gwisgo y mynydd â blagur y dyffryn;
 A’m Hysbryd dywelltir ar lwythau’r cenedloedd,
 Nes, megys y tōa y dyfroedd y moroedd,
 Y llenwir y ddaear gan ddwyfol ogoniant;
 Ac yna hâd Jacob eu camwedd alarant,
 A minau faddeuaf yn rhad eu hanwiredd,
 Gan ddangos Cyfiawnder yn un â Thrugaredd;
 Tŷ Israel adferir, a mawl y cenedloedd
 Gymysgir â llonaf anthemau y Nefoedd.

“ Ac eilwaith eu hen olew-wydden flagura,
 A’i dail fydd yn addurn i orsedd Messïah;
 Ail urddir Lebànon â llwyni o gedrwydd,
 Sain hyfryd peroriaeth a dŷr y dystawrwydd,
 Fu’n hir yn teyrnasu o amgylch glan Cedron;
 A’u llwynau adseiniant felusaf acenion,
 Er cof am y dagrau rhyfeddol dywalltwyd
 Y noson arteithiol, pan euog fradychwyd
 Y Brenin Messïah i ddwylaw anwiriaid,
 Pan chwysodd y rhuddwaed yn nhristwch ei enaid.

“ Rhosynau glŷn Saron wasgarant aroglau,
 A’r gwinwydd estynant eu llwythog gangenau,
 I gymhell i’w trinwyr oreuon eu ffrwythau,
 A’r tir fydd yn gyflawn o bob trugareddau.
 Y manau lle unwaith y canodd angylion
 A lenwir â mwynach ganiadau gan ddynion.

Er cymaint fu mawredd y temlau daearol,
Rhagorach gogoniant y deml ysbrydol;
Ei phyrth a adseiniant gan ddiolch a moliant,
Ac ynddi yr erys digwmwl ogoniant.

“Fel yna darperir y ddaear i'r Nefoedd,
Er uno pob mangre yn nghwmpas y bydoedd
Yn breswyl ysblenydd i wynfyd diddiwedd
A bythol hyfrydwch, yn ngwyddfod y Mawredd;—
Fel yna newidir y cysgod yn sylwedd,
Yn ngraddoi ddadblygiad bwriadau Trugaredd;—
Fel hyn y newidir yr hyn sydd ddaearol,
I wychach gogoniant gwrthrychau ysbrydol;—
Fel hyn yr wyt tithau yn awr i ymddatod,
A dyfod i drigo am byth yn fy ngwyddfod.”

“Mor raslawn, O Arglwydd, yw'th fythol fwriadau!
Yn awr y canfyddaf mor uniawn yw'th lwybrau!
O'r dechreu anfeidrol rhagwelaist y diwedd,
A'th farnau dymherir â dwyfol drugaredd;
Dy gyngor a guddi yn eigion y dyfnder,
Er hyny llewyrcha pelydrau cyfiawnder,
I ddangos mai'r gallu reola'r cenedloedd
Yw'r Duw sydd yn eistedd ar orsedd y Nefoedd.
I'th Enw, O Arglwydd, pa ddiolch a dalaf?
Dy holl drugareddau byth, byth ni fynegaf!

“A chalonnau a genau dy Enw glodforaf,
Ac yma yn mreichiau dy gariad yr hunaf—
Pa dônau a glywaf?—
Peroriaeth angylion?—
Pa olwg a welaf?—
Ai myrdd o ysbrydion?
Mae'm calon yn peidio
A churo yn rhagor;
Mae'r ddaear yn suddo,
A'r Nefoedd yn agor;
Mae f'anadl yn pallu—
A minau yn—marw,'

Heb deimlo fod angau yn boenus a chwerw.
Mae engyl yn canu eu hoffaf ganiadau,
Wrth iddynt gyflymu rhwng gosgordd o heuliau,
Ag enaid y proffwyd i'w nefol breswylfan,
A'i angladd gyflawnai Jehofah ei hunan.
Mewn llanerch na welir gan ddyn yn dragywydd,
Na llygad a'i hadwaen, ond llygad yr Arglwydd.

CAN ANERCH TYDFYLYN A BRONWEN.

UNWAITH eto deffro'm Hawen,
Ac ymdrecha ganu'n llawen;
Na fydd byth yn Awen trymder,
Taro weithian dânau mwynder.

Dwg fy anerch at TYDFYLYN,
Sydd yn gwenu ar ei blentyn;
Archa iddo roddi cusan
Hoff i'r fam, er mwyn y baban.

Dwg fy anerch at ei FRONWEN,
Sydd am eni merch yn llawen,
Ac yn barod i wneud unpeth
Dros y tad, er mwyn yr eneth.

Fy nghyfeillion, llawenychwech,
Heb anghofio diolchgarwch;
Cysur mawr yw gweled plentyn,
Un o'ch delw, yn eich dilyn.

Pan fo'r fam dan bwys gofalon,
Weithiau'n ddigon trist ei chalon,
Gwena'r plentyn bach yn hyfryd,
Nes y llwyr anghofia'i blinfyd.

Pan fo'r tad o'i daith yn dychwel,
Tua drws ei anedd dawel,

Llundain, Medi 3, 1851.

Hoffyw cwrddâ phlentyn serchog
I'w groesawu ar y rhiniog.

Nodded Iôr eich baban siriol,
Tra bo ar ei thaith ddaearol,
Nes ei gwneud yn hollol gymhwys
I'w buredig wen Baradwys.

Hawdd i ni yw ffurfio tybiau,
Beth a fydd yn mhen blyneddau;
Duw yn unig sydd yn gwybod
Beth all ddygwydd ei chyfarfod.

Gallwn ddeisyf oll yn ddiau
Iddi gael y doniau gorau,
Er nad oes a wêl ei gyrfa
Heblaw llygad y Jehofah.

Dysgwch iddi bob rhinweddau
Roddont fri i wlad ein tadau—
Pob arferion fyddo'n harddu,
Ac yn glod i ferched Cymru.

A gofalwch ei chysegre
I wasanaeth esmwyth Iesu;
Yna byth ni ddwg y gelyn,
Blentyn BRONWEN a THYDFYLYN.

CAN Y GLOWR.

“Glo, glo, glo!
Ofynir yn ddiball;
Glo, glo, glo!
Bob diwrnod fel y llall:
Glo, glo, glo,
Trwy gorff y flwyddyn hir,
Nes yw fy nerth, wrth dori glo,
Yn prysur wywo'n wir.

Glo, glo, glo!
I holl geginau'r wlad;
Glo, glo, glo!
I nofio llongau câd:
Glo, glo, glo!
I agerbeiriau'r byd;
Fe ddylid beunydd gofio 'i fod
I mi yn costio'n ddrud.

Glo, glo, glo!
Sy'n gwywo'm gruddiau i;
Ond aur a chysur ddwg y glo
Yn helaeth iawn i chwi:
Glo, glo, glo!
Sy'n cynar ddifa'm nerth,
Nes ydwyf bron, yn nghanol oed,
Yn weithiwr hen diwerth.

Glo, glo, glo!
Pan wyf yn wan a llwfr;
Glo, glo, glo!
Er gwaethaf tân a dwfr:
Glo, glo, glo!
Er holl gwympiadau'r nen;
A grwgnach wneir, os ceisir coed
I'w hatal ar fy mhen!

Glo, glo, glo!
 Er gwaethaf braw ac ofn,
 Rhag imi gael fy nghladdu'n fyw
 Yn nghrombil daear ddofn:
 Glo, glo, glo!
 O ganol awyr drwg,
 Fel pe na byddai'n ddim i mi
 Ei afiach, farwol fwg.

Glo, glo, glo!
 Pan y cymero dân,
 Nes llosgi'n fyw y glöwr tlawd,
 A'i chwythu'n ddarnau mân:
 "Glo, glo, glo!"
 Er hyn yw llef y llu,
 Heb neb yn dangos gofal dwys
 Am fywyd glöwr du!

Glo, glo, glo!
 Er pob dychrynlyd ffawd,
 Ac er mai cymysgedig yw
 A dynol waed a chnawd:
 Glo, glo, glo!
 Fel pe na bawn yn frawd;
 Ac eto'r Duw a'ch crëodd chwi
 Yw Tad y glöwr tlawd.

Glo, glo, glo!
 Wel, boddlon ydwyf fi;
 Ond cofiwch mai eich cysur chwi
 Yw'm hingawl angeu i:
 Rhy hir yr wyf yn bod
 Heb iachus awel dydd;
 Ac eto'r hûr nid yw ond bach,
 Er maint y llafur sydd.

Glo, glo, glo!
 Ond mynwech fod y gwaith
 Ynrhydd oddiwrth beryglon dwfr
 A'r tanlyd awyr llaith:
 O! muriwch ef uwchben,
 Rho'wch awyr iachus, cu;
 Meddyliwch beth am gysur corff
 Ac enaid glöwr dû.

Glo, glo, glo,
 Os felly gloddiaf fi;
 Glo, glo, glo,
 Fydd er eich elw chwi:
 Ni ddaw dialedd gwaed,
 I ddifa dim o'ch hedd,
 Am wneud i mi, wrth dori glo,
 Ar unwaith dori'm bedd!"

Chwefror 20fed, 1852, sef tri diwrnod cyn ei farwolaeth. Dyma felly waith barddonol diweddfaf Ieuan Gwynedd.

AMRYWION DIRWESTOL.

ENGLYNION I GYLCHWYL DDIRWESTOL GYNTAF DOLGELLAU,
 MAWRTH 27ain, 1837.

HAWDDAMAWR!—dirfawr dyrfa—is wybren!
 Llu sobrwydd sydd yma:
 Gwiwlon Ddirwestwyr Gwilia,
 Rhai mwynion, dewrion, a da.

Hyfrydawl wawl i frodir,—gorfoledd
 Gwir felus a deimlir;
 A gwiw addysg gyhoeddir,
 Tawelwch a heddwch hir.

Is wybren mawr lu sobrwydd—a fyddo
 Yn foddus a dedwydd;
 Llanwed ein llais y llwynydd,
 A'n cân yn fwynlan a fydd.

Trywaned ein llais trwy Wynedd,—un anian
 Enyned y Gogledd;
 Rheded mewn mawr anrhydedd,
 Trwy Walia ragora' gwedd.

PENILLION I GYLCHWYL DDIRWESTOL DOLGELLAU,
 TACHWEDD 7fed, 1837.

Holl deulu Dirwest cydnesewch,
 A de'wch i foli Duw;
 Molianwn Ef âg uchel floedd,
 Am ei weithredoedd gwiw.

Cydgan

Cydganwn oll am Ddirwest,
 Dirwest, Dirwest,
 Cydganwn oll am Ddirwest,
 Mewn gonest anthem gu,
 A'n lleisiau yma'n llu;
 Molianwn ni yr Arglwydd,
 Bob un am sobrwydd sy.

O! sobra Brydain, nefol Dad,
 A dwg ein gwlad yn glau,
 I ufuddhâu i'th ddeddfau di,
 I'w caru a'u mawrhâu:
 Cydganwn oll, &c.

BANER DIRWEST.

Mae'r faner yn y blaen,
 Dirwestiaeth ydyw hon;
 Y fasnach feddwol sy
 Yn crynu ger ei bron:
 Hi gwymp, hi gwymp, hi gwymp i lawr,
 Cawn wel'd y fuddugoliaeth fawr!

Lu dewrion Dirwest, de'wch
 Yn erbyn Babel fawr;
 Yn wrol cydnesawn,
 Ac ni a'i cawn i lawr:
 Hi gwymp, &c.

Mae caerau Jerico
 Yn mron a syrthio i lawr;
 Pan ddelo'r seithfed dro
 Y bydd dinystrio mawr:
 Hi gwymp, &c.

Y fasnach feddwol sydd
 Yn cilio'n gyflym iawn;
 A Dirwest gaiff y dydd,
 Cawn fuddugoliaeth lawn:
 Hi gwymp; &c.

Y fasnach feddwol gwymp,
 Fel Dagon, cyn bo hir;
 Fel Satan, syrth i lawr
 O'i mawredd yn y tir:
 Hi gwymp, &c.

BUDDUGOLIAETHAU DIRWEST.

Cawn wel'd yr oruchafiaeth, Cyn bo hir, &c.;
 Cawn waeddi "Buddugoliaeth!" Cyn bo hir, &c.;
 Daw Dirwest o'r anialwch,
 Yn fawr ei bri a'i harddwch,
 Rhyfeddol fydd ei thegwch, Cyn bo hir, &c.

Daw'r meddwon i'n Cymdeithas, Cyn bo hir, &c.;
 Hwy rodiant mwy yn addas, Cyn bo hir, &c.;
 Ceir clywed peraidd ganu,
 Fod llu yn cael eu gwynu,
 Trwy rasol waed yr Iesu, Cyn bo hir, &c.

At Ffynon Pen Calfaria, Cyn bo hir, &c.,
 Bydd myrdd yn gwneud eu cyrchfa, Cyn bo hir, &c.,
 O'r rhai fu gynt yn feddwon,
 Daw tyrfa fawr i Sion;
 Cânt wella eu harchollion, Cyn bo hir, &c.

Cawn ganu Haleluia, Cyn bo hir, &c.;
 A seinio pêr Hosanna, Cyn bo hir, &c.;
 Llais Dirwest wedi darfod
 Mewn canmol am y Cymod;
 Pa bryd y gwawria'r diwrnod? Cyn bo hir, &c.

Pwy welir, trwy gariad ein Duw,
 Yn agor carcharau ein gwlad?
 Ei golwg sydd hawddgar a gwiw,
 I'r meddwon mae'n rhoddi rhyddhâd:
 Mae'n dryllio cadwynau y ffol,
 Gadwynwyd gan angerdd ei chwant;
 Mae'n dychwel yr alltud yn ol,
 I drigo mewn hedd at y plant.

Mae'n dwyn yr afradlon drachefn
 I 'mofyn am gartref ei Dad;
 Adfera rai droisant eu cefn
 Ar felus ddanteithion eu gwlad:

Llifeiria trugaredd a hedd
 Yn ffrydiau dymunol a maith;
 Y gelyn echryslon ei wedd
 Sy'n nesu at derfyn ei daith.

Pelydrau pur Dirwest sy'n awr
 Yn ymlid y ddunos ar ffô;
 'R ol hirnos cyfododd y wawr,
 I hyfryd oleuo ein bro:
 Mae'r fasnach ofnadwy mewn gwaed
 Yn gyflym yn dyfod i lawr;
 Fe sethrir ei mawredd dan draed—
 Gogoniant am weled y wawr!

BYDDIN DIRWEST.

Byddin Dirwest sydd yn awr
 Yn wynebu'r frwydr fawr;
 Boed ei milwyr oll yn un
 Am ddyrchafu Mab y Dyn.

Pechod creulongyll y dydd,
 Caethion Medd'dod ddont yn rhydd;
 Llwy'r ddinystir Babel fawr,
 Er ei bri, hi gwymp i lawr.

Nac edrychwn byth yn ol—
 O na fydded neb mor ffol!
 Yn mlaen, yn mlaen, yn fyddin gref!
 Ymladdwn oll yn nerth y Nef!

Buddugoliaeth i ni ddaw,
 Gwelwn goncwest maes o law;
 Byddin Dirwest gaiff y dydd,
 Caethion Medd'dod ddont yn rhydd.

GWAHODDIAD AT DDIRWEST.

O deued pob gwladgarwr gwir,
 O fewn y tir, at Ddirwest!
 Doed pob crefyddwr, heb nacâd,
 Trwy'r wlad, i bleidio Dirwest:
 O de'wch bob graddau, de'wch yn awr!
 Mae galwad mawr gan Ddirwest;
 Yn erbyn Medd'dod de'wch i gyd,
 De'wch o un fryd at Ddirwest!
 Dirwest, mwyn Ddirwest,
 O deu'wch oll at Ddirwest!
 Teyrnased Sobrwydd yn ein plith,
 Diolchwn byth am Ddirwest!

Ymunwn oll yn dyrfa fawr,
 A down yn awr at Ddirwest;
 Cawn fuddugoliaeth cyn bo hir
 O blaid y Gwir a Dirwest;
 Fe lwyr alltudir Medd'dod cas
 O'r ddaear l s gan Ddirwest;
 Teyrnasa Sobrwydd yn ein plith,
 Bydd canu byth am Ddirwest:
 Dirwest, mwyn Ddirwest,
 Ar gynydd byddo Dirwest.
 A llwyddo beunydd yn ein gwlad,
 Trwy gariad, wnelo Dirwest!

Ni a'th glodforwn, Arglwydd
 mawr,
 Fod Dirwest yn ein gwlad yn awr
 Yn dwyn yr afradloniaid pell
 I deithio tua'r "Wlad sydd well."

1838.

Try ein caniadau cyn bo hir,
 Trwy'r tir, am Waed y Groes:
 Daw tyrfa fawr i Wlad yr
 Hedd,
 Trwy rinwedd Angau'r Groes.

CREFYDDOL.

"BRYZIA, DIANC YNO."

GWEL gymylau du Digofaint
 Uwch y llwybr gerddi di;
 Clyw ofnadwy dwrf y daran,
 'Uwch dy ben yn rhuo sy;
 Clyw Gyfiawnder yn dy fygwth
 Yn ei holl awdurdod llawn;
 Dianc, dianc am dy einioes!
 Ffo at IESU'r dwyfol Iawn!

1838.

Gochel ddyrnod y JEHOFAH,
 Ffo i'r Noddfa,—ffo yn awr!
 Bryzia, dianc i Galfaria,
 Wele'r Iawn anfeidrol fawr!
 Wele'th FEICHIAU yno'n trengu,
 I'th waredu ar y groes!
 Wele'th Noddfa!—dianc iddi!
 Llecha yn ei farwol loes!

YR IESU.

ER maint yw chwerw boen y byd,
 Mi ro'f fy mryd ar IESU;
 Ac er pob cystudd trwm a loes,
 Mi dreulia'm hoes i'w garu.

Ni welais gyfaill dan y s r
 Mor dyner ag yw'r IESU;
 'Rwy'n penderfynu treulio'm hoes
 I ddwyn ei groes dan ganu.

Ni theimlais ddim gofidiau dwys,
 Wrth roi fy mhwy ar IESU;

1841.

Am hyn dymuna'm henaidd fod
 Yn barod i'w was'naethu.

Yn mhob rhyw gyfyngderau blin,
 Caf laeth a gwin gan IESU;
 Mae'n enill serch fy enaid gwan
 O bob rhyw fan i'w garu.

Yn nyfnder chwerw boen a chur
 Gwiw gysur gaf gan IESU;
 O'r llwch cyfoda'm hynaf Frawd
 Fy enaid tlawd i fyny.

GENEDIGOL A MARWNADOL.

AR ENEDIGAETH BABAN Y PARCH. W. EDWARDS, ABERDAR,
HYDREF 25ain, 1850.

Byw obaith am y baban—O lluniwch,
A lloniant fo'i gyfran;
Yn yr oes rydd Iôn i'w ran
Y cafo wynfyd cyfan.

Fel ei dad, i'w wlad o lês—y byddo,
Yn baeddu pob afles;
Diwael rym, a duwiol wres,
Fo ei hynod brif hanes.

Yn ail ei daid,* heb baid y bo—yn olau
Efengylwr effro;
Eu dau enaid gyduno
Yn un dawn ei enaid o.

I ANEURIN THOMAS DAVIES, BABAN DEWI WYN O ESSYLLT.

AWEN orwech Aneurin,—acenion
Y cynfardd Taliesin,
Mawrddysg a deall Myrddin,
A lifo'n fêl o'i lyfn fin.
Aneurin fwynfin fo'n fardd
O ardderchog, enwog urdd;
Ei nerthol, ragorol gerdd,
A'i sain fwyn, a swyno fyrdd.

RHAN O FARWNAD MISS ALICE DAVIES, RHIWLAS, SIR DRE-
FALDWIN, YR HON A FU FARW MAWRTH 28ain, 1838.

Melus meddwl am yr enyd na bydd raid ymadael mwy,
Melus meddwl cawn gydganu am rinweddau marwol glwy';
Melus meddwl byth na dderfydd pur lawenydd Salem gaer,
Melus meddwl na bydd diwedd byth ar dôn y delyn aur.

Melus meddwl am y boreu cawn o'n rhwymau dd'od yn rhydd,
Melus meddwl am y "goron" sydd i etifeddion ffydd;
Melus meddwl am y "palmwydd" gaiff y gwaredigol rai,
Melus meddwl na bydd yno neb yn cwyno am un bai.

Melus meddwl am y "gynau gwynion," prydferth yno fydd,
Melus meddwl na bydd yno ddim ond un tragwyddol ddydd;
Melus meddwl na cheir mwyach byth gystuddiau, poen, na gwae,
Melus meddwl y cawn yno weled IESU "fel y mae."

* Y diweddar Barch. John Jones, Talgarth.

AR FARWOLAETH CATHERINE, GWRAIG EI FRAWD, MR. JOHN
EVANS, CAERNARFON, YR HON A FU FARW EBRILL 9FED, 1851.

DIAU, frawd, dy friwedig—deimladau
Aml ydynt ac unig;
Am briod, is dyrnod dig,
Garadwy, sy'n llygredig.

O fy Nuw! i fy neiaint—iâs a geir,
Ysgarwyd eu rhiaint;
A chwerw fydd i'w chwaer faint
A chroesau yr echrys-haint.

Y Duw mawr a dymhero—i Ioan
Ddwyreinwynt a'i gyffro;
Taweled, neu dyned o
Ei ddirnych oddiarno.



LINES ON THE DEATH OF THE REV. S. JONES,
MAENTWROG.

'Tis done! 'tis done! the painful struggle is o'er,
The young, the kind, the amiable, is no more!
Just like the day star, herald fair of light,
He rose, he shone, and set in clouds of night:
The light we lost, it vanished in the gloom,
Which ever casts its shades around the tomb;
Our tears flow, sad grief our hearts has rent,
We mourn the good, the pious we lament.

We mourn the *young*, whose race was early run,
Whose course is finished ere it scarce begun,—
Who, as the sword he just began to wield,
Fair won the day, and left the martial field,—
Who, when his paths with flowers were adorned,
Despised the fame, and all the honours scorned,—
Who bade adieu to every mortal scene,
And sank in death with calm and heavenly mien.

We mourn the *Christian*, who has fallen asleep,
And o'er his grave, with heartfelt anguish, weep.
He was a flower in the desert wild,
That shed on all his fragrance sweet and mild,
But now has withered in the silent tomb—
Whose form has faded in the shades of gloom;
But yet he lives and blooms, no more to die,
He lives in Heaven, he blooms beyond the sky.

We mourn the *Watchman*, who, on Zion's walls,
 With deep affection, warned the heedless souls,—
 Who lived and preached, to save the rebel world,
 To quench the darts by Satan daily hurled,
 To rouse the slumbering, to awake the dead,
 To lead the church to Christ, its living Head;
 But now his voice is hushed, his life is spent,
 And o'er his early grave we all lament.


Rejoice, O Death! thy victim thou hast found;
 Break forth, O Grave, in loud, triumphant sound!
 Yes, mock our grief, our bitterest tears quaff,
 And at our sorrow raise the scornful laugh:
 Rejoice! the mournful conquest thou hast had,
 And in triumphal costume now be clad:
 Yet, mark the day when Jones shall burst to light,
 And rise in glory from the realms of night,
 When Death must die, and when the Grave its slain
 Must yield to life: 'tis then your gloomy reign
 Will cease to be.—Hail to the glorious morn,
 When life immortal shall his brows adorn!

November, 1843.

Cynwysiad y Gweithiau Barddonol.

	TUDAL.		TUDAL.
Pryddest ddiodl er cof am Dr. W.		Marwnad y Parch. W. Williams,	
Owain Pughe (Idrison)	3	Wern	17
Cof am y Doethawr Pughe	4	Ymchwil y galarus; galargân am	
Englynion ar yr un testun	5	y Parch. J. Jones, Marton.....	20
Anerch i Aneurin Owain Pughe,		Pryddest fuddugol ar Farwolaeth	
Ysw.	5	Mr. J. W. Thomas (Arfonwyson)	23
Ar Farwolaeth William iv.	6	Cyfeillgarwch	27
Ar Gadeiriad R. Richards, Ysw.,		Y Gofid cudd	29
Caerynwch, yn A. S. dros Sir		Tranc y flwyddyn 1842	30
Feirionydd	7	Marwnad y Parch. Richard Jones,	
Gweddi yr Aelod Ieuanc	8	Rhuthyn	32
Galargerdd ar Farwolaeth y Parch.		Molawd Tywysog Cymru	36
J. Roberts, Llanbryn-mair	9	Syniadau wrth edrych ar fedd Mr.	
"Gorpheowyd," yn ddwy ran....	11, 12	G. L. Davies, Aberhonddu	37
Adgof o'r Brithdir	14	Marwnad y Parch. Samuel Jones,	
Hen arferion Cymru	14	Maentwrog	39
Y Cristion yn gadael y byd	15	Englynion i'r Tywysog Dwarkan-	
Emyn Genhadol	15	auth Tagore (Cydfuddugol) ...	44
Diflaniad boreu oes	16	Ar Farwolaeth Mr. Lewis Lewis,	
Yr Eneth amddifad	17	Tredegar	45

	TUDAL.		TUDAL.
At ei Fam, ar ei dydd genedigol	46	Adferiad Jerusalem	143
CATHLAU BLINDER:—		Pa le y mae?	144
I. Y Claf.....	47	Coffadwriaeth y Gymraes Ieuanc...	146
II. Ymgomiad ag Angau	48	Coffadwriaeth y Tadau Ymneillduol	146
III. Marwolaeth Baban.....	49	Marwolaeth fy Nai	147
IV. Beth yw Siomiant?	50	Bythod Cymru (Penillion budd-	
V. In Memoriam C. J.....	51	ugol)	148
Beddrod y Meddwyn	54	Ar Farwolaeth dau fab y Parch. D.	
Hanes yr Ysbiwyr, gan Ysbryd		Rees, Llanelli, trwy foddi	149
Twm o'r Nant	55	Ing a Buddugoliaeth Crist	150
Cân Newydd, gan yr un	58	Beddargraff Dafydd Ionawr	150
Englynion i'r Milwriad K. Tynte,		Awdl ar "Heddwch"	151
A S. (Cydfuddugol)	58	Pryddest ar "Ddoethineb Duw"	180
Fy Man: ar ei Marwolaeth, a'i		Pryddest ar "Olygfa Moses o ben	
Beddargraff	59	Pisgah" (Buddugol).....	203
"Ewch, a chloddwch fedd i mi."	59	Anerch i Tydfylyn a Bronwen	231
Ar Farwolaeth Mrs. Evans, Tre-		Cân y Glöwr.....	231
degar	61		
Englynion i Wenynen Gwent	61	AMRYWION DIRWESTOL.	
Yr Agerdd (Englynion buddugol)	62	Englynion i Gylchwyl Ddirwestol	
Yr Argraffwasg (Englyn buddugol)	62	gyntaf Dolgellau, Mawrth 27, 1837	232
D—l yr Argraffwasg	63	Penillion i Gylchwyl Ddirwestol	
Y Gwefrebydd (Englynion budd-		Dolgellau, Tachwedd 7, 1837....	233
ugol)	63	Baner Dirwest	233
Englynion i Syr B. Hall a'i Ar-		Buddugoliaethau Dirwest	234
glwyddes	65	Byddin Dirwest	235
Awdl Marwnad y Parch. J. Ph.		Gwahoddiad at Ddirwest.....	235
Davies, Tredegar	65		
Beddargraff y Parch. John Elias	74	CREFYDDOL.	
Marwnad Alun	75	Brysia, dianc yno	236
Yr Adgyfodiad	79	Yr Iesu	236
Marwnad Mrs. Hemans	118		
I'w Briod, Mrs. Rachel Jones	123	GENEDIGOL A MARWNADOL.	
Priodasgerdd y Parch. John Davies,		Ar Enedigaeth baban y Parch. W.	
Caerdydd	124	Edwards, Aberdar	237
Awdl Arwest er cof am Mrs. Wad-		I Aneurin Thomas Davies, baban	
dington, Llanofor	124	Dewi Wyn o Essyllt	237
Breniniaeth Crist (Penillion		Rhan o Farwnad Miss Alice Davies,	
buddugol).....	128	Rhiwlas, Sir Drefaldwyn	237
Englyn i'r Trydan (Buddugol)....	128	Ar Farwolaeth Catherine, gwraig	
Adgyfodiad Crist (Awdl-Bryddest		ei frawd, John Evans	238
fuddugol)	129	Lines on the Death of the Rev. S.	
		Jones, Maentwrog	238



LLYFRAU CYHOEDDEDIG.

GAN

R. O. REES, DOLGELLAU.

CYSONDEB Y PEDAIR EFENGYL, gan y diweddar Barch. DR. ROBINSON, New York; yn nghyd â THRAETHAWD AR WEINIOL AR WRTHDRYCH, HANES, A HANESWYR Y PEDAIR EFENGYL, gan y Parch. DR. EDWARDS, Bala; NODIADAU A THABLAU EGLURHAOL, gan y CYHOEDDWR; a Mapiau o Palestina, a Jerusalem a'r Deml. Ail argraffiad, yn cynnwys Map newydd dyddorol o Jerusalem a'r Deml, Tablau newyddion, ac 28 o dudalenau ychwanegol o Nodiadau Eglurhaol, wedi eu cyfleu mewn trefn hollol newydd a syml. Pris;—mewn llian, 4s.;—mewn hedr, 5s.; mewn morocco goreuredig 6s.,—gyda chlasp, 6s. 6c.

GANIADAU CRANOGWEN, yn cynnwys "Y Fodrigy Briodasol" a "Hiraeth," buddugol yn Eisteddfodau Cenedlaethol Aberystwyth a Chaer; "Pedr yn Nhy Cornellus" a "Dyffryn Cranog," buddugol mewn Eisteddfodau lleol, yn nghyd â thua deugain o Ganiadau eraill. Pris;—mewn amlen brydferth, 1s. 6c.; mewn llian, gilt edges, 2s. 6c.; mewn rhwymiad goreuredig ysblenydd, cymhwys yn anrheg, &c., 3s.

PREGETH AR YR YSGOL SABBATHOL, gan y Parch. EDWARD MORGAN, Dyffryn, a draffodwyd yn Nglwyndeithasfa Machynlleth, Rhagfyr, 1869, ac a gyhoeddir ar anogaeth y Gyndeithasfa. Pris;—Dwy Geiniog;—I Ysgolion Sabbathol, caut ac uchod yn ol 12s. 6c. y eant.

MARWNAD I'R DIWEDDAR BARCH. DAVID JONES, Treborth, gan y Parch. W. THOMAS, (Islwyn). Buddugol yn Nghylchwyf Undeb Llenyddol a Cherddorol Pennachno, Dolyddelen, Bettws y Coed, ac Ysbytty, Nadolig, 1870. Pris Dwy Geiniog.